



Celt 5091.7.80




Harvard College Library


FROM

Family of Robert
Everett






Vertical line on the left side of the page.




1











Robert Everett



Elizabeth Everett



Handwritten signature or name, possibly "H. H."



Elizabeth Everett

R

COFIANT

Y DIWEDDAR BARCH.

ROBERT EVERETT, D. D.

A'I BRIOD.

STEUBEN, SWYDD ONEIDA, N. Y.

YN NGHYD A DETHOLION O'I

WEITHIAU LLENYDDOL.

CYHOEDDEDIG GAN EI DEULU.

~~~~~  
DAN OLYGIAETH

Y PARCH. D. DAVIES (*DEWI EMLYN*),

PARISVILLE, OHIO.  
~~~~~

UTICA, N. Y.

ARGRAFFWYD GAN T. J. GRIFFITHS.

1879.

Celt 5091.7.80

State College Library
1980.7.80
From the Library of
State College

I GEFNOGWYR RHYDDID CYFARTAL I BAWB,

DU A GWYN;

I GEFNOGWYR DIRWEST,

AC

I GEFNOGWYR OREFYDD EIN BENDIGEDIG IESU,

A'I SEFYDLIADAU HAELFRYDIG, A'I DIWYGIADAU GOGONEDDUS,

Y CYFLWYNIR Y GYFROL HON,

GYDA PHARCH DIFFUANT.

Y RHAGLITH.

Bywgraffyddiaeth sydd gangen werthfawr ac addysgiadol o lenyddiaeth; ond yr ydym ni fel Cymry wedi ei hesgeuluso i raddau gormodol; ac y mae yn bryd i ni ddiwygio. Y mae dynion sydd wedi bod yn gymwynaswyr i'r cyhoedd, ac yn fendith i'r byd, yn deilwng o goffadwriaeth barchus.

Cydnabyddid yr hybarch Dr. Everett fel prif ddyn yr Annibynwyr Cymreig yn America. Edrychid i fyny ato fel tad a phrif arweinydd yr enwad. Wedi iddo huno yn yr Iesu, coleddid dysgwyliaid cyffredinol am ymddangosiad buan ei Gofiant; ond, yn anfodus, ni chafodd y dysgwyliaid hwnw ei gyflawni hyd yn awr.

Ar anogaeth teulu y Doctor yr ymgymerais â'r gwaith o olygu ei Gofiant; ond yr wyf wedi cael fy hun dan lawer o anfantais i wneyd cyfiawnder â'r gwaith; a drwg yw genyf na fuasai y gorchwyl wedi disgyn i ran rhywun yn meddu mwy o adnabyddiaeth bersonol o hono, yr hwn a allasai ddarlunio ei deithi a'i nodweddau, heb achos ymddibynu cymaint ar ddesgrifiadau rhai eraill. Yr wyf yn ymwybodol fod diffygion yn perthyn i'r Cofiant; ond diffyg gallu a phrinder defnyddiau yw yr achos o honynt, ac nid pall mewn ewyllys, na diffyg edmygedd o'r gwrth-ddrych parchus. Nis galleid cael ychwaneg o hanes ei fywyd boreuol yn Nghymru, am fod ei gymdeithion yr amser hwnw wedi myned i ffordd yr holl ddaear. Diamheu fod llosgiad ei dŷ, yn y wlad hon, wedi dinystrio llawer o gofnodion allasai fod yn gymorth neillduol at gyfansoddi hanes ei fywyd boreuol. Nid oedd galwad am fanylu ar hanes holl flynyddau ei fywyd yn America, gan ei fod yn byw yn lled debyg un flwyddyn ar ol y

llall, ond fel yr oedd yn parhaus gynyddu mewn ysbryd-olrwydd a nefoleidd-dra meddwl.

Teimlaf yn ddiolchgar i'r rhai sydd wedi anfon defnyddiau at y Cofiant, a thrwy eu cydweithrediad serchog, hyderaf yr ystyrir cynwysiad y llyfr yn ddyddorol a buddiol, er fod diffygion ynddo. Gobeithiaf na theimla neb o'r cyfeillion hyny yn galed ataf, am dalfyru rhyw bethau yn eu hysgrifau, a gadael rhyw bethau allan. Yr oedd yn angenrheidiol gwneuthur hyny er mwyn gochelyd gormod o ail-adroddiadau, gan fod amryw wedi cyffwrdd â'r un materion.

Yr oedd Dr. Everett yn arfer ysgrifenu ei feddyliau mewn llaw fer Gymreig, a llaw fer Seisonig, nad oes nemawr yn awr yn medru ei darllen: ond y mae un o'i ferched wedi llwyddo i'w deongli; a cheir yn y Cofiant rai pregethau byrion a lloffion wedi eu codi o'i law fer. Cofied y darlennydd nad oedd wedi ysgrifenu y rhai hyny yn gyflawn, nac wedi eu bwriadu i'r wasg, ac felly eu bod i raddau yn amherffaith. Cyflwynir hwy i'r cyhoedd fel engreiffitiau o'r dull y byddai yn bras-linellu ei bregethau, gan adael darnau i'w llanw yn ddifyfyr wrth eu traddodi, yn enwedig ar y diwedd.

Drwg genyf fod amryw ysgrifau rhagorol o'i waith, y rhai y bwriedid eu cyhoeddi, wedi cael eu gadael allan, rhag chwyddo y llyfr yn ormodol, a rheidio codiad yn ei bris. Yr wyf wedi amcanu gwneyd y detholiad o'i gyfansoddiadau yn ddangosiad teg o'i arddull a'i athrylith, trwy gyfleu amrywiaeth o erthyglau ynddo, rhai yn dduwinyddol ac athrawiaethol, rhai yn wrthgaethiwol, a rhai yn ymarferol.

Nid wyf yn meddwl fod eisiau gwneyd esgusawd dros gyhoeddi Adran Seisonig yn y Cofiant, gan y gwna hyny gynyddu ei werth a'i ddefnyddioldeb mewn lluaws o deuluoedd; yn neillduol i'r ieuenctyd.

Dymuna teulu yr hybarch Everett arnaf, i ddefnyddio y cyfleusdra hwn i gyflwyno eu diolchgarwch gwresocaf i bawb a gyfranasant at gyfodi y gofgolofn hardd sy'n nodi gorphwysle olaf eu hanwyl dad, yn mynwent y Capel Uchaf, Steuben.

Y mae'r teulu wedi ychwanegu llawer at werth y gyfrol trwy roddi ynddi ddau ddarlun (*steel engravings*) hardd o'r Doctor a Mrs. Everett. Cyflawnodd yr arlunydd ei waith yn gampus. Anfynych iawn y gwelir ardebau mor berffaith.

Gallaf hysbysu y darlennydd fod olrhain bywyd duwiol, ac edrych dros ysgrifau pur ac efengylaidd y tad Everett, wedi bod yn lles a bendith i fy meddwl i, a'm bod yn gobeithio y bydd olrhain a darllen yr un pethau, yn lles a bendith i'w feddwl yntau.

Yr wyf yn gostyngedig gyflwyno y gyfrol hon i'm cydgenedl, gyda gweddi ar i Dduw y cariad ei bendithio i fod yn lles tragywyddol i lawer.

D. DAVIES (DEWI EMLYN).

Parisville, O., Tach. 13, 1879.

CYWEIRIAD GWALLAU.

Tu d. 13, llinell 10, yn lle diniweidrwydd, darlener diwydrwydd.			
" 42,	" 27,	" Haul,	" Haul.
" 52,	" 16,	" rwyfodd,	" rywfodd.
" 97,	" 19,	" Emmonds.	" Emmons.
" 148,	" 6,	" cymerind,	" cymeriad.
" 166,	" 29,	" ddaear,	" daear.
" 235,	" 4,	" ddeddf,	" deddf,
" 242,	" 28,	" y deddf,	" y ddeddf.
" 271,	" 17,	" dau,	" ddau.
" 281,	" 15,	" yn ddysgwyl,	" i ddysgwyl.
" 300,	" 24,	" deilliaw,	" deilia.
" 317,	" 27,	" anllad,	" anlladrwydd.
" 318,	" 5,	" odddiwrth,	" oddiwrth.
" 337,	" 13,	" eu,	" ein.

Y CYNWYSIAD.

Y RHAN GYNTAF.

TU DAL.

Y Cyflwyniad,	3
Y Rhaglith,	4

PENNOD I.

Bywyd Boreuol Dr. Everett hyd ei Ddyfodiad o'r Athrofa, . .	9
---	---

PENNOD II.

Gweinidogaeth Dr. Everett yn Ninbych,	13
---	----

PENNOD III.

Bywyd Gweinidogaethol a Llafurwaith Dr. Everett yn yr Unol Dalaethau,	21
--	----

PENNOD IV.

Lloffyn o Ddyfyniadau am Dr. Everett,	49
---	----

PENNOD V.

Dr. Everett fel Golygydd a Llenor,	94
--	----

PENNOD VI.

Dr. Everett fel Diwygiwr,	105
-------------------------------------	-----

YR AIL RAN.

Cofiant Mrs. Elizabeth Everett,	144
Barddoniaeth Alarnadol,	156

ENGLISH DEPARTMENT.

Extracts, &c.,	169
Family Reminiscences,	172
POETRY,	200

SERMONS.

	TU DAL.
The Fullness of Christ,	203
The Best Friend,	210
The Gospel Net,	216
Notes of a Sermon,	223
GLEANINGS,	225

TRAETHODAU A PHREGETHAU

Sylwadau ar Brynedigaeth,	232
Y Ddeddf Foesol,	240
Cyflwr Pechadur a'i Achubiaeth trwy Ras,	250
Tristâu yr Ysbryd Glan,	259
"Llestri Digofaint" a "Llestri Trugaredd,"	266
Swyddogaeth Eglwys Crist,	277
Pob Dyn yn Ddiesgus,	282
Dyfyniadau o Bregeth,	293
At Weinidogion yr Efengyl,	301
Gorseddfainc Anwiredd,	306
Dyfyniadau o Bregeth,	320
Rhwymedigaeth Dyn i Dduw,	329
Y Goruchwyliaethau yn Dywyll, eto yn Uniawn,	335
Sylwadau ar Natur Eglwys,	341
GEMAU EVERETT,	347
At Gofiant y Parch. R. Everett, D. D.,	357

COFIANT

Y PARCH. ROBERT EVERETT, D. D.

PENNOD I.

Bywyd Boreuol Dr. Everett hyd ei Ddyfodiad o'r Athrofa.

Ganwyd ef Ionawr 2, 1791, mewn lle o'r enw Gronant, yn mhlwyf Llanasa, yn Sir Fflint. Y mae rhai lleoedd yn y byd wedi myned yn enwog o herwydd eu cysylltiad â phersonau nodedig. Bydd Bethlehem yn enwog tra pery y byd, fel lle genedigol Dafydd, a Iesu y Messia, mab Dafydd; a bydd Tarsus yn enwog fel lle genedigol Paul. Bydd Cwmhyswn yn enwog fel lle genedigol Williams, o'r Wern, tra byddo *swm* yn adseinio trwy y *cwm* hwnw; a bydd y Gronant yn enwog fel lle genedigol Doctor Everett, tra byddo y *nant* hono yn murmur ar ei gwely *gro*.

Enw Ysgotaidd yw Everett. Ysgotyn oedd hen daid, a Seisones oedd hen nain y Doctor. Cafodd y gwaed cymysg yna ei gymysgu yn mhellach gyda gwaed Cymreig. Hona athronwyr fod cymysgiad achau yn gwellhau epil; ac y mae hanes y teulu hwn yn ymddangos yn gefnogol iawn i'r cyfryw olygiad. Enwau ei rieni oeddynt Lewis a Jane Everett. Yr oeddynt yn bobl grefyddol, ac yn aelodau o eglwys

Annibynol Newmarket. Bu ei dad yn oruchwyliwr mewn gwaith mwn plwm ger y Gronant, am lawer o flynyddau. Yr oedd ganddo deulu mawr o blant, dim llai nag un-ar-ddeg o honynt. Yr oedd yn ddynd deallus a gwybodus. Heblaw bod yn oruchwyliwr yn y mwn-glawdd, yr oedd ei dad hefyd yn bregethwr cynorthwyol gyda'r Annibynwyr. Fel pregethwr, hysbysir ni yn Hanes Eglwysi Annibynol Cymru gan y Doctoriaid Rees a Thomas, ei fod yn barchus a defnyddiol. Gwnaeth ymdrechion canmoladwy i roi ysgol dda i'w blant. Yn y teulu crefyddol parchus yna y dygwyd Robert Everett i fyny. Ychydig o adgofion sydd ar gael am ei ddyddiau boreuol; y mae treigliad pedwar ugain o flynyddau wedi eu hysgubo i lwch anghof. Diameu fod hyny yn golled, oblegid y mae ambell dro plentynaidd yn nodweddiadol o yrfa ddyfodol dyn, ac yn esboniad neillduol ar ddadblygiad ei fywyd. Crybwyllir am un tro felly mewn cysylltiad â Robert ieuanc. Unwaith rhoddodd bachgenyn arall *farbles* iddo; yn fuan gwelai ei dad ef yn eu tafu ymaith, a gofynodd iddo, pa'm yr oedd yn gwneyd hyny? Atebodd yntau, "Pe buaswn yn eu cadw i chwareu, ni buaswn ddim gwell na bechgyn eraill." Ymddengys fod ysbyrd ymddidoli oddiwrth y byd, ac awydd rhagori ar ffordd gyffredin rhai eraill, wedi ei feddianu yn foreu. Un tawel, dystaw a phur ddichwareu ydoedd pan yn blentyn. Yr oedd yn do ryw bethau yr amser hwnw fel yn arwyddo ei fod i arwain bywyd gwahanol i'r cyffredin.

Robert oedd y trydydd plentyn i'w rieni. Cyrhaeddodd eraill i sefyllfaoedd parchus a rhyw gymaint o enwogrwydd. Yr henaf oedd Ann Hughes; bu hi

fyw am dymor yn hen gartref y teulu yn Gronant: Yr ail, Sarah, yr hon a fu farw yn Steuben; Thomas, yr hwn a fu yn ysgolfeistr a lliwiedydd, a fu farw yn Remsen, N. Y.; Lewis, yr hwn a fu am flynyddau yn weinidog parchus a llafurus mewn amryw eglwysi, megys Llangwyfan, Llanrwst, Trefriw, Nant-y-rhiw a Dyserth, ac a fu farw Ebrill 21, 1863, yn 65 oed; Elizabeth Hughes, New York Mills, ger Utica, N. Y.; Jane Davies, Newmarket, Sir Fflint. Bu farw rhai o honynt yn ieuainc.

Ymddengys i Robert Everett ymuno â chrefydd yn eglwys Annibynol Newmarket, yn 1808, pan tua 17 oed. Y gweinidog yno yn yr amser hwnw oedd y Parch. T. Jones, genedigol o Ben-y-bont, plwyf Llanedi, Sir Gaerfyrddin; yr hwn a fu yn gweinidogaethu yno am un-flynedd-ar-ddeg-a-deugain. Dywedai y Parch. D. Morgan, Llanfyllin, am dano yn Hanes Ymneillduaeth: "Yr oedd yn weinidog syml, doeth, a synwylawn—yn efengylaidd ei egwyddorion, a difrycheulyd ei ymddygiadau, yr hyn bethau a enillodd iddo barch mawr, dylanwad cryf, a chymradwyaeth gwresog, gyda ei gyfeillion a'i gydnabyddion. Astudiai ei bregethau yn dda, a byddentyn llawn o efengyl." Dan fugeiliaeth y gwr diwyd a ffyddlawn yna y cychwynodd Robert Everett ei yrfa grefyddol. Canfyddwyd yn fuan fod ynddo alluoedd a chymwysderau at waith y weinidogaeth, ac anogwyd ef i bregethu; a dechreuodd ar y gwaith tua'r Nadolig, 1809. Y testyn cyntaf y pregethodd arno oedd Heb. 2: 11, "Canys yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir, o'r un y maent oll. Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr." Traddodwyd hono mewn

owrdd eglwys. Ei bregeth gyhoeddus gyntaf ydoedd oddiwrth y geiriau yn Psalm 130: 3, 4, "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif? Ond y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner." Ceir ei bregeth ar y testyn hwn yn *Nghenhadwr*, Ebrill, 1859. Dengys ei destynau cyntaf mor hoff ydoedd o wirioneddau mewnol a bywyd-roddol y trefniant efengylaidd. Diameu iddo daro *key-note* ei weinidogaeth faith yn berffaith yn ei bregethau cyntaf.

I'w gymhwysu i'r gwaith pwysig oedd mewn golwg ganddo cafodd fyned i'r Ysgol Ramadegol yn Dinbych, ac ar ol bod yno ryw gymaint o amser, cafodd ei dderbyn i'r Athrofa Annibynol yn Ngwreccsam, yn Ionawr, 1811. Nid ydym yn gwybod yn sicr a oedd Dr. Jenkyn Lewis wedi rhoddi i fyny ofal yr athrofa pan aeth ef yno, ond tybiwn nad oedd; beth bynag am hyny, gwyddom mai dan ofal Dr. George Lewis y treuliodd ef y rhan fwyaf o'i amser yno. Yr oedd hwnw yn aelod gwreiddiol o Trelech, Sir Gaerfyrddin, ac wedi bod flynyddau mewn ysgolion dan ofal offeiriad Trelech, offeiriad Llanddowror, Parch. Owen Davies, Trelech, Parch. J. Griffith, Glandwr, Parch. D. Davies, Castell-Hywel, a bod dair blynedd yn athrofa Caerfyrddin. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, yn ddyn o feddwl grymus, ac yn awdwr enwog. Dywedir am dano fel athraw: "Yr oedd ei gymwysder a'i lwyddiant fel athraw mor uchel yn ngolwg noddwyr yr athrofa, fel yr oeddynt yn barod i wneyd unpeth er mwyn iddo aros mewn cysylltiad â hi. A chymaint oedd ei ddylanwad ar y myfyrwyr, fel yr oeddent yn tybio nad oedd gwr cyffelyb iddo ar wyneb y ddaear." Gwel y Geirlyfr Bywgraffyddol, tu dal. 670. Cafodd

Dr. Everett y fantais o fod dan addysg y dyn galluog yna am amryw flynyddau.

Nid ydym yn sier pa bryd y daeth allan o'r athrofa, ond ymddengys yn debyg mai yn 1815 y cymerodd hyny le. Yr oedd yn ystyriol o'r mawr bwys iddo iawn ddefnyddio ei amser tra o dan addysg, a bu yn egniol iawn i wneyd hyny. Gwnaeth gynydd rhagorol fel efrydydd. Yr oedd amryw bethau yn ffafriol iddo, megys y ffaith iddo fyned i'r ysgol yn ieuanc, ei alluoedd gloewon, ei ddiniweidrwydd, a'i ymroddiad mawr. Cyrhaeddodd wybodaeth helaeth o'r Lladin, y Groeg, a'r Hebraeg.

Diameu i ddylanwad dau ddyn mor rhagorol a Jones, Newmarket, a Dr. Lewis, wneuthur argraff ddofn ac arosol ar ei feddwl teimladol, a bod yn gymorth mawr iddo i ffurfio nodwedd feddyliol bur, efengylaidd a phenderfynol, fel y daeth allan o'r athrofa yn llawn o yni a gloewder, gwres a nerth, i ymosod ar waith cynauaf yr efengyl.

PENNOD II.

Gweinidogaeth Dr. Everett yn Ninbych.

Amser o bryder i efrydydd ieuanc yw yr amser pan fyddo tymor ei efrydiaeth yn tynu at y terfyn, ac yntau yn dechreu meddwl am ddyfodol ei fywyd, ac yn ymchwilio am faes i lafurio arno. Os na fydd meusydd yn ymagor o'i flaen, teimla yn wangalon; ond os bydd amryw feusydd yn ei wahodd atynt, teimla yn bryderus gyda golwg ar ddewis y mwyaf priodol o honynt. Pan oedd Everett oddentu gorphen ei efrydiaeth yn

Ngwreccsam, cafodd gynyg i fyned yn gyd-athraw â Dr. George Lewis, yr hyn a brawf ei fod yn ysgolhaig gwell na'r cyffredin. Nis gwyddom beth oedd ei resymau dros wrthod y cynyg hwnw, ond dichon fod ei wyleidd-dra a'i dyb isel am dano ei hun wedi bod yn help i hyny; neu fe allai fod ei awydd i bregethu yr efengyl mor gryf fel na fynai droi oddiwrth hyny at ddim arall. Hefyd cynygiodd rhyw wr boneddig ddwyn ei draul yn un o brif athrofeydd Scotland, a dywedir iddo edifarhau yn ol llaw na fuasai wedi derbyn y cynyg hwnw. Ond pe gwnaethai hyny, ni fuasai yn debyg o fod yn dad ac yn arweinydd i'w enwad yn America, yr hwn gylch yr oedd Rhagluniaeth yn ddiameu wedi ei fwriadu iddo, a'i addurno a'i gyfaddasu â chymwysderau neillduol ar ei gyfeir. Tua'r un amser cafodd alwad o eglwys Dinbych. Yr oedd hono yn hen eglwys wedi ei sefydlu rywbryd cyn 1675. Yr oedd y dref a'i hamgylchoedd yn lle hynod o swynol a phrydfarth. Yr oedd yntau yn gyfarwydd a'r bobl, a hwythau yn gyfarwydd ag yntau, oddiar pan fu yno yn yr Ysgol Ramadegol. Felly yr oedd yn naturiol fod gan alwad eglwys Dinbych atdnyiad neillduol i'w feddwl. Derbyniodd yr alwad, ac urddwyd ef yno yn mis Mehefin, 1815. Ymddengys fod ychydig o gam-ddealltwriaeth o barthed i ddydd-ei urddiad. Yn Hanes Ymneillduaeth gan Morgan, ac yn hanes eglwys Dinbych gan B. Williams, ei diweddar weinidog, ond yn bresenol o Canaan, ger Abertawy, dywedir iddo gymeryd lle Mehefin 1af; ond yn llythyr Mr. Everett ei hun yn mhen haner can' mlynedd ar ol hyny, dywedir iddo gymeryd lle y 4ydd neu y 5ed o'r mis. Nid ydym yn gwybod enwau y rhai fu'n gwein-

yddu yn ei urddiad. Dywedir nad oedd yr eglwys mewn sefyllfa lewyrchus iawn pan aeth ef yno ; ond yr oedd yn barchus ac yn hen. Dywed Caledfryn, brodor o Ddinbych, “ Yr wyf yn cofio yr edrychid ar aelodau yr eglwys yno, tua haner can’ mlynedd yn ol, fel hen lanwyr parchus, hynod lym dros eu trefniadau a’u ffurfiau, ond yn bur sychlyd. Nid oeddynt yn plygu fawr gyda’r oes, pan oedd achos y Methodistiaid yn dân a lluched i gyd. Yr oedd cryn wrthwynebiad yn rhai o honynt i orfoleddu. Gadawodd amryw y lle ac aethant at y Methodistiaid yn amser Mr. Llwyd, mewn canlyniad i hyny. Yr oeddent hwy am gael eu defodau fel gwyr y llan yn barchus (*respectable*) heb roddi nemawr ryddid i’r teimladau dori dros y llestri.”

Sylwa Dr. R. Gwesyn Jones, “ Gallwn feddwl oddiwrth deithi meddwl Mr. Everett, yn gystal a’r hyn a glywais am dano, fod ynddo gymwysder neillduol i fyned i Ddinbych ar y pryd. Yr oedd yn ddigon pwylllog a boneddigaidd i beidio dychrynu y rhai oeddent yn anfoddlon i orfoleddu, tra yr oedd yn ddigon miniog, bywiog a gwresog i’w deffroi o’u cysgadrwydd, a chynhyrfu eu cydwybodau i fwy o weithgarwch a sêl. Mae y Parch. R. Thomas, Bala, yn nghofiant Mr. Jones, Dolgellau, yn dyweyd fod pregethau Everett, fel yr eiddo Williams o’r Wern, yn bachu yn nghalonau y gwrandawyr, nes y byddent yn methu cael ymwardd oddiwrthynt.”

Awst 28, 1816, aeth Mr. Everett i’r sefyllfa briodasol gyda Miss Elizabeth Roberts, ail ferch Mr. Thomas Roberts, o Rosa, yn agos i Ddinbych, yr hon a fu yn ymgeledd dyner a rhagorol iddo am agos i dri ugain o flynyddau, ac a fu byw dair blynedd ar ei ol.

Traetha Dr. Gwesyn Jones am amser gweinidogaeth Mr. Everett yn Nghymru fel hyn: "Yr oedd yn addeg gynhyrfus ar y weinidogaeth yn Ngogledd Cymru pan aeth Everett i Ddinbych. Yr oedd cewri o'i gwmpas y dyddiau hyny. Yr oedd Williams o'r Wern yn nghanol ei nerth yn gymydog agos iddc; John Roberts, Llanbryn-mair; Michael Jones, Llanuwchllyn; Cadwaladr Jones, Dolgellau; Hughes, Dinas Mawddwy; Arthur Jones, Bangor, a Morgans, Machynlleth, o hyd galw. Yr oedd amryw o honynt wedi bod dan addysg y naill neu y llall o'r ddau Lewis, dynion mawr a dysgedig iawn, y rhai a adawsant eu hól ar Gymru hyd heddyw. Yr oeddynt oll dan ddyllanwad Dr. Edward Williams, gweithiau yr hwn oeddynt y pryd hwnw yn bur newydd, ac yn tynu sylw mawr gan feddylwyr Lloegr, Scotland a Chymru."

Yr oedd cymdeithasu â dynion o'r fath alluoedd, athrylith, ac ysbryd cyhoeddus, a chydlafulio â hwynt yn y cyrddau mawrion, yn foddion grymus i symbylu ei feddwl, a chynhyrfu ei egnion i'r man eithaf. Ac fel prawf o effeithioldeb y cyfryw ddylanwad, gellir dywedyd iddo ddyfod allan i sylw y wlad, ar unwaith, fel un o gedyrn y weinidogaeth, a chymeryd ei safle yn rhes flaenaf enwogion y pwlpud cyn ymadael a Chymru.

Tua dechreuad y ganrif hon yr oedd y Wesleyaid wedi dyfod i Ogledd Cymru, ac yn mrwdfrydedd cyntaf eu tarawiad allan ymosodent yn egniol ar Galfiniaeth yr enwadau Ymneillduol oedd yno o'u blaen; ac ymosodai y rhai hyny yn ol gyda llawer o bybyr-wch arnynt hwythau. Gweithiodd y rhyfelgyrch hwn rai dospeirth yn mhellach i dir Uchel-Galfiniaeth nag yr oeddynt o'r blaen. Ond amryw o brif weinidog-

ion yr Annibynwyr, y rhai oeddynt yn gyfarwydd a golygiadau Edward Williams ac Andrew Fuller, a deimlent yn anfoddlon i'w henwad gael ei wthio i'r tir hwnw. Canfyddent fod hyny yn rhoddi mantais ddirfawr i Arminiaeth weithio ei ffordd. Credent fod yr hyn a elwir Calfinaeth Gymedrol, neu a adwaenir yn y wlad hon wrth yr enw Duwinyddiaeth Lloegr Newydd, a Duwinyddiaeth New Haven, yn fwy cyson â'r Ysgrythyrau; a chyhoeddasant eu golygiadau o'r ar-eithfaoedd a thrwy y wasg. Yn 1816 cyhoeddodd J. Roberts, Llanbrynmair, ddau lythyr ar *ddybenion marwolaeth Crist*, ac yn 1819 cyhoeddwyd beirniadaeth arnynt gan Thomas Jones o Ddinbych. Mewn atebiad i hwnw cyhoeddodd J. Roberts sylwadau pellach ar y mater, ac yn niwedd y llyfryn hwnw yr oedd ysgrif ar Iawn Crist gan Williams o'r Wern; ar Nad all Anghrediniaeth dyn ddim gwneyd Trefn Duw yn Ofer, gan Morgans, Machynlleth; ar y Cysylltiad sydd rhwng Iawn Crist a Llywodraeth Jehofa, gan Michael Jones, Llanuwchllyn; ar yr Ewyllys Ddwylfol, gan Griffiths, Tyddewi; ar Alwad yr Efengyl, gan Breese, Liverpool; ar Brynedigaeth, gan Everett, Dinbych; ac Ol-ysgrif gan Jones, Dolgellau. Gelwid y llyfr hwn "Y Llyfr Glas," oblegid fod amlen o bapyr glas am dano, a gwnaeth gynhwrf mawr yn y wlad. Byddai llawer yn curo, ac yn drwgliwio ei awdwyr fel Arminiaid a chyfeiliornwyr, ond gweithiodd ei egwyddorion eu ffordd nes enill cymeradwyaeth y dosparth mwyaf meddylgar yn y Dywysogaeth. Heblaw y rhan a gymerodd Dr. Everett yn mlaen ddadleuaeth dduwinyddol ar y pynciau yna, cymerodd ran hefyd yn nygiad allan y *Dysgedydd* fel cyhoeddiad misol i'r arwad. Teim-

lodd amryw o weinidogion fod arnynt angen cyfrwng i amddiffyn eu hunain rhag cam-ddarluniadau ymosodwyr, ac i oleuo meddyliau y cyhoedd ar brif athrawiaethau yr efengyl.

Mewn cyfarfod yn Ninbych, Tach. 1, 1821, ymrwymodd deuddeg o houynt i ddwyn y *Dysgedydd* allan. Saif eu henwau wrth y cytundeb yn y drefn ganlynol: D. Jones, Treffynon; D. Morgans, Machynlleth; Robert Everett, Dinbych; Cad. Jones, Dolgellau; W. Williams, Wern; John Evans, Beaumaris; Benjamin Evans, Bagillt; D. Roberts, Bangor; Robert Roberts, Treban; Edward Davies, Rhoslan; John Roberts, Llanbrynmair, a William Hughes, Dinas.

Yn ystod ei arosiad yn Nghymru cyhoeddodd Dr. Everett gynllun o law fêr Gymreig. Dywed y Parch. S. Roberts am dano, "Yn ol ei anogaeth dysgais y cynllun hwnw, a bu ei gymelliad i mi ei dysgu a'i harfer, yn gymorth mawr i mi drwy fy holl oes—dichon o fwy o les i mi na'r holl *mathematics* ag y bum yn ymboeni gyda hwy." Cyhoeddodd hefyd yr Addysgydd, neu y Catecism Cyntaf. Y mae lluwys o argraffiadau o hwnw wedi eu dwyn allan ar ol hyny yn Nghymru ac America, ac y mae yn parhau yn dderbyniol iawn o hyd.

Adrodda S. Roberts yr hanesyn nodweddiadol a ganlyn am Dr. Everett pan oedd yn Nghymru: "Yr oedd Dr. Everett yn un a fedrai ymfeddianu gyda thawelwch mewn adegau o gynhwrf ac o berygl. Pan oedd unwaith yn croesi afon Caer wrth ddychwelyd o Gymanfa yn Liverpool, gyda mintai o'i gyd-weinidogion, yr oedd y gwynt yn ysgwyd eu cwch yn arswydus, a'r tonau yn ymluchio drosto yn ddiordhwys, nes

oedd y rhwyfwyr mewn dychryn y darfyddai am dant. Yr oedd yr hen John Roberts a Williams o'r Wern, a Jones, Treffynon, a'r brodyr eraill oeddynt yno, yn ymwasgu at eu gilydd i gyd-weddio am nawdd ac arbediad, os oedd gan y Meistr mawr ryw waith yn ychwaneg iddynt wneyd drosto. Yr oedd Dr. Everett hefyd yn gweddio, ond yr oedd heblaw hyny yn eistedd yn dawel at ei haner mewn dwfr, yn nghanol gwaelod y cwch, lle yr oedd eisiau ychwaneg o *ballast*, er ei gadw rhag troi ar ei ochr." Dylasai y brodyr ereill yr un modd gofio fod eisiau *ballastio* y cwch yn gystal a gweddio; ond yr oeddynt wedi dychrynu ac ymwylltio gormod i feddwl am hyny.

• Tystiolaeth Mr. Morgans yn Hanes Ymneillduaeth, am gysylltiad Everett ag eglwys Dinbych sydd fel hyn: "Llafuriodd yma oddeutu wyth mlynedd gyda llwyddiant mawr a chymeradwyaeth gwresog yr eglwys. Enillodd Mr. Everett air da a derbyniad parchus yr holl eglwysi a'i hadwaenent yn y Dywysogaeth." Fel y canlyn y dyweda Mr. Williams yn hanes eglwys Dinbych am weinidogaeth Mr. Everett yno: "Nid oes ond un dystiolaeth i'w rhoddi am Mr. Everett fel dyn, Cristion a gweinidog. Yr oedd wedi enill iddo ei hun safle gynnes iawn yn nghalonau ei bobl, a safai yn uchel iawn yn marn y cyhoedd. Meddai alluoedd cryfion, a dawn ymadrodd rhwydd; a phe cawsai aros yn y wlad hon, mae yn sier y buasai yn un o gewri yr areithfa Gymreig. Bendithiodd Duw ei lafur i raddau helaeth iawn, fel yr ychwanegodd y gynulleidfa, ac y cynyddodd rhif yr eglwys yn fawr. Yr oedd iddo air da gan yr holl saint, a cherid ef yn anwyl gan bawb a'i hadwaenai. Symudodd oddiyma i'r America yn 1823."

Yr oedd Dr. Everett yn ystod wyth mlynedd ei ar-osiad yn Ninbych wedi dringo i safle uchel yn ngolwg y wlad fel un o'r pregethwyr mwyaf galluog a phoblog-aid. Byddai ei bregethau yn cario dylanwad rhyfeddol ar y cynulleidfaoedd. Safai yn agos iawn i Williams o'r Wern mewn poblogrwydd pregethwrol, ac mewn dysgeidiaeth yr oedd lawer yn uwch. Bu son mawr am ei bregeth yn Nghymanfa Llanbryn-mair yn 1815, sef blwyddyn ei urddiad, ar y geiriau, "O! frodyr, gweddiwch drosom." Nid oedd yn anadnabyddus yn y Deheudir chwaith. Cof genym i ni glywed Mr. John Morgan, Bron Iwan, hen flaenor yn Hawen, yr hwn oedd yn fath o wyddoniadur gyda golwg ar hanes yr Annibynwyr yn yr haner cyntaf o'r ganrif hon, yn siarad am bregeth odidog a glywodd ganddo mewn Cymanfa rywle yn y Deheudir. Dywedai ei fod yn "*electrifeio* y gwrandawyr yn rhyfedd."

Yn y flwyddyn 1823, cafodd Dr. Everett alwad i ddyfod drosodd i fugeilio eglwys Gynulleidfaol Gymreig Utica, Efrog Newydd. Yr oedd dau o'i frodyr yn-nghyfraith yn byw yno, ac yn ei wahodd yn daer i gydsynio â'r alwad. Bu yr ymgais i'w gael yn llwyddianus, a daeth ef â'i deulu drosodd y flwyddyn hono, er colled i Gymru, ac er enill mawr i America. Ysgrifennai J. Roberts, Llanbryn-mair, dan y dyddiad Mai 31, 1823, at ei frawd, George Roberts, Ebensburgh, Pa.: "Yr wyf yn hyderu y bydd dyfodiad Mr. Everett i America o fawr les. Y mae yn weinidog gwerthfawr iawn, a gobeithio yr helaethir ei ddefnyddioldeb." Dywedai S. Roberts: "Yr wyf yn cofio fod teimpladau o alar drwy eglwysi y Gogledd pan y deallasant am ei fwriad i ymfudo i'r Unol Dal-aethau."

PENNOD III.

Bywyd, Gweinidogaeth a Llafurwaith Dr. Everett yn yr Unol Dalaethau.

Dechreuodd Dr. Everett ar ei lafur gweinidogaethol yn eglwys Gynulleidfaol Utica, Gorph. 21, 1823. Yr oedd ynddo gymwysderau neillduol ar gyfer y maes hwnw, a gweithiodd yn ddiwyd ac egniol arno; arferai bregethu bedair gwaith yr wythnos. Nid oedd yma gynifer o gymanfaoedd a chyfarfodydd mawrion yn mhlith y Cymry y pryd hwnw, ag a oedd yn yr Hen Wlad, i dynu allan ei egnion a symblu ei feddwl; ond yr oedd yma ryw ychydig. Yr oedd y Gymanfa flynyddol wedi ei chychwyn er ys dros bymtheg mlynedd cyn hyny. Yr oedd ef yn cymeryd rhan ynddi yn 1823, am y tro cyntaf. Yr oedd yn alluog i gymdeithasu fel eu cydradd gyda'r Americanaid, a daeth yn fuan i deimlo dyddordeb yn eu mudiadau crefyddol; a byddai ei galon yn cyd-guro â hwynt yn gynnes.

Yr oedd cyfnod gogoneddus o ddiwygiadau crefyddol a gwelliantau moesol yn ymagor yn America tua'r amser y daeth Dr. Everett drosodd. Yr oedd y Gymdeithas Genhadol, y Gymdeithas Feiblaidd, a chymdeithasau daionus ereill wedi cael eu cychwyn er ys ychydig flynyddau, ac wedi cyffroi a bywiocau llawer ar eneidiau Cristionogion. Yr oedd esboniadaeth a beirniadaeth Feiblaidd wedi derbyn bywyd newydd trwy lafur y dysgedig Moses Stuart. Yr oedd llawer o adfywiadau crefyddol wedi cymeryd lle trwy lafur gweinidogion duwiol ac efengylwyr o fath Dr. Nettleton, ac eraill. Yn fuan ar ol ei ddyfodiad drosodd daeth

Finney allan yn efenglydd teithiol, llawn o eneiad sanctaidd a thân apostolaidd, a byddai nerthoedd rhyfeddol yn cydfyned a'i bregethiad. Dr. Lyman Beecher, wrth ganfod y difrod wnelai anghymedroldeb yn y wlad, canfod mygllys a gwirod yn cael eu defnyddio mewn dau gyfarfod urddiad, a chanfod gweinidogion yn yfed mewn cyrddau mawrion nes myned yn llawen, nid yn feddw, ond yn llawen, a lanwyd a braw, cywilydd a digllonedd, ac yn y flwyddyn 1825, efe a bregethodd chwech o bregethau grymus yn erbyn anghymedroldeb, y rhai a argraffwyd ac a gynhyrfasant y wlad, nes arwain, y flwyddyn ganlynol, i ffurfiad y Gymdeithas Ddirwestol. Yr oedd y pethau hyn oll yn dylanwadu yn rymus ar feddwl Dr. Everett, nes ei lenwi â brwdfrydedd diwygiadol, ac â llawer o ysbryd cyhoeddus.

Mewn llythyr i Gymru yn 1826, dywedai, "Y mae yn America wyth o gymdeithasau yn cael eu dwyn yn mlaen yn debyg i'r Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, a'u cynnal gan wahanol enwadau o Gristionogion. Y Feibl Gymdeithas Americanaidd, y Gymdeithas Genhadol Gartrefol, y Gymdeithas Genhadol Dramor, y Gymdeithas Draethodol Americanaidd, y Gymdeithas Addysgol i barotoi dynion ieuainc i'r Weinidogaeth, Undeb Americanaidd yr Ysgolion Sabbothol, y Genhadaeth Iuddewig Americanaidd, a'r Gymdeithas i Addysgu y Negroaid, y rhai a ddygwyd i'n gwlad fel caethion. Y mae'r rhai yna oll yn anrhydedd i'r oes oleu hon." Darlunia waith rhyfeddol o eiddo yr Ysbryd Glan a gymerodd le yn 1826, a dywed fod yn Sir Oneida dros ddwy fil a haner wedi cael tröedigaeth, a hod dros ddau cant wedi eu

hychwanegu at eglwysi Utica, o'r rhai rhwng deugain a haner cant a unasant ag eglwys Dr. Everett. Yr oedd y bobl yn cydweithredu yn ardderchog â'r weinidogaeth yr amser hwnw. Yr oedd pob dydd fel Sabbath. Cynelid dau neu dri o gyrddau gweddi yn ngwahanol ranau y ddinas am naw ac un-ar-ddeg y boreu, a thri y prydawn. Yr hwyr, drachefn, cyrddau crefyddol i weddio neu bregethu a gynelid yn mhob eglwys. Dywedai : "Yr amser mwyaf difrifol a hyfryd a brofaais erioed ydoedd. Weithiau byddai ychydig gyfeillion Cristionogol yn cwrdd yn nghyd yn nhai eu gilydd yn y prydawn i weddio a molianu Duw. Nid peth anghyffredin oedd i ugain neu ddeg-ar-hugain o'r fath gyfarfodydd gael eu cynal yr un amser, a phrofasant yn fendith fawr. Yn y cyrddau bychain hyny yr oedd yn arferiad i weddio dros bersonau wrth eu hennaw, ac y mae llawer o engreiffitia hynod o dröedig-aeth y rhai y gweddient drostynt. Yr oedd yr argyhoeddiadau yn ddyfnion iawn mewn rhai amgylchiadau yn y dyddiau hyny."

Yr oedd yn teimlo yn garedig at y mudiad dirwestol er pan glywodd am dano gyntaf, a phan gafodd gyfle yn 1827, aeth yn mlaen yn gyhoeddus yn Utica i arwyddo yr ardystiad, a bu yn gefnogwr cyhoeddus, gweithgar a phenderfynol i'r achos o hyny i'w fedd. Anhawdd i'r tô presenol goleddu drychfeddyliau priodol am sefyllfa alaethus y sefydliadau Cymreig, yn nghyd a'r wlad yn gyffredinol, yr amser hwnw, drwy yr arferiad ddinystriol o yfed diodydd meddwol, yr hon a ffynai yn mhob man, ac yn mhlith pob dosparth o bobl; ac anhawdd iddynt synio yn gywir am y gwroldeb a'r penderfyniad oedd yn angenrheidiol, er dyfod

allan yn gyhoeddus i wrthwynebu drwg oedd mor flagurog a chadarn. Ond gwnaeth Dr. Everett hyny gyda ffyddlondeb a diysgogrwydd anhwblyg. Yn 1830, sefydlodd Gymdeithas Ddirwestol yn Utica, y gyntaf a sefydlwyd yn mhlith y Cymry. Efe yw tad Dirwest yn mhlith ein cenedl ni, nid yn unig yn America, ond yn Nghymru hefyd, oblegid ei lythyr yn y *Dysgedydd* yn 1834 fu y cychwyniad cyntaf roed i'r achos yn y Dywysogaeth. Cafodd ei weinidogaeth ei hanrhydeddu a chryn lwyddiant yn y blynyddau 1831—2. Mewn llythyr, dyddiedig Mawrth 5, 1832, adrodda hanes cyfarfod a gadwyd gan yr henaduriaid i weddiö, pregethu, a siarad a phechaduriaid edifeiriol; parhaodd bymthegnos, a chafodd tua dau cant eu troi.

Rhoddodd Dr. Everett yr eglwys yn Utica i fyny yn y rhan ddiweddaf o'r flwyddyn 1832, a bu am beth amser yn pregethu i'r ail eglwys Bresbyteraidd yn y ddinas hono. Yn ngwanwyn 1833 cymerodd ofal eglwys Seisonig West Winfield, heb fod yn mhell o gylchoedd Utica. Ond er myned at yr Americanaid nid ymwrthododd a'i genedl. Yr oedd y Cymry yn edrych arno fel eu tad a'u prif arweinydd, ac yr oedd yntau yn teimlo yn fawr dros eu llesiant hwythau, ac yn parhau i ddyfod i'w cyrddau mawrion. Dydd Nadolig 1833 yr ydym yn ei gael gyda ei gydgenedl yn ninas Utica, yn cynal cylehwyl y Gymdeithas Feiblaid, ac yn yr hwyr yn cadw cyfarfod Dirwestol. Yn yr olaf traddododd anerchiad nerthol, llawn o ymresymiadau cedyrn, ac apeliadau tyner a difrifol. Cafodd hwnw ei argraffu a'i ledaenu yn mysg y Cymry, a dywedir iddo fod yn fendithiol i lawer.

Yn 1837 talodd ymweliad a gwlad ei enedigaeth.

Nid ydym hyd yn hyn wedi dod o hyd i lawer o fan-lylion y daith hon, ond deallwn iddo fod yn llafurus a defnyddiol dros ddirwest yno. Bu y gymdeithas hono yn llewyrchus a llwyddianus iawn yn Ngogledd Cymru yn y flwyddyn 1837, ond nis gwyddom faint o'r llwyddiant sydd i'w briodoli i Dr. Everett, ond gwyddom ei fod mor selog a neb gyda'r gwaith, ac iddo ffurfio cymdeithas ar fwrdd y llong wrth ddychwelyd, a darbwylllo chwech-ar-hugain o'i gyd-genedl i arwyddo yr ardystiad. Dywed J. R.: "Pan dalodd Mr. Everett ymweliad â Chymru, wedi bod flynyddau yn America, yr oedd wedi colli llawer o'i lais peraidid, a'i nerth pregethwrol. Nid oes gan y rhai a'i clywodd y pryd hyny fawr ddychymyg beth ydoedd yn wr ieuanc yn Ninbych cyn cychwyn i America; i.e, beth oedd ar faes Cymanfa Llanbrynmair." Fe allai ei fod wedi colli peth o'i nerth a'i danbeidrwydd boreuol; ond y peth tebycaf yw fod ei arosiad yn y wlad hon, ei gymdeithas â'r Americanaid, a'i waith yn gweinigog-aethu iddynt er ys blynyddau, wedi effeithio yn raddol, os nad yn ddiarwybod arno, nes newid ei arddull bregethwrol; a dichon fod hinsawdd eithafol y wlad wedi bod yn help i hyny gydag ef, yr un fath ag eraill o'i frodyr. Nid oedd yr arddull a atebai i gynulleidfa Americanaidd, oll yn ddarllenwyr deallus, ac yn feddianol ar gryn wrteithiad, yn cyfateb cystal i gynulleidfaoedd llai eu diwylliad yn Nghymru. Y mae'n deilwng o sylw mai ar ol bod yn Nghymru y cynyrehodd pregethau Dr. Everett fwyaf o effeithiau yn mhlith Cymry y wlad hon, tuag amser diwygiadau 1838, 1840, 1843, &c. Felly yr ydym yn gogwyddo i feddwl ei fod yn fwy adeiladol, sylweddol a chynwysfawr fel

pregethwr pan fu yn ol yn Nghymru, na phan ddaeth oddi yno, ond nad oedd y cynulleidfaoedd yno yn ddigon diwylliedig i iawn brisio ei arddull. Tua'r flwyddyn 1837, nid y pregethwr callaf, trefnusaf, a rhagoraf ei bregethau, oedd dyn dewisol y nifer fwyaf o gynulleidfaoedd Cymru, ond yr hwn a feddai y geg a'r ysgyfaint oreu at haner canu a soniarus floeddio ei bregeth; ac os arferai guro y Beibl a'r arcithfa, trystio, tarthu a chwysu fel gweithiwr tân o flaen y ffwrnes, mwyaf oll fyddai ei gymeradwyaeth. Nis gwyddom faint o gyfnewidiad chwaeth sydd wedi cymeryd lle yno, ond dywedir nad oes yno yn awr ond derbyniad oeraidd i bregethwyr wedi cofleidio yr arddull Americanaidd. O'r tu arall, y mae amryw leygwyr gwybodus wedi bod yn ol yn Nghymru yn ddiweddar, ar ol dyfod oddiyno yn ieuainc, a threulio blynyddoedd lawer yn y wlad hon, nes cael eu Hamericaneiddio; ac y maent wedi cyhoeddi yn ddifloesgni y siomedigaeth gawsant yn mhregethwyr Cymru. Yr oeddynt yn mhell o gyfateb i'w dysgwyliadau. Clywsom amryw yn bersonol yn hysbysu yr un peth, y rhai nid ydynt wedi cyhoeddi eu syniadau trwy y wasg. Achwynant eu bod yn ymddibynu mwy yno ar yr hyn a elwir yn "hwyl" a "dawn," ac ar nerth anianyddol, nag ar nerth a llafur meddwl, a gwir wrteithiad; a dywedant mai nid prif feddylwyr Cymru yw ei phregethwyr mwyaf poblogaidd. Hyn sydd sier, fod arddull y pregethwyr a chwaeth y gwrandawyr yn wahanol yn y ddwy wlad, a bod hir ymarferiad ag unrhyw ddull yn tueddu i wneyd dynion yn rhagfarnllyd drosto. Gallai ystyriaethau fel yna roddi cyfrif teg am dyb isel

(ond yn ol ein barn ni, tyb anghywir,) pobl Cymru am Dr. Everett yn 1837.

I ddychwelyd at hanes y Dr. ar ol dyfod yn ol o Gymru i'w eglwys yn Westernville, N. Y.—lle yr oedd wedi bod yn bugeilio am tua dwy flynedd—yn mis Chwefror, 1838, cafodd yno golled fawr trwy i'w dy fyned ar dân yn y nos, pryd y llosgwyd y rhan fwyaf o'r dodrefn, y dillad, y llyfrau a'r ysgrifeniadau, a phrin y diangodd ef a'i deulu heb ond ychydig o ddillad am danynt. Yr oedd yn golled fawr i fyfyrwr caled a gweithgar fel Dr. Everett, iddo gael ei amddifadu o'i holl lyfrau ar unwaith. Y llyfrau duwinyddol, yr esboniadau, a'r geiriaduron a fuont yn gymdeithion iddo o ddechreuad ei weinidogaeth, yn nghyd a'r llyfrau oedd ef wedi gasglu yn ystod pymtheg mlynedd o arosiad yn America; heb son am y golled am holl law-ysgrifau boreuddydd ei fywyd a'i weinidogaeth. Diameu y buasai genym lawer yn ychwaneg o ddefnyddiau at hanes boreuol ei fywyd, oni b'ai yr anffawd hon. Daliodd yn dawel a hunan-feddianol yn ngwyneb yr amgylchiad, gan deimlo yn ddiolchgar iawn i'w Dad nefol am fod eu bywydau wedi eu harbed.

Tua diwedd Ebrill, 1838, cymerodd ofal eglwysi Steuben a Phen-y-mynydd, ac arosodd gyda hwynt nes ei symud i'r nef. Yr oedd diwygiad anarferol o rymus wedi newydd fod yno cyn iddo symud atynt. Rhoddir ychydig hanes am ei gysylltiad a'r diwygiad hwnw yn nes yn mlaen. Fel hyn y dyweda y Parch. Sem Phillips, yn ei hanes gwerthfawr am eglwys Steuben, am amser cyntaf gweinidogaeth Dr. Everett yno: "Tymor o ddyfrhau oedd tymor cyntaf gweinidogaeth Dr. Everett yma. Yr oedd lluaaws o

blanhigion ieuainc wedi newydd gael eu planu yn yr ardd hon i Dduw, yr adeg yr ymgymerodd â'i gwrteithiad. Trwy ddyfrhau planhigion byw hwy ddeuant yn brenau cyfiawnder." Fel un o ffrwythau daionus y diwygiad, helaethwyd, adgyweiriwyd, ac addurnwyd addoldy Steuben yn y blynyddoedd 1839 ac 1840. Yr oedd Dr. Everett yn gefnogwr gwresog i adfywiadau, a chafodd yr hyfrydwech o weled amryw o honynt yn ei eglwysi. Bu cryn ychwanegiad yn Pen-y-mynydd a Steuben yn 1840, a thrachefn yn 1843. Bu yr ychwanegiad at eglwys Steuben y flwyddyn hono rhwng 80 a 90. Cymerodd ychwanegiad lled fawr at eglwys Pen-y-mynydd le yn 1851, ac yn niwedd 1857 a dechreu 1858 ychwanegwyd 32 at Steuben, a 17 at Pen-y-mynydd; ac yn 1868 ychwanegwyd 16 at Pen-y-mynydd. Derbyniodd lawer o aelodau newyddion o bryd i bryd, heblaw y rhai a dderbyniwyd yn yr adfywiadau a goffhawyd. Yr oedd ei weinidogaeth yn doddedig, gwlithog ac ysbrydol, a byddai effeithiau daionus yn cydfyned â hi yn aml.

Yr oedd yr amcan o gael cylchgrawn misol wedi bod o dan ystyriaeth Cymanfa Oneida er ys amser maith, ond yn y Gymanfa yn mis Medi, 1839, daeth y peth i ddigon o addfeirwydd i benderfynu cychwyn y cyhoeddiad ddechreu y flwyddyn ddyfodol. Anfonwyd cylch-lythyrau allan i ofyn am gefnogaeth a chydweithrediad y cyhoedd, wedi eu harwyddo gan Robert Everett, Cadeirydd, a James Griffiths, Ysgrifenydd. Ar ddiwedd y cylch-lythyr hysbysir fod y Gymanfa wedi cyflwyno golygiaeth y gwaith i R. Everett, J. Griffiths a Morris Roberts. "Cyhoeddedig gan weinidogion yr eglwysi Cynulleidfaol," yw y mynegiad

sydd ar y tair cyfrol gyntaf o'r *Cenhadur*. Argraffwyd y ddwy gyfrol gyntaf gan R. W. Roberts, Utica. Ond argraffwyd y drydedd yn Remsen gan J. R. a R. Everett, ac yno yr argraffwyd ef yn barhaus o hyny allan. Yn Nghymanfa Oneida, yn Medi 1842, penderfynwyd, "Fod y *Cenhadur* rhagllaw i gael ei ystyried yn eiddo y Parch. Robert Everett, i'w ddwyn yn mlaen yn ei enw ac ar ei draul ei hun. A gwnaeth Mr. Everett dderbyniad o hono i fod felly. Ac addawodd y gweinidogion y gwnaent eu goreu er ei gefnogi a'i gynorthwyo yn mhob modd, gan gredu y bydd yn gymaint dros yr achos mawr a gerir genym oll, a lles cyffredinol ein cenedl ag o'r blaen." Anfonwyd allan o'r un Gymanfa anerchiad ar ran y *Cenhadur*, wedi ei arwyddo gan chwech o weinidogion, yn yr hwn y dywedant, "Yr ydym yn ei gyflwyno i ddwylaw ein hanwyl frawd y Parch. R. Everett, gyda chwbl hyder y bydd iddo gael ei ddwyn yn mlaen ar yr un egwyddorion, ac i'r un gwerthfawr ddybenion ag a ganfyddir yn ei ddygiad yn mlaen hyd yma. Yr ydym wedi canfod erbyn hyn mai peth anhawdd ydyw dwyn yn mlaen y fath waith gan gymdeithas—y gwaith a berthyn i *lawer*, nid hawdd yw cael neb i ofalu am dano yn ei ranau, fel y dylid gwneyd. Ac hefyd, yr ydym wedi cael boddlonrwydd, trwy y profiad a gawsom hyd yma, nas gellir dysgwyl elw arianol oddiwrtho. Rhoddodd ein brawd ei lafur fel golygydd am y ddwy flynedd gyntaf am ddim, ac heb dderbyn at ei draul yr hyn a'i gwnaeth yn ddigolled." Dengys yr anerchiad yma mai Dr. Everett oedd y golygydd o'r dechreuad, mai golygyddion mewn enw oedd y lleill, a bod y rhan fwyaf o'r pwys a'r cyfrifoldeb yn gorphwys ar ei ys-

gwyddau ef. Nid oedd y *Cenhadwr* yn llai o gyhoeddiad i'r enwad ar ol ei drosglwyddo yn ffurfiol i feddiant Mr. Everett, ond gwellhaodd lawer fel cylchgrawn misol mewn canlyniad i hyny.

Yr oedd Dr. Everett wedi bod yn flaenllaw yn ei wrthwynebiad i gaethiwed lawer o flynyddau cyn sefydliad y *Cenhadwr*; ond dichon mai ar ol hyny y daethpwyd i'w gydnabod fel prif arweinydd a phrif wron y mudiad yn mhilith y Cymry. Bu y *Cenhadwr* o'r dechreu yn drwyadl wrthgaethiwol, a diamheu mai sel wresog ac egwyddorol dros achos y caethion wnaeth ei berchenog mor benderfynol i'w ddwyn yn mlaen, pan oedd yn colli arian arno flwyddyn ar ol blwyddyn. Treuliodd arno gynysgaeth o ganoedd o bunau oedd wedi dyfod i ran ei briod, ond nid heb ei chydysyniad a'i chefnogaeth wresog hithau, gan ei bod yn cydymdeimlo o'i chalon â golygiadau ac amcanion dyngarol a duwiolfrydig ei gwr. Yr oedd y ddau wedi cydymgysegru i'r un amcanion goruchel. Rhy ddrwg fod rhai mor egwyddorol ac anhunangar yn cael eu pardduo gan dafodau maleisddrwg fel rhai yn pleidio y caeth er mwyn *budr-elw*.

Bu Dr. Everett am ryw amser yn dwyn allan gyhoeddiad misol o'r enw y *Dyngarwr*, i bleidio diwygiad a lles cyffredin cymdeithas, yn wladol, moesol, a chrefyddol; a bu hefyd yn cyhoeddi y *Detholydd*, cyhoeddiad yn cynwys pigion allan o brif gyhoeddiadau Cymru; yr hwn a ddygid allan tua chanol y mis. Ond ni chafodd gefnogaeth ddigonol i barhau i ddwyn yr un o honynt allan yn hir.

Mewn cwrdd tri-misol perthynol i Undeb Cynulleidfaol Oneida yn Peniel, Remsen, Ion. 10, 1845, pender-

fynwyd fod y Parch. Robert Everett, y Parch. Morris Roberts, a Mr. Griffith W. Roberts, Remsen, yn cael eu penodi yn bwyllgor i ddwyn allan Lyfr Emynau newydd at wasanaeth yr enwad. Dygwyd ef allan yn 1846, dan yr enw "Caniadau y Cysegr," o swyddfa argraffu Everett, a thybiwn fod pen trymaf y gwaith fel arferol wedi gorphwys ar ysgwyddau y Doctor. Fel "Llyfr Emynau Everett" yr adwaenir ef yn gyffredin, ac y mae yn llyfr rhagorol: dygwyd allan dri argraffiad o hono, a gwnaeth wasanaeth anmhrisiadwy i'r hen Genedl yn ei sefydliadau gwasgaredig trwy y wlad. Y mae llyfrau eraill wedi ei droi o'r neilldu yn ddiweddar mewn llawer man; ond er mor dda ydynt, yr ydym yn teimlo yn chwith am golli Caniadau y Cysegr o'n haddoliadau, gan iddo fod yn gydymaith anwyl i ni am lawer blwyddyn, a'i fod yn cynwys cryn lawer o benillion hoff a melus nas ceir mewn llyfrau diweddar. Y mae Caniadau y Cysegr a'r Beibl Cymreig wedi bod yn gymdeithion cynes mewn canoedd o aneddau yn America; ac na fydded iddynt gael eu hysgaru tra fyddo yr hen iaith anwyl yn cael ei deall tu yma i'r cefnfor. Rhwng golygiaeth y *Cenhadwr*, bugeiliaeth ei eglwysi, a dilyn gwahanol gyfarfodydd cyhoeddus yn Oneida a'r cylehoedd, cedwid Dr. Everett yn bur ddiwyd, fel nas gallai ymgymeryd a theithiau pell yn aml, ond gwyddom iddo ymwled â Chymanfa Pennsylvania ddwywaith, sef yn y blynyddoedd 1846 ac 1847, a'i fod yn dderbyniol a chymeradwy iawn ar ei ymweliadau, a bod ei frodyr bob tro yn galw arno i roddi iddynt rai o'i bregethau rhagorol trwy y *Cenhadwr*.

Yn y flwyddyn 1858 ymwelodd ef a'r Parch. D.

Price, (*Dewi Dinorwig*) a chymanfaoedd Ohio a Wisconsin. Dyna yr unig dro i ni ei weled a'i glywed. Yr oedd yn myned ar ei wyth-a-thri-ugain oed, ac yn ymddangos braidd yn eiddil a gwanaidd o ran cynfansoddiad corphorol; ond eto synasom lawer ei weled mor heinif a bywiog. Yr oedd yn canfod yn eglur trwy wydrau 36 *inch focus*, y fath ag a ddefnyddir gyntaf gan rai a'u llygaid yn dechreu gwanhau ychydig; ac yr oedd ei law-ysgrif y pryd hwnw, ac yn hir ar ol hyny, mor brydferth a digryn a phe na buasai ond pump-ar-hugain oed. Yr oedd ei bregethau o gyfansoddiad trefnus a rheolaidd, ac o ran eu cynwysiad yn addysgiadol, ymarferol, ac efengylaidd: ac er ei bod yn amlwg ei fod wedi pasio ei amser goreu fel pregethwr, eto yr oedd ei draddodiad yn dra effeithiol, gafaelgar a gwllithog. Yr oedd effeithiau ei gydffurfiad gofalus a deddfau natur, ei gymedroldeb syml gyda phob peth, a'i ymataliad oddiwrth y myglys, diodydd meddwol, a phob blys a drwg dymer, i'w gweled yn amlwg yr amser hwnw yn nghyflwr ac agweddu ei gorph a'i feddwl. Daliodd drafferth a llafur ei daith fawr yn well nag y galleid dysgwyl. Pan oedd ar ei deithiau y pryd hwnw, byddai ei gyd-genedl yn mhob man yn crefu arno roddi mwy o ffrwyth ei feddwl ei hun allan yn y *Cenhadur*, ac ar ol dychwelyd ymdrechodd gydsynio a'u cais dros amryw flynyddau trwy gyhoeddi ysgrifau rhagorol o'i waith ei hun ar wahanol faterion. Yn y man yma nis gallwn wneyd yn well na gadael i hen frawd parchus a chyfaill ffyddlonaf i Dr. Everett, siarad am dano, a rhoddi pigion o'i lythrau.

Y Diweddar Barch. Robert Everett, D. D.

GAN Y PARCH. T. EDWARDS, PITTSBURGH, PA.

Mae enw Dr. Everett yn adnabyddus yn y wlad hon ac yn yr Hen Wlad, ac yn hynod o barchus, oblegid ei fywyd addas i'r efengyl a'i ymdrechiau o blaid achosion daionus. Daeth ei enw yn fwy hysbys i'r genedl pan osodwyd ef yn olygydd y *Cenhadwr*. Yr oedd awydd mawr ar laweroedd i'w weled ar ol darllen y *Cenhadwr*; ac yn y flwyddyn 1858 gwnaeth ef a'r Parch. D. Price dalu ymweliad ag Ohio a Wisconsin, a bu hefyd yn Big Rock, Illinois. Yr oedd ef yr amser hwnw yn ymddangos yn iach neillduol, yn gryf ei lais, ac yn pregethu yn effeithiol a gwir efengylaidd. Fe gyfansoddodd rhyw fardd yr englyn canlynol iddo, yr hwn oedd yn hynod briodol :

Dwys, tan nef, a dystaw 'n awr—yw Everett,
 A llyfr-gynwysfawr ;
 Corph bach heb anach unawr,
 Dewin mwyn a doniau mawr.

Ar ol ei ddychweliad o'r daith uchod efe a ysgrifennodd atom fel hyn :

REMSEN, Gorph. 19, 1858.

Annoyl Frawd—Daethum adref yn ddiogel ac yn gysurus, ond yn lled flinedig, ar ol y daith faith trwy Ohio, Wisconsin, &c. Y mis diweddaf o'n taith ydoedd ddyddiau poethion iawn yn mron o hyd—a ninau yn fynych yn teithio mewn wageni, ac yr oedd y teithiau yn lled feithion. Yr oeddem yn pregethu ddwy neu dair gwaith yn fynych yn y dydd i gynulleidfaoedd lluosog o'n cenedl yn y gwahanol fanau. Cawsom

wrandawiad tra siriol yn mhob man, a chawsom dderbyniad croesawus gan y gweinidogion a'r eglwysi. Ni chefais siwrnai mwy dymunol yn mhob ystyr erioed.

Daliodd ein hiechyd ein dau yn dda iawn. Credym bod ein hiechyd yn well ar ol dychwelyd na chyn eychwyn. Gwelsom lawer ar y daith hon nas cawn eu gweled mwy hyd ddydd y cwrdd cyffredinol, a'r cyfrif diweddaf. Mae lluaws mawr o'n cenedl yn preswyllo yn Wisconsin. * * * ROBERT EVERETT."

Yr ydym yn dra sicr iddo ar y daith a nodwyd adael dylanwad da ar ei ol yn y tai lle y bu yn aros, ac yn yr eglwysi lle bu yn pregethu. Cefais y fraint o'i wrandaw yn traddodi amrai o bregethau yn Ohio, ac mi a sylwais ar un peth yn neillduol pan fyddai yn pregethu, sef ei fod yn teimlo dylanwad y gwirionedd yn bur fuan ar ol dechreu ei anerchiad, ac yna fod y gwrandawyr yn teimlo yr un dylanwad. Yr oedd ei bregeth yn gyffelyb i wlaw yn y gwanwyn yn disgyn yn naturiol, ac yn aros o ran ei ddylanwad daionus, nes peri adfywiad ar y rhai a blunwyd yn y winllan ysbrydol.

Ar ol iddo lafurio yn ddiwyd fel golygydd y *Cenhadwr*, ac i ofalu am yr eglwysi oedd dan ei ofal, o'r diwedd gwnaeth ei gyfansoddiad ddechreu dadfeilio, oblegid dywedodd mewn llythyr, yn y flwyddyn 1865, fel y canlyn: "Mae fy llais wedi myned yn wan iawn; weithiau yr wyf yn methu yn lân a dywedyd fel y clywo y rhai pellaf yn y gynulleidfa. Yr wyf wedi bod yn lled wael gan boen yn fy nghefn, yn methu myned i'r capel am bedwar Sabboth, oud yr wyf yn well."

Mae yn debygol na chafodd ei adferu i'w nerth cyntefig, oblegid yr ydoedd yn son am yr un afiechyd yn 1866. Dyma fel yr ysgrifennodd: "Yr wyf yn cael fy mlino gan wendid llais—nid *bronchitis*, ond y nerth yn pallu—gwendid mae'n debyg yn y *system* yn gyffredinol. Wel, nid hir y byddwn yma—ymofynwn am fwy o burdeb, a pharodrwydd i'r wlad well."

Yn y flwyddyn uchod, sef yn 1866, efe a gafodd foddlonrwydd mawr i'w feddwl trwy iddo fwynhau cyfarfodydd mawrion yn New York. Ar ol iddo ddychwelyd adref gwnaeth anfon atom, "Bum i a'm priod yn New York yn yr *anniversaries*. Cawsom gyfarfodydd tra rhagorol—yr oeddynt yn lluosog—a'r areithiau yn dra gwerthfawr ac *interesting*. Gwerthfawr oedd cael bod yn nghwrdd Jubili y Gymdeithas Feiblaidd—a'r cyrddau eraill oeddynt werthfawr iawn. Da oedd genym gael y fath wledd unwaith cyn ymadael."

Gan iddo gael y fath hyfrydwch yn y cyfarfodydd mawrion yn New York, pwy all ddirnad y pleser mae ef yn gael yn awr yn y cyfarfod mawr yn y nef-oedd, yr hwn sydd i barhau yn dragywydd?

Hawdd fyddai i mi ysgrifenu yn helaeth am y Parch. R. Everett, ond gwell i mi fod yn fyr, rhag chwyddo y Cofiant i ormod o faintioli. Gallaf ddywedyd hyn cyn terfynu, ei fod yn meddu ar fwy o rinweddau wedi cydgyfarfod ynddo na nemawr o ddynion, megys dysgeidiaeth, addfwynder, gochelgarwch, amynedd, ffyddlondeb, parodrwydd i weithredu o blaid dirwest pan nad oedd ond ychydig yn cyduno ag ef, ac o blaid rhyddhad y caethion yn foreu iawn, tirondeb mawr at ereill, duwioldeb amlwg neillduol, &c.

Yr ydym yn cofio clywed un fu'n cyd-deithio ag ef yn dywedyd, " Mae yn Mr. Everett ddigon o ras i saith o ddyinion." Cafodd oes hir i fod yn ddefnyddiol, a dysgodd ei blant i fod yn debyg iddo. Yr oedd ef mor grefyddol gartref ag yn y capel ar y Sabboth. Cafodd rodd fawr i gael cydmares bywyd mor addas, yr hon a fu yn gymorth iddo o ddydd ei briodas hyd ddydd ei farwolaeth.

Ar ol cyflwyno i'r darllynydd erthygl ddyddorol yr hen dad Edwards, trown ein golwg yn ol i'r flwyddyn 1861, pan y canfyddwn athrofa enwog Hamilton, yn Nhalaeth Efrog Newydd, yn anrhydeddu y Parch. Robert Everett a'r teitl o D. D., neu Ddoctor mewn Duwinyddiaeth. Ni chlywsom fod na siw na miw wedi ei ynganu gan neb yn erbyn y priodoldeb o hyny, a'r sylw cyffredin oedd fod yr athrofa wedi anrhydeddu ei hun wrth ei anrhydeddu ef. Un golygydd yn Nghymru sydd wedi bod dipyn yn llawdrwm ar y teitlau, a ddywedai am Dr. Everett, "Yr oedd yn wr gweithgar, llawn athrylith, ac yn ysgolhaig mewn llawer ystyr. Ni ddianrhydeddodd D. D. ddim arnynt eu hunain wrth sefyll ar ol ei enw ef, mwy nag y gwnaethant ar ol enwau Doddridge, Watts a Dwight. Os oeddynt hwy yn rhagori arno ef mewn rhyw bethai, medrai yntau Gymraeg, yr hyn na fedrai yr un o honynt."

Yn nechreu 1861, yn nyddiau cynhyrfus Gwrthryfel y Caeth-feistri, llewyrchai ei bwyll, ei ddiysgogrwydd, ei wroldeb, a'i ffydd yn Nuw allan yn ogoneddus, pan oedd amryw yn y Talaethau Rhyddion yn ymollwng yn eu hysbrydoedd, ac yn barod i aberthu Rhyddid,

a thafu eu hunain wrth draed y caeth-feistri i dderbyn cadwyni iddynt eu hunain, gan lyfu y dwylaw oedd yn eu sicrhau. Dywedai Dr. Everett yn y *Cenhadur* am Chwefror, "Wrth edrych ar sefyllfa ein gwlad y dyddiau presenol, gellir dweyd mai y cwestiwn penaf sy'n ymgynyg i'r meddwl yw, Beth a ddylai y Talaethau rhyddid wneyd yn wyneb y cynhwrf mawr yn y De? A ddylent roi i fyny eu *hegwyddorion*, ac ail feddwl a chydabod nad yw caethiwed yn bechod yn erbyn Duw, nac yn wadiad o iawnderau annileadwy dynoliaeth? Na, ni ddylent wheyd hyny. '*Hold to your principles though the heavens fall,*' ydyw'r *maxim*. Nid oes newid i fod ar egwyddorion sylfaenol gwirionedd. Nid yw eu gwadu na chilio oddiwrthynt yn eu cyfnewid."

Credai ei bod yn gyson â Christionogaeth i roi y gwrthryfel i lawr trwy rym arfau. Yn y rhifyn am Medi, 1861, ar ol sylwi mai dyben blaenoriaid y De, "oedd sefydlu llywodraeth fawr eang yn llywodraeth gaeth hollol," gofyna, beth a wneir? Yna dywed, pe buasai y Deheuwr wedi dyfod allan trwy *resymau*, y galleid eu cyfarfod â *rhesymau*; ond gan iddynt ddyfod allan trwy *rym arfau*, nad oedd dim i'w wneyd ond *ateb* trwy *rym arfau*. Dadleua fod llywodraeth y wlad hon yn deilwng o'i hamddiffyn, a dyweda: "Rhoi y ddadl i fyny, a chaniatau i'r gwrthryfel gael ei ffordd, a'r llywodraeth gael ei darostwng, fyddai yn gwrthdaro yn erbyn llwyddiant yr ysbryd gwerinol trwy'r byd, ac yn digaloni pleidwyr rhyddid yn mhob gwlad dan y nef.

Gwneyd hyn fyddai yn gam a'r mwyafrif o ddinasyddion yr holl wlad, y rhai a roddasant eu llais yn deg

dros yr egwyddorion a'r mesurau a amddiffynir gan y llywodraeth.

Gwneyd hyn fyddai pleidio y farbariaeth waethaf a ffeiddiaf ar y ddaear. Nis goddefir rhyddid ymadrodd, mwy na rhyddid y wasg, yn y De. Merched ieuainc gwylaidd a rhinweddol a ddynoethir ac a fflangellir ar g'oord yno, am yngan gair eu bod yn bleidiol i ryddid, ac yn erbyn y gorthrwm caeth. Mae ffeithiau sicr yn profi i hyn gael ei wneyd yn agos i Memphis, Tennessee; ac y mae llawer o'r dynion mwyaf egwyddorol a rhinweddol wedi eu rhoi i farwolaeth yn y De am yr un peth. Dydd barn yn unig a ddatguddia y creulonderau a ddyoddefwyd, nid gan ddynion duon yn unig, ond gan eraill hefyd.

Profir trwy ffeithiau sicr fod llaweroedd yn y De yn cael eu gorfodi i wisgo arfau ac i fyned i faes y gwaed, o blaid gwrthryfel a ffeiddiant ac yn erbyn llywodraeth a garant, neu gael eu saethu eu hunain! Y rhai hyn ydynt rai o'n rhesymau dros yr ymdrech a wneir i ddarostwng y gwrthryfel a phleidio y llywodraeth, er nas gellir gwneyd hyny ond trwy arfau milwrol." Yn mis Hydref, yr un flwyddyn, y mae'n dywedyd, "Pan byddo gwrthryfel yn cyfodi yn erbyn llywodraeth *gyfiawn* a *daionus*, a hyny fel y gwneir yn awr, i helaethu gallu pendefigaidd gormeswyr i ddal eu gafael mewn miliynau o bobl—i'w prynu a'u gwerthu fel anifeiliaid yn y farchnad—ac i gael maes helaethach i hyny—credwyf y dylai y fath lywodraeth yn y fath amgylchiadau amddiffyn ei hawdurdod a darostwng yn llwyr y gwrthryfel, er gorfod gwneyd hyny trwy rym y cleddyf."

Tra y credai fod yn ddyledswydd ar y llywodraeth

i rod-di y gwrthryfel i lawr trwy rym arfau, nid mewn cleddyf nac mewn braich o gnawd yr oedd ei ymddiried ef. Dywedai yn rhifyn Mehefin, 1862: "Y mae ein crediniaeth am ddilead caethiwed yn myned yn ol yn mhellach na dim gweithrediad dynol, yn sylfaenedig ar air y digelwyddog Dduw, y bydd i bob drygau melldigedig o'r fath gael eu dileu cyn dyfodiad i mewn deyrnasiad cyfiawn a llednais y Messia dros y byd, yr hyn a ddaw yn ddiau cyn bo hir iawn."

Mewn llythyr dyddiedig Mai 15, 1861, at y Parch. T. Edwards, yr hwn oedd y pryd hwnw yn Cincinnati, dywedai: "Byddaf yn meddwl yn fynych am danoch chwi a Mrs. Edwards yna yn swm y *drums*, ac mor agos i gaeth-dalaeth, ond nac ofnwch, mae'r Hwn sy'n gallu cuddio yn nirgelfa ei babell gyda chwi, ac efe a'ch ceidw yn ei law. 'Yr Arglwydd sydd yn teyrn-nasu, gorfoledded y ddaear, llawenyched ynysoedd lawer.' Gall efe droi cyngor Ahitopheliaid yn ffolineb, peri i gynddaredd dyn ei folianu ef, a gwahardd gweddill cynddaredd. Edrych yn lled dywyll y mae'r cwmwl du sy'n awr uwchben ein gwlad, ond gobeithiwn y tyr gwawr eto cyn bo hir iawn. Os nad yw aderyn y to yn syrthio i'r llawr heb ein Tad ni, diau fod goruwchlywodraeth ganddo ef dros hyn hefyd. Tra y mae ei farnau ef ar y ddaear, dysgwn ninau, fel Habacuc, i droi ato ar ran llwydd ei waith, &c. Rhaid i'r felldith gaethiwol gael ei dileu; ni ddaw y mil-flyddiant i mewn heb hyny. Ond pa fodd y cyrhaedda efe hyny, nis gwyddom ni yn awr." Mewn darn o lythyr at Mr. Edwards, dyddiedig Chwef. 6, 1865, dengys ei bod wedi dyfod yn oleu ar ei feddwl o berthynas i'r modd yr oedd caethiwed i gael ei ddileu.

Y mae'n dywedyd : "Newyddion da a glywir y dyddiau hyn o'r *Congress*. Gobeithiaf cyn pen llawer o fis-oedd y bydd tair rhan o bedair o'r *Legislatures* wedi rhoi eu llais dros y gosodiad o wellhad ar y Cyfansoddiad. Yna bydd y ddeddf yn sefydlog, hyderwn, i'r oesoedd dyfodol, na bo caethiwed i fodoli yn Nhalaethau Unedig America. Diolch iddo Ef am hyn."

Pwy all ddesgrifio y fath orfoledd i'w feddwl oedd Rhyddhad y Caethion? Ar ol i dair rhan o bedair o'r Talaethau fabwysiadu y Gwellhad ar y Cyfansoddiad, rhoddodd yr Ysgrifenydd Seward gyhoeddiad allan, Rhag. 18, 1865, yn hysbysu y ffaith, ac yn cyhoeddi fod caethiwed wedi trengu. Yn y *Cenhadur* am Ionawr, 1866, amlyga Dr. Everett ei lawenydd mewn nod yn fel hyn :

"*Owbl Ddilead Caethiwed yn America.*—I'r Arglwydd byddo clodydd tragywyddol am hyn! * * Mae America yn wlad rydd—De a Gogledd dan yr un drefn."

Mewn llythyr a ysgrifennodd at ei frawd Edwards, yn mhen haner can' mlynedd ar ol ei urddo, ceir cip-drem doddedig iawn ar ansoddau a theimladau ei ddyn mewnol. Mor naturiol a diymhoniad yr ymddengys ei ddifrifoldeb a'i ddiolchgarwch i Dduw ; ac y mae ei wyleidd-dra, ei ostyngyddrwydd, ei dduwiolfrydedd, a'i ymddiried mabaidd yn yr Arglwydd yn cael ei anadlu allan yn gynnes trwyddo. Cyflwynwn ddarn o hono i'r darlennydd :

REMSEN, Mehefin 6, 1865.

Anwyl Frawd Edwards—Ddoe oedd y 5ed o *June*, ac ar y 5ed o *June*, 1815, y cefais fy ordeinio i waith pwysig y weinidogaeth yn Ninbych, yn ngwydd torf fawr o

bobl, ac yn ngwydd y Meistr mawr ! Llawer o feddyliau difrifol a dramwysant trwy fy mynwes ddoe, a neithiwr, yn oriau y nos. Rhai meddyliau hyfryd o ddiolch am gael bod dros haner canrif dan yr enw o weinidog—gyda breintiau mor fawr—breintiau ty Dduw yn werthfawr—dim gofid mawr erioed (fel y bu ar lawer) yn y cylch teuluaidd—cydmar anwyl—a phlant anwyl a roddes y Tad nefol i ni. Cefais y fraint o fod gydag achosion daionus yn eu cychwyniad allan gyntaf mewn gwendid. Ond, O! anwyl frawd, gwael iawn, a bylchog iawn, ac oer iawn mae fy nghalon wedi bod, wrth fel y dylasai fod. Mae'r tymor wedi pasio heibio fel gwyliadwriaeth nos, a'i ffrwyth wedi bod yn bur brin, a llawer iawn o feiau eisiau eu maddeu trwy'r Iawn mawr.

Wel, mae'r awr i roi cyfrif yn nesu ; mae fy ngobaith, anwyl frawd—er gwaeled fu'r gwasanaeth, ac er cymaint y beiau—mae fy ngobaith am gael derbyniad adref yn ddiogel at y teulu sydd wedi blaenu i dy ein Tad. Ond trugaredd ryfedd fydd hyny, a mawr fydd y rhwymau i ddiolch. Teulu Duw yw fy mhobl, a'i waith yw fy hyfrydwch, a gobeithiaf y caf, trwy ei ras ef, fod gyda'r teulu, ac yn y gwasanaeth yr ochr draw cyn bo hir iawn. * * * Ydym ein dau yn uno i gofio atoch, ac at Mrs. Edwards. Yr eiddoch,

ROBERT EVERETT.

Oblegid fod Dr. Everett yn llesghau ac yn colli ei lais, yn y flwyddyn 1866 daeth y brawd Sem Phillips i fod yn gydweinidog ag ef, a buont yn cydlafurio hyd y flwyddyn 1872. Cofnodwn ychydig o'r hyn a ddywed Mr. Phillips am ei gydweinidog yn hanes eglwys Steuben :

“Nid dyn didda a diddrwg, ond dyn llawn o ddaioni—pleidiwr pob achos daionus, ac un nas gall dim ei ddenu na’i ddychrynu oddiar lwybr cydwybod yw Dr. Everett.” Drachefn, “Efe ydyw y dyn puraf a adwaenasom erioed. Ni lygrwyd mo hono ef erioed gan wirodydd a diodydd meddwol, ac ni fu erioed yn ngafaelion ac o dan ddylanwad yr arferiad caethiwus, gwastraffus, anfoesgar, anfoneddigaidd, anweddaidd, gwrthun, gwael, budr, bawlyd, brwnt, llygredig, aflan, ffaidd a drewedig, ie, yr arferiad sydd yn darostwng dyn, creadur mor urddasol yn nghadwyn bodolaeth, i bellderau dirfawr yn is na’r anifail a ddyfethir, sef cnoi a chwiffio myglys, a’r hwn arferiad a fedr rifo ei ddeiliaid wrth y miloedd yn mysg ein cenedl ni y Cymry. Teimla ysgrifenydd y llinellau hyn ei hun o dan rwymau arbenig i’r Dr. am y cymorth a gafodd ganddo trwy gyngorion a chyfarwyddiadau, i ymryddhau o afaelion cryfion, gafaelgar, braidd diollwng, a bron anorchfygol yr arferiad gwarthus o chwiffio myglys, yr hyn a effeithiwyd er ys mwy na phedair blynedd bellach.”

Yn hanes gwerthfawr Mr. Phillips cawn y gofres ganlynol o’r llyfrau a argraffwyd yn swyddfa y *Cenhadwr*, sef Cofiant y Parch. W. Williams, o’r Wern; Cofiant y Parch. Daniel Griffiths, Castellnedd; Crefydd Deuluaidd, neu Eglwys yn y Ty, gan y Parch. Matthew Henry; yr Haul yn Glir, gan y Parch. Thomas W. Jenkyn, D. D.; Uncle Tom’s Cabin, gan Mrs. Harriet Beecher Stowe; Yr Egwyddorydd, y rhan gyntaf gan R. Everett; Arweinydd i ddysgu darllen yr iaith Gymraeg; Addysgydd, neu y Catecism Cyntaf, o’r argraffiad a gyhoeddwyd yn Nghym-

ru yn 1822, gan R. Everett ; a Chaniadau y Cysegr. Yn y flwyddyn 1871 daeth Mr. Nathaniel Roberts, Rosa, ger Dinbych, brawd-yn-nghyfraith Dr. Everett, ac un o ddiaconiaid eglwys Dinbych ar ymweliad i'r wlad hon. Anfonodd yr eglwys yr anerchiad canlynol gydag ef i'w hen weinidog :

Oddiworth yr Eglwys Annibynol yn Ninbych, G. C.

AT Y PARCH. ROBERT EVERETT D. D., REMSEN, U. D. :

Hybarch Syr—Yn ngwyneb fod y brawd Mr. N. Roberts, Rosa, un o ddiaconiaid yr eglwys hon, a pherthynas agos i chwi, yn bwriadu talu ymweliad ag America, penderfynwyd yn unfrydol, mewn cymdeithas eglwysig a gynaliwyd yma nos Lun, Ebrill 17eg, 1871, ein bod fel eglwys yn cyduno i anfon ein cofion caredicaf atoch chwi, eich priod, a'r teulu oll. Er fod llawer o honom heb erioed weled eich wyneb yn y cnawd, eto yr ydym yn eich parchu fel un a dreuliodd yr yspaid o wyth mlynedd o foreu ei oes yn weinidog diwyd, ffyddlawn, a llwyddianus yn yr eglwys hon. Ac nis gallwn lai na chydabod yn ddiolchgar ddaioni Rhagluniaeth fawr y nef yn eich cynal tra yn yr Unol Dalaethau, ar ol hyny, am yn agos i haner canrif, yn weinidog llafurus i Iesu Grist, ac yn eich cynorthwyo i wneyd gwasanaeth mor werthfawr i achos rhyddid, gwirionedd a chrefydd, trwy y wasg, ac ar yr esgynlawr, yn gystal ag yn y pwlpu. Yr ydym hefyd yn cydlawenhau gyda chwi am i chwi gael byw i weled llwyddiant mor drwyadl ar rai o'r egwyddorion mawrion y safasoch mor gadarn o'u plaid.

Dymunem ddatgan ein cydymdeimlad a chwi pan

mae cysgodion hwyrdydd bywyd yn ymdaenu tros-och, a'n gweddi yw am i brydnawn eich oes fod yn deg a thawel o dan wenau yr hwn y buoch yn ei wasanaethu mor ffyddlawn. Bydded i "ras ein Harglwydd Iesu Grist" fod yn etifeddiaeth i chwi, eich anwyl briod, eich plant, a'ch hiliogaeth hyd byth, yw ein dymuniad a'n gweddi.

Arwyddwyd dros yr eglwys,

NATHANIEL ROBERTS,
JOHN GRIFFITHS,
JOHN WALTERS,
EDWIN ROBERTS,
EVAN THOMAS,
ROBERT PIERCE,

Diaconiaid.

Dinbych, Ebrill 17eg, 1871.

Atebiad Dr. Everett i Eglwys Dinbych.

STEBEN, ger Remsen, Gorph. 10fed, 1871.

AT EGLWYS GYNULLEIDFAOL DINBYCH :

Anwyl Frodyr a Chwiorydd—Gyda fy anwyl frawd Nathaniel Roberts derbyniais eich anerchiad caredig ataf yn llawysgrif anarferol o dlws a phrydferth Mr. Belis, yr hon a gedwir yn ofalus gan fy mhlant a'm hwyron wedi i mi huno yn yr angau. Diolchaf â chalon gynnes am eich adgoftion parchus a charedig o flynyddoedd boreu fy ngweinidogaeth yn Ninbych. Byddaf finau yn meddwl yn aml am y blynyddoedd hyny gyda theimladau dwys iawn. Bu arnaf hiraeth mawr, a pharhaodd yn hir, am yr eglwys ac am y gynulleidfa yn Ninbych. Gwelais lawer o garedigrwydd, a chefais lawer o gysur gyda y rhai sydd yn mhell cyn hyn wedi

ymadael a'r fuchedd hon. Ychydig iawn sydd wedi eu gadael ag oeddynt yn aelodau o'r eglwys y pryd hwnw. Maent hwy wedi myned at gyfeillion purach, ac i fwynhad o ddedwyddwch helaethach nag a geir yma.

Ond mae yn dda genyf feddwl am y lluaus o frodyr a chwiorydd ffyddlawn a ddaethant i mewn o bryd i bryd, i gymeryd lle y rhai fuont ffyddlon yn eu dydd a'u tymor gyda'r achos, a bod yr olwg mor ddymunol ar yr eglwys a'r gynulleidfa yn bresenol. Gwelsom ninau wahanol dywydd gyda'r achos goreu yn America yn y blynyddoedd meithion y bum yma. Gwelsom rai tymorau llwyddianus a hyfryd iawn, ac eraill yn aflwyddianus, ond o'n hochr ni y mae'r aflwyddiant bob amser, ac nid dim o'i ochr Ef.

Tro rhyfedd yn America oedd rhyddhad diweddar y caethion, a llwyr ddilead y drefn felldigedig o ymddwyn at y Negroaid fel anifeiliaid y maes. Mae yn gywilydd mawr i America, yr hon a ymfrostia mor fawr yn ei rhyddid, ei bod wedi cynal yn ei phlith drefn mor felldigedig am dymor mor faith. Ond trwy drugaredd fawr y nef mae hyny i'w gyfrif yn mhlith y pethau a fu—diolchwn yn fawr am hyny.

Yr ydwyf wedi ystyried er's blynyddau lawer bellach fod yr achos a elwir genym yr achos dirwestol, yn deilwng o fwy o gefnogaeth nag y mae yn gael yn America ac yn Mhrydain hefyd. Mae yn symudiad rhesymol, yn achos da, ac yn taro yn erbyn un o ddrygau mwyaf alaethus yr oes. Yr ydym wedi gweld cyfnewidiad mawr, wrth y peth a fu, gyda yr achos hwn, ond mae eisiau ymdrechion mwy egniol a physon eto. Ac yr wyf yn hollol o'r farn mai *llwyr ymperthod*

a'r arferiad o'r diodydd meddwol o bob math, fel diodydd, ydyw yr egwyddor y dylem lynu wrthi, yn nghyd a gweddi ddyfal at Dduw am ei fendith ar yr ymdrech er sobri'r wlad a'r byd, a dwyn pawb at y Gwardedwr.

Mae'r cyfnewidiadau mawrion sydd yn debyg o gymeryd lle yn Mhrydain drwy ysbryd rhyddfrydol yr oes —y dadgysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth —a diwygiadau eraill, yn awgrymu pethau mawrion. Mae y symudiadau hyn yn Mhrydain, terfyniad awdurdod dymorol y Pab yn Rhufain, a'r chwyldroadau rhyfedd a gymerant le ar gyfandir Ewrop y dyddiau hyn, yn dangos y gwelir golwg wahanol ar bethau ar ddim ydym ni wedi weled eto. Teyrnasoedd y byd a ddeuant yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef—ac i'w enw y bydd y gogoniant.

Yn awr, anwyl frodyr a chwiorydd yn eglwys Dinbych, terfynaf y cyfarchiad byr hwn atoch mewn atebiad i'r eiddoch. Byddwn ddyfal i lynu wrth yr Arglwydd, i symud yn mlaen gyda'r oes mewn diwygiadau, ac i fod yn ffyddlaw'n gyda holl ranau gwaith yr Arglwydd; ein henaid fyddo yn pwysu ar y taliad mawr a wnawd ar Galfaria fel sail am fywyd, a'n hymestyniad fyddo am fwy o'i ddelw anwyl ef, er ein cymwysu i'r gymdeithas sydd fry. Mae hwy'rddydd bywyd ar derfynu arnaf. Ond nid yw hyny yn ofid, ond yn hytrach yn llawenydd i mi. Gwn fod cael preswyllo yn y ty holl ddyddiau fy mywyd yn hyfryd iawn genyf, ac y mae fy ngobaith yn dyfod yn fwy clir o bryd i bryd, fel y mae cysgodion yr hwyr yn ymdaenu drosof, y caf fod byth gyda'r teulu yr ochr draw. Ond o ryfedd drugaredd a gras, ar sail iawn y

groes y bydd hyny. Ffarwel! Parhewch i weddio drosaf a thros fy anwyl deulu. Yr eiddoch yn yr Arglwydd,

ROBERT EVERETT.

Yr oedd Dr. Everett dros bedwar ugain oed pan ysgrifennodd y cyfarchiad yna, a pharhaodd am rai blynyddau ar ol hyny i rodio yn mlaen yn dawel a hyderus at adeg yr ymddatodiad, gan gyflawni yn ffyddlawn wahanol ddyledswyddau bywyd can belled ag yr oedd ei nerth yn caniatáu iddo. Byddai yn golygu y *Cenhadwr* yn ofalus, ond nid yn ysgrifenu rhyw lawer ei hun. Yr oedd yn ymwybodol fod ei nerth yn cilio a'r diwedd yn agoshau. Rhoddwn hanes ei ymadawiad yn ngeiriau ei fab, Mr. Lewis Everett, yn y *Cenhadwr* am fis Mawrth, 1875.

"Bu farw fy anwyl dad am haner awr wedi un-ar-dddeg, boreu dydd Iau, Chwefror 25ain, o *pneumonia*. Yr oedd yn 84 mlwydd oed er Ionawr 2, 1875. Bu yn lled wael a gwanaidd er ys amryw wythnosau. Effeithiodd gerwinder anarferol y gauaf arno yn bur amlwg. Boreu dydd Sadwrn, Chwef. 13eg, cyn codi, cymerwyd ef gan *chill* nes yr oedd y gwely yn ysgwyd odditano, a chwynai fod poen mawryn ei ochr dde. Ni chododd ond am ychydig fynyddau y diwrnod hwnw, ond ni adawai i ni geisio meddyg. Dydd Sul daeth Dr. Williams i fyny o'r pentref ar esgidiau eira i'w weled. Dydd Llun hysbysodd y Dr. ni mai y *pneumonia* oedd ar fy nhad, ac o herwydd ei fawr henaint a'i wendid blaenorol, ei fod yn ofni na fyddai byw ond ychydig ddyddiau. Pellebrwyd yr hysbysiad galarus at fy chwirydd yn New York a Michigan, ac at fy mrawd yn Kansas. Prysurasant oll adref i weled eu

tad cyn ei farw, oddieithr fy anwyl chwaer Elizabeth, yr hon oedd wedi tori ei braich tua phythefnos cyn hyny, ac nid oedd yn alluog i drafaelio. Daeth hefyd fy modryb o New York Mills, ei unig chwaer yn y wlad hon, i weini iddo yn ei ddyddiau olaf. Cyn diwedd yr wythnos yr oedd fy nhad rywffaint yn well, a gobeithiem y cawsai ei adferyd. Ond buan y chwalodd ein hoff obeithion. Ail afaelodd ei wendid blaenorol ynddo yn dynach nag erioed, ac ymollyngodd yn raddol dano hyd foreu y diwrnod y bu farw, pan gymerwyd ef gan dair o *chills*, y naill ar ol y llall, ac felly ar yr awr a nodwyd, yn dawel a hollol ddiymdrech y cauodd ei lygaid fel plentyn yn huno, ac y peidiodd ag anadlu.

Yr oedd fy nhad yn llawn o awydd am fyned adref i'r nefoedd drwy ei salwch byr diweddaf. Y gair cyntaf a ddywedodd wrthyf wedi i'r doctor ddywedyd mai y *pneumonia* oedd arno, pan aethum at ochr ei wely, oedd, "*I am almost home!*" Pan ofynai y doctor iddo dro arall sut yr oedd, atebai, "*Very happy;*" ac wrth fy mrawd dywedai, ei fod yn hiraethu am fyned adref, ac yn dymuno i'w blant oll ei gyfarfod yn y nefoeld. Ni soniodd un gair am wella. Yr oedd ofn marw wedi cilio yn hollol. Nid oedd un petrusder ynddo pa le yr oedd yn myned. Ac nid rhyfedd genym hyny, canys nid oedd yn gymwys i unlle ond y nefoedd.

Teimlai yn ofidus fod y gwaith ar y *Cenhadur* yn cael ei atal yn ystod ei afiechyd. Holai a oedd hanes marwolaeth rhai personau a enwai yn cael eu rhoi i mewn, ac am ysgrifau eraill ag oedd newydd eu cael pan gymerwyd ef yn sal. Yr oedd ei feddwl a'i syn-

wyrau yn hollol glir a digwmwl hyd y diwedd. Rhyfeddai y doctor lawer am hyny, am fod *delirium* mor fynych yn gydfynedol â'r *pneumonia*. Claddwyd ef yn barchus y dydd cyntaf o Fawrth.

Mae marwolaeth fy nhad yn ein gadael oll mewn dwfn alar ac yn hiraethlon am fyned ar ei ol i'r nefol wlad. Ond ar fy anwyl fam y mae yr ergyd yn disgyn drymaf, yr hon oedd wedi ei gael yn briod tyner, caruaidd ac anwyl am yn agos i driugain mlynedd."

Gorphwysa ei ran farwol wrth y Capel Uchaf, yn Steuben, a cholofn hardd uwch ei ben yn gofnod o hono.

PENNOD IV.

LLOFFYFN O DDYFYNIADAU AM DR. EVERETT.

Dyfyniad o Lythyr Mr. John R. Griffiths, Diacon yn Steuben.

Yr ydwyf yn ei gofio er ys dros haner cant o flynyddoedd, bellach, trwy y byddai yn arferol o ddyfod i Steuben i bregethu yn ei dro, flynyddoedd lawer cyn iddo ddyfod yno i weinidogaethu; a'r bregeth gyntaf wyf yn gofio i mi ddal sylw arni (pan oeddwn yn bur ieuanc), oedd oddiwrth 1 Bren. xviii. 21 : " Os yr Arglwydd sydd Dduw, ewch ar ei ol ef," &c. Yr oedd yn egluro ei faterion mor amlwg i brofi mai yr Arglwydd sydd Dduw, ac yn gwasgu mor effeithiol ar ei wrandawyr i fyned ar ei ol ef, fel nas gallasai plentyn, fel fy hunan, ddim peidio ei ddeall, a theimlo.

Yr ydwyf yn cofio yn dda, hefyd, am bregeth a dra-

ddododd yn Steuben, yn niwygiad 1838, ar y testyn hwnw (Preg. xi. 9): "Gwna yn llawen, wr ieuanc, yn dy ieuencyd," &c. Yn y rhan gyntaf o'i bregeth yr oedd yn caniatâu i ddyn ieuanc, os mynai, rodio yn ffyrdd ei galon, ac yn ngolwg ei lygaid, a mynu pob llawenydd a hyfrydwch pechadurus, &c.; ond pan ddaeth i sylwi ar y rhan olaf o'r adnod—"Ond gwybydd," &c.—troes y llawenydd a'r hyfrydwch, a'r dedwyddwch tybiol oeddym wedi gael yn y rhan gyntaf o'r bregeth, yn sobrwydd o'r fath ddwysaf. Yr oedd mor *earnest*, a mor gynhyrfus ac effeithiol wrth ddarlunio y farn, a'r perygl i ddynion fyned yno yn amharod, o'r lle mae parodrwydd i'w gael, ac yn anog pawb i geisio parodrwydd, mor daer, fel y parodd i lawer benderfynu ei geisio y noson hono.

Dywedodd dyn pur anystyriol unwaith ar ol ei wrando yn pregethu: "Yr oedd y dyn yna yn siarad fel pe buasai Duw ei hun yn siarad."

Yr oedd yn hynod yn ei ffyddlondeb i fyned at ei gyhoeddiad. Byddai yn myned i Ben-y-mynydd trwy bob math o dywydd, a phan fyddai y ffyrdd bron yn annichonadwy eu tramwy. Cyngorais ef lawer gwaith i droi yn ol (trwy fy mod yn byw ar y ffordd hono), ond yr oedd mor benderfynol fel na thrôai byth yn ol nes myned mor belled ag y gallai; a dywedodd wrthyf un tro: "Os ä dyn mor belled ag y medro tua'r nef-oedd, bydd yn sicr o gyrhaedd yno."

*Dyfyniadau o Lythyr y Parch. J. R. Griffith,
Floyd, N. Y.*

Yr oedd Dr. Everett yn ddyn a neillduolion ynddo—yn fwy felly na neb a adnabtam yn America. Yr

oedd yn ddifrifol iawn bob amser, fel y gallai pawb ddeall fod pethau pwysig yn ei feddwl. Yr oedd felly yn ei deulu—yr oedd ei dy a'i deulu yn gysegredig i Dduw. O! y parch a'r difrifoldeb fyddai yn cael ei ddangos tuag at Dduw yn yr addoliad teuluaidd. Yr oedd rhywbeth rhyfedd yn addoliad teuluaidd Dr. Everett, rhagor un arall a welais. Ac yr oedd ei anwyl briod, Mrs. Everett, yn help mawr iddo gyda'r gorchwyl pwysig hwnw. Yr oedd yn yr eglwys hefyd yn ddifrifol gyda phob peth. Edrychai yn ddifrifol, ond nid yn sarug. Yr oedd yn gweddio, cyngori, a phregethu yn ddifrifol iawn. Ac O! y fath ddifrifoldeb a fyddai i'w weled ynddo wrth fwrdd y cymundeb, pan ddywedai am ei anwyl Arglwydd wedi ei groeshoelio a marw trosom. Yr oedd yn ddifrifol gyda ei frodyr yn y weinidogaeth; ac yr oedd ei agwedd yn sibrdw yn ddystaw yn meddwl pob un, mai dyn Duw oedd; a chaffai ei barchu fel y cyfryw am ei fod ef felly.

Yr oedd hefyd yn un penderfynol. Dangosodd hyny pan yn gwrthwynebu caethiwed. Cafodd ei wawdio, ei erlid, a'i anmharchu, yn ei enw a'i feddianau, am hyny, ond safodd yn wrol dros iawnderau y caeth. Collodd lawer o ddagrau, ocheneidiodd lawer, a chyfranodd lawer o'i arian tuag at helpu y caeth a'i gael yn rhydd. Mae ei ysgrifau yn y *Cenhadwr*, ei weddïau taerion, a'i areithiau dylanwadol, oll yn dangos ei fod yn ddyn penderfynol dros egwyddorion rhyddid. Gweithiodd yn benderfynol dros ddirwest. Teithiodd ac areithiodd lawer drosti yn siroedd Oneida, Lewis, a Madison; a phe buasai yn fyw, a'i lais ganddo, ni buasai y Gymdeithas Ddirwestol mor isel

yn mhlith ein cenedl ag y mae wedi bod er ys blynyddau. Ni byddai yn erlid a dirmygu y rhai a fyddai yn ei erbyn, ond trwy fwyneidd-dra yn ceisio eu henill i'r iawn allan o fagl y diafol.

Yr oedd yn hynod am ei diriondeb a'i addfwynder. Dangosai hyny at ei deulu ac at bawb. Unwaith yr oedd ef a Mrs. Everett yn myned gyda eu gilydd ar y *train* i Utica; tynasant sylw *lady* oedd yn y *car*, tu ol iddynt, wrth weled ei sirioldeb tuag at ei briod, a'i ofal am dani, a'r ddau yn hen a llesg. Nis gallai y fonedd-iges beidio edrych arnynt; sylwodd arnynt yn dod o'r *cars*, dilynodd hwy i'r *depot*; nis gallasai yn ei byw beidio eu dilyn ac edrych arnynt, mor anwyl o'u gilydd; aeth ar eu hol yn mhell yn y dref, nes iddynt fyned i ryw dy, a bu agos iddi a myned i'r ty ar eu hol i ofyn pwy oeddynt. Cafodd wybod rwyfodd pwy oeddynt. Gadawsant argraff ar feddwl y *lady* fod crefydd yn gwneyd hen bobl yn dirfion, yn serchus eu calonau, ac yn ddymunol yr olwg arnynt yn eu henaïnt. Yr oedd Dr. Everett yn hynod o dirion ac addfwyn hefyd wrth bregethwyr ieuainc; ni wnai ac ni ddywedai ddim i'w digaloni.

Dyfyniadau o Erthygl yn y Cronicl.

GAN GRUFFYDD RHISIART, YN 1872.

Dr. Everett, neu fel yr adnabyddid ef er's triugain mlynedd yn ol, "Everett bach, o Ddinbych." I ddy-nodi anwyldeb y defnyddid yr ansoddair "bach," er nad ydyw y Dr. ond bychan o gorpholaeth.

Ionawr 19, 1872, cyflwynwyd iddo "dysteb," oddi-wrth Gymry America—tipyn dros ddau can' punt.

Dim yn hynod o fawr na bach; ond dangoswyd yno deimladau cynes iawn wrth ei chyflwyno.

A chymeryd pob peth at eu gilydd, y mae Dr. Everett yn un o gymeriadau rhyfeddaf yr oes. Y mae ef yn America y peth ag ydyw Patriarch Troedrhiwdalar yn Nghymru. Dechreuodd ei waith yn moreu ei ddiwrnod, ac yn foreu *iawn* hefyd. Daliodd bwys a gwres y dydd, ac y mae wedi dal ati hyd yr hwyr. Yr oedd ar ganol maes y cynhauaf mawr er's triugain mlynedd; ac y mae ar ganol y maes eto. Byw fyddo ef! Cyhyd a'i hen gydmar o Lanwrtyd! Gwelais Batriarch-lanc Cymru er's ychydig wythnosau yn ol. Dygwyddodd i'r ymddyddan fyned ar draws "Llane Oneida." Dangosid yno anwyldeb digyffelyb. Nid peth bach ydyw cael dyn wedi treulio oes hir heb un blotyn du ar ei gymeriad. Nid wyf yn credu y gellid nodi dyn trwy yr holl fyd yn berffeithiach yn hyn na Dr. Everett. Mae hyn yn hanfodol i ddefnyddioldeb. Mae yn *rhaid* cael cymeriad da. Gwell i weinidog yr efengyl roddi y goreu iddi, oddieithr fod ei gymeriad uwchlaw amheuaeth. Mae rhai gweinidogion mor ddi-ofal am eu cymeriad, nes y mae ar yr eglwys ofn eu gweled yn myned dros drothwy eu ty, rhag i ryw aflwydd ddygwydd. Mae hyn yn sobr; ond pwy all ei wadu? A fu pryder fel hyn ryw dro gyda Phatriarch Remsen? Na, na.

Bu Dr. Everett hefyd yn *weithiwr* difeff. Bu ganddo ofal gweinidogaethol am driugain mlynedd; dyna lafur a gofal mawr. Mae ei lais weithian yn pallu i raddau wrth siarad a chynulleidfa fawr, ond yn mhob ystyr arall ymddengys ei fod yn ei gyflawn nerth.

Gorchest-gamp Dr. Everett fel gweithiwr oedd

dwyn allan y *Cenhadwr* am dros ddeng mlynedd ar hugain. Gwnaeth hyn yn ei deulu ei hun—y golygu a'r argraffu. Dyma ddull yr hen *Gomer* yn dwyn allan y *Seren*. Mae yn fanteisiol iawn i ddwyn allan fel hyn. Ni waeth beth fyddo doethineb yr argraffydd a'r cyhoeddwr os bydd y golygydd yn lelo; ac ni waeth beth fyddo gofal y golygydd os bydd yr argraffydd yn lelo. Ond yn y *Cenhadwr* yr oedd y ddau *department* o dan lygaid y Dr. ac yr oedd hyny yn ddigon. Hynodai y Dr. ei hun fel cyfaill caredig. Mae ger fy mron fwndel lled fawr o lythyrâu a dderbyniasom oddiwrtho yn ystod ein harosiad yn Tennessee; maent yn llawn o garedigrwydd ac ewyllys da i bawb a phob peth, yn enwedig i rinwedd, a moesau da, ac efengyl y tangnefedd.

Dyfyniadau o Bregeth ar Farwolaeth Dr. Everett,

GAN Y PARCH. T. M. OWENS.

[Traddodwyd yn New York Mills, Mawrth 14, 1875, oddiwrth
ESA. lvii : 1, 2.]

Priodol iawn y gallwn gymwyso ein testyn at gymeriad, bywyd a diwedd yr anwyl a'r anfarwol Dr. Everett; yr hwn oedd yn ei holl fywyd yn llon'd cymeriad y testyn. Yr ydoedd yn wr cyfiawn, trugarog ac uniawn yn ei holl ffyrdd. Yr oedd deddf Duw yn ei galon; cywirdeb ac uniondeb oedd cyfraith ei fywyd. Nid yn aml y gwelwyd yn rhodio ar ein daear ni neb mwy diargyhoedd ei ymarweddiad; neb yn fwy nefolaidd ei ysbryd; neb yn fwy anwyl, gonest a didwyll yn ei fywyd; neb yn fwy cyson, ffyddlon a di-ildio gyda phob gwaith da. Yr

oedd yn gadarn fel y dderwen, yn bur fel y dur, ac yn ddysglaer fel y grisial.

Elfen nodedig ac amlwg iawn yn mywyd Dr. Everett oedd *ymroddiad*. Yr oedd yn ddi-ildio yn mhob peth yr ymaflai ynddo; beth bynag a gymerai mewn llaw, tafiai ei holl enaid i'r gwaith. Pan edrychir arno yn ddyd ieuanc yn yr athrofa yn Ngwrecsam, gwelir ef a'i holl egni yn casglu gwybodaeth, yn codi llawer o groesau, ac yn tori trwy lawer o rwystrau i fynu dysgeidiaeth, er addasu ei hun i fod yn weinidog cymwys y Testament Newydd.

Elfen nodedig arall yn mywyd Dr. Everett oedd ei *garedigrwydd*. Yr oedd mor dyner ei galon, a llawn o deimladau tosturiol fel pan welai ryw un mewn angen y gwnai ei oreu i'w gysuro a'i gynorthwyo. Cafodd lluaws o bregethwyr ieuainc, o bryd i bryd, brofion arbenig o'i garedigrwydd. Ymddygai yn dirion iawn atynt bob amser, a byddai yn sicr o ddyweyd a gwneyd rhyw beth i'w sirioli. Ei ddull serchus pan elai rhyw un ato i gasglu at achos teilwng, fyddai cymeryd y llyfr yn siriol a dirodres o'i law, ac ysgrifenu ei enw, ac yn gyffredin rhoddai swm galonogawl wrtho. Yna cymerai y llyfr ac elai at bawb yn y teulu, a'c yn gyffredin byddai yr amnaid leiaf oddiwrtho yn ddigon effeithiol i beri i bawb gyfranau yn llawen. Yr oedd yn bleidiwr gwresog i bob gwelliant, yn foesol, crefyddol, cymdeithasol a gwleidyddol.

Ond o bob peth nodedig ac amlwg yn mywyd Dr. Everett, *duwioldeb* oedd yr amlycaf. Yr oedd yn un mawr mewn duwioldeb, yn un cyson a gwastad yn ei ymarweddiad. Ni chafodd neb erioed achos i amheu ei grefydd. Yr oedd ei lwybr yn lân fel y goleuni,

yn llewyrchu fwyfwy hyd ganol dydd. Yr oedd yn un mawr fel gweddiwr; byddai bob amser yn dra difrifol a syml mewn gweddi. Yr oedd yn amlwg i bawb ei fod yn byw mewn ysbryd gweddi, ac yn dal cyfrinach yn ddibaid a'i Dad nefol.

Yr oedd yn meddu calon eang a rhyddfrydig at bawb sydd yn caru Iesu Grist mewn purdeb. Yr oedd ei awydd yn ddiorphwys am gael y byd i gyd i Iesu Grist, ac yn y cymeriad dysglaer a bendigedig hwn y troediodd ei oes faith a gwir ddefnyddiol, ac y gorphenodd ei yrfa mewn llawenydd.

Dyfyniadau o Bregeth ar Farwolaeth Dr. Everett.

GAN Y PARCH. SEM PHILLIPS.—Oddiwrth JOSHUA 1: 2.

Yr oedd Dr. Everett yn fawr ei wroldeb, ac yr oedd ei wroldeb yn cael ei ategu gan wirionedd, a'i nodweddi gan ras. Nid brwynen oedd a blyg ei phen o dan bwys pob awel; ond y dderwen, yr hon a ddeil i gynddaredd yr ystorm ei hysgwyd hyd y gwraidd, ac a fydd yn gadarnach wedi yr ystorm na chyn hyny. Taflai ei hun yn y modd llwyraf a mwyaf egniol a pharhaol i'r hyn a gredai yn gydwybodol oedd yr ochr iawn. Nid oedd na gweniaeth nac ofn gwng dynion a wnai iddo droi oddiar yr hyn a ymddangosai iddo fel llwybr ei ddyledswydd. Nid oedd yn cymeryd ei lywodraethu gan gyfraith cyfleusdra, ond dilynai yn ddewr a di-droi-yn-ol yr hyn a ystyriai yn uniawn. Dyn a argraffodd ei ddelw ar ei oes ydoedd.

Yr oedd gelyniaeth dwfn ynddo yn erbyn arferiadau ofer, llygredig, gwag a diles, ac yr oedd ynddo

galon ddigon dewr i lefaru yn eglur a grymus yn erbyn yr arferiad o gnoi ac ysmegu myglys, ac hefyd yn erbyn yr arferiad o yfed diodydd a gwirodydd meddwol. Yr oedd cryn wroldeb yn ofynol mewn gweinidog oddeutu 45 o flynyddoedd yn ol, er ei alluogi i dafu ei ddylanwad o blaid y mudiad dirwestol, ond gwnaeth y Dr. hyny. Yr oedd y mudiad y pryd hwnw, ac am lawer o flynyddoedd wedi hyny, yn hollol anmhoblogaidd.

Bu Dr. Everett farw wedi byw oes ryfedd o ddefnyddiol. Dywedwn heb ofni cyfeiliorni, fod Duw wedi gwneyd defnydd mawr o hono, ac na fu yn y Talaethau Unedig yma ddim un Cymro o fwy o wasanaeth i'w genedl nag y mae Dr. Everett wedi bod. Yr oedd yn meddu ar alluoedd cryfion a chymwysderau arbenig, a chysegrodd ei hun, gorph ac enaid, i fod yn ddefnyddiol i'w genedl, ac i fod o wasanaeth i ddynoliaeth a chrefydd.

Aeth Dr. Everett yn ei wisg olygyddol i wely angau, fel yr aeth Aaron gynt yn ei wisg swyddol i fynydd Hor i farw. Ni thynwyd y wisg hon oddi am dano hyd onid oedd yn y cerbyd yn myned adref, fel Elias gynt. "Da, was da a ffyddlon."

Pregeth Goffadwriaethol am y Parch. R. Everett, D. D.,

A draddodwyd yn Steuben, Mai 9, 1875,

GAN Y PARCH. WILLIAM D. WILLIAMS, DEERFIELD, N. Y.

Job 1 : 8.—"Nad oes gyffelyb iddo ar y ddaear."

Gofynir llawer o gwestiynau yn nghylch Job, megys, Pa le yr oedd gwlad Us? Ateb. Mae yn debyg mai yn y rhan ogleddol o Arabia. Pa bryd yr oedd yn byw?

Ateb. Meddylir mai rhwng amser marwolaeth Joseph ac ymddangosiad Moses. Pwy ysgrifennodd lyfr Job? Ateb. Meddylia rhai mai Moses, pan oedd yn bugeillio praidd Jethro; eraill mai Elihu, ac eraill mai Job ei hun, ar ol ei adferiad.

Cynwysa y llyfr hanes Job, ei deulu, ei gyfoeth, ei brawf, ei dlodi, a'i adferiad. Mae yr Arglwydd yn ei alw, "Fy ngwas Job." Mae'n sicr genym fod llawer o ddynion duwiol yn y byd yn amser Job. Gallem feddwl fod ei gyfeillion yn rhai enwog mewn duwioldeb; ond yr oedd Job yn rhagori arnynt oll. "Nad oes gyffelyb iddo ar y ddaear." Cymerwn fenthyg y geiriau yna, gan eu cynwysu at ein hybarch a'n hanwyl frawd, Doctor Everett. • Sylwn,

1. Nad oes nemawr o'i gyffelyb mewn *duwioldeb a bywyd sanctaidd*. Ymddygai yn dduwiol a sanctaidd yn mhob man, bob amser, ac ar bob amgylchiad. Yr oedd cymaint o rym duwioldeb yn ei lywodraethu, fel yr oedd rhyw sobrwydd neillduol yn meddianu pawb pan yn ei bresenoldeb; er ei fod yn un o'r rhai pellaf oddiwrth ragrith Phariseaidd, fel y gwelir rhai dynion yn nghymdeithas eraill, am adael yr argraff mai "Sanct-eiddiach ydwyf fi na thi;" ond yr oedd ein hanwyl frawd Everett yn ddigon pell oddiwrth hyny. Eto, meddylasom lawer gwaith yn ysbaid y deugain mlynedd y cawsom y frainc o gymdeithasu ag ef yn aml, os oedd dyn wedi ei berffeithio yn y cnawd, ac yn hollol bur o galon, mai efe oedd hwnw. Ni welsom ei gyffelyb mewn nodau o dduwioldeb, ac yn dyfod i fyny mor amlwg â darluniad y Salmydd, "Yr hwn a rodia yn berffaith, ac a wnel gyfiawnder, ac a ddywed wir yn ei galon: heb absenu â'i dafod, heb wneuthur drwg

i'w gymydog, ac heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymydog.”

2. Nad oes nemawr o'i gyffelyb mewn *gwyliadwr-iaeth*. Yn mhob lle ac yn mhob amgylchiad y byddai ynddo, yr oedd yn rhodio yn ofn yr Arglwydd. Yr oedd yn wyliadwrus yn erbyn pob drwg, ac hefyd yn gwyllo am gyfleusderau i wneyd daioni; a thrwy hyny yr oedd yn “halen y ddaear,” ac yn “oleuni y byd.”

3. Nad oes nemawr o'i gyffelyb mewn *dystawrwydd*. Un anaml ei eiriau ydoedd bob amser; a chyda'r parch mwyaf iddo, dymunem ddywedyd, ein bod wedi meddwl ambell waith ei fod i'w feio yn hyny. Tuedd y nifer fwyaf o blant Adda yw siaraf gormod lawer pryd; ond byddai ef yn ddystaw pan y tybiem y dylasai lefaru. Llauer gwaith mewn cynadleddau crefyddol, byddai hwn a'r llall yn lefaru heb roi dim goleuni ar y mater dan sylw, ac yntau yn gwrando yn ddystaw; ond pan godai i lefaru, fe geid goleuni ar y pwnc, ac yn gyffredin ni wnai neb lefaru ar ei ol. Os oedd yn ddystaw, rhaid addef ei fod yn deall y natur ddynol yn dda, a'i fod yn rhy foneddigaidd i ddiystyru un brawd.

4. Nad oes nemawr o'i gyffelyb mewn *addfwynder, tawelwch a llarieidd-dra*. Gellir dyweyd am dano fel am y Meistr mawr, ei fod “fel oen.” “Addfwyn ydoedd, a gostyngedig o galon.” “Corsen ysig nis torai, a llin yn mygu nis diffodai.” Yr oedd fel Ioan, y dysgybl anwyl, yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu, yr hwn a bwysai ei ben ar ei fynwes, a'r hwn oedd wedi yfed yn helaeth o ysbryd ei Athraw. Yr oedd bob amser fel yr *Indian Summer*. Nid weithiau yn oer, a phryd arall yn boeth. Gellir yn briodol gymwyso ato eiriau y

profhwyd Esay, 26 : 3. "Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol yr hwn sydd a'i feddylfryd *arnat ti*; am ei fod yn ymddiried ynot." Gwelsom ef yn mhen ychydig ddyddiau ar ol llosgiad ei dy, ei ddodrefn, ei lyfrau, a phregethau boreu ei fywyd; yr oedd mor dawel ei feddwl ag arferol, ac yn ddiolchgar iawn i'r Arglwydd eu bod oll fel teulu wedi cael eu cadw yn fyw, ac heb i'r tân eu niweidio. Gwyddai beth oedd cael nerth yn ol y dydd.

5. Nad oes nemawr o'i gyffelyb fel *gwrthwynebwyr i bechod*. Efe oedd y Cymro cyntaf yn Swydd Oneida gododd ei lef yn erbyn y pechod o feddwod, trwy gefnogi llwyr-ymataliaeth, ac yn erbyn y pechod o gaeth-wasiaeth. Bu yn wrthddrych gwg, gelyniaeth, ac anmharch, o herwydd ei bleidgarweh i ryddid dynol. "Er hyny arhodd ei fwa ef yn gryf." Bu hefyd yn flaenllaw yn erbyn y pechod o halogi y Sabboth.

6. Nad oes nemawr o'i gyffelyb fel *pleidiwr gwresog a haelionus i bob achosion da*. Yr oedd yn bleidiwr gwresog i'r Ysgol Sabbothol, cyfarfodydd gweddi, y Gymdeithas Ddirwestol, a'r Gymdeithas Wrthgaeth-iwol. Gwnaeth a allodd i gael y caethion yn rhyddion, a chafodd eu gwled felly cyn ei farw. Yr oedd ef a'i deulu yn cyfranu yn haelionus at bob cymdeithas ddaionus, megys, y Gymdeithas Feiblaidd, y Gymdeithas Genadol Gartrefol, a'r un Dramor, y Gymdeithas Draethodol, a'r Gymdeithas at roddi addysg i'r bobl dduon yn y De. Yr oedd yn rhoddi mwy na'i allu mewn gwirionedd. Hauodd yn helaeth, ond heddw y y mae wedi dechreu medi mewn gorfoledd.

7. Nad oes nemawr o'i gyffelyb o ran *tynerwch teimladau*. Wylai gyda'r rhai oedd yn wylo, a llawenychedd.

ai yn llwyddiant eraill. Byddai y plant bychain yn caru ei weled ef yn anad neb yn dyfod at y tai; rhedent am y cyntaf i gael ysgwyd llaw â Mr. Everett. Nid rhyfedd fod y plant yn hoff o hono, a'i wên siriol, a'i law anwyl, oblegid nid llaw wag ydoedd; byddai wrth ymadael â'r teulu yn cyfranu rhywbeth i'r plant. Dywedir am un gweinidog yn Nghymru, mai adnod fyddai ef yn ei rodde i'r plant; a dywedir am un arall yno, mai ceiniog fyddai ef yn ei rodde; a'r gweinidog fyddai yn rhoddi y geiniog fyddai y plant yn hoffi ei weled. Nid rhyfedd fod y plant bychain yn llawen-hau pan fyddai Dr. Everett yn dyfod, gan ei fod yn llawn cystal wrthynt a'r ddau arall, oblegid yr oedd yn rhoddi yr adnod a'r geiniog iddynt. Yr oedd tu-edd ei holl ymddygiadau i ddenu dynion i feddwl yn fawr am Grist a'i grefydd. Gellir dyweyd ar ei gareg fedd, "A chyfaill Duw y galwyd ef." Darfu iddo gwyflawn ddilyn ei Arglwydd trwy ei oes.

8. Nad oes nemawr o'i gyffelyb mewn *ymwadiad*. Nid oedd dim ymffrost yn perthyn iddo. Ni ddywedai air byth am dano ei hun. Nid oedd byth am gael y blaen, er y byddai ei holl frodyr am rodde y flaenoriaeth iddo. Y mae ambell i hen weinidog, pan mewn cymanfa a chyfarfod tri-misol, am gael blaenori a threfnu pwy sydd i gael pregethu, fel y gallo ef ei hun gael y lle mwyaf cyhoeddus; ond pell iawn oedd ein cyfaill Everett oddiwrth bob ymddygiad o'r fath. Llawer gwaith y clywsom ef yn dywedyd ar ddechreu cyfarfod, pan fyddai gweinidog y lle yn trefnu iddo bregethu am ddau dranoeth, "O, gadewch i mi gael dyweyd tipyn heno." Yr oedd yn un gostyngedig o galon.

9. Nad oes nemawr o'i gyffelyb mewn *sobrwydd a difrifoldeb*. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf difrifol yn ei gyfeillach. Rhyw bynciau gwerthfawr ac adeiladol fyddai bob amser yn destynau ei gymdeithas. Ni chlywodd neb ef yn adrodd chwedl wael; yr oedd fel pe buasai heb glywed y fath bethau erioed.

10. Nad oes nemawr o'i gyffelyb fel *gweddiwr*. Yr oedd yn enwog am ei weddïau taerion ar bob achos. Yr oedd fel plentyn gyda ei dad pan yn gweddïo. Yr ydym yn ei gofio agos i ddeugain mlynedd yn ol mewn cyfarfod, pan letyem yn yr un ty, fel y dygwyddai yn aml, ac y cysgem yn yr un gwely. Boreu dranoeth cododd ef yn foreu, ac ar ol gwisgo aeth ar ei liniau, a ninau yn effro yn y gwely; ond cyn iddo godi darfu i ni gyssgu, a phan ddeffroasom yr oedd ef yn parhau ar ei liniau. Meddylïasom yn y fan am Jacob yn ymdrechu gyda'r angel. Yr oedd ef i bregethu am ddeg y boreu hwnw, ac yr ydym heddyw yn cofio yn dda am yr oedfa hono; wrth ei wrando yr oeddem yn meddwl yn barhaus am ei weddi y boreu hwnw, gan ei fod yn pregethu mor dra rhagorol. "A'th Dad, yr hwn a wél yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg."

11. Nad oes nemawr o'i gyffelyb fel *dysgawdwr*. Yr oedd yn rhagori fel ysgolaig. Fel dyn dysgedig, yr oedd o flaen y nifer fwyaf o'i gyfoedion. Meddylïodd Dr. George Lewis ei gael yn athraw ar y Coleg; ond symudodd Rhagluniaeth ef i'r wlad hon, a bu hynny yn golled fawr i Gymru mewn llawer ystyr; ond bu yn elw mawr i'n cenedl ni yn America.

12. Nad oes nemawr o'i gyffelyb yn ei *goethder fel pregethwr*. Fel pregethwr, yr oedd bob amser yn dda iawn, a byddai ar amserau yn nodedig o hwyliog.

Pregethai yn felus, sobr, a chall, fel ysgrifenydd wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd, yn dwyn allan o'i drysor bethau newydd a hen; ond byddai yr hen bob amser yn gwisgo agwedd hollol newydd.

13. Nad oes nemawr o'i gyffelyb yn ei *ffyddlondeb i fyned at ei gyhoeddiadau*. Elai trwy bob ystormydd, ar bob achos, yn mhell ac yn agos, fel y byddai galwad am dano. Elai i angladdau i ardaloedd pell yn aml, a beth bynag fyddai yr hin, byddai yn sicr o fod yno yn brydlawn. Llawer gwaith y gorfu iddo adael ei geffyl ar ol, gan mor fawr yr eira ar y ffyrdd, a myned yn ei flaen ar ei draed trwy y storm. Ond heddyw gwyr am gyflawniad y geiriau, "Da, was da a ffyddlawn: dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Ni raid teithio trwy yr ystormydd mwyach. O hyn allan mae yn gorphwys oddiwrth ei lafur.

14. Nad oes nemawr o'i gyffelyb fel *gwrandawr yn gwrando ar ei frodyr*. Drwg genyf ddyweyd, ond y mae'n eithaf gwir, mai dosbarth gwael iawn fel gwrandawr yw llawer o bregethwyr, ac yn neillduol pregethwyr ieuainc hunanol, ac y mae ambell hen bregethwr yn berchen ar dalent fawr i ddiystyru ei frodyr pan fyddont yn yr areithfa. Ond pan fyddo ei gyfaill yn pregethu, pwy ond efe fydd yn agor ei lygaid, a'i Amen fawr, a mawr fydd ei swm y pryd hwnw. Ond nid gwrandawr felly oedd ein hanwyl dad, ond yr oedd fel pechadur yn gwrando cenadwri oddiwrth ei Dduw, a'i Amen anwyl, llawn o deimlad, a'i ochenaid ddwys, a'i ddagrau gloywon, yn dangos fod ei enaid yn cael gwledd ar fwrdd ei Dad, pwy bynag fyddai yn tradodi y genadwri nefol.

15. Nad oes nemawr o'i gyffelyb fel *cyfaill ffydd-*

lawn. Cyngorai fel cyfaill, cydymdeimlai fel cyfaill, carai fel cyfaill, a chynorthwyai fel cyfaill. Gallai brawd ymddiried ei oll a'i bob peth iddo, a bod yn sicr na wnelai byth ei fradychu, ac na ch'ai un byth siomedigaeth ynddo.

16. Nad oes nemawr o'i gyffelyb fel *golygydd*. Cadwodd y *Cenhadwr* yn bur; cadwodd bob sothach gwael allan o hono, fel y dywedodd y Pârch. D. Rees, Llanelli, hen olygydd y *Dioygiwr*, fod y *Cenhadwr* yn trarhagori ar holl gyhoeddiadau Cymru. Ni chaffai dim ymddangos ynddo heb fod yn meddu tuedd at wneyd daioni, ac ni roddid ef yn gyfrwng i neb fflangellu eu gilydd ynddo. Buasai yn dda gan lawer gael ynddo ychwaneg o waith y golygydd ei hun; a'i ymwadiad mawr oedd yr unig reswm na chawsent hyny. Yn y *Cenhadwr* yr ydoedd yn arweinydd i'n cenedl yn y wlad hon. Dysgwylent am ei farn ef bob amser ar bob achos gwladol o bwys, ac yr oedd ei ddylanwad yn fawr ar feddyliau y dosbarth mwyaf gwybodus trwy yr holl wlad; oblegid yr oedd yn bwylllog, yn deg, ac yn dirion iawn wrth bawb. Efenglydd ydoedd ar bob achos. Ni ddefnyddiodd air chwerw ac atgas wrth y meddwyn, nac am dano, nac am y caeth-feistri erioed; a'n gobaith yw y caiff y *Cenhadwr* ei ddwyn yn mlaen yn yr un ysbryd addfwyn eto.

ADDYSGIADAU.

(1.) Fod tywysog a gwr mawr wedi syrthio, ond nid dan draed ei elynion. Aeth fel twysen addfed; ei gorph i'r bedd, a'i enaid i'r nefoedd.

(2.) Fod ei le yn wag yn mhob man lle yr arferai fod.

(3.) Bydd ei enw yn perarogli am hir amser. Per-

arog Crist ydoedd trwy ei fywyd. “Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig.”

(4.) Nad yw duwioldeb yn cadw rhag angau.

(5.) Ei bod yn ddiamheuol fod marw yn elw mawr iddo.

(6.) Er fod y gweision yn marw, fod Brenin Seion yn fyw.

(7.) Meddylwch lawer am y pethau a glywsoch ganddo.

(8.) Fod y Beibl yn llawn o gysur i’w berthynasau a’i gyfeillion. “Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd.” Ceir ail-gyfarfod heb ymadael mwy.

(9.) Fod ei farwolaeth yn alwad uchel arnom i fod yn barod. “Y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto.”

(10.) Yr ydym wedi coffhau rhai o ragoriaethau ein hen athraw anwyl a pharchus, ond pe byddai ef yn gallu llefaru wrthym heddyw, dywedai yn eglur, “Trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf.” Nid yw harddwch a rhagoriaeth y gwas ond adlewyrchiad gwan o berffeithiau a gogoniant y Meistr mawr. Bydd ein hanwyl Dr. Everett ar ddelw hawddgar Iesu am byth. Amen.

Adgofion am y Parch. R. Everett, D. D.

GAN Y PARCH. JAMES GRIFFITHS, SANDUSKY, N. Y.

Anwyl Gyfeillion—Gan eich bod wrth y gorchwyl o wneyd cofiant i’ch parchedig dad, y diweddar Dr. Everett, bydd yn dda genyf os bydd yr ysgrif hon o ryw gymorth i chwi i gyfodi fyny y gof-golofn ydych yn fwriadu.

Yn y flwyddyn 1832, pan oedd eich anwyl dad wedi bod am agos i ddeg mlynedd yn gweinidogaethu yn Eglwys Gynulleidfaol Gymreig Utica, yr oedd amgylchiadau yn galw am iddo ymadael â'r Cymry a myned i blith y Saeson. - Ar yr adeg hono y daethum inau i America, a syrthiodd y coelbren arnaf i fod yn olynedd iddo, a bu yntau am amser yn gweinyddu yn yr ail eglwys Bresbyteraidd yn Utica. Bu amryw- iol bethau yn foddion i wneyd mwy na'r cyffredin o anwyldeb rhyngom; sef, ein bod yn hollol o'r un gol- ygiadau athrawiaethol—yr oedd cryn ddadleu yr adeg hono am rai pethau mewn athrawiaeth—yr oeddem yn cydlafurio gyda'r achos dirwestol; ac yr oeddem hefyd ein dau fel Cymry ar flaen y dôn gyda golwg ar yr achos gwrth-gaethiwol. Nid un o honom enillodd y llall at y pethau hyn; ond fel yr oeddem yn fwyaf dedwydd, yr oeddem ein dau yn llawn o'r egwyddor- ion hyny cyn i ni erioed gael y ffrainc o adnabod ein gilydd; ac yn radd o gymorth a chysur i'n gilydd wrth fyned yn mlaen drwy ein taith a'n tywydd; pan, er ein gofid a'n galar, yr oedd gweinidogion yr efengyl yn y gwahanol enwadau yn mysg Cymry America, yn ol yn mhell iawn gyda y pethau yna, ac yn gwbl glau- ar a difater yn eu cylch; a rhai mor belled yn ol nes bod yn hollol elynol. Ond gydag amser cawsom lawer o gwmni newydd o blith gweinidogion yr efengyl, a byddwn i ac eraill yn edrych i fyny arno ef fel tad a blaenor, ac i ryw raddau yn ymdrechgu dilyn ei gam- rau, ac ar amserau eraill de wisem rai llwybrau gwa- hanol i geisio dwyn yn mlaen yr achos gwrth-gaeth- iwol.

Yr oedd ef yn cwbl gredu fod caethiwed yr Unol

Dalaethau yn ffeidd-dra yn ngolwg yr Arglwydd; ac mai barn ofnadwy a ddelai os na wnelai pobl America lwyd droi heibio y ffeidd-dra hwn; a bod cwpan yr anwiredd yn llenwi gyda'r cyflymdra mwyaf. Yr oedd yn ystyriol fod dyled ar weision Crist i ddweyd yn erbyn pob pechod. Yr oedd ef ac eraill yn credu, ond i eglwys Dduw fod yn onest a ffyddlon, y delai yr holl gaeth-feistri gydag amser yn foddlon o galon i ryddhau eu holl gaethion. Dyna oedd yn ei gadw yn fyw gyda ei waith, ac nid un duedd i enwogi ei hun mewn pethau *politicaidd*. Ond yn lle gadael eu drygioni, gwnaeth y caethfeistri ymgaedu a phenderfynu mynu yr oruchafiaeth. Heb fod yn faith, cafodd ef ac eraill fu'n rhybuddio y genedl weled y gawod ddinystriol yn dyfod yn ddiarbed, a chafodd y wlad ar ddeall nad yw Arglwydd y lluoedd yn ddisylw c bechodau dynion.

Oblegid fy mod i a rhai o flaenoriaid y gynulleidfa yn Utica yn caniatáu i'ch parchus dad, Mr. Alvan Stewart, ac ambell un arall, i ddyweyd eu meddwl ar gaethiwed yn yr addoldy yn Utica, yn awr ac yn y man, ar nosweithiau o'r wythnos, pan nad oedd yn bosibl cael un capel arall na *hall* at y fath wasanaeth yn yr holl ddinas, cyfododd digter creulawn i'n herbyn gan rai o'r trigolion. Yr oedd y *Standard* yn cael ei argraffu ar gongl Whitesboro a Genesee y pryd hwnw; ac yr oedd hwnw hefyd yn achlysuero digofaint mawr ac enbyd.

Ryw ddydd Llun cyntaf o'r mis, yn y flwyddyn 1835, dygwyddodd eich tad ddod i'r dref o'r wlad, lle'r oedd ef y pryd hwnw yn aros, a daeth atom ni i'r cwrdd gweddi misol, a phan oeddem yn terfynu y cyf-

arfod clywsom ryw swm ofnadwy yn ngodre y dref, nid pell iawn oddiwrthym, a beth oedd yn bod ond y *mob* oedd wedi rhuthro i *office y Standard* yn tori yr argraffwasg, ac yn ei thafu hi a'r holl *dypes*, a'r papyr, a'r holl gelfi, allan i Whitesboro street i'w llosgi. Cawsom le i feddwl a chredu mai yr addoldy fyddai gwrthddrych nesaf eu rhuthr a'u drygioni. Yr oedd eich tad wedi d'od o'r cwrdd gyda mi i gael llety, a dyna lle'r oeddem, mor ddystaw a'r bedd, yn ofni ac yn crynu, ac yr wyf yn meddwl iddo ef anfon llawer saeth weddi i fyny i'r nef. Gwnaeth Duw i flaenor y *mob* adgofio y modd yr oeddwn ar ddwy o'r nosweithiau oeraf yn y gauaf blaenorol, wedi codi o fy ngwely a galw arno godi i achub ei geffyl oedd ar fin trengu. Cefais ar ddeall iddo feddwl beth fuasai pobl yn ddweyd am dano os gwnaethai losgi addoldy un oedd wedi gwneyd iddo ef gymaint o ddaioni; ac felly fe arbedwyd y drwg oedd rhai o'r *mob* yn fwriadu, a chafodd eich tad a ninau fel teulu dawelwch i orphwys a chysgu. Ond nid felly y bu ar bawb. Aeth y *mob* rhag eu blaen at dy Mr. Alvan Stewart, yr hwn oedd un o'r tai mwyaf o bridd-feini ar ben uchaf Genesee yr amser hwnw, gyda bwriad o'i lwyr ddinystrio. Er nad oedd Mr. Stewart yn dygwydd bod gartref, cawsant y lle wedi ei gauad i fyny yn gadarn. Daeth Mrs. Stewart i un o ffenestri y llofft uchaf, a dywedodd nad oedd un modd iddynt ddyfod i mewn heb gael mwy o niwed nag oeddynt yn ewyllysio, am fod yno haner cant o ynau llwythog, a phump-ar-hugain o ddynion galluog i'w defnyddio; yr hyn a wngalonodd y *mob* gymaint nes iddynt ymwasgaru.

Dro arall yr oedd eich tad a minau mewn *Anti-*

Slavery Convention o dri chant o *delegates*, yn yr eglwys lle mae y Parch. Dr. Corey yn pregethu yn bresenol, pan ddaeth *mob* o bum' cant i mewn i'r lle am ein penau, a'r rhai hyny yn cael eu cefnogi gan wyr mawr y dref, er mwyn cadw i fyny anrhydedd Utica yn ngolwg caeth-feistri y De oedd yn perthyn i'r *Congress* yn Washington.

Yn ystod y ddwy-flynedd-a-deugain y bum i a'ch tad yn cydweithio yn y winllan, cefais aml gyfleusderau i wybod ei egwyddorion a theimladau ei galon. Ei brif addurn oedd ei dduwioldeb diamheuol. Yr oedd ef o egwyddor yn ofni pechu; yr oedd yn cilio oddiwrth bob drygioni; ac yn nesaf at hyny yr oedd ganddo fwy o lywodraeth arno ei hun na neb a adnabyddais erioed. Yr oedd yn hynod o dyner ei galon pan fyddai eraill o weision Iesu yn pregethu, ac yr oedd bob amser yn dra gwylidwrus a gochelgar, nes bron a chario hyny i ormod o eithafion. Ond er hyny gorfuo iddo ddyoddef llawer o bethau sy'n fawr drueni fod gweision yr Arglwydd yn gorfod eu dyoddef; ond y mae hyny yn awr yn mysg y pethau a fu; ac y mae yntau wedi cyrhaedd pen ei daith, efe a'i briod drwy eu holl lafur a'u trafferthion. Y maent wedi gorphen cario y groes, ac yn bresenol mewn meddiant o'r goron.

Dr. Everett yn ei Gysylltiad a Diwygiad 1838.

GAN Y PARCH. MORRIS ROBERTS, REMSEN.

MR. LEWIS EVERETT: *Anwyl Frawd*—Yr ydwyf wedi cadw cof am eich tad er pan oeddwn yn blentyn yn Llanuwchllyn, wrth glywed son am dano gan y bobl fel pregethwr da, ac un gobeithiol iawn o fod yn

ddefnyddiol. Nid ydwyf yn cofio i mi ei glywed ef fy hun cyn ei glywed yn America, ond clywais lawer o son am dano yn nghyd â Hugh Pugh, y Brithdir; Williams, Cwmhyswn, neu y Wern ar ol hyny; a Williams, Llanwrtyd, a rhai eraill o bregethwyr ieuainc gobeithiol yn mysg enwad y *Dissenters*. Yn fuan wedi i mi ddechreu ar y gwaith o bregethu clywais ei fod yn ymfudo i'r America; a sylwais fwy yn ei gylch o herwydd fod fy nhad ar y pryd yn aros yn Utica, yn America; ac yr wyf yn cofio un peth mewn cysylltiad ag ef pan oedd ar gychwyn i'r wlad hon. Dygwyddais fod yn Llanuwchllyn yn cyd-gadw oedfa a Dafydd Cadwaladr, efe yn hen a minau yn ieuanc. Wedi myned i dy Owen Edward, Penygeulan, pryd yr oedd yn bresenol amryw o hen Fethodistiaid y lle, megys Evan Foulk, Edward y Fadog, &c., dechreuodd rhyw un ofyn i Dafydd Cadwaladr am y cyfarfod pregethu oedd newydd fod yn y Bala, ac a oeddynt yn pregethu y *system* newydd yn y cwrdd hwnw (oblegid dyna oedd testyn y siarad y pryd hwnw gan y Methodistiaid am y *Dissenters*). Atebai yr hen wr Dafydd Cadwaladr ei fod wedi bod yn y cyfarfod, a'u bod yn pregethu y Pwnc Newydd; ac, meddai, pe b'ai neb a wnai i mi gredu y Pwnc Newydd, yr Everett o Ddinbych yna a wnai hyny o flaen neb o honynt. Wel, meddai un arall, P'am hyny? Wel, meddai yntau, y mae'r olwg arno mor syml a difrifol, ei lais mor beraidd ag angel, a'i resymau yn gwbl glir a chedyrn. Wel, beth fu ef yn ei bregethu? Atebai, pregethu ar Freniniaeth Crist yr ydoedd, a dywedai fod Iesu Grist yn frenin yn mhob man, yn y nefoedd, yn uffern, ac ar y ddaear; a meddwn inau, ebe'r hen wr, os felly, pa ddyben son am

symud i'w deyrnas, gan ei fod yn frenin yn mhob man eisocs? a boddlonwyd y rhai presenol, fel na ddywedodd neb yn erbyn yr hyn a ddywedodd yr hen wr Cadwaladr. Ond yr oeddwn i y pryd hwnw yn meddwl y gwyddai yr hen bregethwr yn dda fod gwahaniaeth rhwng awdurdod Crist fel Brenin, a'i Freniniaeth rasol ar galonau y credinwyr. Mor hawdd a hyn yna oedd boddloni rhai pobl oeddynt yn selog iawn yn erbyn pob peth newydd, neu yr hyn a alwent hwy yn newydd.

Yn y flwyddyn 1831 daethum inau i'r America, a chan i mi aros ychydig yn Utica, cefais gyfle i'w weled a'i glywed, a chyfrinachu ychydig ag ef. Yr oedd ef yma tuag wyth mlynedd o'm blaen i, ac yr oedd wedi gweled llawer o bethau nas gwyddwn i ddim am danynt, a rhoddodd aml gyngor i mi fel un newydd ddyfod i'r wlad. Yr oedd ef ar y pryd hwnw ar droi at y Saeson i weinidogaethu, a minau yn dechreu gyda'r Cymry yn Utica. Byddwn yn cael cyfle i'w wrando yn y cwrdd mawr yn Steuben yn flynyddol; ac y mae yn gofus genyf am un bregeth neillduol o'i eiddo yno, oddiwrth y testyn, Heb. ii: 10, "Canys gweddus oedd iddo ef, &c." Penau ei bregeth oeddent bedwar: Yn I. Y dyben mawr mewn golwg, sef, "Dwyn meibion lawer i ogoniant." Yn II. Y ffordd a gymerodd Duw i wneyd hyny, sef, "Perffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau." Yn III. Perthynas trefn iachawdwriaeth a'r bydysawd, "O herwydd yr hwn y mae pob peth, a thrwy yr hwn y mae pob peth." Yn IV. Rheswm y Jehofa dros hyny, "Canys gweddus oedd iddo ef." Pregeth ragorol iawn oedd hono, yn enwedig am berffeithio Crist trwy ddyoddef-

iadau. Yr ydoedd yn berffaith Dduw erioed, a pherffaith ddyn trwy ei gnawdoliaeth, ac yn berffaith Iawn trwy ei ddyoddefiadau. Ac o barth i berthynas y drefn a'r bydysawd, dywedai mai nid trefn o'r neilldu ydoedd, ond trefn ger bron ac yn wyneb y cyfan i gyd; yn wyneb y ddeddf a'r llywodraeth a holl fodau moesol y llywodraeth i gyd, angylion a seraphiaid y gogoniant, a seintiau y nef, a phawb yn uffern, ac ar y ddaear hefyd, "O herwydd yr hwn y mae pob peth." Rhoddodd foddlonrwydd mawr yn y bregeth hono i lawer oedd yn ymofyn am gysondeb trefn fawr y nefoedd i gadw pechaduriaid y ddaear. Y pryd cyntaf i mi ei gyfarfod ar ol hyny oedd yn Utica, yn mis Mawrth, 1838, mewn cwrdd chwarter gan yr Annibynwyr, a minau yn myned yno i ymuno a'r Undeb hwnw fel gweinidog. Yr oedd golwg isel a di-lewyrch ar achos crefydd yn mysg pob enwad o'r Cymry ar y pryd.

Yn Utica yr oedd un Knapp, hen ddiwygiwr gyda y Bedyddwyr Seisonig, yn cadw cyrddau diwygiadol yn nghapel mawr y Presbyteriaid, o'r tu isaf i'r gamlas, er's rhai wythnosau, ac yr oedd llawer o'r Cymry yn arfer myned i'w gyrddau ef. Yr oedd un William H. Thomas, gweinidog gyda'r Bedyddwyr Cymreig yn Utica, yn mynychu y cyrddau hyny, ac yn eu mwynhau yn dda. Yn Utica, yr hwyr cyntaf cyn dechreu y cwrdd chwarter, nesaodd y Parch. James Griffiths, gweinidog y lle, ataf, a dywedodd wrthyf, ei fod yn dysgwyl y caem ni gwrdd da, ac adroddodd i mi am y cyfarfodydd a gynelid gan Knapp yn mysg y Saeson, a bod amryw o aelodau ei eglwys ef yn eu mynychu, a than radd o deimlad. Aed yn mlaen i bregethu nos Fawrth. Nis gallaf fi gofio dim am y

cwrdd, ond ei fod yn dda, fel arferol. Yr oedd y Parch. R. Everett yn bresenol, o Western, Oneida Co. Dranoeth, am 10, yr oedd dau i bregethu; ac am 2, yr oedd yr ysgrifenydd a Dr. Everett i bregethu. Yr wyf yn cofio fy nhestyn, "Na ddiffoddwch yr Ysbryd." Wrth siarad am bwysigrwydd dylanwadau yr Ysbryd Glan, eu hanog i'w maethu, a dangos y mawr berygl o'u gwrthwynebu, eu diystyru, neu eu diffodd, daeth gryn deimlad ar y bobl a'r pregethwr, a chollid llawer o ddagrau. Ar ddiwedd y bregeth, dyma Mr. Everett yn cyfodi yn y pwlpud, ac yn dyweyd na wnai ef bregethu, ond yr aem ni i lawr, ac y byddai iddo ef gynyg dull y Saeson o gynal y cyfarfod, gan fod y bobl o dan deimlad fel yr oeddent. I lawr o dan yr areithfa yr aed, ac agorodd y Parch. R. Everett y cwrdd, trwy alw y bobl i edifeirwch am eu clauarineb mewn crefydd, eu bydolrwydd, eu hesgeulusdra, a'u difaterwch gyda chadwedigaeth dynion, ac yn enwedig eu perthynasau a'u plant, a cheisiodd gan y gynulleidfa fyned ar eu gliniau, a galwodd ar Rowland Griffiths a John Rees i weddio am edifeirwch a maddeuant o'r holl bechodau. Aeth y gynulleidfa ar eu gliniau, a daeth yr aelodau oll o'r llofft i lawr, a llanwyd yr *aistes* rhwng yr eisteddleoedd yn dyn, a phawb ar eu gliniau, ac yr oedd yr olwg ar y ddau hen wr yn gweddio yn olwg orlawn o ddifrifwch. Mr. Rowland Griffiths, pregethwr cynorthwyol er dechreuad yr achos yno, ac un o sefydlwyr gwreiddiol yr achos Annibynol yn Dinas Mawddwy, G. C.; a John Rees, hen ddiakon yr eglwys, yn gloff, ac yn arfer dwy ffon i gerdded, a phwys ei ddwyllaw ar ei ffyn, a'i wyneb tua'r nef, a dwy ffrwd o ddagrau yn treiglo dros ei ruddiau, yn

dadleu drosom, a thros ei blant, nes oedd y cyfan yn foddfa o ddagrau. Yna cynygiodd rhyw un ar fod rhai o'r eisteddleoedd ar y dde yn cael eu gwaghau, i roddi prawf ar wahodd rhai oedd dan deimlad i ddyfod yn mlaen iddynt yn ngwydd pawb, a'r brawd Everett a wnaeth wahoddiad grymus i wrthgilwyr ac eraill i ddangos eu penderfyniad—dangos eu hochr, a dilyn Iesu; ac yn y fan llanwyd y lleoedd gan rai newydd, a hyny yn ngwydd pawb; a chariodd hyny dylanwad cryf ar yr edrychwyr, fel yr oedd yr holl dorf yn ymdoddi i lawr; rhai yn gweled eu ffryndiau, rhai eu perthynasau agosaf, a rhai prif wrthddrychau eu gweddiau yn tori drwyddi, ac yn dangos eu bwriad i fyned ar ol Iesu Grist.

Yn y fan penderfynwyd i'r cwrdd barhau dros ddyddiau yn mlaen; dechreu pob oedfa a chwedd gweddi; ac ar ol pregethu, rhoi cyfleusdra i rai o'r newydd ddod yn mlaen i'r meinciau gweigion, a pharhaodd felly am wyth o ddyddiau—tair oedfa bob dydd; ac erbyn yr wythfed dydd yr oedd llawr y capel hwn yn llawn o rai newydd; cynwysai, yn ddiau, o dri i bedwar cant o rai newydd. Yna cyhoeddwyd *society* nos y nawfed, sef nos Wener, i fod yn y tri chapel Cymreig, ac anogwyd pawb i wneyd eu meddyliau i fyny, a myned i'r man, ac at yr enwad a ddewisent, a'u bod i gael eu gadael yn gwbl rydd, heb i neb geisio traws-lusgo rhai at ei enwad ei hun. Aeth y pregethwyr dyeithr bawb i'w fan, gan adael i'r bobl gartref ddwyn y gwaith yn mlaen yn mhellach, a chafwyd ychwanegiad mawr at y tri achos Cymreig yn y ddinas, a chryn ychwanegiad mewn manau eraill o amgylch. Y pregethwyr a gydymdrechasant yn hyn oeddent, y

Parohn. Robert Everett, William D. Williams, James Griffiths, William H. Thomas a'r ysgrifenydd. Buodd Mr. Everett yn help mawr ar gyfrif ei oedran, a'i uchel gymeradwyaeth yn y lle, ac yn ngolwg y genedl. Dyna fel y dechreuodd y *diwygiad mawr* yn y flwyddyn 1838, yr hwn a barodd dro mawr yn achos crefydd yn Sir Oneida, ac a hir-gofwyd am dano. Eir yn mlaen i roddi parhad o'i hanes yn Steuben, &c., &c.

[Dyna i gyd a gawsom o'i hanes. Dichon mai llesgedd henaint ataliodd yr hen frawd parchus i orphen cyflawni ei amcan.]

Dr. Everett fel Pregethwr.

GAN Y PARCH. ERASMUS W. JONES.

Fel pregethwr, yr oedd Mr. Everett, yn mlynedd-oedd ei nerth, yn dra phoblogaidd; a chlywais fod ei weinidogaeth foreuol yn yr Hen Wlad yn llawn o dân. Nid wyf yn sicr fy mod wedi ei glywed yn ei ddyddiau goreu, ond yr wyf yn hollol sicr i mi glywed pregethau o enau Mr. Everett nad anghofiaf mo honynt byth. Nid rhyw lithrig iawn fyddai yn ei "ragymadrodd" i'w bregeth, ond cynyddai mewn rhwyddineb wrth fyned yn mlaen; ac nid yn unig mewn rhwyddineb, ond hefyd mewn teimlad, dwysder, a dyddordeb. Dechreuai ei lygaid duon fflamio, canfyddid gwresawgrwydd enaid yn ei wynebpryd, a chredai y gwrandawyr eu bod yn gwrandaw ar genadwri o'r orsedd. Nid â rhyw bynciau mawrion, dyrys, y byddai Mr. Everett yn ymyraeth, ond cymerai wirioneddau eglur yr efengyl, ac a'u gwasgai adref at gyflwr y pechadur. Byddai ei holl bregethau yn ddifrifol, a rhyw

gyfran o bob un yn llawn o'r elfen argyhoeddiadol. Os da yr wyf yn cofio, ni fyddai byth yn arfer yr hen hwyl gynghaneddol Gymreig; ond er hyny byddai ei lais ar gywair cymedrol, ac yn llawn melusder. Nid wyf yn cofio i mi erioed glywed gair o'i enau, tra yn yr areithfa, a barai i'r bobl wenu. Nid oedd dim o hyn yn ei natur. Buasai y fath beth o'i enau ef yn hollol annaturiol, ac yn achos o syndod i'w wrandawyr. Nid wyf yn dŷwedyd hyn er ei glod na'i anghlod, ond dyna ydoedd natur y dyn.

Y mae un bregeth arbenig o eiddo Mr. Everett ar fy meddwl, ac y mae ugeiniau eto yn ardaloedd Trenton, Steuben a Remsen yn cofio yr amser, ac yn cofio y bregeth. Traddodwyd hi yn nghwrdd mawr y diwygiad yn y "Capel Ucha," yn y flwyddyn 1838, ychydig wythnosau cyn ei sefydliad fel gweinidog yn Steuben. Y testyn oedd 2 Cor. v. 20. "Am hyny yr ydym ni yn genhadau dros Grist, &c." Yn unol ag ysbryd y testyn, anerchai y rhan annychweledig o'r gynulleidfa fel gwrthryfelwyr o dan arfau yn erbyn y rheolaidd Frenin, a galwai y gweinidogion oedd yn y cwrdd yn "Genhadau dros Grist," yn ymdrechu i'w dwyn i gymod â Duw. "Ond," meddai y pregethwr, a difrifwech goruwch naturiol ar ei wyneb, "nis gallwn fel cenhadon addaw dim i chwi fel gwrthryfelwyr. Rhaid i chwi roddi yr arfau yna o'r neilldu cyn y gall eich brenin weinyddu maddeuant." Ac fel yna aeth yn mlaen gan anerch y gwrthryfelwyr, ac yn cynyddu mewn dwysder bob moment, a'i lais mor glir ag udgorn arian, tra yr edrychai y gynulleidfa fawr arno fel un o brif swyddogion yr orsedd. O'r diwedd, safai a'i ddwyllaw yn ddyrchafedig tua'r nefoedd, a'i ddagr-

au yn liffo dros ei ruddiau, a bloeddiâu dair gwaith, "Arfau i lawr! *Arfau i lawr!* ARFAU I LAWR!" Yr oedd yr olygfa fel bron yn wyrthiol. Yr oedd nerthoedd y byd a ddaw yn cydfyned â'r genadwri; saint Duw yn bloeddio buddugoliaeth, a gwrthryfelwyr yn rhoddi eu harfau i lawr, ac yn llefain am drugaredd.

Dr. Everett fel Gwrthwynebur Caethwasiaeth.

GAN Y PARCH. ERASMUS W. JONES.

Y mae canoedd o'n pobl ieuainc na wyddant fawr am deimladau y werin, o berthynas i'r pwnc o gaethwasiaeth Americanaidd, bymtheg-ar-hugain o flynyddoedd yn ol. Anhawdd iddynt amgyffred dyfnder y gwarth a'r dirmyg a deflid ar yr ychydig bersonau a elwid yn *Abolitionists*, yn mhlith y Cymry, yn gystal ag yn mhlith eraill. Gwridai gwynebau gan ddigofaint, os meiddiai gwr Duw gymaint a chofio y caethwas truan yn ei weddi gyhoeddus yn y cysegr; ac nid oedd dim yn fwy poblogaidd a pharchus nag erlid a gwawdio y gwrthgaethiwyr. Dyma oedd y teimlad cyffredin trwy y wlad, ac yn yr holl eglwysi o'r bron. Dynion mwyaf parchus dinas Utica yn uno i dori fyny a *mobio* cwrdd rheolaidd a thawel a gynelid yn y ddinas gan gyfeillion y caethwas! Pregethwyr perthynol i'r Trefnyddion Esgobol yn cael eu dwyn i gyfrif a'u ceryddu o flaen *conferences*, am fod yn euog o fod yn bresenol mewn cyrddau gwrthgaethiwol! Dyma oedd y teimlad cyffredinol mewn gwlad ac eglwys. Y Whigs a'r Democrats yn ymryson fel pleidiau gwladol pa un a allai ymostwug iselaf o flaen y ddelw fawr gaethiwol ar wastadedd y De. Mewn am-

ser fel yna, pan oedd yr achos yn ei ddirmyg iselaf, y gwelodd Mr. Everett yn dda daflu ei holl ddylanwad o blaid y caethwas gorthrymedig.

Y fath oedd lledneisrwydd, boneddigeiddrwydd a thawelwch Mr. Everett, yn nghyd a phurdeb ei ymarweddiad, fel yr arbedwyd ef i raddau rhag llymder yr erledigaethau hyny a oddiweddasant ddiwygwyr mwy byrbwyll a thanbaid. Ond er maint ei addfwynder efengylaidd, dyrchafai ei lais fel udgorn yn erbyn pechodau yr oes, yn enwedig caethwasiaeth. Dydd y pethau bychain oedd hi gyda'r achos gwrthgaethiwol am lawer o flynyddoedd, a chwerddid am benau Mr. Everett a'i fintai fechan fel y chwarddai Sanbalat a Tobia am ben yr Iuddewon pan mewn gwendid yn ymdrechu ail-adeiladu muriau Jerusalem. Nid doeth aros yn faith ar yr amseroedd hyny, na chondemnio yn fyrbwyll y rhai a erlidiasant y gwrthgaethiwr boreuol. Yr oedd llawer o honynt yn wyr ac yn wragedd da a duwiol, ac yn credu yn sicr eu bod ar lwybr dyledswydd. Nid oeddynt wedi cymeryd amser i edrych ar gaethiwed yn ei holl echryslonrwydd. Mae y rhan fwyaf o honynt sydd eto ar dir y byw wedi llwyr gyfnewid eu barn er ys llawer o flynyddoedd, ac eraill wedi croesi yr afon mor selog yn y ffydd wrthgaethiwol ag y bu Mr. Everett ei hunan erioed.

Flynyddoedd cyn ei farwolaeth cafodd y pleser gogoneddus o weled y gadwyn gaethiwol olaf yn cael ei dryllio, a'r caethwas olaf yn cael ei ryddhau. Onid melus i'w ysbryd oedd cofio fod pob anadl yn ei fywyd hirfaith, wedi bod o blaid y caethwas ac iawnderau dyn? "Efe a welodd o lafur ei enaid ac a ddi-wallwyd."

Nid wyf yn cofio i mi erioed weled Mr. Everett, ond unwaith am ychydig fynyddau, cyn i mi ei weled a'i glywed yn y diwygiad mawr yn Steuben yn y flwyddyn 1838. Yn fuan ar ol hyn cefais y plaser a'r anrhydedd o ffurfio ei adnabyddiaeth, a'm derbyn i'w gyfeillgarwch ef a'i anwyl deulu; y rhai a gerais ac a berchais o'r awr hono hyd yr awr hon, ac er fod y weinidogaeth deithiol wedi ein gwahanu am amser maith, y mae coffadwriaeth fendigedig y teulu wedi bod yn gynnes yn fy nghof ar hyd y blynyddoedd.

Adgofion am y Diweddar Barch. Dr. Everett.

GAN Y PARCH. E. DAVIES, WATERVILLE.

Pa un a yw argraffiadau cyntaf yn debyg o fod bob amser y rhai cywiraf, ai nid ydynt, sier yw eu bod yn fynych yn ddyfnion ac arosol; fel mai gydag anhawdder mawr, yn aml, yr ymryddheir oddiwrthynt, os, yn wir, y gellir eu cwbl newid neu lwyr ddileu eu heffeithiau byth. Dylanwada argraffiadau cyntaf yn fawr i liwio a llunio ein rhagfarnau, ac felly i benderfynu i raddau helaeth gymeriad ein hargraffiadau dilynol. Os bydd yr argraffiadau cyntaf am bethau neu bersonau yn anffafriol, gosodir ni ar unwaith dan anfantais i'w parchu yn briodol, neu ymddwyn yn weddus tuag atynt. Nid oes odid neb mewn oedran a synwyr heb fod yn meddu profiad i raddau o'r mawr ddylanwad a fedd eu hargraffiadau cyntaf arnynt, er lles neu er niwed. Cyfaddefa ysgrifenydd y llinellau hyn yn rhwydd wrth ddechreu, mai ffafriol iawn oedd-ynt yr argraffiadau cyntaf a gafodd ar ei feddwl am y diweddar Barchedig Dr. Everett.

Y tro cyntaf erioed i mi weled Mr. Everett ydoedd yn Steuben, yn amser yr adfywiad crefyddol mawr a fu yno yn 1838. Nid oeddwn y pryd hwnw ond ieuanc iawn; eto yr wyf yn cofio yn dda, fy mod yn eistedd wrth ffenestr, yn ochr orllewinol yr hen *gallery* oedd y pryd hwnw yn y capel, pan ddaeth Mr. Everett mewn cerbyd i'r buarth (yr oedd y *sheds* yn llawn o gerbydau), ac y mae yr argraff a adawodd ei ymddangosiad cyntaf hwnw arnaf yn aros yn fyw yn fy meddwl hyd y dydd hwn. Yr oedd, fel y crybwyllwyd, yn adeg o adfywiad crefyddol grymus iawn y pryd hwnw yn y lle; a chyfarfodydd pregethu, cyngori a gweddio yn cael eu cynal ddydd a nos am rai wythnosau. Ac yr wyf yn cofio fod cryn son fod Mr. Everett i fod yno ar y diwrnod crybwyllledig, fel yr oedd fy nysgwyliadau wedi eu codi yn uchel iawn y diwrnod hwnw; oblegid yr oeddwn yn cael fy nysgu yn y teulu gartref i goledd syniadau uchel iawn am Mr. Everett, cyn ei weled erioed, canys yr oedd enw Mr. Everett yn barchus yn ein teulu ni er ys pan wyf yn cofio gyntaf. Nid oedd neb, byw na marw, yn America, nac yn Nghymru chwaith, ond Dr. George Lewis, Llanuwchllyn, a'r Parch Wm. Williams, o'r Wern, mor berffaith yn ngolwg fy nhad a Mr. Everett; ac ni flinai fy mam ychwaith yn son am ei ragoriaethau digyffelyb. Cefais fy nysgu, gan hyny, er yn blentyn i ystyried Mr. Everett yn un o ddynion mwyaf rhagorol y ddaear, ac yn un o gymwysaf weinidogion y Testament Newydd. A darfu i'r olwg gyntaf hono a gefais arno trwy y ffenestr, yn hen "Capel Uchaf," Steuben, sylweddoli ar unwaith i'm meddwl plentyn-aidd y syniadau uchel a goleddaswn am dano.

Y mac yn dda genyf allu dwyn tystiolaeth, ar ol adnabyddiaeth lled drwyadl o hono, am y rhan fwyaf o'r deugain mlynedd sydd wedi pasio er hyny, na ddygwyddodd dim erioed i newid y syniadau uchel am dano a goleddaswn ar y cyntaf; namyn i'w codi yn uwch, a'u gwneuthur yn fwy sefydlog a digyfnwid. Yr oedd yn wir megys "angel Duw;" ac yn un o "werthfawr feibion Seion; a chystal ag aur pur." Nid wyf yn gallu cofio dim am bregeth Mr. Everett y tro cyntaf hwnw y gwelais ef; er fod yn lled sicr genyf iddo bregethu. Ei ymddangosiad syml a difrifol, a'i drwsiad gweddus a da, yn fwy na dim arall y tro hwnw, a adawodd argraff ffafriol ar fy meddwl am dano fel gwas yr Arglwydd a gweinidog yr efengyl, yr hyn na wnaeth adnabyddiaeth helaethach a llawnach o hono ar ol hyny, ond ei ddyfnhau a'i wneyd yn annileadwy.

Yr oedd genym chwech neu saith milltir o ffordd i fyned i'r "Capel Ucha," a hyny hefyd ar ein traed, oblegid nid oedd cerbydau mor gyffredin y pryd hwnw ag ydynt yn awr; a phe buasent, nid llawer o gysur gawsai neb o deithio ynddynt, yn enwedig pan na byddai eira, gan mor newydd a garw oedd y ffyrdd. Felly nid oedd y teulu oll yn gallu cael y cyfarfodydd dyddiol hyny yn ddigoll, ac nid wyf yn gallu cofio i mi weled Mr. Everett yn ystod y cyfarfodydd hyny ond yr uuwaith a grybwyllwyd. Ac er iddo yn fuan ar ol hyny ddyfod i Steuben yn weinidog, ychydig ydwyf yn allu gofio am dano, am rai blynyddau ar ol hyny, oblegid sefydlwyd ysgol Sabbothol, a dechreuodd y Parch. Morris Roberts ddyfod i bregethu i'n cymydoggaeth (Bethel), ac anfynych ar ol hyny y byddai neb

o'n teulu ni yn myned i Steuben, oddieithr fy mam. Teithiasai hi yno am flynyddau yn ffyddlon, trwy braidd bob tywydd, ar ei thraed, ac yr oedd ei meddwl wedi ymgylmu yn dyn a'r eglwys yno. A chryn aberth iddi oedd ffarwelio â'r brodyr a'r chwirydd yn yr hen gartref, yr oedd bellach wedi ymsefydlu ynddo, ac ail-ffurfio cysylltiadau newyddion, a dechreu byw o'r newydd megys; yn eglwys ieuanc Bethel. Ond yr oedd mor bell i gerdded i Steuben, ac mor agos a chyfleus i Bethel, fel y penderfynodd o'r diwedd ganu yn iach i'w hen gyfeillion hoff yn y "Capel Ucha;" er, fel Orpah gynt, dan wylo, ac yr ymgysylltodd a'r eglwys yn Bethel, lle yr ymgartrefodd yn fuan eto, fel mai croes drom iddi ydoedd ymadael oddiyno wedi hyn y Waterville, lle y gorphenodd ei gyrfa ddaearol.

Felly o herwydd ein mynediad i Bethel, nid oeddwn mewn cyfleusdra i glywed Mr. Everett ond pan ddeuai yn achlysurol yno i gyfarfod chwarterol neu arall, neu ynte ar gyfnewid â Mr. Roberts, am Sabboth. Ond y mae genyf hyd heddyw adgof lled dda am rai pregethau a glywais ganddo pan oeddwn yn lled ieuanc. Un oedd oddiar Diar. iii. 13—18, a draddodwyd bellach er ys agos i bymtheg-mlynedd-ar-hugain yn ol, yn yr hon yr uchel-ganmolai grefydd fel "Doethineb;" ac y cymellai hi ar bawb fel y "trysor gwerthfawrocaf." Sylwai:

I. Ar y ddoethineb a nodir. Ac mewn ffordd o eglurhad darllenodd Diar. i. 7, a Job xxviii. 12—28; a dywedai mai gwir grefydd a olygid.

II. Y ganmoliaeth a roddir i'r ddoethineb hon. Ac aeth dros y gwahanol bethau a ddywedir yn y testyn o adnod i adnod, yn addysgiadol a dyddorol iawn.

Cofw'n fel y dywedai wrth sylwi yn olaf ar hyn, mai "pren y bywyd yw hi," ac mai yn mharadwys yr oedd, ac y mae, pren y bywyd yn tyfu; ac mai gwir grefydd yn unig a adferai i ddyn yr hyn a gollodd drwy bechod.

III. Gwynfydedigrwydd y rhai sydd yn feddianol ar y ddoethineb hon. Sylwai mai trwy gloddio yr oedd cael gafael ar y ddoethineb hon, ac mai gwyn ei fyd a ddalio ei afael ynddi hi, sef, 1. Yn y waredigaeth a gaiff. 2. Yn y mwynhad presenol a rydd. 3. Yn y gobaiith a gynyrcha. Codai ei sylwadau goleu ac effeithiol ddymuniad cryf ynof ar y pryd am gael gafael ar y ddoethineb a ganmolai mor fawr.

Dro arall clywais ef yn pregethu oddiar 1 Cor. xii. 13: "O herwydd trwy un ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph, pa un bynag ai Iuddewon ai Groegwyr, caethion ai rhyddion, ac ni a ddiodwyd oll i un ysbryd;" pryd y traethai yn swynol a thoddedig iawn ar *Undeb Eglwys Orist.* Sylwai yn

I. Ar natur undeb Cristionogol, sef, 1. Nid tod gwahanol enwadau yn rhoddi i fyny eu barnau a'u dulliau neillduol. 2. Nid rhoddi i fyny athrawiaethau y gair. 3. Nid teui ar ryw faterion er mwyn heddwch. Ond yn 1. Undeb yn ysbryd yr efengyl i feithrin ysbryd cariad, ac i oddef ein gilydd mewn cariad. 2. Cydweithrediad yn erbyn Anghrist a'r holl bethau sydd yn cyfodi yn erbyn achos Duw.

II. Anogaethau i undeb Cristionogol: 1. Un yw eglwys Dduw. 2. Yr un yw dybenion ei gosodiad, sef, gogoneddu Duw, rhwyddhau sancteiddrwydd ei bobl, a dychwelyd y byd at Dduw. 3. Yr un berthynas sydd rhyngddynt oll a Duw—oll yr un mor

wirioneddol blant iddo, yr un mor anwyl ganddo, ac agos ato. 4. Ewyllys yr Arglwydd yw i'w bobl fod yn un, Ioan xvii. 21. 5. Yr un rheol ogoneddus sydd ganddynt i fyw wrthi. 6. Y mae arwyddion fod yr Arglwydd yn ei ragluniaeth yn gwneuthur ei bobl yn un.

III. Y modd i gyrhaedd y dyben gogoneddus, sef, 1. Trwy i bob un ymdrechu darostwng anghariad yn ei fynwes ei hun. 2. Dylai fod yn fater o weddi yn gyffredinol. 3. Cydlawenhau yn llwyddiant gwaith yr Arglwydd yn ei holl ranau. 4. Cyfnewid doniau, newid pregethwyr, &c. 5. Cynal cynadleddau cyhoeddus er meithrin undeb. 6. Actio allan egwyddor crefydd yn ein bywyd.

Dyna fel y nodais i lawr y penau wrth ei wrando, ond maent yn mhell o gyfleu y bregeth yn ei gwres a'i bywyd fel y traddodai hi.

Cefais adnabyddiaeth helaethach a mwy trwyadl o Mr. Everett cyn hir ar ol hyny drwy y *Cenhadwr*—y rhifyn cyntaf o'r hwn a ddaeth i'n ty, ac y mae yn ymwelod yn fisol a'm hanedd, o hyny hyd yn bresenol— a thrwy ei "Gatecism Cyntaf," yr hwn a arferid yn ein hysgol Sabbothol, a'r hwn a ddysgais oll, ac a adroddais allan, drosodd a throsodd lawer o weithiau. Daethum wedi hyny yn fwy cydnabyddus ag ef eto, mewn cysylltiad a'r achosion dirwestol a gwrthgaethiwol, y rhai yn y blynyddoedd hyny a dynent sylw cyffredinol, ac a fawr gynhyrfent ein gwlad. Yr oedd ei anerchiad argraffedig ar *Gymedroldeb* yn ein ty ni er cyn cof genyf. Yr oedd yn un o'r ychydig lyfrau a feddem, yn y rhai y dechreuais ddysgu darllen Cymraeg. Yr oedd fy nhad a'm mam yn llwyr-ym-

wrthodwyr egwyddorol er pan wyf yn cofio, ac yr oedd ganddynt air mawr i "bregeth Mr. Everett," fel y galwent yr anerchiad. Ac wrth geisio sillebu allan yr anerchiad hwnw y cefais fy syniadau cyntaf am fawr ddrygedd anghymedroldeb a meddwod, ac nis gwn i ba raddau yr wyf yn ddyledus iddo am fy nghadw hyd yma rhag syrthio, fel llawer o'm cyfoedion, yn ysglyfaeth i'r gelyn a'r dinystrydd meddwol. Llwyf argyhoeddwyd fi yn fy mlynnyddoedd boreuol hyny mai llwyf-ymwrthodiad a'r diodydd syfrdanol oedd yr unig sicr ddiogelwch rhag meddwod, ac o hyny hyd yn awr yr wyf wedi cael fy nghadw o afael y brofedigaeth o yfed gwirod o un math erioed, fel diod.

Cyn hir ar ol cychwyniad y *Cenhadwr* dechreuodd y cyffroad gwrthgaethiwol gynhyrfu y wlad. Yn wir, ceir yn y rhifyn cyntaf oll o hono ysgrifau ar gaethiwed a dirwest; y gyntaf gan Cadwaladr Jones, y pryd hwnw o Cincinnati, Ohio, ond yn awr o Lanfyllin, Cymru; a'r olaf gan y Parch. Samuel Roberts, Llanbryn-mair, (S. R.), o'r *Dysgedydd*. Felly cymerodd y *Cenhadwr* ar unwaith safle ddiamwys a phenderfynol yn erbyn caethiwed a meddwod—yn erbyn y fasnach mewn dynion duon; ac yn erbyn y fasnach mewn gwirodydd i ddinystrio dynion duon a gwynion. Ac "arhodd ei fwa ef yn gryf, a breichiau ei ddwyllaw a gryfhasant, trwy ddwyllaw grymus Dduw Jacob," hyd nes y difodwyd caethwasiaeth o'r wlad, y drylliwyd cadwynau trais, ac y gollyngwyd y gorthrymedigion yn rhyddion. Gobeithio na laesa ei ddwyllaw, ac na lwfrhâ, eto, hyd nes y bydd y fasnach mewn diodydd meddwol hefyd wedi ei hollol wahardd yn mhob rhan o'r wlad.

Cefais y fraint o gydymdrechu â Mr. Everett, ar raddfa fechan, yn achosion rhyddid a dirwest yn gystal a'r ysgolion Sabbothol, er pan oeddwn yn lled ieuanc. Yr oeddwn, er pan wyf yn cofio, yn calonog gydymdeimlo ag ef yn ei ymdrechion egniol gyda'r achosion hyny. A byddwn yn arfer myned i'r cyfarfodydd mynych a gynelid er eu pleidio, yn agos ac yn mhell, hyd y gallwn, cyn bod yn ddigon hen i gymeryd unrhyw ran ynddynt. Bob yn dipyn daeth achos dirwest yn boblogaidd iawn yn ein cymydogathau, a chynelid cyfarfodydd yn aml i areithio ar yr achos. Yn gyffredin pan na ddysgwylid rhyw un dyeithr i fod yn bresenol, penodid amryw mewn un cyfarfod i barotoi areithiau erbyn y cyfarfod nesaf; a mawr y drafferth a fyddai yn aml er dysgu araeth fer o bum' mynyd ar yr achos. Yn mysg eraill cefais inau fy mhenodi yn fy nhro i siarad yn gyhoeddus ar yr achos. Ac ar ol dechreu, byddwn yn cael fy mhenodi yn lled fynych i siarad. Efallai mai oddiar yr egwyddor, ac yn ol yr hen air, "Gyru'r ci a redo" yn fwy nag oddiar unrhyw ragoriaeth ynwyf fel siaradwr, y bu hyn. Fodd bynag, yr oeddwn y pryd hwnw yn llawn sel gyda'r achos, a byddwn yn cael gwahoddiad yn lled fynych i'r cymydogathau cylchynol i anereh y bobl ar achos dirwest.

Cadwyd cyfarfodydd gwrthgaethiwol hefyd, y rhai ar y cyntaf a gynelid mewn tai anedd yn ein cymydogath ni, am fod yr achos yn newydd ac anmhoblogaidd eto. Ond yr oedd yno rai wedi cael eu meddianu gan yr ysbryd gwrthgaethiwol, fel y cadwyd y cyfarfodydd hyny yn mlaen am gryn amser, ac ni wnai y dirmyg a defnid arnynt yn lled fynych ond cryfhau eu

penderfyniad a mwyhau eu sêl i fwy o ymroad o blaid yr achos. Byddent weithiau yn cael eu cynorthwyo yn y cyfarfodydd hyn gan y Parchn. Robert Everett, Morris Roberts, a rhai eraill, yr hyn a fyddai yn galondid mawr iddynt. Cynelid yn y blynyddoedd hyny hefyd gyfarfodydd achlysurol ar achos yr ysgolion Sabbothol; ac yr oedd Mr. Everett yn bleidiwr ffyddlon i'r achos hwn hefyd. Felly, rhwng y gwahanol achosion dyngarol a daionus hyn, a'r mynych gyfarfodydd a gynelid yn y gwahanol gymydog-aethau o blaid y naill neu y llall o honynt, dygwyd fi yn lled ieuanc i gyfarfyddiad a chydabyddiaeth lled dda, a Mr. Everett fel diwygiwr.

Er ys deg-mlynedd-ar-hugain, bellach, dechreuais ddyfod i gydnabyddiaeth agosach eto a Mr. Everett, o fewn cylch y weinidogaeth efengylaidd. Ac yn ystod yr amser o hyny hyd pan y gorfodwyd ef gan heuaint a methiant i ymneillduo oddiwrth y gwaith, ni chefais neb yn fwy caredig a ffyddlon i mi nag ef. Cyfarfyddem yn dri-misol ac amlach, i gyd-gynal cyfarfodydd a chyd-bregethu. Cefais lawer cyfeillach felus gydag ef, a llawer o gyngorion gwerthfawr ganddo, yr hyn a fu yn fendithiol iawn i mi. Cyfarwyddai fi yn dyner a charedig, fel y cyfarwyddai tad ei blentyn a fawr hoffai, ac nid yn fynych fel yr oedd y blynyddoedd yn tynu yn mlaen, y byddai unrhyw achos o bwys yn dyfod o dan ei sylw na byddai yn ymgyngori â mi mewn perthynas iddo, fel pe buaswn yn henafgwr gwybodus a phrofiadol, gan mor ostyngedig a chyfeillgar ydoedd! Ffurfiwyd felly gyfeillgarwch cynes rhyngom, a barhaodd yn ddidor hyd y diwedd.

Cyfrifaf fod i mi gael fy nwyn i fyny megys o dan

ofal a nawdd y Parchn. Robert Everett a Morris Roberts, yn un o benaf ragorfreintiau fy mywyd. Mor gynnes oedd eu serchogrwydd at yr ieuanc! Mor fawr oedd eu cydymdeimlad â'r gwan! Mor dyner a charedig, ac eto mor ffyddlon a di-dderbyn-wyneb y cyngorent yr anmhrofiadol! Ac mor barod oedd-ynt bob amser, eu dau, i galonogi y llwfr a digalon! Mawr deimlaf fy ngholled am eu cymdeithas adeiladol, ac aml y daw teimlad o brudd-der drosod, wrth gofio na chaf eu cyfarfod byth mwyach ar y ddaear. I Dduw pob gras y byddo diolch am obaith gwan gael eu cyfarfod eto mewn gwlad sydd well, lle y bydd yr adnabyddiaeth yn berffeithiach, yr wybodaeth yn llawnach, y mwynhad yn fwy ysbrydol a phur, a'r gymdeithas feļus yn wastadol a diddarfod!

“Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd,
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd.”

Braslun o Gymeriad Dr. Everett.

GAN Y PARCH. H. E. THOMAS, D. D., PITTSBURGH, PA.

Ni pherthyn i mi fyned yn fanwl trwy symudiadau hanes bywyd Dr. Everett, ond cyfeirïaf yn fyr at rai o'r llinellau hyny oeddynt yn hynodi ei gymeriad. “Gwr Duw,” ysgrythyrwr cadarn, ysgolaig coeth, gwyliwr ffyddlon yn Seion, ysgrifenydd medrus, a dyn cenedl oedd Dr. Everett. Gellir dyweyd yn ddi-betrus iddo adael argraff ar feddwl pawb yn nechreu ei weinidogaeth yn Ninbych, a pharhau i ddyfnhau yr argraff hono hyd derfyn ei weinidogaeth yn Steuben, ei fod yn ddyn duwiol ac yn weinidog da i Iesu Grist. Ei dduwioldeb oedd llinell flaenaf, a choron ei gym-

eriad. Yr oedd hefyd yn arbenig o fwyn a boneddig-aid. Nid oedd dim o'r dywalgi, yr arth a'r blaidd ynddo. Yr oedd yn fwyn heb fod yn wasaidd, ac yn foneddigaid heb fod yn wenieithus. Hawdd oedd canfod hyn yn ei wedd. Yr oeddwn un tro mewn ystafell lle yr oedd Dr. Arthur Jones, o Fangor (y pryd hwnw o Gaer), yn dal i graffu ar y darluniau oeddynt yn crogi ar y muriau, a phan y daeth at ddarlun Dr. Everett dywedai, "*Ioan-like* ydyw o." Meddyliais am yr ymadrodd y foment y gwelais y person ei hun yn Nghymanfa Utica, yn 1869. O'm blaen y safai henafgwr o gorph byr ac eiddil, gwyneb crwn, llygaid gafaelgar, ac edrychiad dwys, mewn gwisg lân a thrwsiadus, a chadach gwyn am ei wddf, yn ol hen ffurf bregethwrol Cymru—dyma Dr. Everett, meddwn wrthyf fy hun, heb ymholi â neb. Na thybied neb ychwaith, er fod ganddo y llygaid mwneiddiaf, a'r galon dyneraf, ei fod yn orlaith; na, yr oedd ganddo asgwrn cefn cryf, ac ysgwyddau diblygu, a gall-ech ganfod yn ei wefusau ei benderfynolrwydd diysgog.

Rhaid ei fod yn ddyn ieuanc addawol iawn cyn y cawsai alwad i hen eglwys barchus Dinbych. Enillodd safle uchel yn fuan fel pregethwr, a llenor duwinyddol. Nid oedd yn meddu doniau ffrydlifol a chwydd-eiriog, ond yr oedd yn hynod dyner, eglur a swynol. Bu ganddo lais hygryw, treiddiol a soniarus; ond yr oedd wedi ei golli er ys blynyddoedd. Urddwyd ef yn Ninbych, Mehefin 1af, 1815, ac yn mhen y pum mlynedd wedi hyn cymerodd ran flaenllaw yn lledaen- iad yr egwyddorion a elwid y "*system* newydd"—yr oedd yn un o'r chwech enwogion a gydunasant a'r

hybarch J. Roberts, Llanbrynmair, i gyhoeddi llyfr ar y mater yr adeg hono. Ni pharodd traethodau erioed fwy o gyffro yn Nghymru. Hefyd cymerodd ran arbenig yn niwygiad mawr yr ysgol Sabbothol oedd driugain mlynedd yn ol yn ymdaenu trwy Ogledd Cymru yn neillduol. Cyhoeddodd "Holwyddor-eg i Blant," ac y mae mewn bri mawr yn yr Hen Wlad, yn gystal a'r wlad hon hyd y dydd hwn.

Ymbriododd ag un o ferched yr hen amaethy enwog Rosa, ger Dinbych, a chafodd wraig dda, a buont mewn undeb priodasol am oddeutu triugain mlynedd. Wedi gweithio yn galed a llwyddianus yn Ninbych am wyth mlynedd daeth i Utica i weinidogaethu, a chafodd fyw i wasanaethu ei enwad a'i genedl yn y wlad hon am oddeutu deuddeg-mlynedd-a-deugain. Fel golygydd y *Cenhadur* am bymtheg-mlynedd-ar-hugain y bu efallai yn fwyaf defnyddiol i'w enwad, ac yn wir i'w genedl. Rhywychedig iawn yn mysg llu o lenorion a allent gyflawni y swydd bwysig o olygu cylchgrawn crefyddol; ond cafodd ef ei ddonio gan Dduw i fod yn olygydd. Nid yn unig yr oedd yn ysgrifenydd medrus ei hun, ond yr oedd yn nodedig o graffus i ganfod rhagoriaethau a diffygion eraill. Yr oedd gan yr eglwysi ymddiried yn ei farn, ei degwch, a'i awyddfryd i wneyd daioni. Nid y llenor mwyaf beiddgar a chynhyrfus bob amser yw y golygydd goreu, yn enwedig i gyhoeddiad enwadol. Y mae yn ddiâu iddo ef gwrdd ag adegau cynhyrfus ac amgylchiadau cyfyng iawn, a buasai diofalwch neu hunangarwch yn peri blinderau enbyd i'r eglwysi. Gellir olrhain y rhwygiadau eglwysig a'r terfysgiadau enwadol yn fynych i ddiffyg craffder neu orlymder golygwyr newydd-

iaduron neu gylchgronau. Ond gwyliai ef yn graff bob ysgrif, a gofalai rhag y gwenwyn ar y saethau. Dichon fod rhai yn tybio ei fod yn rhy ochelgar, ond canfyddai ef y perygl yn brydlon. Fel hyn y bu yn wasanaethgar i gadw heddwch yn yr eglwysi a thangnefedd rhwng y brodyr.

Bu yn bleidiwr egniol a chydwybodol i wahanol symudiadau daionus a diwygiadol yr oes, yn wladol a moesol. Teimlai ef dros y caeth oedd yn agored i gael ei werthu o feistr i feistr, er mai du oedd ei groen, a thlawd oedd ei amgylchiadau. Llefaroedd yn gryf yn erbyn caethwasiaeth pan yr oedd yn beryglus gwneyd hyny, a phan yr oedd y fasnach yn dwyn elw i filoedd. Gwnaed coffadwriaeth yn y nefoedd am ei sel, ei lafur, a'i ddadleuon teg dros ryddid y dyn a'r ddynes, y meibion a'r merched duon, oeddynt yn agored i fflangell, ac a wylid gan y cwn gwaedlyd. Cafodd fyw i weled eu jubili, ac i glywed eu caniadau. Bu yn ddiysgog nes cyrhaedd ei nod, ond amlygodd dynerwch at ei hen erlidwyr. Ni chafodd dirwest un pleidiwr mwy ffyddlon. Edrychai ar y meddwon mewn caethiwed echryslon, a chysegrodd ei dalent a'i ddylanwad i'w dwyn hwythau i dir rhyddid. Ni roddai ddirwest yn lle crefydd, ond yn wasanaethgar i dywys dynion at grefydd, a'u cadw yn ei llwybrau glan a hyfryd hi. Yr oedd yn elyn cydwybodol i ysmocio, nid oddiar ryw chwim, ond oddiar argyhoeddiad cryf fod mygllys yn niweidiol i'r corph, a'r arian a delid am dano yn wastraff o'r fath fwyaf gwarthus. Gwnaeth ei ymddygiad a'i gynghorion dwys a thadol les i laweroedd. Credai mewn diwygiadau gwladol, ac ysgrifennodd ei ran dros y mesurau a farnai er lles ei wlad. Nid oedd

arno ofn y Phariseaid a rwgnachent yn erbyn gwleidyddiaeth y gweinidog. Teimlai ei fod yn ddyn a dinesydd, yn gystal a phregethwr yr efengyl. Hir-aethai am weled y ddaear yn dyfod yn fwy tebyg i'r nefoedd, a gweithiai ei ran i gael hyny o amgylch. Nid yn y cysgod yr oedd efe pan yr oedd sefydliadau ei wlad yn y perygl, ac egwyddorion llywodraeth deg ar fin cael eu diorseddu. Yr oedd yn y rhengoedd blaenaf yn ymladd yn erbyn twyll a gormes. Mewn gwirionedd, un o gadfridogion dewraf rhyddid a thegwch gwladol oedd y diweddar Dr. Everett.

Fel hyn y treuliodd oes faith gyda phethau crefydd, moesoldeb, a gwleidyddiaeth, nes marw yn ei barch, yn tynu at y pump-a-phedwar-ugain oed. Y mae y llaw fach dyner a boneddigaidd fu yn defnyddio yr ysgrifell i wasanaeth mor bur a gwerthfawr wedi gwywo; a'i gorph yn huno yn dawel yn Steuben, fil-oedd o filltir oedd o Gronant, y fan y ganwyd ef yn nechreu Ionawr, 1791. Caffed ei blant a'i berthynasau bob tynerwch gan ddynion, er mwyn yr "Hen Olygydd" sydd yn y briddell, a bydded "yr Arglwydd ardderchog" yn noddwr i Seion, ar ol i un o'r gwylwyr fyddlonaf fyned i orphwysfa lle nad oes gelyn.

Coffadwriaeth Dr. Everett yn West Winfield, N. Y.

WEST WINFIELD, N. Y., Mehefin 26, 1879.

Fy Anwyl Frawd Davies—Deallwyf eich bod yn nglyn a'r gorchwyl canmoladwy o ysgrifenu hanes bywyd y diweddar Barch. Robert Everett, D. D. Mawr lwyddiant a hwyl i chwi yn y gwaith; a phan ddel y gyfrol allan o'r wasg, bydded galwadau am

dani wrth y miloedd, a gwasgarer hi trwy hyd a lled y sefydliadau Cymreig. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig;" a mwy bendigedig na'r cyffredin, feddyliwn i, a ddylai fod coffadwriaeth Dr. Everett.

Ychydig dros flwyddyn yn ol, trwy droad yr olwyn weinidogaethol, gosodwyd fi i lawr yn West Winfield. Yn fuan ar ol sefydlu yma, un prydawn aethum i addoldy hardd yr Annibynwyr Seisonig. Ar ol diweddu y cwrdd, cyfeiriodd Capt. Owen Griffith fi at un o'r ffenestri cang a phrydferth, ac arni mewn llythyrenau euraidd eglur, canfyddais, "IN MEMORIAM REV. ROBERT EVERETT, D. D." Yn y fan teimlwn fy nghalon yn gwresogi, a'm llygaid yn llenwi.

I lawer o'r bobl henaidd yn y rhan yma o'r wlad, yn enwedig plwyf Winfield, y mae enw Dr. Everett nid yn unig yn dra adnabyddus, ond hefyd yn dra anwyl. Braidd erioed ni welwyd bugail eglwysig a gerid yn fwy gan bobl ei ofal, nag y cerid y Parch. Robert Everett gan yr Eglwys Gynulleidfaol Saesoneg, yn East Winfield, ychydig dros ddeugain mlynedd yn ol. Cefais y pleser yn ddiweddar o ymddiddan o berthynas iddo gyda rhai o'r hen ddiaconiaid, a rhedai eu dagrau pan yn coffa ei ymddygiad llednais a boneddigaidd, a'i weinidogaeth alluog ac efengylaidd.

Y mae yr addoldy yn mha un y pregethai Mr. Everett yn Winfield wedi ei dynu i lawr, ac y mae llawer o'r hen ddefnyddiau yn yr addoldy newydd yn mhentref West Winfield. Ond er tynu yr hen deml i lawr, a myned i addoli i fan arall, fel y dywedais o'r blaen, ni anghofwyd eu hen weinidog, ac ni ang-

hofir ef ychwaith tra y gwelir ei enw yn dysgleirio ar y gwydr lliwiedig yn addoldy harddaf y pentref.

Yr un mor barchus hefyd ydoedd ei deulu dyddorol. Cofir am Mrs. Everett a'r plant hynaf gyda pharch a phleser. Gallwn ysgrifenu llawer mwy, ond nid oes un angen. O, fy anwyl Davies! y mae y cyfleusdra hwn o gael dywedyd gair o barch i Mr. Everett yn rhoddi i mi bleser annhraethadwy. Ni fum erioed yn deilwng o ddwyn ei esgidiau, ond bob amser talai i mi bob parch a charedigrwydd. Cefais yr anrhydedd, tra eto yn ieuanc, o gyfranogi ychydig yn ei amharch fel cyfaill i'r caethwas; "yr hyn brofiad a goleddir genyf heddyw, fel rhywbeth o fwy gwerth nag

— aur Peru,
A pherlau'r India bell."

Yr eiddoch yn rhwymau'r efengyl,
ERASMUS W. JONES.

PENNOD V.

Dr. Everett fel Golygydd a Llenor.

Perthyna i'r enwad Cynulleidfaol dri o gedyrn ydynt wedi gwneyd gwasanaeth gwerthfawr ar y maes golygyddol, sef y Parch. Cadwaladr Jones, Dolgellau; y Parch David Rees, Llanelli, a'r Parch. Robert Everett, D. D. Bu y cyntaf yn olygydd am un-flynedd-ar-ddeg-ar-hugain, yr ail am ddeg-mlynedd-ar-hugain, ond bu yr olaf wrth y gwaith am un-flynedd-ar-bym-theg-ar-hugain. Llafuriodd yn helaethach nag un o'r lleill.

Dysgawdwr oedd golygydd y *Dysgedydd*; dyn araf a phwylllog, yn gweithio ei ffordd yn rymus ar y maes duwinyddol mewn tymor o ymchwiliad a dadleu mawr. Diwygiwr oedd Rees, yn cyfateb i enw ei gyhoeddiad. Yr oedd yn llawn o ysbryd ymosod ar gysylltiad eglwys a llywodraeth, a phob gormes a llygredigaeth gwladol ac ysbrydol. Ond yr oedd rhagoriaethau a phrif nodweddau y ddau yn cyd-gwrdd yn Dr. Everett. Yr oedd yn ddysgawdwr araf, pwylllog, a ffafriol i welliant duwinyddol, fel Jones; ac yn ymosodwr pybyr ar gaethiwed, gormes a llygredigaeth o bob math, fel Rees. Dichon nad anmhriddol cymwyso ato eiriau y bardd Seisonig, Dryden:

“The force of Nature could no farther go,
To make a third she joined the former two.”

Wrth ddarlinellu nodwedd Dr. Everett fel golygydd a llenor, sylwn:

1. *Ei fod yn llafurus a gweithgar.* Anturiaeth anhawdd a beiddgar oedd cychwyn cyhoeddiad misol fel y *Cenhadwr* yn America. Nid oedd yma ond ychydig iawn o frodyr yr amser hwnw yn meddu ar gymwysderau i'w gynorthwyo, fel gohebwy. Gallasai un sir yn Nghymru roddi mwy o gymorth i'r golygyddion yno nag a allasai yr Unol Dalaethau oll roddi i Dr. Everett. Gwaith rhwydd yn Nghymru oedd sierhau deuddeg o erthyglau arweiniol galluog yn mlaen llaw cyn diwedd un flwyddyn, gogyfer a'r flwyddyn ddyfodol, ac ambell un o'r cyfryw yn werth y cyhoeddiad am y flwyddyn; ond ofer fuasai i neb feddwl am hyn yma. Dan yr amgylchiadau a fodolent y tu yma i'r Werydd yr amser hwnw, yr oedd dwyn y *Cenhadwr* allan yn brydlawn bob mis yn sier o fod yn costio

llafur caled i'r golygydd. Heblaw yr erthyglau y ceir ei enw wrthynt, byddai yn cyflawni llawer o galedwaith mewn ffordd o gyfieithu, talfyru, a threfnu newyddion y mis, diwygio gwallau, trefnu gohebiaethau, a gorchwylion cyffelyb nad oes dim clod yn deilliaw o'u cyflawni, er eu bod yn trethu amser ac amynedd y golygydd yn drwm. Nid swydd segur oedd ganddo, ac nid pleserddyn llenyddol ydoedd; ond gweithiwr diwyd. Diameu i'w orchwylion llenyddol, yn ychwanegol at ei waith gweinidogaethol, fod yn llafur caled iddo, ac iddynt ei amddifadu o lawer awr o adloniant yn y dydd, ac o gwsg yn y nos. Ond nid ydym yn cofio ei fod yn ei anerchiadau yn achwyn dim ar ei galedwaith. Ystyriai ei bod yn fraint i gael gweithio dros Dduw a llesoli ei gyd-ddynion. Ar ddiwedd y flwyddyn 1841 dywedai, "Trwy dirion drugaredd yr Arglwydd, wele yr ail gyfrol o'r *Cenhadur Americanaidd* wedi ei gorphen. Boed diolch a mawl i'w enw daionus am y cymorth a roddwyd yn y gwaith, ac am y llwyddiant a'i dilynodd. Awn yn mlaen eto yn siriol a chalonog, gan ymddiried yn y fraich a'n cynaliodd hyd yma." Dengys y llinellau yna yr ysbryd oedd yn ei lywodraethu, a pha le yr oedd cuddiad ei gryfder yn y cyflawniad o'i waith caled.

2. *Ei fod yn ysgrifenydd eglur a naturiol.* Y mae rhwyddineb a naturioldeb yn prydferthu pob erthygl a ddaeth o dan ei law. Mae ei ysgrifau yn hynod o lathraidd a llyfn, ac yn hyfryd i'w darllen. Yr oedd yn ieithydd medrus a chywir, a'i eirweddian yn rymus, ac eto heb fod yn arw. Cadwodd ganol y ffordd yn dda rhwng ieithwedd sych a thlawd a gorffrwyth-

londeb chwyddieithiol. Nid oedd yn defnyddio iaith mor flodeuog ac ansoddeiriol ag S. R., nac yn gorfanylu mor aml-eiriog a chwmpasog a D. Morgans, Llanfyllin. Dengys ei ysgrifau lawer o drefnusrwydd, Dosranai ei faterion yn naturiol a rheolaidd. Nid oedd ei feddyliau wedi eu hamdoi mewn niwl a thywyllwch, ond yr oeddynt yn berffaith eglur i bawb darllenwyr o gyrhaeddiadau cyffredin. Gan ei fod yn feddylwr clir a goleu ei hun, yr oedd yn medru gwneyd ei feddwl yn glir a goleu i eraill. Pe cymerai llenor at un o'i ysgrifau i geisio gosod ei meddyliau allan yn fwy trefnus, mewn geiriau mwy priodol, ac mewn ffordd ferach a thlysach, buan y canfyddai ei fod wedi ymosod ar dasg pur anhawdd ei gyflawni. Yr oedd ei arddull yn syml, pur a chlasurol, ac nid yn flodeuog a chwyddedig. Os nad oedd yn berchen ar athrylith a hyawdledd fflamiol y Llywydd Samuel Davies a Dr. Chalmers, neu ddirnadaeth ymresymiadol graffus a gorddwfn Jonathan Edwards, Dr. Emmonds a Dr. N. W. Taylor, eto yr oedd yn ddyrn rhyfedd o gyflawn, yn berchen meddwl wedi ei fantoli yn dda, ac yr oedd ynddo gygyfarfyddiad llawer o gymwysderau mawrion, y rhai a osodid ar waith ganddo gyda chysondeb, purdeb a diwydrwydd diarbed. Nid rhaiadr y Niagara yn "synu, pensyfrdanu dyn," oedd ei athrylith, ond afon y Mississippi, yn araf deithio mewn mawredd tawel tua'r cefnfor.

3. *Ei fod yn gall a boneddigaidd.* Dywedai Gruffydd Risiart (brawd S. R. a J. R.) am dano: "Y mae golygydd y *Cenhadwr* yn meddu ar radd werthfawr o gallineb—cymwysder hanfodol i olygydd cylchgrawn.
* * * * Yr oeddwn yn arfer meddwl mai Har-

ris, Abertawe, oedd y callaf yn ei oes am drafod 'gohebwy'r;' medrai droi yr hen J. R., Llanbryn-mair, oddeutu pen ei fys. Ond nid pell ar ei ol ydyw y patriarch o Remsen yn y dawn tra gwerthfawr hwn." Pe dywedasai fod Dr. Everett yn llawn mor uchel a Harris mewn callineb, credwn y buasai yn llygad ei le. Yn ei holl ymdrafodaeth a gohebwy'r a llenorion, ni chlywsom am neb erioed wedi ei gyhuddo o anfoneiddigeiddrwydd. Bu yn gyfyng arno rai gweithiau yn amser dadleuon poethion a therfysgoedd ac ymraniadau eglwysig, pan fyddai pob ochr yn awyddus i droi y *Cenhadwr* yn beiriant rhyfel i ymladd drostynt hwy; ond trwy ei fwyneidd-dra a'i gallineb, byddai yn llwyddo fynychaf i dawelu y pleidiau a'u cadw rhag tramgwyddo wrth y golygydd a'r cyhoeddiad. Ond eto nid bob amser, oblegid er ei fod yn foneddigaidd, yr oedd yn benderfynol i wneyd yr hyn a farnai yn uniawn; a chlywsom am rai wedi digio yn anfaddeuol wrtho ef a'r *Cenhadwr*, pan ddylasent yn hytrach fod wedi digio wrthynt eu hunain. Yn ei gyfarchiad i'r darllenwyr yn niwedd 1842, y mae yn dyweyd: "Canfyddir gan ein darllenwyr fod mwy o '*Ddadleuaeth*' wedi cael ei ddwyn yn mlaen yn y *Cenhadwr* y flwyddyn hon nag o'r blaen, a thebygu y mae yn awr na bydd dim llai eto, o leiaf am beth amser i ddyfod. Ond tra y byddo ymosodiad yn cael ei wneyd ar yr hyn a ystyriym yn wirionedd safadwy a thragywyddol y Beibl, nis gallwn lai na dymuno fod ymdrechladau ffyddlawn yn cael eu gwneyd i amddiffyn y gwirionedd, a'i egluro yn ei symledd, ei ardderchawgrwydd, a'i ddwyfoder, pwy bynag a'i gwrthwynebo. Ond yr ydym yn taer erfyn ar fod hyn yn cael ei wneyd

mewn *ysbryd addfwyn*. Oni wna ein gohebwy'r hyn-aws wrando ar y gyngor yn hyn, a gwylio rhag *ysbryd* a *geiriau* anfwyn ac annhirion? Ni wna geiriau felly ddim lles i'r gwirionedd—ni effeithiant er gogoneddu Duw—ac ni chânt yn sier un effaith dda ar y gwrthwynebydd. O frodyr! ynte, byddwch dirion, tra yn amddiffyn gwirioneddau gogoneddus ein bendigedig Iesu." Dyna eiriau teilwng o ail-argraffiad er mwyn i ddadleuwyr y dyddiau presenol eu gweled.

Yr oedd yn well gan Dr. Everett ddyoddef cam oddi-ar law enwadau eraill na dwyn yn mlaen ryfel enwadol. Yn 1842 cyhoeddwyd llyfryn yn ceisio llechwraidd drywanu yr enwad Cynulleidfaol, fel un yn ngafael "*yr egwyddor o hunan-fawredd, yn gwrthwynebu pen-arghwyddiaeth gras Duw yn nhrefn cadwedigaeth pechadur.*" Awgrymid ynddo fod golygiadau yr enwad yn heresi, a'i weinidogion yn offerynau Satan, yn cyflwyno i'r bobl wenwyn cyfeiliornadau. Daeth rhai o'n gweinidogion allan i amddiffyn eu hunain, fel yr oedd yn deg iddynt wneyd. Pan welwyd hyny codwyd llef am "*ysbryd erledigaethus*" y *Cenhadwr*. Rhwydd iawn fuasai i Dr. Everett ddangos pwy oedd wedi dechreu ymosod, wedi arfer yr iaith fwyaf ddirmygus, a dangos fwyaf o *bigotry*, ond fel hyn y dewisodd ef siarâd. "Mae ein brawd yn camfeddwl am danom pan yn ein cyhuddo ar amlen y ——— diwedda'f o 'ysbryd erledigaethus.' Nid ydym yn teimlo awydd erlid, frawd, ond i'r gwrthwyneb yn hollol, ein dymuniad yw cyd-lafurio yn ngwinllau ein Harglwydd, ac ymosod, nid ar ein gilydd, ond ar y gelyn cyffredinol yn mhob dull a ffurf y ceir ef yn mhlith dynion. Ac os bydd i ohebwy'r y *Cenhadwr*, mewn

hunan-amddiffyniad neu amddiffyniad o'r hyn a ystyriant yn wirionedd o bwys, gyffwrdd dim â gweithiau a ymddangosant yn y ——— neu eiddo y golygydd, ni chaiff dim ymdrech o'n tu ni fod yn eisiau (er nad ystyriym ein hunain yn gyfrifol am ysgrifau ein gohebwy'r), idd eu henill i fod yn dirion wrth bawb—i beidio dwyn cyhuddiadau neu achwyniadau disail yn erbyn neb, ond cofio y rheol euraidd i 'wneyd i ereill fel yr ewyllysiem iddynt wneyd i ninau.' Ond drosom ein hunain, gwell genym fil o weithiau fydd dadleu dros y caethwas, dros ddirwest, diwygiadau crefyddol ac achosion o'r fath, na dadleu â'n gilydd am bynciau nad ydym, wedi y cyfan, yn mhell iawn o fod o'r un feddwl yn mherthynas iddynt; a hyderym y bydd ein gohebwy'r yn lled gyffredinol o'r un feddwl a ninau." Dyna ffordd dirion a boneddigaidd i ateb camgyhuddiad. Dichon fod rhai yn meddwl y dylasai ei sêl fod yn fwy enwadol, ond credwn na fu yr enwad ddim ar gollod o herwydd boneddigeiddrwydd Dr. Everett. Credwn ei fod yn gystal duwinydd a Jones, Dolgellau, ond nid oedd mor hoff o ddadleuon duwinyddol; a chredwn ei fod yn gystal diwygiwr a Rees, Llanelli, ond nid oedd yn hoffi ergydio ei wrthwynebwyr mor drwm. Yr oedd yn hynod o dyner a didramgwydd wrth geisio dysgu y rhai gwrthwynebus, a'i eiriau yn diferu mor dirion ag ambell gawod faethlon yn mis Mai.

Gwelsom awgrymiad ceerus un tro fod ei foneddigeiddrwydd yn codi oddiar ofn a llwfrdra, ond cabldraeth resynus ydoedd. Cafwyd profion cedyrn lawer gwaith y medrai sefyll mor ddiysgog a'r graig dros yr hyn a farnai yn iawn, gan nad pwy fyddai yn digio. Er

engraifft, un tro anfonodd pregethwr o Ohio ysgrif ato ar ryw ffrwgdw eglwysig, gyda gorchymyn i atal rhifynau chwech o dderbynwyr os na chyhoeddi hi. Hysbysodd Mr. Everett ef yn y modd mwyaf tawel a digyffro, nad oedd ei ysgrif o ran ysbryd a iaith yn deilwng o'i chyhoeddi, ac yr atelid y rhifynau oddiwrth y chwe' derbynydd o hyny allan, os na anfonent archebion adnewyddol am danynt.

4. *Ei fod fel ysgrifenydd yn nodedig o bleidiol i ddyngarwch a rhyddfrydiaeth.* Ni fu erioed well cyfaill i freiniau dyn ac egwyddorion rhyddid. Gellid meddwl ei fod wedi ymdyngedu i frwydro yn erbyn pob gormes, anghyfiawnder a chaethiwed, fel yr oedd Hannibal wedi ymdyngedu yn erbyn y Rhufeiniaid. Gellir dywedyd yn ddibetrus mai efe oedd prif arwr y blaid wrthgaethiwol yn mhlith Cymry America. Pan yr oedd llawer o weinidogion y wlad, athrawon colegau a golygwyr y cyfnodolion yn chwareu rhan Meroz, yr oedd Dr. Everett fel Naphtali ar uchel-fanau y maes mewn ymdrechfa angeuol â'r gelyn caethiwed, y gelyn erchyllaf a welodd America erioed. Pan fyddai rhai o'n golygyddion Cymreig yn achub cyfle yn awr ac yn y man i dywallt dirmyg ar yr *Abolitioniaid*, neu roddi hergwdd gyfrwys i'r mudiad gwrthgaethiwol, yr oedd yntau yn unplyg a dihoced, fel prophwyd Duw, yn dyrchafu ei lais yn uchel, croyw a phenderfynol yn erbyn y gelyn mawr. Ysgrifennodd lawer yn onest a chydwybodol, a fel dros Dduw, yn ei erbyn. Yn y llythyr cyntaf gawsom oddiwrtho, draw yn Nghymru, crybwyllai am gaethiwed fel y prif elyn i frwydro ag ef yn America, a dangosai awydd i gasglu help o bob man i ymosod arno, ac i lenwi ereill â'r cariad at

rhyddid oedd yn llosgi yn ei fynwes ei hun. Dywedai un tro: "Yn mhlith amrywiol wrthddrychau a ymddangosant i'n meddwl yn werthfawr a theilwng, nid y lleiaf yw achos y caethwas. Credym mai yr ymdrech a wneir yn yr oes bresenol i ddileu y gaethfasnach a'r caethwasanaeth o'r byd yw diwygiad *penaf* yr oes a'r gwledydd, ac yr edrychir yn ol at y blynyddau hyn yn mhen ugeiniau i ddyfod, i.e., yn mhen canrifau i ddyfod, fel 'blynyddau deheulaw y Goruchaf,' o herwydd yr ymdrechion a wneir, a'r frwydr foesol y gweithredir ynddi i gyrhaedd y gwrthddrych a enwyd, ac i godi y dosparth yma o ddynion i sefyllfa wareiddiedig a phriodol i weini iddynt gyfryngau a moddion eu tragwyddol iachawdwriaeth."

Nid allodd gau-wladgarwch na brwdfrydedd rhyfelgar yn amser rhyfel Mexico ei ddallu rhag canfod ei wir amcan fel mesur pleidiol i gaethiwed, a bu yn wrthwynebydd cyson iddo. Yn amser dinystriad cyfaddawd Missouri, ac yn amser brwydrau rhyddid yn Kansas, yr oedd ysgrifell golygydd y *Cenhadur* ar waith yn ddiwyd a diarbed bob mis yn paratoi olofnau helaeth o ddarlleniad nerthol a chynhyrfus ar sefyllfa pethau; ac yn holl ddyddiau meithion a thywyll y gwrthryfel ni laesodd am foment, ni ddiffygiodd ei ffydd, nid ymollyngodd ei ysbryd, ond daliodd yn wrol yn rhes flaenaf y gwrthgaethiwr nes gweled caethiwed yn trengu. Gwnaeth wasanaeth anmhrisiadwy i achos rhyddid yn ystod yr ymdrechfa wrthgaethiwol.

Bu yn bleidiwr ffyddlawn i ddirwest, ac yn wrthwynebydd anghymodlawn i bob blys ac anghymedroldeb. Cafodd achos addysg a'r holl gymdeithasau

Cristionogol gymorth ei ysgrifell weithgar a galluog. Yr oedd yn ddyn o feddwl eang ac o ysbryd cyhoeddus, a'i gyd-deimlad yn cyrhaedd can belled a therfynau eithaf y gymdeithas ddynol, a gwnelai ei oreu i feithrin yr un ysbryd yn mhawb o'i ddarllenwyr.

5. *Ei fod yn olygydd gonest ac egwyddorol.* Yr oedd yn ddifrifol ei ysbryd, gonest ei amcanion, ac yn egwyddorol yn ei holl gyflawniadau. Beth ond egwyddor gref a di-droi-yn-ol fuasai yn gwneyd un mor addfwyn a didramgywydd yn brif arwr yr achos gwrthgaethiwol? Pleidiodd achos y caethwas pan na ddygai hyny iddo barch, cymeradwyacth na chyfoeth; a glynodd wrth y gwaith pan oedd cyfeillion yn oeri ac yn oefnu, a'r gelynion yn ffyrnigo ac yn ymosod; ond ystyriai ei fod ar lwybr ei ddyledswydd yn gweithio dros Dduw, ac oblegid hyny nis gallai dim ei droi oddiwrth ei amcan. Egwyddor rymus yn gorseddu ynei euaid yn unig allasai beri i un mor heddychol ei ysbryd, frwydro mor wronaidd dros y rhai gorthrymedig. Yr oedd yn egwyddorol yn ei bleidgarwch i ryddid barn. Er yn un o'r rhai mwyaf tyn dros olygiadau efengylaidd, nid oedd ynddo ddim o'r culni sy'n perthyn i rai o'r cyfryw bobl. Er ei fod o ysbryd Puritanaidd, yr oedd yn mhell o fod yn *bigot*. Er yn rhybuddiwr difrifol fel Jeremiah, yr oedd yn apostol cariad fel Ioan y dysgybl anwyl. Yr oedd yn wrthwynebydd egwyddorol i bob drwg, yn foesol neu yn wladol. Meddai lygaid craff i ganfod fel yr oedd amgylchiadau dyfodol yn taflu eu cysgod o'u blaen. Yn ei anerchiad ddechreu y flwyddyn 1865, llawenychai wrth weled fod tranc y gwrthryfel a thranc caethiwed yn ymyl, ond rhagwelai ddyfodiad i mewn dymor o

speculation gwyllt, a llwyddiant bydol twyllodrus, a rhybuddiai ei ddarllenwyr yn garedig yn erbyn “ysbryd ymgyrhaedd yn ormodol at bethau y bywyd presenol.”

6. *Ei fod yn llenor o chwaeth bur a diwylliedig, ac yn amcanu at y defnyddioldeb uchelaf.* Profir purdeb ei chwaeth nid yn unig gan yr holl erthyglau a ysgrifennodd, ond hefyd gan gymeriad ei ddetholion o weithiau ereill. Nid y difyr, yr ysmala, a'r ysgafn oedd y pethau yr ymhyfrydai ynddynt, ond y pethau a dueddent i feithrin dwysder, difrifoldeb a phurdeb; ond eto yr oedd yn ddigon pell oddiwrth ddefnyddio llymder Phariseaidd, neu argymell gerwindeb mynachaid. Nid oedd fel rhai diwygwyr yn llymdost a phigog, ond anogai a darbwyllyai yn fwynaid a thyner. Gofalai fwy yn ei gyfansoddiadau am burdeb meddwl nag am arddull gaboledig, ac yr oedd gwneuthur lles moesol i'w ddarllenwyr yn fwy pwysig yn ei olwg na eu swyuo â dillynder ymadrodd. Ar yr un pryd medrai ysgrifenu yn ddestlus a thlws, a gellid codi llawer o engreiffiau i brofi hyny.

Ni chafodd neb erioed le i feddwl mai ei amcan oedd dangos ei hun, na ei fod yn ysgrifenu er mwyn hyny, ond deallai pawb mai ei amcan oedd llesoli ereill. Nid ysgrifennai i geisio synu ei ddarllenwyr na'u dyrysu, ond i'w haddysgu, eu darbwyllo, a'u henill at yr hyn sydd dda a chywir. Cadwai lwyddiant crefydd ac achubiaeth eneidiau yn nôd gwastadol o'i flaen. Deallwn ei fod yn ei ddyddiau boreuol yn hoff o olrhainiau duwinyddol, a'i fod yn hyddysg yn nadleuon yr Hen Ysgol, sef Uchel Galfiniaeth, a'r Ysgol Newydd, sef Calfiniaeth Gymedrol; ac yn med-

ru cydmaru eu golygiadau yn deg a beirniadol; ond yn y rhan olaf o'i oes yr oedd yn fwy hoff o'r diwygiadol a'r ymarferol. Cefnogi dysg a gwybodaeth, pleidio rhyddid ac iawnderau dynol, a llafurio dros adfywiadau crefyddol ac achubiaeth eneidiau, oedd ei hoff waith yn ei flynyddau olaf.

Yr oedd arogl un yn byw yn nirgelwch y Goruchaf ar ei ysgrifeniadau. Perthynai iddynt eneiniaid nefol, heb ddim nodau ffug na rhith sancteiddrwydd, ond y didwyllder a'r gonestrwydd puraf. Gwr Duw ydoedd, ac fel y cyfryw bu'n tywallt allan ei enaid ar du dalenau y *Cenhadwr* am feithion flynyddau, ac nid ydym yn meddwl y buasai ar ddydd ei farwolaeth yn ewyllysio dileu yr un linell a ysgrifennodd yn ystod ei olygiaeth. Cysegrodd ei dalent lenyddol i'w Feistr nefol, ac yr oedd pob brawddeg a ysgrifennodd yn profi ei fod yn un pur o galon, yn un o ostyngedig ffyddloniaid Iesu—bod ei ysgrifell yn ysgrifell plentyn Duw, a bod awyddfryd penaf ei feddwl am ddwyn yr holl fyd i garu a gwasanaethu yr Arglwydd.

PENNOD VI.

Dr. Everett fel Diwygiwr.

GAN Y PARCH. E. DAVIES, WATERVILLE, N. Y.

Swyddogaeth Diwygwyr yn y byd yw effeithio cyfnewidiad ynddo er gwell. Ac yn ein byd dirywiedig ni mae eu gwasanaeth o'r gwerth mwyaf; oblegid diwygwyr yn arbenig ydynt "halen y ddaear," er cadw cymdeithas rhag cwbl lygru a phydru mewn pechod a

drygioni. Ac nid hyny yn unig, ond hwynt-hwy hefyd ydynt “oleuni y byd,” i’w arwain a’i ddyrchafu i burdeb a rhinwedd. Anfynych er hyny y mae y byd wedi iawn adnabod a phriodol brisio y cyfryw rai, hyd nes iddynt fyned ymaith o hono. Y mae gwir ddiwygwyr yn byw o flaen eu hoes, ac am hyny, o’r dechreuad, maent wedi cael eu cymeryd fel gelynion cymdeithas, yn peryglu ei heddwch ac yn atal ei llwyddiant. Nid rhyfedd gan hyny iddynt gael eu dirmygu a’u gwaradwyddo erioed, a’u herlid a’u lladd hefyd yn fynych.

Y mae, fodd bynag, yn ol cyfraith taledigaeth (*law of compensation*), fod adgyfodiad gogoneddus yn aros pob gwir ddiwygiwr—nid yn yr adgyfodiad cyffredinol “y dydd diweddf,” eithr mewn amser, yn y byd presenol. Ac fel rheol hefyd, eu gwobr mawr a ddaw yn fuan; ie, “a frysia ac nid oeda.” Mae yn eithaf gwir fod eithriadau i’r rheol, ac fod enwau rhai diwygwyr enwog wedi eu gadael i orwedd dan orchudd o ddirmyg a gwarth am oesoedd a chanrifoedd; ond yn aml daw eu cyfiawnhad a’u mawrygiad gan ddynion, mewn byr amser. Yn fynych, lle bu y tadau yn eu llabyddio ac yn tywallt eu gwaed, bu y plant yn llawn mor aiddgar i addurno eu beddau, ac anrhydeddu eu coffadwriaeth! Yn wir mae engreiffiau o ddiwygwyr fuont am dymor yn wrthddrychau pob gwaradwydd ac anmharch, ac enwau y rhai a ystyrid fel yn arwyddol o bob peth gwrthwynebus ac atgas, wedi cael eu codi i gymeradwyaeth a phoblogrwydd mawr cyn eu marw, megys y diweddar Wm. Lloyd Garrison. Dibyna hyn yn fwy, fodd bynag, ar lwyddiant yr achosion a bleidiant, nag ar ddim gwir gyfnewidiad yn egwyddor ac ansawdd

ysbryd y byd. Nid oes dim mor llwyddianus a llwyddiant. Nid oedd Dr. Everett, fel diwygiwr, yn eithriad i'r rheol gyffredin, ac ni ddiangodd chwaith yn gwbl rhag tynged y cyfryw rai, am dymor; eto llawn gyfiawnhawyd ef, a chanmolodd ei hun "wrth bob cydwybod dyuion yn ngolwg Duw," flynyddoedd cyn ei farw.

Wrth son am Dr. Everett yn y cymeriad o Ddiwygiwr, dichon nad amhriodol fyddai crybwyll, ei fod yn meddu ar gydgyfarfyddiad hapus o lawer o brif nodweddion y gwir ddiwygiwr. Ni chaniata ein gofod i ni ond yn unig grybwyll rhai o honynt; megys, cymeriad pur a diargyhoedd, gostyngeiddrwydd diymhongar, cymedroldeb mewn golygiadau ac iaith, boneddigeiddrwydd diffuant mewn ymddygiad, llarieidd-dra ac addfwynder ysbryd efengylaidd, teyrngarwch trwyadl i'r gwirionedd a phenderfyniad di-blygu i sefyll drosto, bydded y canlyniadau y peth y byddent; ac uwchlaw y cyfan, ffydd ddiysgog yn Nuw a'i air, a chrefyddolrwydd a duwiolfrydedd amlwg ei ysbryd gyda phob peth. Da fuasai genym allu ymhelaethu ychydig ar y rhagoriaethau amlwg hyn yn nghymeriad Dr. Everett. Ond diameu y gwneir hyny gan rywun mwy cymwys, mewn rhan arall o'r Cofiant. Ni chaniata terfynau gosodedig ein hysgrif hon, ychwaith, i ni sylwi ar ragoriaethau nodedig Dr. Everett fel duwinydd a phregethwr. Disgyna y gorchwyl hwnw, hyderwn, i ran rhywun mwy galluog i wneuthur cyfiawnder ag ef. Goddefer i ni, fodd bynag, ddweyd mai un o'i ragoriaethau mwyaf amlwg fel y cyfryw, oedd ei fod yn drwyadl ddiwygiwr.

Perthynai rhagoriaethau arbenig iawn i Dr. Everett

fel pregethwr a duwinydd, a'i gosodent yn ddiarnhenol yn nosbarth blaenaf pregethwyr ei oes. Cawsai addysg dda, a meddai ar wybodaeth gyflawn, a golygiadau eang am drefn iachawdwriaeth yr efengyl. Yn mysg ei hynodion mwyaf arbenig gellid crybwyll byrdra, uniongyrchedd, eglurder, trefn, cyfanrwydd, cysonedd, a difrifoldeb. Ni byddai byth yn faith gyda dim. Ni wrandawsom ar neb erioed allai roddi goleuni mwy boddlonol ar fater, mewn ychydig eiriau, nag ef. Meddai allu rhagorol i daro yr hoel bob amser yn gymwys ar ei phen. Un mater yn gyffredin fyddai ganddo yn ei bregeth. Byddai ganddo raniadau braidd bob amser, eithr byddent oll yn naturiol ac yn gwasanaethu i gyrhaedd rhyw un amcan penodol. Traethai ar bob gwirionedd yn ei gysylltiad priodol ac yn ei berthynas a'i gysondeb â gwirioneddau eraill y gair Dwyfol, ac ni byddai neb, ar ol gwrando arno, mewn unrhyw betrusder yn nghylch yr hyn a amcanai ddweyd. Yr oedd efe gan hyny yn mhriodol ystyr y gair yn bregethwr a duwinydd gwir fawr. Llais gwanaidd oedd ganddo, eto yr oedd yn glir a soniarus. Ni byddai yn canu nac yn *chantio*, fel llawer o bregethwyr Cymreig ei amser; yr oedd yn fater rhy ddifrifol i hyny gydag ef. Meddai allu arbenig i wasgu y gwirionedd yn ddifrifol a phwysig at feddyliau a chalonau ei wrandawyr; ac yr oedd yn llawn o ddifrifoldeb gyda phob peth. Pan y caffai hwyl dda, byddai bob amser mewn dwfn gydymdeimlad â'r gwirionedd a draethai. Tuddeai ei bob peth ef i adael ystyriaeth o barch i Dduw a'i wirionedd yn oruchaf yn meddwl a chalon pob un o'i wrandawyr. Clywsom hen bobl yn Nghymru yn adrodd, a dagrau ar eu gruddiau, am ei bregethau eff-

eithiol a thoddedig iawn yno, pan oedd yn fachgen ieuanc. Cofia lluoedd yn America hefyd am ei apeliadau syml-ddifrifol, dwys-erfyniol a theimladwy iawn. Pe tynid darlun cywir o Dr. Everett fel pregethwr, tynid ef mewn agwedd ddifrif-apeliadol, ac ni byddai y darlun yn berffaith heb fod y dagrau yn treiglo dros ei ruddiau. Bydd ei ymddangosiad syml-ddifrifol, ei lais gwanidd, ond eglur a thoddedig iawn, ei ddagrau llifeiriol, a'i edrychiad difrif-erfyniol pan lefai, "Arfau i lawr," "Deuwch at Iesu," "Cymoder chwi a Duw," &c., yn aros yn fyw yn meddyliau llaweroedd a'i clywsant, yn y byd a ddaw, pan na bydd amser mwych!

Rhoddai Dr. Everett bwys mawr ar lafurio i ddeall Cristionogaeth fel cyfundrefn gyson yn ei gwahanol gysylltiadau, ac ar bregethu ei gwirioneddau yn eu perthynas a'u cydbwysedd priodol â'u gilydd. Mynych y clywsom ef yn adrodd gyda chymeradwyaeth, sylw yr anfarwol Williams o'r Wern ar hyn. Ac yr oedd efe ei hunan hefyd yn rhagori yn hyn. Yr oedd ei olygiadau ar drefn yr efengyl yn gyflawn a chyson. Ni byddai byth yn cario un gwirionedd i filwrio yn erbyn gwirionedd arall, fel y clywsom rai yn gwneuthur. Cof genym glywed un yn pregethu unwaith ar yr Anmhosiblwydd i neb ddyfod at Grist, nes peri i ni deimlo, os felly yr oedd, nad oeddym i'n beio am beidio dyfod ato. Nos dranoeth drachefn pregethai ar Y ddyledswydd o gredu yn Nghrist; ac meddai ar ei bregeth, "Pa beth yw credu? Wel, gorwedd; dim byd ond gorwedd," ac ychwanegai, "Ni welais neb erioed yn rhy wan i orwedd." Yr oedd yn y sylw hwn, yn sicr, fwy o gymelliad er ein hanog i gredu;

ond y drwg oedd fod ei bregeth hon a'r un y nos o'r blaen yn milwrio yn hollol yn erbyn eu gilydd, yn ein tyb ni, ac felly yn effeithiol i ladd dylanwad y ddwy ar ein meddwl. Clywsom un arall yn pregethu ar y geiriau, "Deuwch ataf fi bawb sydd yn flinderog a llwythog," &c. Ei sylw cyntaf oedd; "Yr anogaethau, neu'r cymelliadau cryfion oedd i bawb ddyfod at Iesu Grist." Ond ei ail sylw ydoedd, "Yr anmhosiblwydd i neb byth ddyfod at Iesu Grist, heb weithrediadau neillduol ac anorchfygol yr Ysbryd Glan ar eu meddyliau." Yr oedd, fe ddichon, wirionedd yn mhob un o'r ddau sylw, ac yr oeddynt yn gyson â'u gilydd o'u deall yn iawn. Eithr gwnaeth y brawd hwynt i ymddangos y tro hwnw, yn ddau yn milwrio yn hollol yn erbyn eu gilydd i olwg y gwrandawyr, ac felly collwyd yn gwbl ddylanwad daionus ei bregeth. Nid felly y pregethai Dr. Everett. Yn fynych iawn, yn wir, ei hoff ddull ef o bregethu ydoedd cadw rhyw un mater neu ddrychfeddwl o flaen ei wrandawyr. Byddai ganddo braidd bob amser raniadau yn ei bregeth, eithr byddai pob rhaniad a sylw yn gwasanaethu naill ai i egluro, profi, neu gymwysu yr un mater hwnw at feddyliau a chalonau ei wrandawyr. Byddai ei brif apeliad bob amser at y gydwybod, eithr nid ar draul esgeuluso y deall. Ni wrandawsom arno erioed heb gael rhyw oleuni newydd, a rhyw addysg ac adeiladaeth fuddiol. Nid oedd yn ddiystyr o'r teimlad wrth bregethu, ond ni arosai gyda'r teimlad, fel y byddai llawer o'r hen bregethwyr Cymreig gynt, ac fel y mae yn ofnus y gwna llawer eto. Yn wir, os goddefir i ni yn ostyngedig draethu ein barn, dyma ydoedd prif

ddiffyg pregethu Cymru yn y flwyddyn 1866, yn gystal hefyd a phregethu Cymreig America.

Cawsom y fraint yn y flwyddyn grybwylledig o wrando ar oddeutu deugain o wahanol bregethwyr goreu yr Annibynwyr yn Nghymru; a chlywsom rai o honynt amrywiol weithiau. Addefwn yn rhwydd i ni yn ystod ein hymweliad â'r Hen Wlad, glywed llawer o bregethau dysgedig, doniol ac adeiladol iawn. Eithr yr argraff a adawyd ar ein meddwl gan gyffredinolrwydd y pregethau a glywsom yno oedd, fod pregethu Cymru, fel rheol, yn tueddu i aros yn ormodol gyda'r teimlad, ac yn ymwneyd yn rhy ychydig â deall, ac yn enwedig â chydwybod y gwrandawyr. Gwir y gall nad oedd y fantais a gawsom ni yn ein galluogi i ffurfio barn gywir am y weinidogaeth Gymreig yn gyffredinol. Dichon hefyd fod y pregethau a glywsom, yn gystal a'r pregethwyr, yn eithriadau, gan mai mewn Cymanfaoedd a chyfarfodydd mawr yn unig y cawsom y fraint o'u clywed. A phosibl fod mwy o ymdrech yn cael ei wneuthur y prydiau hyny i gael yr hyn a elwir yn gyffredin yn "hwyl," nag sydd yn y weinidogaeth feunyddiol gartref. Sier yw fod beirniadaethau y gwrandawyr yn rhy fynych yn tueddu i beri hyny. Clywsom lawer gwaith yn Nghymru mai math o ymrysonfa pregethu oedd y Gymanfa a'r cyfarfod mawr; ac aml y clywsom feirniadaethau ar ol y pregethau ynddynt, oeddynt yn gwbl gyson â'r golygiad hwn. Wrth ymddyddan am y gymanfa ddiweddar, clywsom rai yn dywedyd, "Pregethodd Mr. B. yn dda iawn, ond Mr. R. aeth a hi; efe a gariodd y maen i'r wâl arnynt i gyd yno." Bob amser bron bernid y pregethwr a'i bregeth wrth yr effaith a gynyrchai, a'r

dylanwad a gaffai ar y pryd ar deimladau y gynulleidfa. Os llwyddai rhywun gyda'i bregeth i wneuthur rhyw gynhwrf yn y gwersyll, ac yn enwedig os llwyddai i yru rhyw hen wreigan i waeddi yno, efe a fyddai y dyn y tro hwnw. Ac odid fawr na phenderfynid ar unwaith gan rywrai, fod raid i hwnw gael gwahoddiad i'r Gymanfa nesaf. A gall fod hyny, meddwn, yn peri fod tentasiwn i'r pregethwr lafurio am bregethau, erbyn yr adegau hyny, a fyddent yn ymwneyd â'r teimlad, yn fwy nag ar amgylchiadau cyffredin. Eto nis gallwn ni farnu ond oddiwrth yr hyn a glywsom, a'n teimlad ni ar ol talu ymweliad â Chymru oedd, y dylasai y gweinidogion yno ymwneyd yn eu pregethau, nid yn llai â'r teimlad, fe allai, ond yn fwy â'r deall ac â'r gydwybod. Anhawdd fyddai i ni grybwyll am un o fewn cylch ein hadnabyddiaeth a fyddai yn esiampl well o'r fath bregethwr ag y mae ein cenedl mewn mawr angen am dano, na Dr. Everett. Ni byddai ef, fel y crybwyllasom, yn ddiystyr o'r teimlad, ond llafuriai bob amser er goleuo y deall, ac yn enwedig er cyrhaedd y gydwybod mewn argyhoeddiad. Ei amcan gwastadol oedd effeithio diwygiad yn ei wrandawyr, ac felly wneuthur daioni parhaol iddynt.

Eithr fel y crybwyllasom eisoes, â Dr. Everett fel diwygiwr, y mae a fynom yn yr ysgrif hon. Ac fel diwygiwr, megys y nodasom, yr oedd yn rhagori yn fwyaf amlwg fel duwinydd a phregethwr. Dechreuodd Dr. Everett bregethu pan oedd Uchel-Galfiniaeth yn dra chymeradwy gan luoedd o Gymry, mewn canlyniad i bregethiad y fath syniadau gan luaws o bregethwyr blaenaf yr amser hwnw. A daeth ef allan yn

mysg y rhai blaenaf yn ei amser i wrthwynebu yr hen syniadau hyny, ac i bleidio gwir athrawiaeth yr efengyl, yn neillduol yn ei graslonrwydd a'i chyffredinolrwydd ar gyfer angen dynoliaeth syrthiedig, yn gystal hefyd a'i haddasrwydd i gyfarfod sefyllfa ac angen pob pechadur colledig, fel y mae, yn ei bechod a'i drueni. "Newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl," oedd yr efengyl yn ei olwg ef. Cynygiad grasol o gymod ydoedd, ac ar delerau cyrhaeddadwy i bob dyn byw. Yr oedd ei enaid ef yn ymgroesi rhag y cyfyngiad a wneid gan rai dynion ar ras anfeidrol y Duw mawr, i ryw nifer penodol o bechaduriaid. Ystyriai y golygiad hwnw yn ddirmyg o'r mwyaf ar ddarpariaeth gras, yn gystal ag ar y gras a ddarparodd. Ni phetrusai chwaith dafu yr holl gyfrifoldeb am wrthodiad y drefn, at ddrws y pechadur ei hunan. Ystyriai fod y gweision hyny a gyhoeddent genadwri amwys ar y mater hwn, yn cymeryd arnynt eu hunain gyfrifoldeb pwysig iawn. Cofus iawn genym y difrifoldeb a'r egni a ddangosai pan yn gwrthwynebu y fath ymddygiad, wrth bregethu ar y geiriau, "Dos allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a chymell (*compel*) hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhy."

Fel ysgrifenydd hefyd, a golygydd y *Cenhadur*, cawn ef yn llafurio yn yr un cyfeiriad. Yn ei raggyfarchiad i'r gyfrol gyntaf o'r *Cenhadur* (1840), dywed: "Ein hamcan syml ydoedd rhoddi allan bethau buddiol ar wahanol gangenau gwybodaeth, a hyny mewn ysbryd tyner ac addfwyn; a thrwy gymorth oddi uchod, hyny gaiff fod ein hamcan eto. I ba raddau y llwyddasom yn hyn, bydd i'r cyhoedd farnu. Dysgwylwyd efallai, mai i ryfel y daethom allan; ond

nid hyny ydoedd, nac yw, ein dyben. Da a hyfryd genym gyd-lafurio a brodyr yn yr Arglwydd yn erbyn pob annuwioledeb ac anfoesoldeb o fewn y tir; a go-beithio yr ydym yn fawr allu gwneyd rhyw ran gydag eraill tuag at feithrin ysbryd cariad a thangnefedd yn mhlith Israel Duw. Ein harwyddair gaiff fod o hyd, 'Heddwch, heddwch, i bell ac i agos.' Ymdrechwn egluro yn ffyddlawn, hyd y mae ynom, beth yw egwyddorion y Beibl ar amrywiol gangenau yr athrawiaeth sydd yn ol duwioledeb, ac yn neillduol ar *ras Duw a chyfrifoliaeth dym*. Ond ceisiwn wneyd hyny mewn addfwynder, gan ein bod yn cwbl gredu mai felly y mynai ein Meistr mawr i ni wneyd; a hyderwn y bydd addfwynder a llarieidd-dra a thynerwch yr efengyl (fel yr olew ar ben Aaron yn disgyn ar hyd ymyl ei wisgoedd ef) yn dynodi ysgrifau ein gohebwyr yn gyffredinol."

Ac yn un o'r rhifynan cyntaf o'r cyhoeddiad newydd y pryd hwnw, cawn ganddo erthygl ar "Ddyn yn ei berthynas â'r Efengyl," yn yr hon y gosodir allan mewn modd cryno, eto eglur a chyflawn, ei olygiadau ar y mater. Dywed, "Ymddengys oddiwrth yr Ysgrythyrau fod rhyw *berthynas*, a hono yn berthynas o bwys mawr a chanlyniadau difrifol, *rhwng pob dyn a'r efengyl*." Ac er profi ac egluro y berthynas hon, rhydd y rhaniadau canlynol. Ni chwaw yma ond rhoddi y penau yn unig: "1. Y mae pob dyn yn ddeiliad ei gwahoddiadau. 2. Mae'r efengyl yn cynwys darpariaeth addas i bob dyn er iachawdwriaeth. 3. Mae perthynas o rwymedigaeth a chyfrifoldeb rhwng pob dyn a'r efengyl. 4. Mae'r efengyl yn dwyn effeithiau gwerthfawr ar holl ddynolryw. 5.

Mae'r efengyl yn agor drws gobaith o flaen pob dyn. 6. Yn ol y derbyniad neu y gwrthodiad a wna dynion o'r efengyl y bydd eu sefyllfa dragywyddol yn cael ei benderfynu yn y farn ddiweddaf. *Yn ddiweddaf*, y mae yr efengyl yn dwyn iechydwriaeth dragywyddol, yn anffaeledig, i bob un sydd yn credu yn enw Iesu Grist." A diwedda yn y geiriau hyn: "Dysgwn ddiolch am efengyl. Gwerthfawrogwn ei breintiau. Rhoddwn hyder mawr yn ei haddewidion. Ymddygn yn addas i'w chymeriad sanctaidd; a llawenhawn yn y gobaith gwynfydedig y mae yn ei osod o'n blaen." [Gwel *Cenhadur* am 1840, tu dal. 198.]

Pan ymadawodd brawd oddiwrth enwad arall, ac yr ymunodd â'r Annibynwyr, am na chaniateid iddo, meddai ef, bregethu efengyl rydd a rhad i bawb, heb wrthwynebiad, gwnaed tipyn o stwr yn y cyhoeddiadau. Ysgrifennodd Dr. Everett ychydig o nodiadau syml, o dan y peniad, "Nac ymrysonwch ar y ffordd," er ceisio adferu heddwch a theimladau da. Ysgrifennodd erthygl drachefn, yn yr hon y rhoddodd ei resymau dros bregethu yr efengyl i bob dyn yn ddiwahaniaeth, a dyma hwy: "1. Y mae pawb yn ddiwahaniaeth yn sefyll yn yr *angen mwyaf* am yr iechydwriaeth sydd yn Iesu Grist. 2. Bod heb ran yn Nghrist yw y *trueni mwyaf* i bob dyn fel eu gilydd yn ddiwahaniaeth. 3. Byw heb Grist dan yr efengyl yw y *pechod mwyaf* o'r holl bechodau, a hyny ar bob dyn yn diwahaniaeth. 4. Mae Duw wedi *ymddiried i'w weision* y weinidogaeth o wahodd pawb yn ddiwahaniaeth at ei Fab am iechydwriaeth, a gwae fydd iddynt os byddant anffyddlawn ar yr ymddiried mawr hwn. 5. Mae dal allan weinidogaeth gyfyng, yn lle gwahodd pawb yn

ddiwahaniaeth at Grist, yn tueddu yn fawr i fagu ysbryd Antinomaidd yn ein gwrandawyr, a thrwy hyny eu cadarnhau mewn parhaol anufudd-dod i'r efengyl. 6. Mae dal allan efengyl gyfyng, yn lle gwahodd pawb yn ddiwahaniaeth at y Gwardwr, wedi bod yn ddyrswch i lawer dan gymelliadau ac argyhoeddiadau. 7. Mae yr athrawiaeth felus o *holl-ddigonedd* yr Arglwydd Iesu Grist fel Gwardwr pechaduriaid yn galw arnom i wahodd pawb ato. 8. Y mae Iesu Grist o *Oeodiad y Tad* yn Gyfryngwr addas i bob dyn i ymofyn bywyd ynddo." A'i air diweddol ydoedd, "Parhawn yn ddiffino hyd yr anadl olaf i wahodd pawb, yn mhob lle, at ein Iesu anwyl i ymofyn am fywyd ynddo." [Gwel y *Cenhadwr* am 1841, tu dal. 144.] Rhoddodd yr ysgrif hon, yr ydym yn meddwl, derfyn effeithiol ar yr ymrafael hwnw; ac nid ydym yn rhyfeddu dim at hyny, gan mor argyhoeddiad-ol ac effeithiol y trinia i y pwnc.

Yr oedd Dr. Everett yn ddiwygiwr nid yn unig gyda golwg ar athrawiaeth yr efengyl, eithr yr oedd hefyd yn gyfaill cywir, ac yn bleidiwr ffyddlon i bob achos a dueddai er lledaenu yr efengyl a gwella y byd. Ymdrechodd lawer o blaid y gymdeithas Feiblaidd a'r cymdeithasau Cenedol Tramor a Chartrefol. Bu yn bleidiwr ffyddlon i achos addysg a'r ysgolion Sabbothol. Cyfansoddodd er ys llawer o flynyddoedd ei "Gatecism Cyntaf," yr hwn a gafodd dderbyniad mwy cyffredinol yn ysgolion Sabbothol yr Annibynwyr nag un arall yn y wlad hon ac yn Nghymru; a pharha yn ei boblogrwydd, yn Nghymru yn enwedig, hyd yn awr. Cyfansoddodd, drachefn, y rhan gyntaf o'i "Egwyddorydd Ysgrythyrol," ar rai o brif bynciau

Cristionogaeth, at wasanaeth dosbarth uwch yn yr ysgolion Sabbothol, yr hwn sydd yn holwyddoreg tra rhagorol; ond y mae'n debygol na chafodd gylchrediad digonol i gyfreithloni cyhoeddiad yr ail ran, yr hon yn ddiau a fuasai, fel pob peth Dr. Everett, yn dda, ac yn drysor gwerthfawr i'r genedl.

Wrth draethu am Dr. Everett fel diwygiwr, rhaid i ni beidio anghofio ei ymdrechion ffyddlon o blaid Dir-west. Fel y mae yn eithaf hysbys, yr oedd yr arferiad o yfed diodydd meddwol yn gyffredin iawn, braidd yn mhob cylch o gymdeithas, yn mlynnyddoedd boreuol ei weinidogaeth. Yr oedd y gelyn dinystriol hwn wedi dyfod i mewn fel afon hefyd i eglwys Dduw, ac wedi llusgo lluaws o ddynion enwog, hyd yn nod o'r pwlpud, i warth a dinystr. Eithr er y ceid yn aml achos i ofidio a galaru am yr anrhaith a wneid, eto nid oedd ond ychydig wedi ei wneuthur erioed er ceisio rhoddi terfyn ac ataliad ar y drwg. Teimlodd Dr. Everett yn ddwys wrth weled y gelyn yn gwneuthur y fath alanastra mewn byd ac eglwys, a daeth allan yn mysg y blaenaf o'i genedl i'w wrthwynebu. Nis gwyddom yn sicr pa mor foreu y dechreuodd; ond bu yn offeryn, meddir, i ffurfio cymdeithas yn mhlith y Cymry yn Utica yn y flwyddyn 1830. Ac mae genym Anerchiad argraffedig o'i eiddo a draddodwyd yn Utica, Rhagfyr 25, 1833, ac a gyhoeddwyd ar gais y rhai a'i clywodd. Yn yr Anerchiad hwn taer anoga bawb o'r Cymry "i uno yn yr ymdrech a wneir yn awr at ddiwygio ein gwlad a'r byd oddiwrth y pechodau o ddiota a meddwod." Gwna hyn trwy ddangos, yn

"I. Nad yw gwirod yn rheidiol i ddyn, ond yn hollol afreidiol.

II. Y mae gwirod yn gwneyd gwir niwed i bawb a'i defnyddiant.

III. Y mae yr yfwr cymedrol yn cynal yn mlaen y brofedigaeth sydd yn arwain i'r drygau mwyaf ac i'r trueni mwyaf yr arweiniwyd dyn iddynt erioed." A sylwa ar hyn : "1. O blith yr yfwyr cymedrol y mae y bylchiau a wneir gan angau a chan garcharau yn myddinoedd y meddwon, yn cael eu llanw i fyny. 2. Yr yfwyr cymedrol yn benaf ydynt yn cynal i fyny y cylchrediad cyffredinol mewn gwirod yn ein gwlad ; ac odiiyma y tardd yr holl ddinystriol ganlyniadau. 3. Y mae yr yfwyr cymedrol yn rhoddi pwys eu cym-eradwyaeth a'u henw da, mewn effaith, o du meddw-
dod ; ac y mae hyn yn eu gwneyd yn gyfranog o'r canlyniadau. 4. Tra mae yr yfwyr cymedrol yn ym-
ddwyn fel y maent, y mae llai o obaith am adferiad y meddwyn, ac y mae hyn yn peri eu bod yn gyfranog o'r dinystriol ganlyniadau." Yna sylwa, yn

"IV. Y mae yr hwn sydd yn defnyddio y ddioid gadarn, er yn gymedrol, yn ei anghymwyso ei hun i wneyd daioni i eraill ; yr hyn sydd yn ddiau yn bech-
adurus yn ngolwg yr Arglwydd.

V. Y mae y rhai sydd yn defnyddio gwirod fel dioid, er nad ydynt yn yfed i feddwod, yn wir rwystr i gynydd y diwygiad.

VI. Y mae yr yfwr cymedrol yn rhodio, a hyny yn ymwybodol, ar lwybr peryglus iawn, yr hyn sydd bechadurus." Yna gwna gymwysiad difrifol o'r mater at feddyliau proffeswyr crefydd, gweinidogion yr ef-
engyl, a'r chwirydd a'r mamau yn Israel, gan eu hanog yn daer i godi o ddifrif at y gwaith mawr o sobri y byd. Terfyna yr anerchiad gydag ateb amryw

o wrthddadleuon a gyfodid yn erbyn llwyr-ymatal-iaeth; a diwedda yn y geiriau difrifol hyn: "Wrth benderfynu pa un a weithredwch *dros* yr achos hwn ai yn ei *erbyn*, erfyniaf arnoch, fy anwyl wrandawyr, ymddwyn megys yn ngoleu dydd sobr y farn, pan y cawn gyfarfod a phob dyn ar yr hwn yr effeithiodd ein buchedd yn ddrwg neu yn dda. O! ddydd difrifol a fydd y dydd hwnw, pan y dygir y meddwon i gyfrif am eu hanwiredd, a phan y dygir ninau oll i gyfrif pa un a effeithiodd ein harferiadau er peri meddwod, ynte er ei symud o'r byd. Deisyfwn ar Dad y Trugar-eddau ac awdwr pob daioni, bara ei nawdd ddwyfol i'r achos pwysig hwn, a phrysuero y boreu ag y bydd cariad at win a diod gadarn wedi darfod, a sobrwydd a gwir gymedrolder, yn nghyda llawenydd yn yr Ysbryd Glan yn llanw yr holl ddaear."

Er fod yr anerchiad hwn wedi ei draddodi, bellach, er ys dros bum'-mlynedd-a-deugain yn ol, eto byddai yn anhawdd dyfod o hyd i unrhyw anerchiad na thraethawd heddyw, yn yr hwn y gosodir yr achos i lawr ar seiliau cadarnach, neu y traethir arno yn fwy eglur ac argyhoeddiadol. Yn wir, pe cymerasai pob areithiwr ar ddirwest y tir cadarn ac Ysgrythyrol hwn a gymerai Mr. Everett, a phe ymgadwasai at yr ymresymiaid argyhoeddiadol hyn a'u cyffelyb, yn lle myned i adrodd hen ystorïau gwag a chwerthinllyd, ac i ddywedyd dwli dienaidd, buasai gwell golwg ar achos sobrwydd heddyw nag y sydd. Mae yr anerchiad hwn o eiddo Mr. Everett mor gadarn a chyflawn, fel mai ychydig iawn, os dim, sydd wedi ei chwanelgu ato neu ei wella arno hyd heddyw. Pe gellid ei gyhoeddi yn draethodyn, a'i wasgar i bob man lle y mae

Cymry, diau y gwnelai llawer o ddaioni eto. Y mae, syywaeth, yn gwbl amserol mewn llawer man heddyw.

Megys y dechreuodd Mr. Everett, fel hyn, yn foreu gyda'r gwaith da hwn, felly hefyd y parhaodd yn ffyddlon ac ymdrechgar, gan ddwyn pwys y dydd a'i wres, hyd ei awr ddiweddfaf. Gwnaed llawer symudiad ar ol y cyntaf hwnw, ac ymladdwyd llawer brwydr galed yn achos dirwest wedi hyny; ond bob amser, safai Mr. Everett fel cadfridog dewr ar y blaen, ac ni phetrusai fentro i fan poethaf yr ymdrechfa. Safodd ef, a'i gydlafurwr dewr, y diweddar Barch. Morris Roberts, am flynyddau llawer, ochr-yn-ochr, fel dau brif dywysog yn yr ymdrechfa bwysig, a chawsant gyd-lawenhau mewn llawer buddugoliaeth ogoneddus ar y gelyn meddwol, ac hefyd weled sychu bron yn llwyr y ffrydiau meddwol yn eu hardaloedd. Gob-eithiwn y gofala eu holynwyr na welir mo honynt byth yn ail redeg eto, er trueni a dinystr y trigolion. Yr oedd llawer yn ei gyfrif yn ynfyd ac eithafol ar y cyntaf yn yr achos hwn; ystyrient ei sêl yn benboethni, a'i ddirifoldeb yn ynfydrwydd. Cafwyd proffeswyr crefydd, do, a phregethwyr yr efengyl hefyd, i'w ddiystyru am ei lafur, ac i'w wawdio o herwydd ei ymdrechion diffino o blaid dirwest. Ond daliodd ef ati er hyny; a chafodd y rhan fwyaf o'i ddirmygwyr fyw i weled eu camgymeriad, ac enillwyd hwythau hefyd wedi hyny i fod yn bleidwyr ffyddlon i'r achos. Daeth achos llwyr-ymataliaeth yn flodeuog a phoblogaidd iawn yn mysg Cymry Swydd Oneida ar ol hyny. Cynaliwyd cyfarfodydd mawrion, cafwyd gwyliau arbenig, a gorymdeithiau godidog; cyhwfanwyd banerau buddugoliaeth yn yr awelon, a chanwyd clodydd dirwest

nes yr oedd hen fryniau Steuben a Remsen yn diaspedain gan y clodforedd! Yr oedd Dr. Everett o galon dros bob mesur cyfreithlon a dueddai at roddi terfyn ar ddiota a meddwdod. Llafuriodd yn galed lawer gwaith yn erbyn rhoddi trwyddedau i ddynion i werthu y diodydd; ac yr oedd yn gryf a diysgog dros gwbl waharddiad y fasnach mewn gwirodydd fel diodydd cyffredin. Gwir y bu i gynhwrf y gwrthryfel mawr, a'r terfysg blin a barodd, fyned a'i sylw ef, fel bron bawb eraill, fel nad oedd yn rhoddi cymaint o le yn ei ysgrifau i achos gwaharddiad yn y blynyddoedd diweddaf o'i fywyd. Eto dengys ei ysgrifau yn y *Cenhadur*, am flynyddoedd o flaen y rhyfel, ei fod yn credu yn gadarn a diysgog mai llwyr waharddiad trwy gyfraith oedd yr unig foddion effeithiol i roddi terfyn ar ddiota a meddwdod.

Ond bydd enw Dr. Everett, fel diwygiwr, mewn coffadwriaeth, yn fwyaf neillduol, yn ei gysylltiad a'r achos gwrthgaethiwol, a hyny o herwydd y gwrthwynebiad chwerw a gafodd, a'r ffyddlondeb diysgog a ddangosodd i'r achos hwnw. Pan ddaeth ef i America, yr oedd Efrog Newydd yn Dalaeth gaeth, a pharhaodd felly am beth amser ar ol ei ddyfodiad yma. Yr oeddid wedi pasio, fodd bynag, yn y flwyddyn 1817, na byddai caethiwed yn y Dalaeth ar ol Gorph. 4ydd, 1827, pryd y rhyddhawyd deng mil o gaethion mewn un diwrnod, ac y rhoddwyd terfyn am byth ar gaethiwed o fewn y Dalaeth Ymerodrol. Cafodd Dr. Everett felly beth mantais i weled y gyfundrefn gaethiwol yn ei gwaith; ac ni themlodd ond yr anghymeradwyaeth a'r gwrthwynebiad mwyaf iddi o'r dechreuad. Ysgrifena ei ferch Jennie atom: "Pan ddaeth

fy rhieni i America, buont wythnos yn teithio o New York i Utica, ac yr oedd yn daith flinderus iawn, yn enwedig i fy mam, gyda'i thri phlentyn bychain. Y gyrwr ydoedd ddyn du—un oedd, neu a fuasai, yn gaethwas yn un o'r Talaethau Gogleddol. Adroddodd wrth fy nhad lawer iawn yn nghylch caethiwed, a chymaint yn waeth eto ydoedd yn y De. Ni wybuasai fy nhad gymaint cyn hyny am y gyfundrefn, a chafodd ei gydymdeimlad dwfn ei enill. Ar ol hyny bu yn gyfaill a chydrafurwr yn yr achos gwrthgaethiwol a'r Parch. Beriah Green, yr Anrhydeddus Gerrit Smith, Alvan Stewart, Theodore Weld, ac eraill a gymerasant safleoedd mor gyhoeddus gyda'r achos yn y tymor boreuol hwnw. Darfu i'n dau frawd hynaf raddio yn yr *Oneida Institute*, lle yr oedd y Parch. Beriah Green yn brif athraw. Graddiodd ein chwaer henaf, Elizabeth, yn y *Ladies' Seminary*, yn Clinton; ac yr oedd y prif athraw yno, Mr. Kellogg, yn wrthgaethiwydd cryf, ac yn derbyn merched ieuaine o liw i'r ysgol."

Felly, bu adroddiad y dyn du o hanes cyflwr truenus a chaled y caethion, yn foddion effeithiol i greu atgasrwydd yn meddwl Mr. Everett at y gyfundrefn anghyfiawn ar ei ddyfodiad i'r wlad; a bu ei gydnabyddiaeth a'r gwyr a enwyd yn foddion i'w dynu allan yn ei wrthwynebiad i gaethiwed yn dra boreu. Eithaf tebygol ei fod yn mynychu cyfarfodydd a gynelid y pryd hwnw i wrthwynebu caethwasiaeth. Pa un a oedd yn y cyfarfod yn Utica, yn y flwyddyn 1835, pryd y torwyd y cyfarfod i fyny gan y *mob* anrhydeddus (?), nis gwyddom.

[Ar ol ysgrifenu yr uchod, derbyniaisom lythyr oddi wrth Mr. John R. Everett, mab hynaf Dr. Everett,

yn dyweyd iddo ef fyned gyda'i dad, gyda'r ceffyl a'r cerbyd, i Utica, gyda'r bwriad o fyned i'r cyfarfod gwrthgaethiwol hwnw yno. Ni chyrhaeddasant y ddinas hyd agos ganol dydd, ac aethant i dy Mr. Henry Roberts (brawd-yn-nghyfraith Dr. Everett), a chlywsant yno fod y cyfarfod wedi cael ei dori i fyny gan y *mob*, o ddinasyddion blaenaf a mwyaf parchus y lle.]

Ond yr oedd yn wrthwynebwr penderfynol i gaethiwed er ei ddyfodiad cyntaf i'r wlad. Pan oedd y wlad yn dechreu cael ei chynhyrfu o ddifrif ar bwnc caethwasiaeth, yr oedd Mr. Everett yn weinidog yn hen eglwys luosog a dylanwadol y "Capel Uchaf," yn Steuben, ac hefyd yn olygydd y *Cenhadur*, yr hyn a roddai iddo safle bwysig, a mantais neillduol i anog ei gyd-genedl i bleidio achos rhyddid; a gwnaeth yntau hefyd ddefnydd da o'r cyfleusdra. Cymerodd y *Cenhadur* safle benderfynol a diamwys yn yr achos ar ei gychwyniad cyntaf, yn y flwyddyn 1840, a pharhaodd, er pob digalondid a gwrthwynebiad, yn ffyddlon a di-ildio, hyd nes y cafwyd buddugoliaeth, ac y llwyddwyd i ddileu y gyfundrefn gaethwasaid yn llwyr o'r wlad. Mae enw Dr. Everett yn deilwng i gael ei restru gyda'r enwogion gwrol a hunan-aberthol a feiddiasant herio dirmyg a gwawd, gwrthwynebiad ac erledigaeth chwerw y cyhoedd, yn eu hymroddiad i achos y gorthrymedig, a'u hymdrechion i ddiwygio y wladwriaeth o'r pechod gwaeddfawr o gaethwasiaeth, megys, Benjamin Lundy, William Lloyd Garrison, Arthur a Lewis Tappan, Gerrit Smith, Wendell Phillips, Beriah Green, Alvan Stewart, Theodore Weld, ac eraill—dynion na chyfrifasant eu heinioes eu hun-

ain yn werthfawr, ac a lafuriasant tu hwnt i fesur o blaid achos rhyddid a chyfiawnder—oblegid bu efe mor ffyddlon ac ymroddol o fewn ei gylch, a dyoddefodd hefyd gymaint, yn ol ei amgylchiadau, a nemawr o honynt. O fewn ei gylch, meddwn, oblegid nid ydym yn anghofio mai yn mysg ei gyd-genedl y Cymry yr oedd efe yn llafurio yn benaf. Dywedai Cymro yn un o Dalaethau y Gorllewin wrthym unwaith, ei fod ef yn ystyried fod Mr. Everett wedi gwneuthur mwy tuag at ryddhau y caethion nag un dyn arall yn y wlad, oddieithr yr Arlywydd Lincoln. Cymro oedd hwnw, a hawdd gwybod mai o fewn y byd bach Cymreig yn unig yr oedd yn byw; a chan na wyddai nemawr am un byd arall, naturiol oedd iddo dybied mai hwnw oedd y mwyaf. Gwyr y cyffredin, fodd bynag, nad yw holl Gymry y byd ond megys defnyn o gelwrn i'w cydmaru â chenedloedd eraill; ac y mae cylch eu dylanwad, o angenrheidrwydd, yn dra chyfyngedig yn y byd. Eto, nid wrth eangder cylch eu defnyddioldeb y gwobrwyir dynion, yn gymaint ag yn ol eu ffyddlondeb yn y cylch y byddont ynddo; ac o'i farnu wrth y safon yma, ac yn ol y goleu hwn, mae'n ddiau fod Dr. Everett wedi derbyn gwobr fawr, oblegid yr hyn a allodd, efe a'i gwnaeth.

Yn y rhifyn cyntaf oll o'r *Cenhadwr*, cyhoeddodd "Nodiadau ar Gaethiwed," gan Mr. Cadwaladr Jones, y pryd hwnw o Cincinnati, Ohio, ond yn awr o Llanfyllin, Cymru. Ac yn yr ail rifyn cyhoeddodd Mr. Everett erthygl o'i eiddo ei hunan, o dan y peniad, "Gweddio dros y Caethion." Rhoddodd bump o resymau dros hyny, y rhai oeddynt oll yn taro yn uniongyrchol ac yn rymus yn erbyn y gyfundrefn gaeth-

wasaidd; yr olaf o'r rhai ydoedd, y "byddai eu cofio yn fynych ger bron ein Tad nefol wrth yr orseddfaino, dan ddyllanwad ac arweiniad ei Ysbryd, yn debyg o'n dwyn i deimlo yn addas tuag atynt yn eu hadfyd, ac i weithredu yn effro a diflino, yn ofn yr Arglwydd, er eu rhyddhad a'u hiechydwrriaeth." Cyhoeddodd hefyd "Benderfyniadau ar Gaethiwed," gan Eglwys Gynulleidfaol Gyntaf Great Falls, N. Y., yn datgan eu syniad o ddrygedd ysgeler y pechod o gaethwasiaeth—eu penderfyniad i'w wrthwynebu gydag arf y *gwirionedd* mewn *cariad*, a'u bwriad i gynal cyfarfodydd gweddi misol dros y rhai sydd mewn rhwymau, &c." Cymeroedd amgylchiad pwysig le hefyd y flwyddyn hono, a dynodd gryn lawer o sylw ar y pryd, ac a gynhyrfoedd gryn lawer o gydymdeimlad hefyd a'r bobl dduon orthrymedig, sef cymeriad llong ar ororau Lloegr Newydd, a llawer o ddynion duon ar ei bwrdd, y rhai a ladratesid o Affrica, i'w cludo i Cuba, er eu gwerthu i gaethiwed. Y mae llawer o ddarllenwyr boreuaf y *Cenhadur* yn cofio, yn ddiau, am "Negroaid yr Amistad," yr hanes am y rhai a gynyrchodd ddyddordeb cyffrous ar y pryd. Yn y flwyddyn 1841, cyhoeddodd "Anerchiad ar Ryddid," gan un a alwai ei hun yn GABWR RHYDDID. Y mae ysgrif a gawsom yn mysg papyrâu y diweddar Barch. Morris Roberts ar y pwnc, a'r un enw wrthi, yn peri i ni dybied yn lled sicr mai efe oedd awdwr yr anerchiad hwn ar ryddid. Y flwyddyn hono hefyd, pasiodd Cymanfa Gynulleidfaol Swydd Oncida y penderfyniad canlynol ar yr achos: "Penderfynwyd, Ein bod yn ystyried achos y caethion yn ein gwlad, eu lluosogrwydd, y creulonderau y maent yn ddyoddef, a'u hamddifadrwydd o fodd-

ion yr efengyl, yn galw am gydymdeimlad a gweddi, ac ymdrech drostynt, hyd a allo ein dylanwad gyrrhaedd, er prysuro eu gwardigaeth.”

Felly gwelir fod yr achos yn graddol ddyfod i sylw. Yn rhag-gyfarchiad y golygydd am y flwyddyn 1842, dywed, “Y mae achos y caethwas wedi bod yn agos at ein meddwl y flwyddyn hon; ac yn hyn, fel achosion eraill, yr ydym yn dymuno gweithredu fel rhai sydd i roddi cyfrif i Farnwr y byw a'r meirw. Y mae yn dda genym ganfod fod graddau o ddeffroad yn mhlith ein cenedl, mewn manau, o blaid yr achos gwerthfawr hwn; ac O! enyned yr un ysbryd daionus yn mhob lle.”

Yn y flwyddyn hono cyfieithodd a chyhoeddodd Mr. Everett, mewn rhifynau olynol o'r *Cenhadwr*, “Gyfansoddiad y Talaethau Unedig,” yn nghyda “Datganiad eu Hannibyniaeth.” Cyhoeddodd hefyd hanes ffurfiad Cymdeithas Wrthgaethiwol Gymreig yn Utica ac yn Steuben, yn nghydag amryw ysgrifau eraill ar wahanol arweddion yr achos. Ond nid oedd unrhyw wrthwynebiad neillduol i'r achos yn cael ei ddangos hyd yma. Cyfnod y cyfarfodydd mawrion a'r gwyliau, a'r gorymdeithiau dirwestol yn neillduol, oedd hwnw; ond yr oedd achos y caeth fel cwmwl bychan, eto yn graddol ymchwyddo. Yn y flwyddyn 1843, am fod rhai, fe allai, yn teimlo fod gormod yn cael ei gyhoeddi yn y *Cenhadwr* ar y pwnc, neu ynte rhag rhoddi achlysur i neb deimlo felly, cyhoeddwyd y *Dyngarwr*, cyhoeddiad bychan misol o wyth tu dalen, o'r un plygiad a'r *Cenhadwr*, ac a ddeuai allan ganol y mis, yn yr hwn yr ymresymid yn unig “ar gyfiawnder a dirwest.” Anfonwyd ef yn rhad i'r holl wein-

idogion, o bob enwad, a'i derbynient, mor bell ag y caed gwybodaeth am eu henwau. Yn y rhifyn cyntaf dywedai Mr. Everett, gyda golwg ar ei fwriad ynddo : " Yn neillduol erfynir am ffeithiau gan y rhai a fuont yn y caeth Dalaethau, o berthynas i wir sefyllfa y caethion, y driniaeth a gânt, eu hymborth, gwisgoedd, breintiau crefyddol, &c."

Felly bu'r *Dyngarwr* am y flwyddyn hono, bob mis, yn dangos allan erchyllderau caethwasiaeth mewn lliwiau echrudus iawn. Yr oedd sylwadau tirion a theimladwy, ac erfyniau dwys-ddifrifol Mr. Everett, yn gymysgedig â'r darluniadau hyn, yn tueddu yn fawr er cynyrchu yn nghalon pob Cymro gasineb perffaith at y gyfundrefn greulon. Yn y flwyddyn hono dechreuai y dyfroedd gynyddu ac ymgryfhau. Yr oedd pleidwyr caethwasiaeth yn cynhyrfu am gysylltu Texas â'r Talaethau Unedig, er lledaeniad a bytholiad caethwasiaeth. Yr oedd pleidwyr rhyddid, hwythau, yn anfon deisebau i Washington i erfyn am ddilëad deddf greulon 1793, yr hon oedd yn rhwymo dinasyddion y Talaethau rhyddion i gynorthwyo y caethfeistri i ddal eu caethion ffoedig. Cyhoeddodd Mr. Everett erthygl alluog o blaid arwyddo y ddeiseb. A thrachefn cyhoeddodd ymresymiaid cryfion Mr. James G. Birney ar yr un mater, yn nghyda rhai ysgrifau gan eraill, ar Greulonderau y Gaethfasnach, &c. Penderfynodd cyfeillion y caethwas hefyd yn Lloegr Newydd, i anfon allan genadau i gynal cant o leiaf o gynadleddau a chyfarfodydd gwrthgaethiwol yn Nhalaethau New York, Pennsylvania, Ohio, ac Indiana. Cynaliwyd hefyd yn y cyfamser gynadledd wrthgaethiwol bwysig yn Llundain, i'r hon y dysgwylid, ac y bwriadai y

byd-enwog Thomas Clarkson ddyfod, ond methodd gan henaint ac afiechyd. Anfonodd anerchiad, fodd bynag, yr hwn a ddarllenwyd er mawr foddhad y cyfarfod. Pasiwyd yno benderfyniadau cryfion yn erbyn caethiwed, a mabwysiadwyd anerchiad at eglwysi Crist yn America, a gwledydd eraill lle yr oedd dynion yn cael eu dal yn gaethion.

Naturiol tybied fod y gwahanol foddion hyn yn effeithio i ddeffroi teimlad o ddyddordeb yn yr achos yn meddyliau y werin, ac fod y Cymry hefyd yn cyfranogi i raddau o'r un ysbryd. A chawn i Gymanfa Gynulleidfaol Swydd Oneida y flwyddyn hon, neu yn hytrach y gweinidogion oeddynt yn y Gymanfa, mewn cynadledd, basio tri o benderfyniadau difrifol, y rhai a osodent allan eu hystyriaeth o fawr ddrygedd caethiwed, a'u dyledswydd bwysig hwythau, fel gweision yr Arglwydd, i rybuddio eu cyd-ddinasyddion o'r ysgelderder hwn, a'u hanog yn ddifrifol a thaer i ddeffroi yn yr achos, a gwneuthur a allont, yn ofn yr Arglwydd, er gwaredigaeth y gorthrymedigion. Cynaliwyd cynadledd luosog a phwysig hefyd yn hydref y flwyddyn hono yn Steuben, pryd yr oedd yn bresenol amryw o areithwyr o fysg y Saeson—heblaw y Parchn. Mr. Everett, Morris Roberts, S. A. Williams, a T. J. Evans. Parhaodd y cyfarfod am ddau ddiwrnod cyfan, y boreu, prydawn, a'r hwyr. Siaradwyd yn rymus ac effeithiol, yn Gymraeg a Saesonaeg, a phasiwyd amryw benderfyniadau cryfion ar yr achos. Effeithiodd y cyfarfod hwn i godi y teimlad gwrthgaethiwol gryn lawer yn uwch yn yr ardaloedd hyny nag oedd o'r blaen. Ac yn y flwyddyn 1844 aeth yn gynhyrfus iawn, o herwydd yr oedd yr ethol-

iad Llywyddol i gymeryd lle y flwyddyn hono. Y cwestiwn mawr i'w benderfynu y pryd hwnw rhwng y pleidiau gwladyddol oedd, derbyniad Texas i'r Undeb. Yr oedd y Democratiaid yn gryf dros ei derbyniad, tra yr oedd y Whigiaid, o'r tu arall, yn erbyn hyny, oddieithr y gellid effeithio hyny yn deg a boddlonol, ac heb achosi rhyfel. Yr oedd yn ddigon amwlg i bawb yn y De a'r Gogledd y byddai ei derbyniad, o herwydd ei lleoliad, yn fantais a chryfhad mawr i gaethiwed. Ac yr oedd pleidwyr caethwasiaeth yn y De, fel y sylwyd, wedi bod yn cynhyrfu y pwnc o'i derbyniad i'r pwrpas hwnw. Ac yr oedd llawer o Whigiaid a Democratiaid y Gogledd yn erbyn ei derbyniad ar y cyfrif hwnw, ond fod llwyddiant eu plaid o fwy o bwys yn eu golwg hwy ar y pryd.

Penododd y gwahanol bleidiau eu hymgeiswyr. Y Democratiaid a enwasant James K. Polk, a'r Whigiaid a osodasant i fyny Henry Clay, yr hwn, yn bersonol, ydoedd yn dra phoblogaidd y pryd hwnw. Y Gwrthgaethwyr, hwythau, a enwasant James G. Birney. Yr oedd Polk a Birney yn ddigél, ac o egwyddor y naill dros, a'r llall yn erbyn derbyniad Texas, o herwydd y fantais a roddai hyny i gaethwasiaeth. Amcanodd Henry Clay gymeryd tir canol, ac yn anffodus iddo ef a'i blaid, ysgrifennodd lythyrau yn y rhai yr oedd yn datgan ei wrthwynebiad i dderbyniad Texas, nid ynddo ei hun, ond am y peryglai ryfel, &c. A dywedai hefyd *na ddylasai y cwestiwn o gaethiwed ddyfod i fewn i'r ystyriaeth, &c.* Cyn cyhoeddiad y llythyrau hyny golygid fod y Whigiaid yn debyg o gario pob peth o'u blaen yn yr etholiad. Ond profodd llythyrau mwys Mr. Clay yn fuan fel maen melin am

wddf y blaid, a newidiodd agwedd pethau yn fawr. Tafwyd pleidwyr Clay ar unwaith i'r diffynol, ac yr oeddid bellach yn golygu y byddai yr etholiad yn un glos iawn rhwng y ddwy hen blaid; mor glos, yn wir, fel y byddai i bwy bynag a gariai Dalaeth New York gario yr etholiad. Felly gwnaed New York yn faes neillduol yr ymdrechfa.

Yr oedd llawer o'r Whigiaid yn honi eu bod yn fwy o wrthwynebwyr i gaethwasiaeth na'r Democratiaid, ac yr oedd yn debygol y byddai i'r rhan fwyaf o lawer o'r Gwrthgaethwyr ddyfod allan o'r blaid hono, ac felly wrth gwrs yn ei gwanhau ac yn peryglu ei llwyddiant. Parai hyn y gwneid ymdrech mawr er lladd y blaid Wrthgaethiwol, neu y drydedd blaid fel ei gelwid, a chadw pawb i bleidleisio fel arferol gyda'r blaid Whigaidd. Yr oedd y Gwrthgaethwyr, hwythau, yn benderfynol iawn nad oedd mewn gwirionedd ddim rhagor rhwng y ddwy hen blaid ar bwnc caethwasiaeth. Dywedent hefyd fod Henry Clay yn dal caethion ei hunan. Yr oedd hefyd, meddent, wedi bod yn ymladd ornest (*duel*), ac felly cyhuddent ef o fod yn gaethfeistr a llofrudd! a dywedent nad oedd yn deilwng, ac na chaffai eu pleidleisiau hwy. Felly aeth yn boeth iawn. Yr oedd Dr. Everett, wrth wrthwynebu caethwasiaeth, fel pob peth arall, yn sefyll ar dir cadarn gwirionedd a chyfiawnder, a chyhoeddodd yn y *Cenhadwr* egwyddorion a theilyngdod cydmarol y gwahanol ymgeiswyr, a chymerodd ei safle yn ddiamwys ac agored o ochr Mr. Birney a'r blaid Wrthgaethiwol. Achosodd hyn ar unwaith wrthwynebiad ffyrnig a phenderfynol iddo gan bleidwyr Henry Clay yn mysy y Cymry; ac yr oedd y rhan fwyaf o honynt felly. A

phan welsant nad allent ateb ei resymau ar dir teg y gwirionedd, na'i ddarbwyllo yntau chwaith i ddystewi, trodd llawer o honynt i'w wawdio a'i ddirmygu, a chariasant eu gwrthwynebiadau i raddau tra eithafol a chywilyddus. Ni wnaed y fath wrthwynebiad i unrhyw blaid, na dim yn debyg chwaith, hyd y flwyddyn 1876, pryd y meiddiodd ychydig o dan led gyffelyb amgylchiadau, bleidleisio dros lwyr waharddiad y fasnach mewn diodydd meddwol.

Mae yn wir fod y gwrthwynebiad yn 1844 yn chwerau a mwy erlidgar nag ydoedd yn 1876, ac yn wir nag y gwelsom ef ar un amser arall, heb eithrio adeg y gwrthryfel mawr. Pa fodd i gyfrif am hyny nis gwyddom, os nad am mai y gallu caethiwol, arglwyddiaethus a threisiol, oedd wrth wraidd, ac mewn modd arbenig yn cynyrchu cynhwrf ac yn rhoddi y cyweirnod i'r ymrysonfa hono yn 1844. Cleciadau bygythiol fflangell y caeth-yrwr, a thincian cadwynau gormes, a glywid yn amlwg braidd yn mhob man y flwyddyn hono. Yr oedd yr ysbryd tra-arglwyddiaethus a balchreolus hwn wedi cael ei hir feithrin yn y De, ac wedi cael ei ryddid er ys blynyddau bellach, nid yn unig i gyhoeddi y bygythion mwyaf arswydus a beiddgar, ac i weinyddu y cosbedigaethau mwyaf creulon ar y sawl a dybid eu bod yn cydymdeimlo â'r caethion yn y De, ond hefyd i gyhoeddus gynyg miloedd o ddoleri o wobr am benau rhai o'r cyfryw yn y Gogledd. Yr oedd yr ysbryd trahaus ac uchelfrydig hwn wedi cael ei oddef i redeg yn orwyllt ac aflywodraethus drwy yr holl wlad, gan derfysgu a thori i fyny gyfarfodydd heddychlon, dymchwelyd a distrywio argraffweisg, dirwyo a charcharu; i.e., ac hefyd gymeryd ymaith

fywydau dynion yn unig am gydymdeimlo â'r gorthrymedig, a gwrthwynebu caethwasiaeth y De. A chafodd Dr. Everett deimlo i raddau oddiwrth eu ffyrnigrwydd yn y blynyddau hyny. Ac yn adeg yr etholiad yn 1844 yn arbenig, fel y crybwyllwyd, aeth yn gynhyrfus iawn.

Yr oedd amrywiol bethau yn cydgyfarfod yn yr amgylchiadau hyny, er eu gwneyd yn neillduol o brofedigaethus i feddwl Dr. Everett. Yn un peth, yr oedd ef ei hunan yn ddynd naturiol lwfr (*timid*), ac o deimladau tyner ac ofnus; ac i raddau yr oedd yn dueddol i edrych ar yr ochr dywyll i bethau. Yr oedd ei ysbryd heddychlawn, tawel a boneddigaidd hefyd yn peri iddo fod yn wrthwynebus iawn i bob cynhwrf a therfysg. Yr oedd cythrwfl ac anghydfod yn peri poen a gofid iddo. Dywedai wrth ei was ar ddiwrnod yr oedd cyfarfod eglwysig i fod yn ei gapel, a olygai fod yn gynhyrfus, y buasai yn well ganddo fyned i'r coed o'r golwg, na myned i'r capel y diwrnod hwnw. Yr oedd ei deimlad gofidus fel eiddo y prophwyd Jeremiah pan ddywedai, "O na byddai i mi yn yr anialweh lety fforddion, fel y gadawn fy mhobl, ac yr elwn oddiwrthynt." Heblaw hyny yr oedd Mr. Everett i gryn raddau ei hunan yn yr ymdrechfa bwysig. Yr oedd y mwyafrif mawr o'r Cymry yn ei erbyn yn yr achos hwn. Mae yn wir fod gweinidogion Annibynol Sir Oneida yn gyffredin gydag ef. Y Parchn. Morris Roberts, James Griffiths a Samuel A. Williams a safasant fel un gwr drosto; a derbyniasant hefyd ran helaeth o'r dirmyg a gafodd yntau. Yr oedd rhai ereill yn ngwahanol ranau'r wlad yn bleidiol iddo, yn mysg y blaenaf o'r rhai yr oedd yr hybarch Thomas Ed-

wards, sydd eto yn fyw, ac yn awr o Pittsburgh. Gorphwysed bendithion goreu y nefoedd arno yn ei hen ddyddiau, a chaffed fyw flynyddoedd lawer i fwynhau ffrwythau y fuddugoliaeth! Ond fel rheol ni chaffai Mr. Everett gydymdeimlad, hyd yn nod ei frodyr yn y weinidogaeth yn y cyfnod hwnw. Ac yr oedd y rhan fwyaf o ddynion mwyaf dylanwadol yr eglwysi yn ei erbyn. Yr oedd hefyd yn cyhoeddi y *Cenhadwr*, ac yn awr yn unig berchenog o hono, ac yr oedd o bwys iddo allu cadw ei dderbynwyr heb leihau mewn rhifedi, ac yr oedd llawer yn bygwth ei roddi i fyny, a daroganid y darfyddai ei gylchrediad yn hollol yn fuan. A'r *Cenhadwr* oedd yr unig gyhoeddiad Cymraeg oedd y pryd hwnw yn pleidio achos y caeth.

Ysgrifennodd y Parch. Mathias Phillips, gweinidog gyda'r Bedyddwyr y pryd hwnw yn St. Albans, Ohio, lythyr at Mr. Everett, yr hwn a gyhoeddwyd yn y *Cenhadwr* am 1845, tu dal. 333, yn yr hwn y dywed: "Y mae yn ofidus genyf fod cynifer yn eich gwrthwynebu yn *Seren Oneida*, ac eraill o'r cyhoeddiadau misol, os nid yn arfer eu dylanwad yn eich erbyn; eto, fel Meroz, ddim o un cynorthwy."

Yr oedd y gwrthwynebiad a wneid i Mr. Everett hefyd, fel y crybwyllwyd, yn chwerw ac eithafol iawn. Cynelid cyfarfodydd politicaidd Cymreig gan y Whigiaid yn yr ysgoldai ar hyd yr ardaloedd, ac nid oedd enwau rhy ddirmygus i'w rhoddi ar Mr. Everett a'i ymdrechion, ynddynt; a chymeradwyid â bonllefau a rwygent yr awyr, y ddifriaeth iselwael! Defnyddid pob twyll-resymau ac anwireddau hefyd er dychrynu y bobl rhag cymeryd eu dylanwadu ganddo. Dywedid pe diddymid caethiwed y byddai y bobl ddu-

on yn heigio y Gogledd fel llyffaint yr Aipht. Byddent yn tori ein tai, yn lladrata ein meddianau, yn treisio ein gwragedd, yn lladd ein dynion ac yn priodi ein merched, &c., &c. Dywedid hefyd fod caethiwed yn sefydliad Beiblaidd, ac mai anffyddwyr oedd y gwrthgaethwyr; a mawr y stwr a wneid eu bod yn troseddu ar Gyfansoddiad y wlad, yr hwn, meddent, oedd yn amddiffyn a chyfreithloni caethiwed. Prifodolid pob drwg a ddygwyddai, i waith Mr. Everett ac eraill yn pregethu "*abolition.*" Dywedwyd yn ei wyneb gan un yn nghapel Steuben, mai o'i achos ef a'i waith yr oedd y tatws yn pydru y blynyddau hyny. Clywsom un hen wr yn sicrhau mai barn amlwg oddiwrth yr Arglwydd, ar Mr. Everett am bregethu *politics* ar y Sabboth, a son cymaint am y bobl duon, oedd y gwlaw trwm a ddisgynodd ar brydnawn y Gymanfa yn Steuben. Cariwyd y gwrthwynebiad hefyd i'w eglwysi, yn enwedig yn Steuben; a gwnaed terfysg nid bychan yno. Cyhuddwyd Mr. Everett o fod yn gadael yr efengyl ac yn myned i bregethu *politics* ar ddydd yr Arglwydd, &c., &c. Ac ymdrechwyd yn egniol i rwygo yr eglwys a'i droi yntau ymaith. Aeth amryw allan y pryd hwnw, ac ni ddaeth rhai o honynt byth yn ol!

Cyn hir defnyddiwyd yr argraffwasg er taflu dirmyg a gwaradwydd arno ef ac eraill o weinidogion Oneida. Cyhoeddwyd wythnosolyn a elwid *Seren Oneida*, ac yn y papyryn hwnw, yr hwn a gyhoeddwyd am amrai fisoedd, cyhoeddwyd (uwchben ffugenwau wrth gwrs) yr enllibiau mwyaf maleisus, a'r celyddau mwyaf gwarthus a chywilyddus, am weision yr Arglwydd. Dywedai y Parch. Samuel A. Williams

y byddai “y llythyrau dienw hyny oll a’r enwau priodol wrthynt yn y farn!” Cyfansoddwyd rhigyman hefyd ar enw barddoniaeth, yn llawn o lysenwau mwyaf dirmygus, ac o’r ensyniadau mwyaf sarhaus ac iselwael am Mr. Everett, Mr. Roberts ac eraill. Gwnaed hefyd yr hyn oedd yn fwy difrifol eto, er sarhau Mr. Everett, oblegid anurddwyd ei anifail trwy dori ei fwng a rhawn ei gynffon, er ei wneuthur yn wrthddrych gwawd a chwerthiniad ynfydion wrth deithio ar hyd y ffyrdd! A mwy na’r cyfan, dywedir y bygythiwyd ei fywyd gan ryw rai. Am hyn ysgrifena ei ferch Mary atom o New York fel y canlyn: “Y mae adgofion am y cyfarfodydd dirwestol a gwrthgaethiwol hyny yn mysg adgofion mwyaf bywiog boreu fy oes. Yr oedd y dyddordeb a gymerai fy nhad ynddynt mor fawr, ac yr oedd yn meddu gallu i lenwi ei holl deulu a’r un ysbryd. A ydych yn cofio amgylchiadau cneifiad neu yn hytrach haciad mwng a rhawn cynffon ei geffyl? Yr ydoedd oddeutu amser penodiad Mr. Birney i redeg am y Llywyddiaeth yn y flwyddyn 1844. Aeth i bregethu ar noson waith i ysgoldy yn ———. A chan fod ei fywyd wedi cael ei fygwth o’r blaen, yr oeddym yn ofni iddo i fentro myned ei hunan. Felly aeth fy mrodyr John a Robert gydag ef. Ei destyn ydoedd, ‘Agor dy enau dros y mud yn achos holl blant dinystr.’ Wrth fyned i ymofyn y ceffyl ar ol y cyfarfod, cawsant y creadur truan wedi ei anffurfio. Rhaid mai â chylllell y gwnaed hyny, oblegid yr oedd amryw doriadau yn ei gnawd. Yr oedd y nos yn dywyll, a chan feddwl y gallai fod yr *harness* wedi ei gwneuthur yn anniogel, ac y gallai hefyd yr ymosodid arnynt ar y ffordd, ildiasant i gymell-

iadau taer cyfeillion i aros hyd y boreu. Dychymygwch ein pryder a'n hofnau, a'n hesmwythâd ar weled y tri yn dyfod i mewn i'r buarth boreu dranoeth. Nid anghofiaf byth ein cymysg deimladau y boreu hwnw o lawenydd a diolchgarwch am eu dychweliad diogel, ac o ddigllonedd wrth weled y toriadau yn nghnawd, a'r anurddiad a wnaethid ar ein merlyn bychan Canadaidd yn nhorriad ymaith ei fwng cyhwfanaidd, a'i gynffon wedi ei hymddifadu o'i phrydferthwch. Aeth wrth y llys-enw 'Bobtail Birney' yn hir ar ol hyny. A'n Henry bach, deg mlwydd oed, a gyfranogai hefyd o'r enw a'r dirmyg; ac arferai y bechgyn ymosod arno pan elai i'r pentref i ymofyn y *mail*. Unwaith bu agos iddynt lwyddo i ysbeilio ei logellau, ond llwyddodd i fyned o'u gafael. Byddem ni bob amser yn cael ein hatal rhag rhoddi mynegiad o'n digllonedd, yn wyneb y fath driniaeth greulon ar ein ceffyl truan; a chaffai pob ysbryd dial bob amser ei dawel ond effeithiol ger-yddu ynom. Ac er y mynegwyd i'n tad ar ol hyny pwy oedd y troseddwr hwnw, ni wnai byth amlygu yr enw, hyd yn nod i'w blant ei hunan."

Ni chlywsom fod neb erioed wedi awgrymu y peth lleiaf yn erbyn cymeriad moesol Mr. Everett. Nid oedd hyny, fodd bynag, fe allai, ond mater o ddygwyddiad yn fwy na dim arall, oblegid cafodd dynion mor bur ag yntau ddyoddef felly lawer gwaith cyn hyn; i.e, ac hyd yn nod ein bendigedig Waredwr ei hunan! Ac ni buasai raid i'r gwrthwynebiad fod yn ddim chwerwach yn erbyn Mr. Everett, nac yn fwy afresymol chwaith, er ymosod ar ei gymeriad yntau; ond ni ddygwyddodd gymeryd y cyfeiriad hwnw. Y mae bron yn anghredadwy, erbyn hyn, i'r sawl na wel-

sant ac na chlywsant eu hunain, mor chwerw ac eithaf-ol yr aeth llawer yn eu gwrthwynebiad. Cof genym glywed adrodd ar y pryd, fod un o'r ardalwyr yn Steuben yn dyfod i'r capel un boreu Sabboth, a chan sefyll yn y buarth o flaen y capel, dywedai yn uchel, fel y gallai pawb ei glywed, ei fod wrth ddyfod yno y boreu hwnw, wedi gweled bachgen digrefydd ac annuwiol yn y cae yn codi tatws ar ddydd yr Arglwydd; ac iddo ef ofyn iddo, a ddeuai efe ddim i'r capel?—ac iddo yntau ateb gyda llw mawr, na ddeuai ef, nad oedd arno eisiau myned i'r capel i wrando ar bregethu *politics*! Ond yn mhen ychydig ddyddiau gollyngwyd y gath o'r cwd, trwy i'r bachgen gyfaddef mai ar gais, ac yn ol trefniad blaenorol a'r person crybwyllledig, y gwnaethai efe felly; a chaed mai cynllun ydoedd y cyfan gan y dyn hwnw er dirmygu a cheisio niweidio Mr. Everett!

Ond safodd ef ei dir yn ddewr a di-ildio, yn wyneb yr holl waradwydd a'r gwrthwynebiad chwerw. Diau y buasai yn llawer mwy dymunol iddo ef, i allu byw mewn heddwch a'i gymydogion, ac i gael tawelwch ac undeb brawdol yn ei eglwysi; eto yr oedd yn teimlo ei bod yn ddyledswydd arno sefyll o blaid yr achos pwysig. Teimlai yn hyny fel yr Apostol, pan ddywedai, "Angenrhaid a osodwyd arnaf." Ac yr ydym yn credu yn sicr y buasai yn cymeryd ei ladd a'i losgi yn hytrach nag ildio a rhoddi i fyny. Mewn cyfarfod eglwysig a gynaliwyd yn y Capel Uchaf, i'r dyben o geisio rhoddi taw arno, pryd, yn ol yr hanes a gawn, yr ymddygai rhai yno yn waeth nag "anifeiliaid yn Ephesus," eisteddai Mr. Everett yn dawel i wrando ar y cyhuddiadau beiddgar a roddid yn ei erbyn, a'r peth-

au caledion a ddywedid am dano. Yna codai a safai wrth dalcen y bwrdd, a'i law yn gorphwys ar y Beibl, a dywedai, "Wel, frodyr, gellwch fy nhroi allan o'r eglwys hon, a chau y pwlpudd hwn yn fy erbyn; ond tra y bydd genyf wasanaeth y tafod yma, a thra y bydd y bysedd hyn yn gallu ysgrifenu, ni ellwch byth fy atal i ddadleu dros y gorthrymedig." Aeth yn mlaen mewn amddiffyniad iddo ei hun a'i waith, mewn modd araf-ddifrifol, a chwbl hunan-feddianol a Christionogol; ac eto gwelid yn ei holl ymddangosiad benderfynolrwydd diysgog y graig, a deallai ei wrthwyn-ebwyr yn fuan, nad oedd cau dyrnau a gwneuthur clochnadau a haeriadau hyfion, disail, yn dychrynu dim ar y "dyn bach." Ac addefai rhai o honynt ar ol hyny, nad oedd o un dyben iddynt geisio ateb ei ymresymiaidau cryfion.

Yn ei anerchiad golygyddol yn y *Cenhadur*, ar ddiwedd y flwyddyn hono (1844), dywed: "Byddai yn ddymunol ac yn werthfawr iawn genym allu enill ewyllys da a boddhad ein cyd-ddynion yn gyffredinol; ond nis meiddiwn geisio ymgyrhaedd at hyny ar y draul o ddigio yr Arglwydd a thynu euogrwydd ar ein cydwybod." Ac eto dywed: "Gwnaed ymosodiad arnom yn ddiweddar, a roddodd glwyf dyfnach ar ein meddwl na nemawr ddim o'r cyfryw natur a'n cyfarfu erioed o'r blaen. Eto yr ydym yn siriol ac yn dawel gyda ein gwaith; nid ydym yn gofalu cymaint i geisio amddiffyn ein cymeriad; gadawn hyny yn llaw yr Arglwydd, ac ymbiliwn am gymorth i sefyll o hyd dros egwyddorion cywir, i feithrin yn ein mynwes dymer efengylaidd at bob dyn, i ddysgu doethineb mewn trallod, ac i ymddiried yn yr Arglwydd." Yr

oedd ei benderfyniad yn ddiysgog a diblygu. Mewn nodyn yn y *Cenhadur* am 1844, tu dal. 143, dywed: "O'n rhan ein hunain ein penderfyniad ydoedd o'r dechreu, deued hawddfyd, deued adfyd, bywyd neu angau, i sefyll ar dir cyfiawnder, ac i ddyferu gair yn fynych wrth ein hoff genedl am sefyllfa aethus meibion a merched y gaethglud fawr."

Fel dangosiad o'r cyhuddiadau a roddid yn ei erbyn, gallem nodi yr engreiffiau canlynol: Cyhuddiad cyffredin a roddid gan lawer yn ei erbyn oedd, ei fod yn gadael yr efengyl, ac yn myned i bregethu *politics* ar y Sabboth. Ei ateb i hyn ydoedd: "Gan fod cymeriad dyn o fwy o werth, mewn ystyr, na dim arall a fedd yn y byd hwn, y mae (y golygydd) yn golygu yn rheidiol gwneyd sylw byr ar y cyhuddiad. Y mae yn cydnabod yn rhwydd ei fod yn pregethu ar bechadurusrwydd gorthrymder, ar y Sabboth, nad yw Duw yn cymeradwyo gorthrymder yn neb, fod hyny yn anghydeffyll â'i natur sanctaidd, ac â'i holl air, ac y dylai pob dyn, Cristionogion a phawb eraill, ddefnyddio eu holl ddylanwad a gwneyd a allont yn mhob dull heddychol a chyson â'r efengyl, o blaid y gorthrymedig, nes y 'gwareder ef o law y gorthrymwr.' Y mae yn pregethu ar y Sabboth fod y caethiwed Americanaidd yn bechod ysgeler yn erbyn Duw, yn ffeiddra cywilyddus, ac yn gamwedd eglur yn erbyn dynion a grewyd ar ddelw Duw; fod rhagfarn yn erbyn dyn o herwydd ei liw, neu un peth ynddo o waith Duw, yn sarhad ar Dduw ei hun, lluniwr a chrëwr pawb. Y mae yn pregethu ar y Sabboth fod pleidwyr gorthrymwyr yn gyfranogion â hwynt yn y camwedd. Ystyria y pethau hyn yn rhan o gyngor Duw,

ac y byddai yntau yn euog o atal rhan o'r cyngor, pe byddai iddo gelu oddiwrth y bobl, ar y fath amser, wirioneddau o'r fath bwysigrwydd. Ond wrth y gair *politics* y golygir yn gyffredin *bethau gwladwriaethol*, achosion arianol y wladwriaeth, megys y *tariff*, y banciau, a'r cyffelyb. Er ei fod yn credu fod y pethau yna yn deilwng o son am dauynt ar amserau priodol, ac er ei fod yn credu y bydd i waredigaeth y caethwas effeithio yn ddaionus ar achosion tymorol ein gwlad mewn llawer o ystyriaethau, ac mai priodol ar amserau priodol, yw son am hyny, eto nid yw yn ystyried yn gyson a dybenion y Sabboth, fel dydd crefyddol, i ymdrin dim a'r pethau yna; a'r rhai a'i gwrandawrant bob Sabboth a wyddant nad yw yn gwneyd felly. *Ei gynulleidfa oll ydynt ei dystion o'r pethau hyn.*" *Cenhadwr* am 1844, tu dal. 348.

Cyhuddiad pwysig yn erbyn Mr. Everett gan lawer, hefyd, ydoedd ei fod yn enllibio Henry Clay a'i blaid, trwy ddweyd pethau mor galed yn eu herbryn. Yn ateb i hyn, dywedai: "Gwyr pawb nad enllibio yw dweyd y gwir. Os dywedir anwiredd ar gaethfeistri, mae hyny yn enllib; ond os y gwir a ddywedir, nid enllib yw. Dywedir yn barhaus fod yr ymgeisyddion am y Llywyddiaeth gan ddwy o'r pleidiau yn awr ar y maes, yn gaethfeistri, a chyhoeddir eu rhesymau dros barhad y gyfundraeth hon, ac yn erbyn egwyddorion rhyddid i bob dyn, a hyny yn *eu geiriau eu hunain*. Nis gall hyny fod yn enllib. Dangosir am un o honynt ei fod yn ymladdwr *duels* o'i ieuencyd—wedi bod ddwy waith ar y maes, ac wedi saethu ei wrthwynebydd, a'i wrthwynebydd wedi ei saethu yntau unwaith, ond nid yn angeuol; a'r tro arall wedi

saethu ei belen trwy ddillad ei wrthwynebydd, ond methu ei berson; ac yn ddiweddar wedi caniatáu y gallai amgylchiadau ddygwydd i'w alw eto i'r maes! Ond nid enllib yw hyn, ond feithiau gwirioneddol."

Aeth rhai mor feiddgar a digywilydd a thaenu ar led, mai er mwyn gwneyd arian yn unig yr oedd Mr. Everett yn gwrthwynebu caethwasiaeth—ei fod yn ngwasanaeth y Democratiaid i wneuthur hyn er mwyn tynu pleidleisiau oddiwrth Mr. Clay, a'u bod yn talu arian mawr iddo am hyny—pum' cant o ddoleri meddai rhai; saith cant, meddai eraill. Wrth sylwi ar hyn, dywedai: "Clywsom, flynyddau yn ol, bethau cyffelyb; ond ni wnaethom sylw o honynt; ac nis gwnaem yn awr oni bae ein bod yn ofni i'r dywediad enllibus wneyd niwed i'r achos ag y mae ei lwyddiant yn agos at ein calon. Yr ydym yn awr yn tystio yn ddifrifol, ger bron yr hwn a wyr bob peth, nad ydym wedi derbyn dim, nac yn dysgwyl derbyn un ddolar, nac un *cent*, am ddim a wnaethom erioed yn yr achos hwn. Yr ydym wedi dysgwyl gwawd a dirmyg lawer tro o herwydd ein hymlyniad wrth achos a ddirmygir gan lawer; ac y mae hyn yn dyfod i'n rhan i raddau y dyddiau hyn, yn nghyda cholledion arianol hefyd, mewn amryw ffyrdd. Ond y mae meddu cydwbybod ddirwysr yn ein mynwes tuag at Dduw a dynion yn mwy na gorbwyso y cyfan; ac y mae ein gobaidh, er yn wan, o gael bod ryw ddiwrnod gyda'r dyrfa hono ag y dywed y Barnwr wrthynt, 'Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch.'"—*Cenhadur*, 1844, tu dal. 346.

Felly daliodd ati mewn ysbryd Cristionogol, yn ddi-ffino, i dafu goleuni y gwirionedd dwyfol yn ei dan-

beidrwydd, i lewyrchu ar ddrygedd ysgeler caethwas-iaeth, ac ar y mawr ddrwg a'r pwysig gyfrifoldeb o bleidleisio dros ddynion oeddynt yn pleidio y fath gyfundrefn echryslon. Gwnai hyn yn ei bregethau, ac mewn areithiau ar hyd yr ardaloedd, mewn ysgoldai a thai anedd, yn gystal hefyd ag mewn ysgrifau grymus a difrifol yn y *Cenhadwr*. Yr oedd yr Undeb Cynulleidfaol yn Swydd Oneida hefyd, yn mhob Cynadledd braidd, yn pasio penderfyniadau ar yr achos, ac yn gollwng ei ergydion trymion yn erbyn pleidwyr trais, a daeth Cymanfaoedd yr enwad hwnw mewn Talaethau eraill, cyn hir, i efelychu ei esiampl. Parhaodd yn frwydr galed a difrifol am amser maith. Rhy faith yma fyddai dilyn yr hanes yn ei holl fanylion; eithr achos rhyddid a chyfiawnder a raddol enillodd y dydd. Arweiniodd hyny i'r "gwrthryfel mawr," nad ydym hyd yma wedi ein gwaredu oddiwrth ei effeithiau a'i adfydus ganlyniadau! Drylliwyd rhwymau gormes, gollyngwyd y carcharorion yn rhydd, a sierhawyd, tu hwnt i bob posibilrwydd o fethiant, na chaiff caethwas-iaeth fodoli byth mwyach ar un droedfedd o dir perthynol i'r Talaethau Unedig! Golchwyd ein baner odidog yn lân oddiwrth y gwaed a'i llychwinai, a chyhwfana am byth mwyach yn wir faner rhyddid i bob dyn a ymgysgoda o dan ei hamddiffyniad!

Cafodd Dr. Everett, er ei fawr foddhad, fyw i weled hyn oll wedi ei gyflawni. A chafodd fyw hefyd i wel-ed Duw yn peri i'w "holl elynion fod yn heddychol ag ef!" Cauodd yr Arglwydd bob genau a agorwyd yn ei erbyn; a byddai yn lled anhawdd heddyw ddyfod o hyd i ond ychydig o'r rhai a fuont yn ei amharchu mor gywilyddus, ac yn ei wrthwynebu mor

chwerw, yn nghynhwrf mawr y blynyddoedd gynt. Erbyn hyn mae y frwydr fawr hono wedi tawelu, a bellach mae'r mwg a'r caddug a lanwai yr awyrgylch wedi chwalu ymaith. A gwelir yn awr yn glirach wir gýmeriad yr ymrysonfa bwysig; a gellir barnu erbyn hyn yn decach, a mwy diduedd, ymddygiadau y gwahanol bleidiau ynddi. Gwelir yn eglur erbyn heddyw, mai Dr. Everett oedd yn iawn! Gwelir hefyd ddarfod iddo gael cymorth mawr i gadw ar ganol ffordd y gwirionedd, ac ymgadw hefyd yn ysbryd yr efengyl yn dra rhyfedd, ac ystyried pobpeth, drwy holl boethder yr ýmdrech fawr hono! Daw cymeriad yr ymosodiadau a wnaed arno hefyd i'r golwg yn eu lliw priodol eu hunain erbyn hyn; a diau mai y peth gor-eu ellir wneyd, bellach, yw taflu mantell cariad tros-tynt, i'w cuddio o olwg y byd, a cheisio mynwsu y syniad fod egwyddorion a dybenion ei wrthwynebwy'r y pryd hwnw yn llawer gonestach a rhagorach na'u hymddygiadau.

COFIANT MRS. ELIZABETH EVERETT,

STEUBEN, SWYDD ONEIDA, E. N.

 GAN Y PARCH. EDWARD R. HUGHES, STEUBEN.

Yr wyf yn teimlo mai nid gwaith rhwydd i mi ydyw ysgrifenu cofiant i wrthddrych mor deilwng ag ydoedd Mrs. Everett; a hyny am ddau reswm. Yn gyntaf, nid dynes gyffredin ydoedd o ran meddwl, dysg, na duwioldeb; ond safai o'i hysgwyddau i fyny yn uwch na'r mwyafrif o'i chylch. Yn ail, yn mlyn-yddoedd diweddaf ei hoes y daethum i gyffyrddiad â hi, pan oedd y pren almon yn blodeuo, a'i nerth yn cyflym ballu. Adnabyddais hi ychydig dros bedair blynedd yn ol, pan ydoedd oddeutu 76 mlwydd oed. Ond y mae hen ddyddiau, fel rheol, yn dweyd yn bur eglur pa fodd y treuliwyd cyfnodau blaenorol y bywyd. Y mae ffrwyth yr hydref yn dweyd am fiodau y gwanwyn a thyfiant yr haf. Y mae pob peth "yn deg yn ei amser"—blodau yn y gwanwyn, a ffrwyth yn yr hydref. Pan y gwelais Mrs. Everett gyntaf yr oedd ffrwythau hydref profiad yn llawn arni. Yr oedd llaw gras wedi bod yn gweithio arni am *driugain mlynedd*. Yr ydoedd yn golofn hardd yn tystio mai daionus a thrugarog ydoedd y Duw fu yn ei wasanaethu.

Rhoddwn yma amlinelliad o'i hanes, ac ymdrechwn wneyd rhai sylwadau ar brif nodweddion ei chymeriad. Yr oedd Mrs. Everett yn ail ferch i Mr. Thomas ac Elizabeth Roberts, Rosa Fawr, ger Dinbych, Gogledd

Cymru. Ganwyd hi Mai 8, 1797. Yr oedd ei thad yn ddyddyn o safle bwysig a dylanwadol yn y sir y trigianai ynddi—yn ddiakon parchus iawn yn eglwys henafol Dinbych—o ran ei dduwioldeb yn ddiarnheuol; ac yn nglyn â'r enwad y perthynai iddo adnabyddid ef yn mhell ac yn agos. Bu farw yn y flwyddyn 1834, ac yn y *Cenhadur*, Hydref, 1842, cawn y nodiad a ganlyn: "Bu farw gan adael tystiolaeth gref mai Crist oedd ei fywyd, a bod marw iddo yn elw tragywyddol."

Am Mrs. Roberts, mam Mrs. Everett, dywedir ei bod yn ddyddyn uwchlaw y cyffredin ar lawer o ystyriaethau. Yn yr un *Cenhadur* ceir cofiant rhagorol gan ei barchus olygydd iddi. Gwnawn y dyfyniadau canlynol allan o hono: "O ran cryfder ei chyneddfau yr oedd yn rhagori ar y cyffredin; o ran ei thymmer naturiol, yr oedd yn addfwyn, yn bwylllog a dwys; fel cymydoges, yn serchog, caruaid a dirodres; wrth y tlawd yr oedd yn dynner ac elusengar, ond yn ei thylwyth ac yn eglwys Dduw y gwelid ei gwerth fwyaf." Terfynodd ei gyrfa ddaearol Mawrth 5, 1842, a chladdwyd hi yn meddrod y teulu yn Llanrhaiadr, ger Dinbych.

Yr oedd Elizabeth yn un o naw o blant, o'r rhai nid oes ond dau yn fyw—John, yn Sacramento, Cal., a Henry, yn Utica, N. Y. Yn 1836, ar ol marwolaeth ei thad, dewiswyd ei brawd Nathaniel yn un o ddiaconiaid eglwys Lôn Swan, Dinbych, a llanwodd y swydd hono er anrhydedd iddo ei hun a chysur i'r eglwys hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Gorphenaf 20, 1879. Bu Jane, ei chwaer ieuengaf, yn briod â'r Parchedig Edward Williams, un o'r cenhadon cyntaf,

ffyddlonaf a mwyaf llwyddianus yn mhlith yr Hottentotiaid a'r Negroaid yn Affrica Ddeheuol.

Bu y llinach adnabyddus, parchus a chrefyddol hon yn byw yn Rosa Fawr am agos i bedwar ugain o flynyddoedd, pryd y prynwyd y lle gan foneddwr a fwr-iadai ymsefydlu yno ei hun.

Teimlid dylanwad crefyddol y teulu drwy y wlad o gyloch yn mhob cyfeiriad. Yr oedd yn "dwr cadarn" i achos Ymneillduaeth yn y cylchoedd hyny pan nad oedd ond yn dechreu enill nerth, ac yr oedd Rosa yn llety clyd a chysurus i weinidogion a phregethwyr yr efengyl drwy y blynyddoedd. Nodweddid yr holl deulu gan sirioldeb, cymwynasgarwch a charedigrwydd, ond nid oedd un o honynt yn fwy felly nag Elizabeth. Yr oedd wedi ei chymwyso gan natur a gras i fod yn gyfrwng hapus i ddedwyddoli eraill. Byddai y rhai a ymwelent ag anedd ei rhieni yn myned ymaith gyda y syniadau uchaf am garedigrwydd, sirioldeb ac addfwynder yr eneth Elizabeth.

Ar aelwydydd crefyddol y megir enwogion y ffydd bron yn mhob oes a gwlad. A chafodd gwrthddrych ein cofiant ei geni mewn teulu hynod am eu crefydd, a'i dwyn i fyny o dan gronglwyd lle y perchid y Beibl ac yr arferid plygu glin ger bron gorseddfainc y gras. Cynelid yno addoliad teuluaidd gyda y cysondeb a'r rheoleidd-dra mwyaf, a'r nefoedd yn unig a wyr werth y rhagorfraint o gael ein magu mewn teulu fel hyn, oblegid tyr dylanwadau yr aelwyd allan yn ffrwyth yn y cymeriad. Yr oedd rhieni Mrs. Everett o amgylchiadau bydol pur gysurus; felly yr oeddynt yn alluog i roddi i'w plant fanteision addysgiaeth uwchlaw yr hyn a fwynheid yn gyffredin yn y dyddiau hyny. Credai

ei rhieni mewn gosod allan ychydig o'u pethau bydol ar feddyliau eu plant; amcanent at ddadblygiad meddyliol yn gystal a chorfforol eu rhai bychain; a gwyn fyd na fyddai mwy o'r un ysbryd. Cafodd Elizabeth yn bur foreu y fantais o yfed o ffynonau dysgeidiaeth, ac yr oedd ôl y ddysgeidiaeth a gafodd yn nhymor ei hieuenctyd i'w weled arni yn ei hen ddyddiau. Medrai droi yn esmwyth yn y gymdeithas fwyaf gwrteithiedig. Cafodd ei gwreiddio yn lled dda yn elfenau darlennyddiaeth a rhifydddeg, a chyrhaeddodd wybodaeth bur eang a manwl o'r iaith Seisnig, yr hyn fu iddi yn hwylusdod mawr wedi dyfod drosodd i'r wlad Seisnigaidd hon. Yr ydym yn cael i'r Parch. Arthur Jones, D. D., Bangor, fod yn athraw iddi am beth amser, ond nis gwyddom pa hyd. Siaradai Mrs. Everett yn y modd cynesaf bob amser am Dr. Jones, a thybiwn na fu ei ddylanwad yn anffafriol iddi.

Fel y tyfai i fyny amlygodd chwaeth neillduol at ddarllen; ymhyfrydai yn nghymdeithas rhai o'r ysgrifenywyr goreu. Nid darllen er difyrwch yr ydoedd, ond er cyrhaedd gwybodaeth, a thrwy hyny ddyfod yn aelod defnyddiol o'r ysgol Sabbothol. Gadawodd yr ysgol ddyddiol pan yn gymharol ieuanc, ond parhaodd i fod yn ddysgybl ac athrawes, fel y byddai galw, o'r ysgol Sabbothol hyd derfyn ei gyrfa. Dywedir mai hi oedd un o gychwynwyr cyntaf y sefydliad gogoneddus hwn yn Ninbych, ac ni throdd ei chefn arno wedi dyfod drosodd i'r wlad hon. Fel athrawes gwnaeth ddaioni nas gwyr neb ond Duw ei faint. Cymerai y dyddordeb mwyaf yn y dosbarth fyddai dan ei gofal. Nid yn unig medrai gyfranu yn ddeheuig ac effeithiol y wybodaeth a feddianai, ond

hefyd meddai ar y cymwysder ardderchog hwnw sef y gallu i ddeffroi meddyliau ei dysgyblion. Gwnai hyn yn bur rhwydd a didrafferth. Y mae llawer heddyw, yn ngwahanol barthau y wlad, yn bendithio ei henw a'i choffadwriaeth oblegid y lles a dderbyniasant drwyddi yn y cymerind o athrawes yn yr ysgol Sabbothol.

Fel hyn yr oedd Mrs. Everett yn gwybod yr Ys-grythyr lân er yn ieuanc, ac nis gallasai gofio adeg pan nad oedd yn meddu argraffiadau crefyddol. Yr oedd er yn blentyn yn meddu tuedd gref i roddi ei hun i "fyny i'r Arglwydd ac i'w bobl yn ol ei ewyllys," a phan yn yr oedran tyner o 16 mlwydd oed, derbyniwyd hi i gymundeb fel aelod eglwysig yn Ninbych, gan y Parch. Thomas Powell, yr hwn oedd ar y pryd yn weinidog yr eglwys yn y lle. Cyfeiriai yn aml at yr adeg hono, a siaradai gyda pharch neillduol am y "gwr Duw" a estynodd iddi ddeheulaw cymdeithas. Os am ddyfod yn ddefnyddiol gydag achos Duw rhaid dechreu yn foreu. "Da i wr ddwyn yr iau yn ei ieuencyd."

Awst, 1816, ymbriododd â'r Parch. Robert Everett, olynnydd ei hen weinidog yn Ninbych, a bu iddo yn ymgeledd gymwys yn llawn ystyr y gair hyd derfyn ei oes. Yr oedd yn meddu ar galon digon eang i gydymdeimlo ag ef yn yr holl drafferthion yr aeth drwyddynt yn nglyn a'i ddyledswyddau fel gweinidog, gwleidiadwr, a golygydd. Nid rhwystr iddo fu—nid plwm wrth ei odreu ydoedd i'w anhwluso yn ei symudiadau; ond bu yn gymorth iddo ar ei daith faith a llafurfawr. Gwelir ysgogiadau y goeden, ond ni welir y gwynt sydd yn eu hachosi; felly gwelir y

gweinidog doeth a gofalus, y gwleidiadwr tanlyd ac ymroddgar, a'r golygydd chwaethus a manwl; ond bydd y wraig o'r golwg, er mai iddi hi yn aml y gellid priodoli i raddau mawr lwyddiant ac effeithioldeb llafur ei gwr. Yr effeithiau wél llygad dyn, ond gwél llygad Duw yr achosion a'u cynyrchant, ac ef yn unig wyr faint o effeithioldeb llafur Dr. Everett oedd i'w briodoli i'w briod ddoeth, synwryol, a chrefyddol.

Bu iddynt un-ar-ddeg o blant, pump o fechgyn a chwech o ferched; ond nid oes ond saith yn fyw, y rhai ydynt oll mewn amgylchiadau cysurus; ac yn ymdrech rhodio yn llwybrau eu rhieni enwog a duwiol.

Mae John, eu mab hynaf, yn byw ar fferm o'i eiddo ei hun yn Kansas; Lewis, yr hwn sydd yn olynnydd i'w dad fel golygydd y *Cenhadwr Americanaidd*, yn Steuben; Edward yn Turin, N. Y.; Mary yn *Homeopathic physician* yn ninas New York; a'r tair eraill, sef Jennie, Anna, a Sarah (gweddw y diweddar Mr. Wm. R. Prichard), yn nghyda'u nai, John Edward, mab John, ar dyddyn eu diweddar rieni.

Yr ydym wedi crybwyll yn barod fod Mrs. Everett yn enwog am ei theimlad crefyddol cryf; a chyfeiriwn yn awr at rai o'r moddau y dangosai y teimlad hwnw ei hun. Trwy y blynyddau cedwid i fyny addoliad teuluaidd ar ei haelwyd, ac yn aml byddai ei phriod yn cael ei alw oddicartref gan ddyledswyddau oeddynt yn nglyn a'i "alwedigaeth nefol," i'r hon y cysegrodd ei fywyd; ond ni fyddai yr addoliad byth yn cael ei esgeuluso. Yr oedd yn meddu ar ddigon o wrolder moesol i arwain yn y gwasanaeth. Golygfa hardd oedd gweled gwraig, yn absenoldeb ei phriod, yn agor yr hen Feibl, ac wedi darllen "allan o gyfraith yr Ar-

glwydd," yn myned ar ei gliniau gan gyflwyno achos ei theulu i ofal Tad pob daioni, ac erfyn am i fendith y Nef gael ei thywallt arnynt, ac am i amddiffyniad Rhagluniaeth fod drostynt. Hyd yn nod pan y buasai ei phriod gartref, gwnai yn aml, ar ei gais ef, arwain yn yr addoliad, a byddai ei gweddïau yn afaelgar, gwresog, bywiog, a chynwysfawr. Amlygai bob amser y parodrwydd mwyaf i ymgymeryd â'r gorchwyl; yr oedd yn wastad o ran ei meddwl mewn teimlad gweddigar. Gyda y taerni mwyaf gweddïai dros yr eglwys, gweinidogion, a chenadau; ac yn neillduol dros y tô ieuanc; a gwnai hyny gyda'r fath deimlad a dwysder nes difrifoli pawb a'i clywai. Gyda chynesrwydd diolcham am drugareddau ei Thad nefol. Yr oedd ynddi y teimlad dyfnaf o'i hannheilyngdod, a chydabyddai yn y modd mwyaf diolchgar ddaioni ac hir-ymaros Duw tuag ati. Mynych o flaen gorsedd gras yr adroddai y geiriau melus a ganlyn o eiddo Jeremiah: "Trugareddau yr Arglwydd yw na ddarfu am danom; o herwydd ni phalla ei dosturiaethau ef. Bob boreu y deuant o'r newydd; mawr yw dy ffyddlondeb."

Cyfarfyddodd y chwaer hon yn Israel a llawer o dywydd garw a phrofedigaethau ar ei thaith drwy y byd; cafodd y chwerw yn gystal a'r melus; y storm yn gystal a'r tywydd teg. Daeth i'w rhan rai damweiniau poenus; y rhai a roddasant iddi esgyrn drylliedig ryw bump o weithiau. Un tro, mor ddiweddar a phymtheg mis cyn ei marwolaeth, pan yn myned i'r cyfarfod, ar foreu Sabboth yn y gauaf, taffwyd hi o'r *sleigh* a thorodd ei chlun mewn dau fan. Dyoddefodd yn fawr iawn yn ganlynol i hyny, ac ni adferwyd iddi

mwyach ei nerth cyntefig ; eto daeth yn alluog i fynychu cynulliadau yr eglwys yn dra rheolaidd a chyson.

Fel yr oedd yn tynu tua'r porthladd dymunol yr oedd y stormydd fel yn lluosogi ac ymgryfhau ; gwelwn hi yn colli ei hanwyl briod wedi bod yn cyd-deithio yr anial, yn cyd-ddwyn beichiau bywyd, yn cyd-ofidio a chyd-lawenhau am flynyddau meithion. Ergyd trwm oedd hwn iddi, eto parodd iddi feddwl mwy nag erioed am y wlad dda yr aeth ei phriod iddi, ac ar yr hon yr oedd ei gwyneb hithau er's blynyddau lawer. Buan ar ol hyn claddodd ddwy o'i merched, sef Cynthia ac Elizabeth, anwyl briod y Parch. J. J. Butler, D. D., Hillsdale, Mich. Bu y trallodion chwervw hyn yn foddion iddi ollwng ei gafael yn fawr ar bethau y byd hwn a pheri iddi awyddu mwy nag erioed am y wlad hono lle nad oes ing, gofid, nac angau o'i mewn. Er gwaethaf y cwpaneidiau chwervw hyn bu yn ofalus i beidio dyweyd dim yn ynyd yn erbyn Duw ; a theimlai os oedd wedi derbyn cymaint o'r "hyn sydd dda" o law ei Thad Nefol, y dylasai hefyd gyda thawelwch, ymroddiad ac ymostyngiad dderbyn yr "hyn sydd ddrwg." Rhyfedd y fath ymddiriedaeth oedd ganddi yn y Duw da sydd yn llywodraethu yn amgylchiadau plant dynion. Gwelid erbyn hyn ei bod yn tynu yn gyflym tua gororau gwlad well, a gellid meddwl wrthi ei bod yn fwy cymwys o lawer i'r nefoedd nag ydoedd i fyw yn y byd hwn. Yr oedd ei thraed yn cyffwrdd â'r ddaear, ond yr oedd ei hysbryd yn anadlu yn awyrgylch y nef. Yr oedd anian y wlad nefol yn ei henaid, ysbryd y nef yn anadlu drwy ei holl ymddyddanion, a delw y nef fel yn gorphwys ar ei holl ysgogiadau ; ac nid oedd y fath

drysor i gael ei gadw yn hir bellach yn y byd hwn. Nid hir y bu heb i angau, "brenin braw," ddyfod yn mlaen i wneyd ei waith, a Mawrth 12fed, 1878, yn 80 mlwydd, deng mis a phedwar diwrnod oed, hunodd ein hanwyl chwaer Mrs. Elizabeth Everett yn dawel yn mreichiau ei Chyfyngwr. O, mor ddymunol oedd yr olwg arni! Os oedd yn rhy wan i *fyw*, yr oedd yn ddigon cryf i *farw*. Mor werthfawr yw crefydd Crist! Y fath brofiad cysurus a meddwl tawel y mae yn ei roddi yn y fath amgylchiad! Mae yn rhoddi rhyw ddylanwad rhyfedd ar feddwl ei meddianydd. Ei chlefyd ydoedd *pneumonia*. Rhyw ddau neu dri diwrnod cyn i'r "clefyd a fu iddi i farwolaeth" wneyd ei ymosodiad arni, galwodd ei hen gyfaill y Parch. Jas. Griffiths, Cattaraugus, i'w gweled; a hynod mor dda oedd ganddi gael ychydig o'i gymdeithas. Teimlai Mr. Griffiths yn ddiau ei bod yn debyg nas gallasai ei gweled byth mwy ar dir y byw; a siaradai, ar ei waith yn ymadael, rywbeth am ansierwydd bywyd, pan yr adroddodd hithau, gyda rhyw nerth a dwysder mawr y geiriau hyny o eiddo y Salmydd, "Os o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd, eto ei nerth sydd boen a blinder; canys ebrwydd y derfydd, a ni a *ehedwn* ymaith." Gosododd bwyslais neillduol ar y gair "*ehedwn*," a diameu ei bod yr adeg hono yn teimlo ei hedyn fel yn dechreu cael eu gosod mewn ystum briodol ar gyfer yr ehedfa oedd o'i blaen.

Cafodd gystudd trwm, ond nid maith. Dyoddefodd lawer y pythefnos diweddaf, ond yr oll gyda thawelwch ac amynedd mawr. Nid oes angen gofyn pa fodd y teimlai yn ei horiau olaf, na pha fodd yr ymdarawodd yn y bwlech cyfyng. Yr oedd ei theimlad

yn angau yn hollol gydgordiol a'i bywyd blaenorol. Bu farw fel y bu fyw. Gwasanaethodd Dduw yn ei bywyd, a gogoneddodd Dduw yn ei marwolaeth. Galwodd cyfaill i'w gweled yn ei chystudd, a gofynodd iddi "Pa un oedd oreu ganddi, gwella, neu gael ei chymeryd i'w chartref yn y nef." Atebodd, "Buaswn yn caru aros ychydig yn hwy gyda y plant yma." Tawelodd am ychydig, yna ychwanegodd, "Nid ydyf yn teimlo fy mod mor barod i fyned a'r rhai sydd wedi myned, ond yr wyf dan law yr un Arweinydd." A gwnaeth yr Hwn a'i "harweiniodd a'i gyngor ac a'i tywysodd a'i ewylllys ei harwain yn ddiogel i ogoniant."

Cofus genyf glywed y sylw canlynol ganddi fwy nag unwaith: "Bum yn edrych ar y daith i'r nefoedd fel un bell iawn, ond yn awr, oddiar pan y mae fy mhriod a'm plant wedi myned yno, yr wyf yn teimlo fod y nefoedd yn fy ymyl; dim ond cam." Teimlai fod ei pherthynasau ymadawedig yn ei hymyl. I rai, y mae y byd ysbrydol yn mhell iawn, ond iddi hi yr oedd yn ymyl. Teimlai ddyddordeb mawr yn y nef, ar gyfrif y cydnabyddion a'r cyfeillion oedd yno, a hefyd am y rheswm ei bod yn bwriadu yn fuan myned i fyw yno ei hun.

Ychydig oriau cyn ei hymadawiad, pan oedd ei thraed yn oeri yn yr afon, a *chills* y dwfr yn codi i fyny, adroddodd yr hen benill canlynol mewn llais clir ac effeithiol iawn:

"Gan fy mod i heddyw'n fyw,
Mi ro'f deyrnged—
Clod a mawl i'm Harglwydd Dduw,
Am fy arbed."

Yn fuan ar ol hyn ymadawodd ei henaid anfarwol i'r gorfoledd tragwyddol.

Y dydd Gwener canlynol i'w marwolaeth, sef Mawrth 15fed, cymerodd ei chladdedigaeth le, pryd y rhoddwyd ei gweddillion marwol i orphwys yn ochr ei hanwyl briod a'i phlant yn mynwent brydferth Steuben. Er fod y ffyrdd yn lleidiog ac anhawdd eu teithio, dangoswyd 'iddi barch mawr yn ymgasgliad tyrfa luosog anarferol i dalu y gymwynas olaf iddi. Gwelwyd yno wynebau braidd o bob man yn Swydd Oneida. Hawdd iawn oedd gwybod y diwrnod hwnw fod tywysoges yn Israel wedi syrthio. Yn y ty darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. R. Trogwy Evans. Yna aed yn orymdaith tua'r Capel Ucha', lle y dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. S. Jones, (B.), ac y pregethwyd gan y Parch. Mr. Short, (M. E.), Remsen, yn Saesneg, a'r Parch. Edward R. Hughes, Steuben, yn Gymraeg. Wrth y bedd, wedi i'r Parch. Morris J. Williams (B.) wneyd ychydig sylwadau pwrpasol, ac i'r Parch. R. T. Evans weddio yn fyr, unodd y dorf gyda'r côr i ganu:

"Ffarwel gyfeillion anwyl iawn,
Dros enyd fechan ni 'madawn,
Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd,
Yn Salem hardd oddeutu'r bwrdd."

Yna ymwasgarodd y dorf fawr gyda'r syniad eu bod wedi claddu un a wasanaethodd ei chenedlaeth yn dda—orphenodd ei gwaith ac a aeth i lawenydd ei Harglwydd.

Teimlir colled nid bychan ar ei hol, nid yn unig gan ei theulu trallodedig, ond gan yr eglwys y perthynai iddi hefyd, a chan y cymydogaeithau yn gyffredinol.

Ond yr ydym yn cwbl gredu fod y golled a gawsant hwy wedi troi yn elw tragywyddol iddi hi. "Gwerth-fawr yn ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint." Er wedi marw y mae yn byw yn ei theulu, ac yn mysg ei chyfeillion. Bydded i dangnefedd Duw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall, aros ar ei hanwyl blant, ac ar blant ei phlant, yn nghyd a'r holl berthynasau o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

BARDDONIAETH ALARNADOL.

PENILLION AR OL Y PARCH. ROBERT EVERETT, D. D.,
REMSEN, N. Y.

Mae Seion Americ a'i gruddiau yn wlybion
A galar a thristwch yn gwelwi ei gwedd ;
Yn nydd yr uchelwyl ei threm sy'n ddigalon,
Am fod y tad Everett yn huno'n y bedd.
Heb bwyll ac arafwch y duwiol arweinydd,
Mae perygl i'r gwersyll ymdd'rysu mewn braw ;
Heb onest rybuddion y ffyddlawn wyliedydd,
Mae'n berygl fod adeg dirywiad ger llaw.

Nid dysg heb athrylith, nid dawn heb dduwioldeb,
Ond cydbwys fantoliad, y naill fel y llall,
A'i cododd i binael o fawr ddefnyddioldeb,
Nes myned yn ddychryn i fyddin y fall ;
Athrawiaeth fendigaidd a santaidd ei Geidwad,
Ddefnynai fel neithdar o'i wefus i lawr ;
A hon adlewyrchai 'n ei hardd ymarweddiad,
Ail ddweyd ei bregethau wnai 'i fywyd bob awr.

Dyn Duw fu'n ei gartref, ac felly 'n ei ardal,
Fel yn yr areithfa, a'i fuchedd yn bur ;
Cynyddu ei rasau wnai trafferth a gofal,
A gloewi ei grefydd wnai trallod a'chur ;
Ni fu yn arlwyo i eraill dddanteithion
Y trefniant cyfryngol heb fwyta ei hun,
Ni huliodd ddysgleidiau o flaen ei gyd-ddynion
Heb gael manna enaid wrth ddarpar pob un.

Nid rhuad taranau, na rhuthrau y gwyntoedd,
Nid hinon o'r tecaf, na stormydd ar fôr,
Nid bydol fwynderau, cyfeillach na gwleddoedd,
Wnai iddo anghoffo cymdeithas ei lôr ;
Yn agos i'r orsedd, yn nhawel ddirgelwch
Ei Arglwydd Goruchaf y treuliodd ei oes ;
Tra eraill mewn rhyfel, 'r oedd yntau mewn heddwch,
Yn gwledda ar felus rawnsypiau y groes.

Newmarket yn Nghymru a gadd yr anrhydedd!
 O fagu y seraph, mab penaf ei bro;
 Bu Dinbych a llawer o fanau yn Ngwynedd
 Ar flaenffrwyth ei ddoniau yn gwledda am dro;
 Yn minio 'i bregethau 'r oedd nefol eneniad,
 Wnai ddryllio a thoddi calonau 'r un pryd,
 Gan wau am yr enaid ryw gadwyn o gariad
 I'w dynu i fynwes Iachawdwr y byd.

Llaw Duw a'i harweiniodd i'r Unol Dalaethau,
 Maes penaf ei lafur 'n ol arfaeth y Nef,
 I gadw'r ymfudwyr Cymreig o grafangau
 Llywodraeth y fagddu sy'n greulawn a chref;
 I Gymry a Saeson bu hidliad ei ddoniau,
 Fel tyner gawodydd, llawn bendith a lles;
 A cha'dd llawer euog fyn'd lawr ar ei liniau,
 A llawer un clauar ei lenwi â gwres.

Bu'n dad i'r *Cenhador*, ystorfa bwyd nefol,
 Er's meithion flynyddau sy'n fendith i'r oes;
 Yn hwnw rhoes ganoedd o wleddoedd rhagorol,
 I feithrin hil Gomer mewn crefydd a moes;
 Dysgleidiau traethodol o fwyd cryf i'r doethion,
 Ond resin, a ffigys, a llaeth i rai bach;
 Pur enllyn y Duwdod, dil mêl a gwin Helbon
 Arlwyodd yn fisol;—gwledd fflasmus ac iach.

Ei hyglod *Cenhador* fu'n tanio meddyliau
 A nefol dân rhyddid, nes oeddynt yn fflam;
 Diarbed fagneliad ei rymus erthyglau
 Fu 'n gymhorth i ddatod cadwynau plant Ham;
 Dadleuodd dros ryddid pan oedd yn ddirmygus,
 Yn wawd ac yn ogan gan fawrion y wlad;
 Bob mis pleidiai achos y caethwas truennus
 Mewn geiriau llosgedig, hyd ddydd ei ryddhad.

Ar ddyg y *Cenhador* e fagwyd enwogion
 Sy' heddyw 'n brif ddynion yr eglwys a'r byd,
 Dan wres ei belydrau bu gwag ofergoelion
 A drwg arferiadau yn gwywo yn nghyd;
 Ei lithiau ysbrydol fu'n foddion adfywiad
 Mewn llawer sefydliad Cymroaidd trwy'r wlad;

Nid oes ond y bythfyd rydd'gywir amlygiad
O rym ei ddyllanwad a maint ei leshad.

I Gymry heb ddeall na phregeth na gweddi,
Na thraethawd nac araeth ond yn yr hen aeg,
A sw'n yr estroniaith o'u hamgylch fel dyli',
Heb freintiau crefyddol i'w cael yn Gymraeg,
Rhyw drysor annhraethol ei werth fu'r *Cenhadur*,
Yn llenwi lle'r breintiau a gaent gynt yn nhref;
Efe oedd eu hathraw a'u hunig bregethwr,
I'w dysgu mewn crefydd a'u hâr wain i'r nef.

Gwnaeth lawer gweinidog yn fwy o ddy'n Iesu,
A llawer profleswr yn llawnach o sêl,
Ca'dd Laodiceaid eu cyflawn gynesu
Gan wres ei anerchion, ddyferent fel mel;
Cyfnerthodd ryw lawer wrth ddisgyn i angau,
Er bod yr oer ddyfroedd yn fferu eu traed,
Dyfniderau'r glyn tywyll gyffroent a'u seiniau
Am olud trugaredd a rhinwedd y gwaed.

Parhaed y *Cenhadur* i weithio a brwydro,
Er myn'd o'i sylfaenydd i orphwys mewn hedd;
Tra Huoedd y fagddu yn para i ymddullio,
Parhaed y *Cenhadur* yn finiog ei gledd;
Boed delw ei sefydlydd o hyd i'w wel'd arno,
A'i ysbryd angylaidd yn nawtio pob rhan;
Er fod llyfrau'n methu, a "ser" yn machludo,
Parhaed y *Cenhadur* i esgyn i'r lan.

Nid yw Dr. Everett o fewn ei fyfyrgell
Yn llunio syniadau dihalog a glân,
O'i bin ni ddyfera, yn llinell ar linell,
Feddyliau i osod y gwledydd ar dân;
Nid yw mewn cyfeillach yn tywallt balm nefol
I archoll ddolurus brawd eiddil a gwan,
Nid yw wrth glaf wely pererin cystuddiol
Yn offrwm taer weddi i'r nef ar ei ran.

Nid uwch y prawfleni mae heddyw'n y swyddfa,
Ond uwch cyfrol arfaeth ar oriel y nef;
Nid yw yn pregethu'n mhrif gwrdd y gymanfa,
A'i ran mewn cymanfa o uwch y mae ef;

Yn nghadair cynadledd nid yw yn llywyddu,
 Ei gadair a'i gwmmi ragorant yn mhell ;
 Wrth fwrdd y cymundeb nid yw'n ymhyfrydu,
 Fe aeth i gymundeb sy' filwaith yn well.

Mae'r dawn wnai'r wynebau'n ffynonau o ddagrau,
 Trwy randir Oneida mor ddystaw a'r bedd ;
 Mae gwron dewr Seion fu'n llywio ei brwydrau,
 Yn gorphwys yn dawel, diosgodd ei gledd ;
 Mae'r gwerysll galarus i syrthni'n ymollwng,
 'Nol colli'r llais bywiog fu'n tanio eu gwaed,
 Pa beth ddaw o'r fyddin? Ai cael ei darostwng
 Gan lu y Philistiaid, yn wasarn i'w traed ?

Na atto y nefoedd ! Cyfoder gwroniaid
 I ymladd â'r gelyn yn ysbryd a nerth
 Yr hoff Doctor Everett, a'u crefydd yn danbaid,
 Yn llawn o sêl fflamiol Preswlydd y berth ;
 Rhai pur na chaiff llymaid o wirod hud-ddenol,
 Na mygllys ffeiddsawr â'i boeredd a'i fwg,
 Wanychu eu hegni, na phylu awch nefol
 Arfogaeth eu henaid wrth ymladd â'r drwg.

Un pur a thryloyw oedd Everett, yn gochel
 Holl leidiog dir cellwair a chorsydd y blys ;
 Gwnai ddod at ei frodyr fe pe buasai'r angel
 Agosaf i'r orsedd yn disgyn o'r llys.
 Yn llawn o danbeidrwydd pur, santaidd a nefol,
 A'i wyneb fel Moses 'n ol bod gyda'r Iôr,
 A chariad ei fynwes, fel eiddo'r apostol
 Fu â'i ben ar fron Iesu, can ddyfned a'r mor.

Mae eglwys Dduw'n colli gwasanaeth enwogion ;
 Aeth Everett a Rowlands, dau ddoctor o'r byd ;
 Mae'r dewr Morris Roberts, ac S. Williams,* fyddlon,
 Ar lanau'r Iorrdonen yn chwilio am ryd ;†
 Y prif efengylwyr, yr hoelion wyth gollir,
 Mân hoelion esgidiau diglop welir mwy ;
 Mae cyfnod y cewri ar ben, a chanfyddir
 Rhyw dô o gorachod yn dod o'u hol hwy.

* Bradford, Pa.

† Yr oedd y ddau hen frawd clodfawr yn fyw pan gyfansoddwyd y penillion hyn.

Tra cenedl y Cymry yn caru yr heniaith,
 Bydd enw'r tad Everett yn-hoff ganddi hi ;
 Trwy Gymru a'r Unol Dalaethau eangfaith,
 A thorch anfarwoldeb coronir ei fri ;
 Ei fywyd edmygir tra dyn yn Oneida,
 A'r haul yn goreuro y bryniau lle bu ;
 Ei santaidd ddylanwad o hyd ymled-daena,
 A'i gofiant fodeua uwchben y bedd du.

Parhaed ei hoff deulu 'n fagwrfa duwiolion,
 Parhaed ei eglwysi yn firwythlawn ao ir,
 Ei famwlad fo 'n codi meib eto mor gryfion
 A'i chedyrn fynyddoedd i bleidio y gwir ;
 Mawryged ol-oesoedd ei bêr goffadwriaeth,
 A'i grefydd fo 'n gynllun crefyddol i fyrdd ;
 O lanerch ei feddrod, 'n ol tywallt ein hiraeth,
 Gwnawn frysio i'w ganlyn i'r llenyrch byth wyrdd.

Parisville, Ohio.

DEWI EMLYN.

MARWNAD AR OL Y DIWEDDAR BARCH. ROBERT
 EVERETT, D. D.

[BUDDUGOL YN EISTEDDFOD UTICA, IONAWR 1, 1877.]

Ffowch drafferthion dibwys daear
 Draw, clwyfedig yw fy mron ;
 Hen gymdeithion chwerwon galar
 Sydd yn llywodraethu hon ;
 Er ymdrechu am ddyddanwch,
 I fy mynawes, megys cynt,
 Cilio 'n llwyr i dir tywyllwch
 Wnaeth dedwyddwch ar ei hynt.

Troais at fy nghymydogion
 I gael gwel'd oedd ganddynt hwy
 Falm i ysgafnhau fy nghalon,
 A lliniaru 'm dirfawr glwy ;
 Ond arwyddion tralod welais
 Yn teyrnasu yn mhob man ;
 A'galarus iaith a glywais,
 Nes diffygio'm henaid gwan.

Everett hawddgar, dy symudiad
 Ymaith, draw o'n daear ni,
 Barodd archolledig deimlad,
 Drwy fy mron hiraethus i.
 Tyred awen fwyn, dadebra,
 Hwylia'th edyn uwch y llawr,
 Ac mewn odlau pêr darlunia
 Heddyw 'n llawn fy nhrallod mawr.

Rhai ddywedant, Paid ag wylo,
 Sych dy ddagrau, bydd yn llon ;
 Y mae Everett yn gorphwyso,
 Heb un gofid dan ei fron.
 Rhaid i'm dagrau gael eu rhyddid,
 I ymdreiglo dros fy ngrudd ;
 Ac i'm hochenseidiau hefyd,
 Ddyfod o'u carcharau 'n rhydd.

Os oes ambell un dideimlad,
 Yn fy ngalw heddyw'n fiol,
 Ac yn gwneyd i'r balch dibrofiad
 Estyn bysedd ar fy ol—
 Dichon y cânt hwythau eto
 Yfed o drallodion llawr,
 Pan y bydd gofidiau 'n llifo
 Atynt fel llifeiriant mawr.

Rhaid im' draethu fy nheimpladau,
 Gwawdied holl ynfydion byd ;
 Ac adseinied uchel fryniau
 Daear fy ngruddfanau i gyd.
 Ymadawiad Everett dirion,
 Fu mor ffyddlon dan bob croes,
 Aeth fel picell drwy fy nghalon,
 Nes byrhau prydawn fy oes.

Ni chanfyddaf wawr goleuni
 Yn ymddangos o un man,
 Fel y gallwyf o'm trueni,
 Gyrhaedd eto at y lan ;
 Echrys donau môr trallodion,
 Sydd yn rhuo ar bob llaw,

Nes mae holl deimladau 'm calon
Yn llesgau gan ofn a braw.

Nid un teulu sydd mewn galar,
Nac Oneida drist ychwaith ;
Lluoedd drwy bellafoedd daear
Sydd a'u llygaid heddyw 'n llaith ;
Sain wylofain ddyg awelon
O gyffiniau'r Werydd draw,
A galarnad prudd drigolion,
Glanau y Tawelfor ddaw.

Er fod Everett yn gorphwyso,
A hardd goron ar ei ben,
Mae llinynau 'n serch am dano,
Fel yr eiddew am y pren ;
Ac fe bery ein hymlyniad
Anwyl tuag ato ef
Hyd y dydd cawn deg fynediad
Adref i drigfanau 'r nef.

Wrth arsyllu ar ei lwybrau,
Teg ac uniawn is y nen,
Trwy fil myrdd o orthrymderau,
Ni cheir achos gostwng pen ;
Yn nghymdeithas ffydd y teithiodd
Ddyrys fryniau 'r ddaear hon,
Hyd ei fedd, a thawel hunodd,
Heb yr un derfysglyd don.

Braidd na thybiwyf na bu'n rhodio
Yn ein byd anwylach un,
Er y pryd daeth Iôr i wisgo
Natur wan, llygredig ddyn ;
Delw 'i Nefol Dad dywynodd
Ar ei ysbryd tawel ef ;
Ac fel llewyrch haul esgynodd,
Mewn dyagleirdeb tua'r nef.

Syllwn arno, draw yn N'chymru,
Pan yn fachgen ieuanc iawn,
Fel Elias yn cynhyrfu
Lluoedd gyda'i rymus ddawn ;

Ffiaw angerddol oedd yn llosgi,
 Yn ei fynwes, megys tân,
 Wrth draddodi 'r genadwri
 Gafodd gan ein Prynwr glân.

Hyf gyhoeddodd iechydwrïaeth
 Duw i euog fel myfi,
 Ac wrth deimlo dros achubïaeth
 Dyn, gollyngai ddagrau 'n lli ;
 Llawer darlun prydfferth roddodd,
 O anfeidrol gariad Iôr—
 O'r bendithion fyrdd antfonodd
 Ef o'i annherfynol stôr.

Ar ol dyfod dros y Werydd
 F'r Amerig uchel glod,
 Gwasanaethu ei Waredydd,
 Heb ddiffygio, fu ei nod ;
 Ni lychwinodd ef ei ddillad
 Prydfferth gyda phethau 'r llawr :
 Ond ymborthi wnaeth ar gariad,
 Tyner ein Hiachawdwr mawr.

Ni choleddodd ef genfigen,
 At un brawd o fewn y wlad—
 Yn eu llwyddiant byddai lawen
 Beunydd, megys tyner dad ;
 Cyd-ymdrechodd gyda 'i frodyr,
 Yn y weinidogaeth fawr,
 I ddwyn dynion i gydnabod
 Hawliau Llywydd nen a llawr.

Pan bu Finney yn cynhyrfu
 Swydd Oneida gyda 'i ddawn,
 Gan ddwyn llawer un i waeddi,
 Arglwydd grasol, beth a wnawn ?
 Everett dyner mewn difrifol
 Eirian a ddyrchafai 'i lef,
 Gan gyfeirio 'r edifeiriol
 At fendithion teyrnas nef.

Hwyr a boreu yr ymroddodd
 I lesoli'n cenedl ni ;

Ac er llawer croes gosododd
 Arnom lychwanegol fri ;
 Ond cywilydd sydd yn perthyn.
 I'n wynebau ni yn awr,
 Am na chafodd yntau dderbyn
 Teilwng wobr i'w lafur mawr.

Yn mhliith tywysogion Seion,
 Yn ein gwlad ni welais un,
 Fu 'n fwy diball mewn ymdreohion,
 Teilwng i ddyrchafu dyn ;
 Trwy y wasg bu 'n hyf wynebu
 Ar bechodau pena'r oes,
 Ac o'r pwlpud yn pregethu
 Rhagorfreintian angau 'r groes.

Gwel yr Holwyddoreg destlus,
 Roddodd i hyfforddi 'n plant,
 Ac i'w harwain dros bob dyrys
 Eryn, i deg orphwysfa 'r sant ;
 Eglurhaodd bob gofyniad,
 Gyda byr atebiad llawn,
 Ac anfeidrol ddwyfol gariad
 Duw at ddyn, yr hwn a gawn.

Yn ei gasgliad o ganiadau
 Cysegr lôr, a gawsom ni,
 Gwelir llawer o emynau,
 Fyddant o anfarwol fri ;
 Maes y Plwm, a Phant y Celyn,
 A enynant ynom dân,
 Ac Ann Griffiths gyda 'i thelyn
 Seinber, ddaw mewn nefol gân.

Fel golygydd i'r *Cenhadwr*,
 Bu 'n wylledydd ffyddlon iawn,
 Yn darparu i'w ddarllenwyr,
 Luaws o ddysgleidiau llawn ;
 Yr ysgrifau oedd a gwenwyn
 Ar eu hedyn, gadwodd draw ;
 A'r diles ddadleuon cyndyn,
 A wasgarodd ar bob llaw.

Plant yr ysgol Sul drwy Gymru,
 Ac Amerig hefyd, sydd
 Yn mwynhau y claer oleuni,
 A wasgarodd ef mor rhydd ;
 Ac mae llawer tyner blentyn,
 A oleuwyd drwyddo ef,
 Heddyw 'n canu seinber delyn,
 Yn mhalasau heirdd y nef.

Gweithiodd gyda phob diwygiad
 Gwladol, drwy ei weithgar oes,
 Er cyfarfod gwrthwynebiad,
 A chyfodi llawer croes ;
 Nid oedd hudawl addewidion
 Dynion yn ei ddenu ef ;
 Ac nid all'sai holl fygythion,
 Gelyn brwnt ddystjewi 'i lef.

Gwnaeth ei ran yn ddoeth a gwrol,
 I ddwyn sobrwydd dros y byd,
 A ohondemnio 'r fasnach feddwol,
 A'i holl ddawn a wnaeth o hyd ;
 Tan eneiniaid nef y teithiodd,
 I argymell dirwest lon,
 Ac ar gopa 'r bryniau safodd,
 I gyhoeddi breintiau hon.

Y gaethfasnach a'i choleddwyr
 Creulawn, fu yn nod i'w saeth,
 A chyfodi ofn a dychryn,
 Ganwaith yn eu rhengau wnaeth ;
 Dewr ymladdodd yn ei herbyn,
 Gyda 'i rymus finiog gledd,
 A oha'dd wel'd y dydd pan roddwyd,
 Ei "hysgerbwd" yn y bedd.

Gwelir dydd pan byddo enwau
 Clodfawr penrhyfelwyr byd,
 Oll mewn gwarth, a'r gwaedlyd frwydrau,
 Wedi eu anghofo 'i gyd ;
 Ond enillodd Everett enw,
 Bery mewn urddasol fri,

Pan bydd llais o'r nef yn galw,
 "Aeth y byd i'n Harglwydd ni."

Er mai tawel, diymhongar
 Efengylwr ydoedd ef,
 Rhyw awdurdod bron digymar,
 A ddilynai 'i dyner lef ;
 Clywais ef yn dweyd ei brofiad,
 Pan oedd bron ar ben ei daith ;
 A'r holl dorf yn dangos teimlad
 Nefol, gyda gruddiau llaith.

Prudd hyfrydwch i'm golygon,
 Ydyw edrych arno ef,
 Pan yn nesu at yr afon
 Ddu, sydd rhyngom ni a'r nef—
 Gwel'd ei hawddgar wyneb tawel,
 Wedi llwyr ddystewi 'r don,
 Ac yn siriol roddi ffarwel,
 I oleuni 'r ddaear hon.

Mae 'm dychymyg am ei ddilyn,
 I ardaloedd y wlad bell,
 I gael gwel'd ei wisg ddilychwin,
 Mewn cymdeithas llawer gwell ;
 Ond ni finaf eich amynedd,
 Gyda ffol ddychymyg gwan ;
 Digon yw, aeth i dangnefedd,
 I fwynhau ei ddedwydd ran.

Ffarwel i ti, Everett hawddgar ;
 Huna'n dawel yn y bedd ;
 Nis gall holl derfysgoedd ddaear,
 Mwyach aflonyddu 'th hedd ;
 Owsig, gofalir am dy ddeffro
 Yn y boreu mawr mewn pryd,
 Pan bydd angel Iôr yn bloeddio,
 Nes dihuo yr holl fyd.

Oa yw natur heddyw 'n gofyn
 Prudd deimladau dan ein bron,
 Ac yn tynu llawer deigrin,
 Allan o gilfachau hon ;

Cawn gyfarfod a'n cyfeillion,
 Ar heirdd frynïau'r nefol wlad,
 Pan fydd holl deimladau'r galon
 Wedi derbyn llwyr iachad.

PHILEMON,

Sef MR. ELLIS THOMAS, Ulica, N. Y.

ENGLYNION ER COFFADWRIAETH AM Y PARCH.

ROBERT EVERETT, D. D.

Ar ein memwrn mae amryw—wnaent lawer
 At loywi dynolryw ;
 Ac Everett fel y cyfryw,
 Mae 'i enw i fod yma'n fyw.

Ei sylw a fynodd sylfaenu—*dirwest*,
 O herwydd ymlygru
 Ei genedl,—er ei oganu,
 Gwr o farn dyoddefgar fu.

Ond drwy ddal dyfal, y daeth—ei oddef
 Iddo'n fuddugoliaeth ;
 Ei synwyr yn ei wasanaeth
 Enillai'r oes—yn well yr aeth.

Ffrwd y meddwl cyffredin—arafodd
 Yn ei ryfyg gerwin ;
 A thaer fu wrth y werin,
 Rhag ofera gyda gwin.

Y cen ar lygaid canoedd—a dyfodd
 Nes difa'u'galluoedd ;
 Wrth ei rym, syrthio yr oedd,
 A gwell llewych gai lluoedd.

Seren ddydd ein cysuron ddaeth—efo
 Ei hyfawl'anturiaeth ;
 Arogl sur o'r eglwys aeth,
 Fu rwd dwl i'r'frawdoliaeth.

BARDDONIAETH ALARNADOL.

Heblaw y dirwestol blan—pwnc arall
 I'r pen cariodd allan,—
 Am amser hir, gwir, mai gwan,
 Y bu 'i achos, a bychan.

Caeth-rasanaeth, coethus hynod—sto
 Fel mater cydwybod,
 Medrai ef ei lym drafod,
 Yn dda 'i naw, er mor ddu 'i nod.

Nerth anobaith, gwrthwynebu—daliodd,
 A dwylaw heb laesu ;
 Yn mhob cynadl a dadlu
 Yn d'weyd ei farn diwyd fu.

Ond dedryd diwydrwydd—ydyw llwyddiant,
 A lluddio lledneisrwydd ;
 Metha chwant er moeth a chwydd,
 Neu ystryw anonestrwydd.

Gwelai fuddugoliaeth—yr egwyddor
 Guddiai 'r weinidogaeth,
 A rhyw hug o warogaeth
 Efo'r llu, am fara a llaeth.

Ond trodd olwyn trwy ddylanwad—gwrol
 Dyngarwyr diymwad,
 A'i ddadl ef ddodai ei wlad,
 Yn werinol arweiniad.

EOS GLAN 'TWRCH.

ENGLISH DEPARTMENT.

REV. ROBERT EVERETT, D. D.

BY REV. B. W. CHIDLAW, M. A.

He lived and labored ahead of his age. He took an early and decided stand in favor of temperance, and held a high position as a witness against the iniquity of American slavery. His noble efforts in favor of freedom place his name very conspicuous among the great leaders of thought and action that brought emancipation to four millions of men, women and children, held as chattels, and crushed by unjust and cruel laws.

His long, laborious and faithful ministry, preaching Christ, and watching for souls, as one that expected to give an account to God, is a blessed record of usefulness and success.

REV. ROBERT EVERETT, D. D.

BY MR. B. F. LEWIS, IN THE UTICA HERALD, FEB. 27, 1875.

4. Nid yr un geiriau a ddefnyddir yn yr Hen Testament am brynu masnachol a phrynu pechaduriaid. Am Brynwr a phrynedigaeth pechaduriaid defnyddir y geiriau *Goel*, *cyfnesaf*, neu *gyfathrachwr*; a *phadah*, a *brynuwyd* neu a *ryddhawyd*. Lef. 25: 25, "A dyfod ei *gyfnesaf* (*Goel*) i'w ollwng," &c. Ruth 3: 13, "A wna ran *cyfathrachwr* (*Goel*) a thi." Job 19: 25, "Mi a wn fod fy *Mhrynwyr* (*Goel*) yn fyw." Ex. 21: 8, "Gadawed ei *hadbrynu* (*phadah*) hi." Lef. 19: 20, "Ac heb ei *rhyddhau* (*phadah*) ddim." Salm 49: 8, "Gwerthfawr yw *pryniad* (*phadah*) eu henaid." Geiriau tarddiol oddiwrth *Goel* a gyfieithir "gollyngdod" yn Lef. 25: 24, 26, 29, 51, 52. O'r tu arall, am brynu trwy fasnachu, y geiriau a arferir gan yr Yspryd Glan ydynt *canah* a *shabar*. Gen 25: 10, "Y maes a *brynasai* (*canah*) Abraham gan feibion Heth." Gen. 41: 57, "A daeth yr holl wledydd at Joseph i'r Aiff i *brynu*," &c., (*shabar*.) Deut. 2: 6, "*Prynuoch* (*shabar*) fwyd ganddynt am arian." &c. Gen. 33: 19, a 43: 2; Amos 8: 6. Ond mae un gair yn cael ei arfer am brynedigaeth yn y Testament Newydd, sef *agorazo* neu *exagorazo*, yn arwyddo yn ei ystyr lythrenol rhoddi gwerth am werth; ond y mae cysylltiad y geiriau blaenorol ac olynol yn y manau hyny lle y mae y gair hwn ar lawr yn dangos yn amlwg mai prynu caethion a olygir, sef eu dygiad o'u sefyllfa gaeth drwy rinwedd iawn drostynt. Felly y mae y dysgedig Min-

tert yn esbonio y gair.* Yn y manau canlynol yn unig y mae y gair hwn ar lawr yn ei berthynas â'r athrawiaeth hon, 1 Cor. 6 : 20, a 7 : 23 ; Gal. 3 : 13, a 4 : 4 ; Dat. 5 : 9. Yn ol ddeddf Moses gwerth o ar-ian oedd i gael ei roddi dros gaethwas er ei bryniad o'i gaethiwed.

5. Y mae yn hysbys i'r rhai sydd yn hyddysg yn nghyfieithiad y deg-a-thri-ugain, eu bod hwy yn golygu y brynedigaeth yn "weithredol symudiad" neu ryddhad y prunedig oddiwrth ryw ofid ; ac o herwydd hyn y maent yn fynych yn cyfieithu y geiriau a arferir am y brynedigaeth drwy y geiriau *sozo* a *ruomai*, y rhai sydd yn llythyrenol yn arwyddo achubiaeth, cadwedigaeth, neu waredigaeth, ac a gyfieithir felly yn y Testament Newydd bob amser. Gwel Mat. 24 : 22, a 27 : 40, 42 ; Act. 27 : 20, 31 ; Rhuf. 7 : 24, a 11 : 26 ; 2 Tim. 4 : 17. Y mae hyn yn ymddangos o bwys mawr, pan yr ystyriom mai y cyfieithiad hwn oedd mewn arferiad yn nyddiau yr apostolion ; ac at hwn y maent yn gyffredinol yn cyfeirio yn eu hysgrifeniadau.

6. Mae yr holl fendithion sydd yn y brynedigaeth yn cael eu cynwys yn y golygiad o ryddhau caethion euog, pryd nad ydynt gydag un cysondeb yn dyfod i mewn dan y golygiad o fasnachu ; megys prynu y rhai oeddynt yn gaethion dan wyddorion y byd, Gal. 4 : 3—6 ; llwyr brynu oddiwrth felldith y ddeddf, Gal. 3 : 13 ; symud yr euog i sefyllfa gyfiawnhaol, neu symud y ddeddfryd farnol oddiarno, drwy faddeu ei bechodau, Rhuf. 3 : 24 ; Eph. 1 : 7 ; prynu o gaethiwed pechod,

* *Agorazo*, emo ; metaphoricè *redimo*, *uti ad Christum applicatum*.
MINTERT.

1 Cor. 6 : 20, a 7 : 23 ; oddiwrth ofer ymarferiad, 1 Pedr 1 : 18 ; oddiwrth bob anwiredd, Tit. 2 : 14 ; allan o bob llwyth, a iaith, a phobl, a chenedl, Dat. 5 : 9 ; ac o garchar tywyll y bedd yn nydd yr adgyfodiad cyffredinol, yr hyn a eilw yr apostol, "prynedigaeth ein corph," Rhuf. 8 : 23 ; Job 19 : 25—28 ; 1. Cor. 1 : 30 ; Eph. 1 : 14, a 4 : 30. Yn yr holl ystyriaethau hyn y mae cyfeiriad amlwg at ryddhad o ryw gaethiwedd, drwy rinwedd iawn boddhaol i'r llywodraeth.

Drachefn y mae gwahaniaeth amlwg, yn ol yr ysgrythyrau sanctaidd, rhwng y "brynedigaeth" a'r "pridwerth," neu gyfrwng y brynedigaeth. Iawn Crist ydoedd y pridwerth ; gweithredol ryddhad troseddwyr, ar gyfrif yr iawn, ydyw y brynedigaeth. Mae a fyfno y pridwerth a *Duw*, offrwm ac aberth o arogl peraidd i Dduw ydoedd ; mae a fyfno y brynedigaeth a dynion fel caethion euog. Y pridwerth neu'r iawn a symudodd bob rhwystr o ochr y Brenin tragwyddol i osod amodau cymod o flaen y byd ; y brynedigaeth sydd yn symud y rhwystrau o galon y pechadur i dderbyn y cymod. Nid oedd y pridwerth neu y cyfrwng, er mor addas ydoedd, yn gwneyd un cyfnewidiad yn nghyflwr yr euog ; y mae y brynedigaeth yn gwneuthur cyfnewidiad mawr. Y naill a ddygwyd oddiamgylch gan Grist yn ei berson ei hun, a'r llall yn mherson ei dragwyddol Ysbryd ; fel y mae y rhan fwyaf o swyddau Crist yn cael eu gweinyddu drwy yr Ysbryd, megys Prophwyd, Brenin, Bugail, Esgob, &c., felly gan mwyaf y swydd hon hefyd. O herwydd y gwahaniaeth hwn y mae'r ysgrifenyddwyr sanctaidd yn arfer geiriau cwbl wahaniaethol am y brynedigaeth ac am yr iawn. *Goel*, cyfathrachwr ; a *phadah*, a brynwyd neu a rydd-

hawyd, megys y sylwyd uchod; a geiriau tarddiol oddiwrthynt, a ddefnyddir yn yr Hen Destament, am y Prynwr a'r brynedigaeth; ond *copher*, yr hyn a wna gymod; a *chataah*, pech-aberth, a geiriau eraill o'r un ystyr, a ddefnyddir am yr iawn. Felly yn y Testament Newydd, ni a gawn am y brynedigaeth y geiriau *lutroo*, a brynais neu a ryddheais, *lutrosis** ac *apolutrosis*, pryniad neu ryddhad oddiwrth, *agorazo* ac *exagorazo*, a brynais; ond nid un amser y mae y geiriau hyn am yr iawn. O'r tu arall defnyddir y geiriau *lutron*, pridwerth; *antilutron*, pridwerth gyferbyn; *ilamos*, iawn; ac *ilasterion*, trugareddfa, am yr iawn; ond nid un amser am y pryniad neu y rhyddhad oddiwrth felldith; yr hyn sydd yn eglur yn gosod allan mai un peth oedd yn cael ei olygu gan yr ysgrifenyddwr sanctaidd wrth y pryniad, a pheth arall wrth yr iawn, neu y pridwerth a roddwyd er prynu.

Hefyd y mae gwahaniaeth i'w weled yn dra amlwg, ond sylwi yn ddiuedd, yn yr ysgrythyrau hyny lle y mae athrawiaeth y brynedigaeth yn cael ei harwain i mewn. Sylwn ar rai o honynt. Gal. 3: 13, "Crist a'n llwyr brynodd oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith trosom." "A'n llwyr brynodd oddiwrth y felldith," dyna y brynedigaeth! "gan ei wneuthur yn felldith trosom," dyna y pridwerth neu yr iawn. Eph. 1: 7, "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau yn ol cyfoeth ei ras ef." "Maddeuant pechodau," neu symudiad y gollfarn oddiar yr euog, ydyw y brynedigaeth; "ei waed ef" ydyw y pridwerth. Tit. 2: 14,

*Lutroo, redimo, pretio da to, ex alterius, tyrannide, servitute, vel captivitate libero. — MIRRETT.

“Yr hwn a roddes ei hun drosom, i'n prynu oddiwrth bob anwiredd,” &c. “Prynu oddiwrth anwiredd” ydyw y fendith sydd yn dyfod yn eiddo i'r pechadur; “a roddes ei HUN drosom” ydyw y pridwerth neu yr iawn. Heb. 9: 12, “Eithr trwy ei waed ei hun (dyna y pridwerth,) a aeth unwaith i mewn i'r cysegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhad; yn ol y Groeg dragywyddol “brynedigaeth.” Edrych hefyd Rhuf. 3: 24, 25; Gal. 4: 4, 5; Dat. 5: 9. Ond effallai y dywedir mai *effeithiau* y brynedigaeth yw y bendithion hyn, ac nid y brynedigaeth ynddi ei hun. Yr wyf finau yn gofyn, I ba ddyben yr awn ni i alw y pethau hynny yn effeithiau y brynedigaeth, ag y mae yr Ysbryd Glan wedi gweled yn oreu eu galw “y brynedigaeth?” Onid gwyrddroi yr ysgrythyrau ydyw hyn i ddal i fyny draddodiad dynol? Yn awr, yr unig wahaniaeth rhwng prynedigaeth pechadur a'i waredigaeth ydyw hyn: mae y waredigaeth yn arwyddo y cyfnewidiad sydd yn cymeryd lle yn nghyflwr pechadur pan y mae yn cael ei symud o'i sefyllfa golledig, oddiwrth ei anwiredd, &c.; y mae y brynedigaeth yn arwyddo yr un cyfnewidiad, ond y mae yn gosod allan y cyfnewidiad hwnw yn ei berthynas a iawn Crist fel pridwerth dros rai euog.

Felly mae'r gair “prynedigaeth” bob amser yn cynwys y golygiad neu y rhagdybiad o “iawn,” er nad ydyw un amser yn arwyddo rhoddiad yr iawn. Geiriau eraill a arferir pan nad oes dim ond y noeth waredigaeth yn cael son am dani, heb gymeryd i mewn y golygiad o berthynas a iawn; sef *sozo*, diogelu, Mat. 1: 21; a 27: 40, 42. Luc 23: 39; a Ioan 5: 34; *ruo*, grymus waredu, Mat. 6: 13. Rhuf. 7: 24; 2

Cor. 1 : 10 ; Col. 1 : 13 ; *exaireo*, cipio allan, Act. 7 : 10 ; a 26 : 17 ; ac *apalasso*, gollwng ymaith, Heb. 2 : 5. Ond pan y mae y waredigaeth yn cael ei gosod allan yn ei pherthynas a iawn Crist, y geiriau y sylwyd arnynt uchod, a arferir bob amser. Yn gyson a'r gollygiadau hyn y mae y Parch. John Brown o Haddington yn sylwi, ag ychydig ymadroddion tra chynwysfawr, yn ei Eiriadur Ysgrythyrol, dan y gair Prynwr, fel hyn, "Ein 'prynedigaeth' neu warediad oddiwrth bechod sydd drwy waed ac Ysbryd Crist, Eph. 1 : 7 ; Col. 1 : 14 ; Heb. 9 : 12 ; ac sydd yn dechreu mewn maddeuaut pechodau, yn cael ei dwyn yn mlaen yn ein sancteiddhâd, ac yn cael ei berffeithio yn ein tragwyddol ddedwyddwch ; pan yn yr adgyfodiad, y bydd i'n cyrph gael eu rhyddhau oddiwrth holl effeithiau marwol pechod." Oddiwrth y sylwadau hyn gwelwn,

1. Fod cyfrwng prynedigaeth pechaduriaid yn annerfynol. Mae gwerth gwaed Crist yn gydbwys â gwerth y Person anfeidrol a roddodd ei hun, yn gysylltiedig â pherffeithrwydd ei ufudd-dod, ei ddyoddefaint a'i farwolaeth.

2. Er fod cynnygiad o gymod ar sail dwyfol aberth o gyd-eangder a dynol ddeiliaid llywodraeth Jehofa mewn sefyllfa prawf, eto *personol* ydyw y brynedigaeth ; a'r un mor ynfyd ydyw son am "brynedigaeth gyffredinol" a son am ailenedigaeth gyffredinol, neu gyfiawnhad cyffredinol, gan mai yr un personau sydd yn derbyn y bendithion hyn oll,

3. Nid ydyw profi mai credinwyr yn unig ydynt y pwrceas prynedig neu waredol yn gwrthbrofi fod yr holl ddaioni y mae y byd yn fwynhau yn deilliaw

drwy gyfryngdod, ac o ganlyniad, ar gyfrif aberth yr Arglwydd Iesu Grist. Eto,

4. Y mae yr ymadrodd "prynu bendithion" tymorol neu ysbrydol yn gwbl anghyson â golygiad yr Ysgrythyrau ar athrawiaeth prynedigaeth, gan mai *personau* a brynwyd, ac a brynir, ac nid pethau. Prynwr personau oedd y Messiah cyn ei ymddangosiad yn y cnawd. Prynwr personau ydyw yn awr, ac ni rydd heibio weinyddu yn y swydd ogoneddus hon hyd oni wel ei holl aelodau yn dyfod i'r lan o'r bedd ar ei ddelw ei hun.

Y DDEDDF FOESOL.

Peth o bwys mawr i ni, fel creaduriaid cyfrifol a deiliaid barn, ydyw iawn syniad am ddeddf Duw. Heb syniadau addas am y ddeddf, ni bydd ein hymddygiadau yn deilwng tuag ati; ac heb hyn, nis gall ein bod yn gwir edifarhau o'i throseddu; a chan mai un o ddybenion goruchel ymddangosiad Mab Duw oedd i "fawrhau y ddeddf, a'i gwneuthur yn anrhydeddus," mae yn amlwg fod gwybodaeth o'r ddeddf yn angenrheidiol, er i ni feddu ar syniadau addas am dano. Ef, ei swyddau, a'i waith. Sylwn:

1. Fod y ddeddf foesol yn ddatganiad o *ewylllys yr Arglwydd*, megys rheol ymddygiad i ddynolryw, fel y maent yn greaduriaid rhesymol ac yn ddeiliaid o'i lywodraeth ef.

Mae deddf bob amser yn cynwys datguddiad o *ewylllys* rhyw un mewn awdurdod; felly mae'r ddeddf deuluaidd, ac felly mae'r ddeddf wladol; maent yn argraffiadau o ewylllys y cyfryw ag sydd yn

dwyn y llywodraeth. Cofiw'n ninau fod pob gorchym-
yn yn y ddeddf foesol yn ddatganiad i ni o sanctaidd
ewyllys yr Arglwydd; ei chroesi ydyw croesi ei ewyll-
ys ef.

2. Mae y ddeddf yn rheol *awdurdodol*.

Nid cyngor ydyw yn unig, yn dangos beth fyddai
oreu i ni wneyd, er mae yn wir (fel y cawn eto grybwyll)
ei bod yn dangos y peth sydd oreu, yn yr ystyr uchaf.
Ond nid fel cyngor neu gyfarwyddyd diawdurdodol y
mae yn dangos hyny. Ond rheol osodedig gan Dduw
ydyw, yn amlygu ei ewyllys yn *gadarnhaol a gorch-
ymymedig*. Ei throesddu, ie yn y lleiaf o'i gorchymyn-
ion ydyw taro yn erbyn yr awdurdod uchaf, yr orsedd
benaf, a'r llywodraeth ogoneddusaf sydd mewn bod.

3. Mae deddf Duw yn rheol *gyhoeddus*.

Mae bod yn gyhoeddus yn beth hanfodol i ddeddf bob
amser; gweithrediadau cyhoeddus ydynt weithrediadau
pob llywodraeth gyfiawn. Yr oedd yn angenrheidiol bod
y ddeddf yn gyhoeddus, modd y byddai i greaduriaid
rhesymol Duw, fel deiliaid ei lywodraeth, i wybod
ewyllys eu Harglwydd. Y mae mor gyhoeddus, fel
ag y mae yn ysgrifenedig, mewn rhyw ystyr, ar weith-
redoedd y greadigaeth ac ar gydwybodau y rhai nid oes
ganddynt ond goleuni natur; mae yn cael ei hesbonio
a'i hegluro yn barhaus yn ngoruchwyliaethau rhaglun-
iaeth; ac yn benaf y mae yn argraffedig yn Ngair y
Gwirionedd. Rhoddwyd hi i Israel ar Sinai yn y
modd mwyaf cyhoeddus; ac y mae gweinidogaeth y
prophwydi, a Christ ei hun, a'i apostolion, wedi ei dal
allan ar gyhoedd ger bron y byd o oes i oes, fel y rheol
ogoneddus ag y mynai Duw i ni rodio wrthi. Ac yn
awr, gan mai rheol gyhoeddus ydyw, cofiw'n mai peth

cyhoeddus ydyw ei throeddu, ac mai mewn llys rhyf-
edd gyhoeddus y byddwn ninau yn fuan, yn rhoddi
cyfrif o'n hymddygiadau tuag at ei gofynion sanctaidd.

4. Mae deddf yr Arglwydd yn rheol *gyfiawn*.

"Mae y ddeddf yn sanctaidd," medd yr apostol, "a'r
gorchymyn yn sanctaidd, ac yn gyfiawn ac yn dda." Mae hi yn gofyn bob amser yn ol teilyngdod y gwrth-
ddrych, yn ol cyneddffau y deiliaid, ac yn ol y modd-
ion o wybodaeth ag y buont yn eu mwynhau. Nid
yw yn gofyn llai gan yr uchaf a'r cryfaf ei alluoedd
yn mhlith angylion y nef, nag iddo garu yr Arglwydd
ac ufuddhau iddo "a'i holl galon, a'i holl feddwl ac a'i
holl nerth," a'i gyd angel "fel ef ei hun." Ac nid yw yn
gofyn llai na hyn gan neb o honom ninau ar y llawr.
Yr un mewn sylwedd ydyw ei gorchymynion i holl
ddeiliaid y llywodraeth, trwy yr holl fydoedd, ac yn
mhob sefyllfa a'u gilydd. Yr *oll ag ydym* y mae hi
yn ofyn, llai nis gall dderbyn yn gymeradwy, a mwy
nid yw yn gofyn. O! mor ddoeth y Deddfroddwr,
yn gallu gosod deddf mewn un gair, yn addas i sef-
yllfa pob cerub, seraph, angel a dyn, yn mhob sefyll-
fa, a than bob amgylchiad, pa un bynag ai yn y byd
hwn, ai yn yr hwn a ddaw.

5. Mae deddf yr Arglwydd yn *eang yn ei gofyn-
iadau*.

"Yr ydwyf yn gweled diwedd," medd y Salmydd,
"ar bob perffeithrwydd; ond dy orchymyn di sydd dra
ëang." Mae y deddf yn cynwys holl ddwyfol orchym-
ynion yr Ysgrythyrau. Rhoddwyd hi yn ddeg o
orchymynion, ac y mae y deg gorchymyn hyn yn ddiau
yn grynodeb cyflawn o ddeddf yr Arglwydd. Rhodd-
wyd hi hefyd mewn dau orchymyn yn cynwys y ddwy

lech, ac ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll. Ie, mewn un gair, "cyflawnder y gyfraith yw CARIAD." Ond ar yr un pryd, y mae ei hysbrydolrwydd a'i hawdurdod ddwyfol yn rhedeg trwy holl orchymynion sanctaidd yr Ysgrhythrau, ac y mae yn eu cynwys oll. Y mae deddf yr Arglwydd mor eang, fel y mae yn ein gosod dan y rhwymau mwyaf i ufuddhau i Dduw yn yr hyn oll y mae yn ei *orchymyn*, i wyllo ac ymochelyd rhag yr hyn oll y mae yn *wahardd*, ac i dderbyn yn ddiolchgar a pharodol bob *grasol gynygriad* ag y mae yn ei osod ger ein bronau. Fel hyn y mae y ddeddf foesol yn ein gosod dan y rhwymau mwyaf i dderbyn yr efengyl, ac i gredu a'r galon yn Mab Duw er iechydwrriaeth dragywyddol. Mae anghrediniaeth ac anedifeirwch yn mhob dyn yn wrthryfel yn erbyn y ddeddf foesol. Amhosibl ydyw i ni groesi y ddeddf sydd yn gorchymyn i ni garu Duw a'n holl galon, yn fwy uniongyrchol a than amgylchiadau mwy cyffrous, na thrwy anghredu y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab, a gwrthod derbyn y fath drefn rasol er ein iechydwrriaeth. Yn hyn y mae eithafoedd drwg calon dyn fel gelyn Duw yn dyfod i'r amlwg. Yn hytrach nag ufuddhau i Dduw, gwell ganddo lynu yn ei felus chwantau, er mai y diwedd yw colli ei enaid dros byth. Gwneler yr ystyriaeth yn ddwys a dwfn ar ein meddyliau, fod deddf y nef yn eingosod dan y rhwymau mwyaf i dderbyn Iesu Grist, gwranddo arno, a byw iddo. "Diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a FFYDD DDIRAGRITH."

6. Mae y ddeddf yn *ysbrydol* ac yn *faniol* yn ei gofyniadau.

Nid ufudd-dod i'r gorchymyn yn y llythyren yn unig y mae hi yn ofyn, ond y mae yn gofyn cywirdeb calon yn mhob ufudd-dod. Ac ar y galon yn benaf y mae hi yn edrych. "Nid fel yr edrych dyn yr edrych Duw, canys Duw a edrych ar y galon." Nid oedd ymddygiadau y Phariseaid yn nyddiau ein Hiachawdwr, er mor ddichlynaidd yn allanol, yn gymeradwy yn ngolwg yr Arglwydd. "Beddau wedi eu gwyngalchu" oeddynt, er eu holl gyflawniadau, am nad oedd eu calon yn uniawn gyda Duw. Nis gall deddfau dynion gyrhaedd ond yr ymddygiadau gweledig yn unig; mae deddf Duw yn craffu ar ysgogiadau mwyaf dirgelaidd y meddwl, yn gystal ag ar y gweithrediadau mwyaf cyhoedd. Meddylw'n yn ddifrifol am ei hysbrydolrwydd a manylrwydd ei gofyniadau. Pob gweithred gyhoedd a dirgel, yn y tywyllwch ac yn y goleuni, y mae yn craffu arnynt; pob gair segur, pob meddwl dirgelaidd, pob egwyddor ddrwg, pob dyben annheilwng—maent *oll* yn cael eu hysgrifenu i lawr erbyn dydd y cyfrif diweddaf!

7. Deddf *ddaionus* ydyw deddf yr Arglwydd.

Mae y gorchymyn yn gyfiawn, yn sanctaidd ac yn DDA. Mae ufudd-dod i'r ddeddf yn peri y dedwyddwch mwyaf i'r enaid, fel y gallwn ddyweyd yn ÷ofn mai "o'i chadw y mae gwobr lawer." Mae ei gorchymynion y fath fel mai nefoedd yw ufuddhau iddi, ac uffern yw peidio. Byddwn yn meddwl weithiau pe buasai i Dduw, pan y creodd ddyn ac angel, roddi ei wybodaeth a'i ddoethineb anfeidrol ar weithrediad i ymchwilio er cael allan gyfarwyddiadau a rheolau i greaduriaid rhesymol ymddwyn wrthynt, modd y byddent yn berffaith ddedwydd, na buasai modd cael gwell

gosodiadau nag a gynwysir yn y ddeddf foesol; "Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, a'th holl feddwl, ac a'th holl nerth; a'th gymydog fel ti dy hun." Amhosibl ydyw i un creadur rhesymol fod yn ddedwydd yn un rhan o greadigaeth y Jehofa, pe bai hyny y *nef ei hun*, heb ei fod yn caru Duw ei Greawdwr ac yn golygu gogoniant ei enw yn beth blaenaf; a lles ei gyd greadur fel ei les ei hun. Gelyniaeth at Dduw, a malais a llid at ddynion a effeithia annedwyddwch mewdol yn mhob sefyllfa, bydded yr amgylchiadau allanol y peth y byddont. Ac o'r tu arall, bod dan lywodraeth cariad at Dduw yn oruchaf, a chariad at ein cymydog fel ni ein hunain a rydd sylweddol ddedwyddwch o fewn y fynwes, bydded yr amgylchiadau allanol mor chwerw ag y byddont. Nis gall uffern ei hun wneyd y dyn yn druenus sydd yn meddu ar yr egwyddor yma, ac nis gall y nefoedd ei wneyd yn ddedwydd hebddi. O! mor ddedwydd a fyddai y byd hwn pe bai dynion yn ufuddhau i ddeddf yr Arglwydd. Dyma sydd yn llanw y nefoedd a'r dedwyddwch mwyaf, maent yno yn ufuddhau yn ddiwyo i'w gorchymynion sanctaidd. Os gwelir ninau byth yno, rhaid ein llwyr gyfnewid i'w delw sanctaidd.

8. Mae deddf yr Arglwydd yn osodiad *angenrheid-iol*, yn tarddu, nid o ben-arglwyddiaeth, ond o *natur pethau*.

Nid am fod Duw yn uwch na ni, ac yn meddu ar y gallu a'r awdurdod i wneyd hyny, y mae yn gorchymyn i ni ei garu a'n holl galon; ond am fod hyny *ynddo ei hun* yn weddaidd; mae y rhwymedigaeth yn tarddu oddiar y peth ydym ni, a'r peth ydyw ef, a'r berthyn-

as rhyngom ag ef fel ein Gwneuthurwr a'n Cynaliwr, a rhan ein henaid. Nid gosodiad a *roddwyd* i ddyn yw y ddeddf, yn yr ystyr fanylaf, megys rhodd o *benarghwyddiaeth*. Rhoddiad oedd ei chyhoeddi yn y dull y gwnaed, yn hytrach na rhyw ddull arall; ond peth *yn bod* yw y ddeddf. Y foment y bo creadur rhesymol yn bod, a golygu bod Duw yn bod, y mae y rhwymedigaeth cynwysedig yn y ddeddf yn bod o *angenrheidrwydd*.

Bod creadur rhesymol yn bod heb rwymau arno i garu Duw, ac i ufuddhau iddo mor belled ag y byddo ei ewyllys yn ddatguddiedig, ac ymddiried ynddo yn hollol (yr hyn bethau sydd gynwysedig yn y ddeddf) sydd mor amhosibl ag a fyddai i greadur fod yn annibynol ar ei Greawdwr, neu i ddyn fod yn Dduw! Mae ein rhwymau ni i ufuddhau i'n Llywydd anfeidrol yn tarddu, nid oddiar y gorchymyn *yn unig*, ond yn hytrach, am mai ein dyled yn wreiddiol ydoedd hyny, y rhodlodd yr Arglwydd y gorchymyn; am y dylasem ei garu y gorchymynodd i ni wneyd; ac am mai ein dyled oedd caru ein cymydog fel ein hunain, y rhodddodd i ni y cyfryw orchymyn. Mae ei orchymynion ef, ac felly ein rhwymedigaethau ninau, yn tarddu oddiar berthynasau sydd yn bod rhyngom ag ef, rhyngom a'r Arglwydd Iesu Grist, rhyngom a'r efengyl, a'r Ysbryd, ac a'n gilydd.

9. Yn ddiweddaf, mae deddf yr Arglwydd, fel ei Hawdwr, *yn anghyfnewidiol*.

Llawer o gyfnewidiadau sydd yn cymeryd lle yn neddfau dynion; ond mae y ddeddf hon yn para yr un o hyd. Nid ydyw wedi lleihau dim yn llymder a manylrywydd ei gofynion o ganlyniad i ddyn fyned i

sefyllfa bechadurus. Peth rhy wael yn ngolwg deddf y nef oedd iselhau dim ar ei gofynion am i'r dyn fyned yn wrthryfelwr yn ei herbyn. Buasai hyn yn anghyfiawnder â Duw, ac a'i greadigaeth resymol hefyd, ac ni fuasai yn well na chymeryd plaid y gwrthryfelwr yn ei ymosodiad rhyfygus a ffaidd yn erbyn yr orsedd dragwyddol. Nid yw ac nis gall y ddeddf wneyd hyn. Mae hi yn gofyn genym yn awr, gymaint ag erioed, ufudd-dod llawn i'w holl orchymynion.

Nid ydyw y ddeddf ychwaith wedi cyfnewid gyda chyfnewidiad goruchwyliaethau. Mae dyn, fel deiliad ymweliadau grasol oddiwrth yr Arglwydd, wedi bod dan wahanol oruchwyliaethau, ond yr un ddeddf ydyw ei reol o hyd. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon," oedd ei llais o'r dechreuad hyd Moses—yr un oedd ei llais o Moses hyd y Messiah—yr un ydyw ei llais dan yr efengyl—ac y mae yn ddi-
au mai yr un yn sylweddol fydd ei llais yn y nef dros fyth. Gan mai ei sail ydyw y berthynas rhyngom a Duw, rhaid dyweyd mai tra y parha Duw yn Dduw, a dyn yn ddyn, bydd y ddeddf yn gofyn ei holl galon, a'i holl alluoedd, yn ol y manteision y byddo yn eu mwynhau, i garu a gwasanaethu yr Arglwydd. O ddedwydd dragwyddoldeb! pan y bydd ein calonau ni a deddf y nef yn adseinio yn berffaith i'w gilydd! Y peth y byddo y ddeddf yn ofyn fydd ein hyfrydweh penaf ninau ei wneyd; ac yna bydd ein dedwyddweh yn yr Arglwydd yn gyflawn! Oddiwrth y pethau hyn gwelwn:

1. Y rhwymau sydd arnom i fendithio yr Arglwydd am ei ddeddf, ac am ei lywodraeth uniawn dros y byd. "Cenwch i'r Arglwydd ei saint ef; a chlodforwch wrth

goffadwriaeth ei sancteiddrwydd ef." Mae sancteiddrwydd ac uniondeb ei lywodraeth, yr un modd a'i ras anchwiliadwy ac anolrheinadwy, yn galw am fawl a chlodforedd oddiwrthym ni. Ychydig ydym yn glywed o glodfori yr Arglwydd am hyn. Pan y diolchir am ei ras ac am ei efengyl, ychydig o ddiolch a roddir am ei lywodraeth uniawn a'i gyfraith bur. Sonir am deulu y nef, eu bod yn "canu cân Moses a cân yr Oen." Maent yno yn molianu am ddeddf, ac am efengyl hefyd. Dysgwn ninau ar y llawr yr un nefol ganiadau.

2. Yn ngwyneb hawddgarwch y ddeddf foesol, dysgwn gasâu a ffeiddio pob pechod. "Nid adnabuaswn i drachwant," medd Paul, "oni bai ddywedyd o'r ddeddf wrthyf, na thrachwanta." Yn nrych y ddeddf y gwelwn ddrwg pechod. "Anghyfraith yw pechod." Daliwn ein cyflwr a'n bywyd yn ngwyneb deddf ysbrydol a manwl y Jehofa. O! pa faint o feddyliau ofer, o eiriau segur, ac o weithredoedd drygionus yr ydym wedi bod yn euog o honynt! pa faint o ddybenion anghywir, o syniadau enawdol, o ddymuniadau anghyfreithlawn!—ac O! yr anfri a'r anmharch a roddwyd ar efengyl Mab Duw! Cywir iawn yw y darluniad a roddir o honom gan y prophwyd, "Y pen oll sydd glwyfus, a'r holl galon yn llesg; o wadn y troed hyd y pen, nid oes dim cyfan yndo, &c."

3. Gwelwn oddiwrth yr hyn a ddywedwyd am y ddeddf, mor ddiesgus ydyw dyn fel troseddwr. Nis gall y ddeddf beidio ei ofyn, nis gallasai yntau gael bodolaeth fel creadur rhesymol heb fod dani, ac nis gall byth fod yn ddedwydd heb ufuddhau iddi. Nid yn ngwyneb efengyl yn unig yr ydym yn ddiesgus am

ein pechod; yr ydym felly hefyd fel deiliaid y ddeddf foesol.

4. Gwelwn ryfeddol ddarostyngiad Mab Duw, yn cymeryd achos troseddwr deddf y nef arno ei hun. Yr oedd efe yn gwybod yn berffaith am deilyngdod gofynion y ddeddf; ac yr oedd yn gwybod mai yn hollol ddiachos yr oedd dyn wedi ei throeddu, ac nas gellid byth amddiffyn ei gymeriad fel troseddwr. Eto o'i fodd, o gariad a thosturi atom ni, fe gymerodd ein hachos ni arno ei hun, ac a fu foddllawn i'n trosediadau ni gael eu cyfrif arno ef! O, ryfedd ddarostyngiad a gras ein Gwardwr bendigedig! Trwyddo ef y mae modd ein hachub heb wneyd cam a'r ddeddf. Y mae ei gofynion wedi eu hateb, y felldith wedi ei dyoddef yn ei berson ef, ac yn ein natur ni. Yn awr, y mae y troseddwr yn cael maddeuant, nid tu cefn i'r ddeddf, ond mewn perffaith gysondeb a'i gofynion oll.

5. Dysgwn gydnabod ein dyledswyddau pwysig, fel rhai sydd i roddi cyfrif—ein dyledswyddau tuag at Dduw ein Creawdwr, tuag at Grist ein Gwardwr, tuag at ei Ysbryd, tuag atom ein hunain, a'n cydgreaduriaid yn gyffredinol. Peth o bwys mawr ydyw dyledswydd dyn, fel un sydd gyfrifol i Dduw. Y mae llawer yn son am hyn gydag ysbryd iach, ac a chalon gyfan iawn. Ond nid felly y dylai fod. Pa beth sydd ddyledswydd, a pha beth nad yw, a ddylai gael ei ystyried genym megys pe byddem yn ymyl y farn sobr. Yno y byddwn yn fuan yn rhoddi cyfrif.

Byddwn yn meddwl yn fynych, ond i ni gael syniadau addas am eangder a manylrwydd y ddeddf, y byddai yn hawdd iawn penderfynu beth yw dyledswydd pob dyn gyda golwg ar edifarhau, a chredu yr

efengyl. Os dylem garu Duw ac ufuddhau iddo, diau y dylem ymostwng mewn edifeirwch o herwydd tros-eddu o honom ei lân orchymynion; ac os dylem ei garu fel y mae y ddeddf yn gofyn, diau y dylem dderbyn y dystiolaeth am ei anwyl Fab. Gwadu hyn, yr ydym yn meddwl, ydyw gwadu un o'r prif bethau a ddysgir i ni yn Ngair y Gwirionedd.

CYFLWR PECHADUR, A'I ACHUBIAETH TRWY RAS.

Eph. 2 : 4—7.—“Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugar-edd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni, ie pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywaodd ni gyda Christ (trwy ras yr ydych yn gadwedig), ac a'n cyd-gyfododd, ac a'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu : fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddenai ragorol olud ei ras ef, trwy ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu.”

Mae yr apostol yma yn cymell i sancteiddrwydd—i fywyd effro mewn crefydd—trwy adgoffhau goludoedd gras Duw tuag at y saint. Un o'r rhesymau cryfaf ag y mae ysbrydoliaeth Duw yn eu defnyddio i gymell i burdeb bywyd ac ymarweddiad, ac i ddeffroad mewn crefydd, ydyw, yr ystyriaeth o gyfoeth gras a thrugar-edd yn nychweliad pechaduriaid ac iachawdwrïaeth eglwys Dduw. Sylwn,

I. Ar gyflwr dyn fel pechadur : y mae yn farw mewn camweddau. “Pan oeddym feirw mewn camweddau.” Ac yn yr adn. 1af, dywedir, “A chwithau a fywyaodd efe, pan oeddych feirw mewn camweddau a phechodau.”

1. Dylem sylwi yma ar rai pethau *yn nacool*.

(a.) Nid ydym i ddeall fod dyn yn farw *yn mhob ystyr*. Nid ydyw felly. Y mae yn fyw iawn i'r hyn

sydd ddrwg, ond yn farw i'r hyn sydd dda—yn fyw i halogi Sabbothau Duw, ond yn farw i sancteiddiad y Sabboth—yn fyw i gablu enw yr Arglwydd, ond yn farw i barchu ei enw—yn fyw i gynllunio drygioni, ac i weithredu drygioni—mae y byd pechadurus ag yr ydym ynddo yn preswyllo yn llawn bywyd yn yr ystyr yma.

(b.) Nid ydym i ddeall fod dyn yn rhydd oddiwrth gyfrifoldeb i Dduw, fel y mae y marw sydd yn ei fedd yn rhydd oddiwrth gyfrifoldeb i'r gymdeithas ddynol yr hon y bu unwaith yn aelod o honi. Dilyn y gymhariaeth yn rhy bell, ac felly arwain i gyfeiliornad dinystriol, a fyddai ei dilyn felly. Mae y marw yn ei fedd yn rhydd oddiwrth bob cyfrifoldeb. Nid oes ar y tad sydd yno rwymau mwyach i ofalu am gynaliaeth ei deulu; nid oes ar y dinasydd rwymau i ofalu am orchwylion dinasydd fel y bu; ac nid oes dim cyfrifoldeb ar neb sydd yno. Ond nid yw y farwolaeth ysbrydol yn ein rhyddhau oddiwrth gyfrifoldeb mewn unrhyw ystyr. Y mae dyn, ie, yr annuwiolaf o ddynion, yn gyfrifol i Dduw yn mhob peth. Mae yn gyfrifol am yr egwyddorion y mae yn eu mabwysiadu, am y tueddfryd neu yr anian sydd yn ei lywodraethu, am ei feddyliau gwageddol a'i eiriau segur, ac am ei agweddau a'i weithrediadau oll.

(c.) Nid ydym i ddeall y geiriau ychwaith yn gosod dyn allan fel un amddifad o alluoedd neu gynneddfau priodol i ufuddhau i'r hyn y mae Duw yn orchymyn iddo. Fe ddefnyddir y geiriau hyn weithiau (chwi a wyddoch) i amddiffyn y dyb yna, sef bod dyn yn *analluog* (yn gystal ag *anewyllysgar*) i wneyd yr hyn sydd dda, fel y mae y marw sydd yn y bedd yn anall-

uog i deimlo, i siarad, i weled, clywed, &c. Ond dilyn y gymhariaeth yn rhy bell yw hyn eto. Oblegid, (1.) Y mae dyn yn meddu ar alluoedd neu gyneddfau naturiol priodol i ufuddhau i Dduw yn yr hyn oll y mae Duw yn ei orchymyn iddo. Cynysgaeddwyd ef a'r cyfryw gyneddfau yn ei greadigaeth, ac y mae Duw yn gofyn ufudd-dod ganddo yn awr yn ol y cyneddfau neu y galluoedd naturiol ag y mae yn awr yn eu meddu. Nid fel y *slaveholder* yn gorchymyn i'r caethwas wneyd yr hyn nas gall ei wneyd, y mae yr Arglwydd—ond y mae yn ein gorchymyn i wneyd yr hyn nad oes un rhwystr, ond ein drygioni, ar ein ffordd i'w gyflawni. Hefyd, (2.) Y mae cymorth grasol, sef dwyfol ddylanwad, yn cael ei gynyg i bob dyn yn nhrefn yr efengyl, i'w gynorthwyo i wneyd yr hyn a orchymynir iddo yn yr efengyl. Hyn sydd amlwg, oblegid y mae gorseddfaine y gras yn "borth i bob anghenog"—nid i bob duwiol yn uuig; ond i bob anghenog. Felly nid amddifadrwydd o allu, a hwnw yn allu priodol i ufuddhau (fel y mae y marw naturiol yn analluog i weithredu yn ei orchwylion naturiol), a feddylir wrth y farwolaeth hon.

2. Ond sylwn air yn *gadarnhaol*. Wrth ei fod yn farw mewn camweddau a phechodau y mae i ni ddeall, ei fod mor *ddyethr* i'r efengyl ac i bethau Duw ag yw y marw yn ei fedd i achosion y byd presenol. Traethu y *ffaith* ddifrifol yna wneir, a'i thraethu yn y fath fodd ag sydd yn dangos fod y dyn yn "bechadurus" ac yn "gamwedus" am ei fod felly. Nid yw y marw yn y bedd yn clywed dim, yn gweled dim, nac yn teimlo dim—nid oes dim a wnelo â gorchwylion prysur y byd presenol. Felly nid yw y dyn sydd yn byw mewn

pechod a chamwedd yn gweled dim gogoniant a hawddgarwch yn mhethau yr efengyl. Nid yw yn clywed dim o swm taranau Sinai, nac o hyfrydlais caniadau Seion—mae “ yn farw mewn camweddau a phechodau.”

(a.) Y mae yn farw yn *llygredigaeth* ei gamweddau—pob tueddfryd sydd ynddo, a phob ysgogiad o'i ei-ddo yn bechadurus—a dyma y darlun du a roddir o hono: “ Yn y rhai y rhodiasoch gynt yn ol helynt y byd hwn, yn ol tywysog llywodraeth yr awyr, yr ysbryd sydd yr awrhon yn gweithio yn mhlant anufudd-dod. Yn mysg y rhai y bu ein hymarweddiad ni oll gynt, yn chwantau ein cnawd, gan wneuthur ewyllisiau y cnawd, a'r meddyliau; ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint megys eraill.”

(b.) Y mae yn farw dan bwys *euogrwydd* ei gamweddau. Mae euogrwydd oes o gamweddau yn gorwedd arno heb eu maddeu. “ Duw sydd ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol. Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf, efe a anelodd ei fwa ac a'i parotodd,” &c.

(c.) Y mae yn farw, fel y mae yn agored bob eiliad i gael ei drosglwyddo i afaelion arswydlon yr “ *ail farwolaeth*.” Nid oes ond yr anadl sydd yn ei ffroenau ac amynedd y Duw mawr rhyngddo a holl erchyllderau y pryf nad yw yn marw a'r tân na ddiifydd!

II. Ei gyfnewidiad trwy ras—ei gyd-fywchau gyda Christ—ei gyd-gyfodi gyda Christ—a'i osod i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu.

Sylwn yma ar ddau beth—y gwaith a wneir ar gyflwr pechadur yn ei droedigaeth at Dduw, a bod hyny yn cael ei wneyd mewn cysylltiad a thrwy berthynas &

Iesu Grist. Sylwn ar y ddau beth hyn gyda eu gilydd wrth fyned yn mlaen.

1. "Cyd-fywhau a chyd-gyfodi gyda Christ." "Bywhau," hyny yw, dwyn y dyn ag oedd o'r blaen yn ddi-deimlad i deimlo yn briodol, yr hwn oedd yn ddall i weled, yn fyddar i glywed, yn ddi-ofal i ofalu am enw ac achos yr Arglwydd. Cyfodi o sefyllfa bechadurus i fuchedd sanctaidd. Dyma y cyfnewidiad a effeithir trwy yr efengyl, pan y mae y pechadur yn cael ei ddychwelyd at Dduw trwy ras. Y mae yn gyfnewidiad mawr, ac yn drwyadl ar yr holl ddyn—tebyg i gyfodi un o farw yn fyw. Bellach y mae y ffrwyth yn sancteiddrwydd, a bydd y diwedd yn fywyd tragywyddol.

"Gyda Christ"—"cyd-fywhau a chyd-gyfodi gyda Christ." Nid meddwl y gair ydyw fod y rhai a gedwir byth trwy Grist wedi cyfodi i fywyd ysbrydol ar y pryd ag y cyfododd efe. Fe berffeithiwyd y ffordd i gadw pwy bynag a gredo yn ei enw ar y pryd hwnw, ond ni wnaed un cyfnewidiad yn eu sefyllfa hwy. Y mae yr holl fyd dan farn Duw, a phawb fel eu gilydd wrth naturiaeth yn blant digofaint. Ond y mae dau beth i ni i'w deall, mae'n debyg, wrth gyd-fywhau a chyd-gyfodi "*gyda Christ*," sef, (1.) Mae tebygolrwydd yn bod rhwng eu cyfodiad hwy i fywyd ysbrydol a'i gyfodiad ef ar foreu y trydydd dydd. Fe gyfododd efe i ofalu am achosion ei deyrnae—daeth o blith y meirw i fywyd byth mwyach; maent hwythau yn cyfodi i wasanaethu yr Arglwydd, o blith y meirw ysbrydol, ac o'r sefyllfa hono i fyw bellach fywyd o sancteiddrwydd ar y ddaear. Fe gyfododd Crist i ymddangos drostynt hwy ar ddeheulaw y Mawredd fry—

maent hwythau yn cyfodi i ymddangos drosto yntau a'i achos yn eu tymor yn y byd hwn. (2.) Maent hwy yn cael eu bywhau a'u cyfodi trwy rinwedd ei fywyd a'i adgyfodiad ef. Ei angau ef a wnaeth iawn dros eu camweddau hwy, a'i adgyfodiad a brofodd fod y fath iawn wedi ei chael ynddo. Felly trwy rinwedd yr anfeidrol iawn a gafwyd yn ei angau a'i gyfodiad ef, y maent yn cael eu cyfodi i fuchedd sanctaidd, &c. "Wedi ein hadgenedlu i obaith bywiol, trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw."

2. "Ac a'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu." Fe esgynodd Crist i eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch leoedd. Y mae'r saint, er mai ar y ddaear y maent, ar ryw olygiadau yn eistedd gydag ef.

(a.) Gydag ef mewn anrhydedd. Y mae efe yn yr anrhydedd mwyaf; y maent hwythau yn anrhydeddus yn eu perthynas ag ef.

(b.) Gydag ef mewn diogelwch. "Eistedd" a arwydda sefyllfa o dawelwch a diogelwch. "Eistedd" y mae efe yn y tawelwch a'r diogelwch mwyaf, allan o gyrhaedd pob gelyn a phob niwed. Nid ydynt hwy allan o gyrhaedd y gelynion eto, ond y mae eu sefyllfa ynddo ef yn un o ddiogelwch mawr—nis gall neb wneyd niwed iddynt, tra b'ont yn pwysu ar ei ras a'i rym ef.

(c.) Maent yn cyd-fwynhau yr un nefol gymdeithas. Er mai ar y ddaear y maent, eto y maent yn mwynhau cymdeithas a gwasanaeth y nefolion. "Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef, ac a'u gwared hwynt." "Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu hanfon i wasanaethu er mwyn

y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth?" Os yw y gelyn yn tentio i bechod, y mae angylion (trwy ryw offerynoliaeth neu gilydd) yn cymell i sancteiddrwydd yn barhaus, ac yn gweini er dyddanwch y saint; ac yn hyn y cyd-una yn hyfryd ysbrydoedd ein hanwyliaid y rhai a fuont feirw yn yr Arglwydd—"A'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd," &c.

(d.) Maent mewn sefyllfa a sicrha eu dygiad i mewn ryw ddiwrnod i gyd-deyrnasu gydag ef mewn gogoniant tragwyddol. "Os dyoddefwn, ni a deyrnaswn gydag ef." Fe lefara Duw weithiau y pethau nad ydynt fel pe byddent, i ddangos sicrwydd dygiad y pethau hynny i ben. Felly y maent hwythau, mewn ystyr, fel pe byddent eisoes gydag ef yn ei nefol ogoniant. O, sefyllfa uchel o anrhydedd, diogelwch, a dedwyddwch!

III. Yr achos cynhyrfiol o'r cyfnewidiad hwn. Nid teilyngdod yn y gwrthddrychau—nid rhagwelediad o ryw rinweddau ynddynt hwy; ond cyfoeth trugaredd a mawr gariad Duw. "Duw yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad," &c. Tra hyfryd oedd gan Paul daro ar y tannau hyn, sef gras, trugaredd, a chariad Duw.

1. Mae yr ymadroddion, "cyfoeth ei drugaredd" a'i "fawr gariad," yn dangos fod ynddo helaethrwydd o dosturi at bechadur. Mae wedi cyhoeddi ei enw yn Dduw trugarog a graslawn, &c. "Duw, cariad yw." O, pwy all ddirnad helaethrwydd ei drugaredd yn Nghrist Iesu tuag at y byd colledig!

2. Fe ddangosodd helaethrwydd ei drugaredd a'i fawr gariad yn yr aberthiad a wnaeth o'i Anwylfab drosom, a'r aberthiad a wnaeth Crist o hono ei hun. "Yn hyn y mae cariad," &c.

3. Eglurir helaethrwydd ei drugaredd yn ei waith yn achub pechaduriaid mawrion. Rhai felly oedd yr Ephesiaid a'r Corinthiaid, a dychweledigion dydd y Pentecost, y rhai a groeshoeliasant yr Iesu; a rhestra Paul ei hun yn eu plith fel y "penaf o bechaduriaid."

4. Bydd cyfoeth ei drugaredd i'w ganfod yn y gwaith hwn pan y dygir ef i berffeithrwydd tragwyddol—pan y canfyddir y dyrfa waredigol heb arni "na brychenyn na chrychni, na dim o'r cyfryw."

IV. Amcan haelfrydol Duw yn nychweliad ac iachawdwriaeth y rhai y mae yr apostol yn llefaru yma am danynt; "Fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai ragorol olud ei ras ef, trwy ei gymwynasgarwch i ni yn Nghrist Iesu."

Un amcan daionus o eiddo yr Arglwydd yn nychweliad pechaduriaid ydyw, sicrhau iachawdwriaeth y gwrthdrysychau hyny eu hunain. Amcan arall (ac am hwnw y lleferir yma) ydyw effeithio er lleshau eraill—effeithio yn yr oes bresenol er lleshau oesoedd dyfodol. Y mae pob diwygiad ar grefydd yn effeithio yn mlaen ar genedlaethau eto a enir. Yr oedd y diwygiadau mawrion a gwblhawyd trwy weinidogaeth bersonol yr Arglwydd Iesu Grist a'i apostolion yn yr oes hono, yn cael eu bwriadu gan Dduw, yn anfeidrol haelfrydedd ei galon ef, i gario effeithiau daionus arnom ni, ac felly ar eraill o oes i oes hyd ddiwedd amser. Yn yr un modd y mae pob diwygiad i effeithio ar genedlaethau i ddyfod. "Fel y gallai ddangos yn yr oesoedd a ddeuai," &c.

Sylwn ar rai pethau a ddangosir i oesoedd dyfodol yn niwygiadau nerthol yr oes apostolaidd.

1. Fe ddangosir yn ymarferol, a hyny yn y modd

dysgleiriaf, barodrwydd Duw i faddu trwy Grist Iesu i'r pechaduriaid gwaethaf. Edrychwn ar y rhestr ddu a rydd yr apostol o bechodau yr oes hono, a chlywn ef yn dweyd, "A hyn fu rhai o honoch chwi; eithr chwi a olchwyd; eithr chwi a sancteiddiwyd; eithr chwi a gyfiawnhawyd, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni;" ie, edrychwn ar lofruddion Mab Duw ei hun wedi derbyn maddeuant; ac oni ellir dweyd fod rhagorol olud ei ras ef trwy ei gymwynasgarwch iddynt yn Nghrist Iesu wedi ei ddangos i'r oesoedd a ddeuai?

2. Fe ddangosir fod modd i eglwys Dduw gael diwygiadau nerthol eto. Diwygiadau nerthol oedd diwygiadau yr oes hono—diwygiadau oeddynt yn dangos "rhagorol olud" gras Duw; ac fe fynai Duw ddangos i oesoedd a ddeuai fod modd eto cael yr un dylanwadau; oblegid yr un yw goludoedd ei ras ef a'i gymwynasgarwch yn Nghrist Iesu yn awr a'r pryd hwnw. Edryched eglwys Dduw ar y tywalltiadau rhyfeddol a wnaed y pryd hwnw, a dygwylid (er mor isel ydyw ar yr achos mewn llawer man) am y cyffelyd dywalltiadau eto.

3. Fe ddangosir i holl genedlaethau y ddaear mai *yn Nghrist Iesu yn unig* y mae gobaith i bechadur fod yn gadwedig. Mynai Duw ddangos i bawb yn mhob oes, hyd ddiwedd y byd, trwy y nerthoedd rhyfeddol a ddilynasant athrawiaeth y groes, mai yn Nghrist y mae ganddo fodd i ddangos ei gymwynasau i bechadur. Y ma yn unig y mae modd i symud euogrwydd a halogrwydd pechod—sef, trwy gredu yn Iesu, byw iddo, a'i anrhydeddu yn ei ordinhadau.

TRISTAU YR YSBRYD GLAN.

TRADDODWYD YN NGHYMANFA UTICA, MEDI 12, 1843.

Eph. 4 : 30.—“Ac na thristewch Lan Ysbryd Duw, trwy yr hwn y'ch seliwyd hyd ddydd prynedigaeth.”

Ar ol sylwi yn y rhan flaenaf o'i lythyr ar rai o brif athrawiaethau yr efengyl, y mae yr apostol yn dyfod yn mlaen at bethau ymarferol; ac yn mhlith y dyledswyddau a nodir y ceir geiriau y testyn, “Ac na thristewch,” &c. Sylwn,

I. Ar yr enw a roddir ar Ysbryd yr Arglwydd—“Glan Ysbryd Duw.” Gelwir ef felly yn dra mynych yn yr Ysgrythyrau, i osod allan,

1. Ei burdeb personol a hanfodol. Y mae yn Ysbryd *Glan*, o ran ei Berson tragywyddol. Y mae yn *hanfodol* lân. Nid oes neb felly ond Duw yn unig; gallai dynion fod yn ddynion (er nad yn ddynion da) heb fod yn sanctaidd; gallai angelion fod yn angelion (er nad yn angelion da) heb fod yn sanctaidd; ond nis gallai Duw fod yn Dduw heb fod yn sanctaidd.

Mae yn *anfeidrol* lân—yn rhagori mewn sancteiddrwydd ar y creaduriaid sancteiddiaf yn y bydysawd. Yn yr ystyr yma, dywedir ei fod yn gosod ynfydrwydd yn erbyn ei angelion, a'r nefoedd nid ydynt yn lân yn ei olwg ef.

Mae yn *anghyfnewidiol* lân. Mae creaduriaid Duw yn cynyddu mewn sancteiddrwydd, neu mewn dirywiad yn barhaus; ond y mae Duw ei hun, o ran ei lendid neu ei burdeb moesol, fel yn mhob priodoledd arall, yr un o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb.

2. Ei swydd. Gelwir ef yn Ysbryd Glan am mai glanhau yr halogedig yw ei swydd rasol yn nhrefniant

gogoneddus ein hiechydwrïaeth. Ac y mae yn diamhenol genyf mai o herwydd hyn yn benaf y mae yn dwyn yr enw "YSBRYD GLAN" yn Ysgrhythrau y Gwrionedd.

II. Y gwaith a briodolir iddo yn y testyn—"selio hyd ddydd prynedigaeth." Mae yr ymadrodd yma yn cyfeirio at waith y marsiandwr yn rhoddi ei sêl ei hun ar ei nwyddau (*goods*) ei hun. Pan y byddai marsiandwyr yn myned i wlad bell i wneyd eu marsiandiaeth, gwedi prynu, byddai pob un yn gosod ei sêl briodol ei hun ar ei feddianau, fel y byddai iddo eu hadnabod oddiwrth eiddo pob marsiandwr arall wedi eu dwyn tuag adref. Felly y mae Duw yn selio ei eiddo ef; a'r sêl a ddefnyddia efe yw ei ddelw ei hun, yr hon y mae yn ei hargraffu ar ei bobl trwy weithrediadau ei Ysbryd a thrwy foddion yr efengyl. Wrth y sêl hon y cydnabyddir ni yn eiddo i'r Arglwydd yn "nydd prynedigaeth."

Wrth "ddydd prynedigaeth" y mae i ni ddeall dydd rhyddhad y corph o'r bedd, dydd yr adgyfodiad cyffredinol. Ystyr y gair prynedigaeth yw rhyddhad neu ymward. Defnyddir ef yn fynych i osod allan warediad neu ryddhad eneidiau pechaduriaid, trwy ras, o gaethiwed gwasanaeth pechod i sefyllfa plant rhyddion yn nhy a gwasanaeth yr Arglwydd. "Gan wybod nad â phethau llygredig, megys arian ac aur y'ch prynwyd oddiwrth eich ofer ymarweddiad," &c. 1 Pedr, 1: 18. "Yn yr hwn y mae i ni *brynedigaeth* trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau, yn ol cyfoeth ei ras ef," Eph. 1: 7. Ond wrth y prynedigaeth yn y testyn y golygir rhyddhad y corph o garchar y bedd, yn y dydd hwnw am yr hwn y llefara Mab Duw pan y dy-

wed, " Na ryfeddwch am hyn ; canys y mae yr awr yn dyfod yn yr hon y caiff pawb a'r sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef ; a hwy a ddeuant allan," &c. Ioan 5 : 28, 29. Yn y dydd hwnw y bydd sylweddolion cyrph y saint yn dyfod i fyny yn gyrph ysbrydol, anllygredig, cyffelyb i'w gorph gogoneddus ef. Am y brynedigaeth hon y llefara yr apostol, Rhuf. 8 : 23, "Gan ddysgwyl y mabwysiad, sef pryndegaeth ein corph." Yn y dydd rhyfedd hwn, bydd eiddo yr Arglwydd yn cael eu hadnabod wrth y sêl neu y ddelw a roddwyd arnynt yn nhymor eu bywyd ar y ddaear.

III. Yr ymddygiad y gelwir ni i wyllo rhagddo, sef "tristâu yr Ysbryd Glan," &c. Cawn enwi yma rai o'r amrywiol ffyrdd ag y dylem eu gochelyd, yn y rhai y tristair Glan Ysbryd Duw.

1. Edrych yn fach ar y dylanwadau a fwynheir genym yn barod o eiddo yr Ysbryd Glan, sydd yn tueddu i'w dristâu. Nid oes un Cristion nad yw yn ddeiliad o ryw ddylanwadau oddiwrth yr Ysbryd Glan—rhyw deimlad o ddrwg pechod—rhyw bigiadau cydwybod o herwydd cyflwr y byd—rhyw ddymuniad am ymadnewyddiad mewn crefydd, &c. Ac yn wir yr wyf yn ameu a oes un dyn dan yr efengyl nad yw yn ddeiliad dylanwadau gwerthfawr ar amserau oddiwrth y tragywyddol Ysbryd—mewn atalfeydd, mewn cymelliadau, mewn argyhoeddiadau, &c. Yn awr, gochel di *ddibrisio* y dylanwadau sydd ar dy feddwl, ac felly dristâu y Dyddanydd nefol ; ond o'r tu arall, ymdrecha eu *meithrin*, a gweddia am eu *cynydd*.

2. Edrych yn fach ar y moddion a drefnodd yr Ysbryd Glan er ein iachawdwriaeth, sydd yn tueddu

i'w dristâu. Mae holl foddion iachawdwriaeth o drefniad yr Ysbryd Glan. Efe a'n cynysgaeddodd a'r Gyfrol Ddwyfol, "Dynion sanctaidd Duw a lefarasant, megys eu cynhyrfwyd gan yr Ysbryd Glan." Efe yw awdwr y doniau gweinidogaethol yr ydym yn eu mwynhau; o'i anfoniad ef y mae ein hathrawon. Efe a drefnodd i ni freintiau yr Ysgol Sabbothol, y gyfrinach neillduol, y cymundeb, y weddi ddirgel, y manteision teuluaid; ie, yr holl foddion am ein tragwyddol fywyd, y rhai yr ydym yn eu mwynhau, ydynt o'i drefniad a'i osodiad ef. Gwylia ei dristâu trwy waeddi, "Manna gwael," uwchben y moddion yr ydynt yn eu mwynhau.

3. Esgeuluso ein cydgynulliad sydd yn tristâu Glan Ysbryd Duw. Mae lle i ofni fod llawer yn ein dyddiau ni yn byw yn yr "*arferiad*" o esgeuluso eu cydgynulliad; fel y dywed yr apostol, "Heb esgeuluso eich cydgynulliad eich hunain, megys y mae *arfer* rhai," Heb. 10: 25. Trwy esgeuluso yr ydym yn colli dwy fendith ar unwaith—yr ydym yn colli bendith y cyfarfod a esgeulusir, a thrwy dynu euogrwydd ar ein cydwybodau yr ydym yn anghymwyso ein hunain yn fawr i fwynhau bendith y cyfarfod nesaf. Fel hyn i'r esgeuluswr y mae y moddion yn myned yn llai ei werth o bryd i bryd, a'i enaid yn cael ei adael mewn culni ysbrydol. Rheol y Cristion ddylai fod, *peidio esgeuluso un moddion ag a allo ei fwynhau*. Dichon iddo golli moddion lawer tro, trwy gystudd, neu trwy fod o gyrhaedd y moddion ar yr amser, neu y cyffelyb. Ond ni ddylai esgeuluso unwaith yn ei dymor; oblegid y mae arno angen dylanwad pob moddion o drefniad Duw idd ei ddwyn yn mlaen yn ffordd bywyd tragwyddol.

4. Peidio gofyn am ei gymdeithas a'i gymorth mewn dyledswyddau crefyddol sydd yn tristâu yr Ysbryd Glan. Mae hyn yn sarhad arno yn ei swydd yn ngwaith iechydwrïaeth—ei waith yw “cynorthwyo ein gwendid ni,” Rhuf. 8 : 26. Trwyddo y cyflawnir dyledswyddau crefyddol yn gymeradwy; hebdo, ni bydd cyflawniad un ddyledswydd ond yn ffurfiol, yn Phariseaidd, ac anghymeradwy. Os esgeuluso gofyn am ei gwmni y byddi wrth fyned i'r cwrdd gweddi, pa ryfedd os bydd y cwrdd gweddi hwnw i ti yn galed a di-wlith? Os esgeuluso gofyn ei gymdeithas wrth fwrdd y cymundeb, wrth yr allor deuluaidd, yn y pwlpud, dan y pwlpud, neu pa le bynag, pa ryfedd ei fod yn dy adael?

5. Rhoddi lle yn ein mynwes i feddyliau cnawdol a llygredig sydd yn tristâu yr Ysbryd Glan. Cofiw'n mai Ysbryd *Glan* yw, ac nas gall ei burdeb anfeidrol ei oddef i gymeryd ei drigfan lle y mae meddyliau aflan yn cael eu coleddu. Un nwyd lygredig yn cael ei choleddu a gaua ddrws y galon yn erbyn sanctaidd bresenoldeb yr Ysbryd Glan. Am hyny y dywed y Salmydd, “Meddyliau ofer a gaseais, a'th gyfraith di a hoffais.”

6. Rhoddi lle i feddyliau anghymeradwy neu ddweyd geiriau anghymeradwy am eraill sydd yn tristâu yr Ysbryd Glan. Gofynir yn y 15fed Salm, “Arglwydd, pwy a drig yn dy babel? pwy a breswylia yn mynydd dy sancteiddrwydd?” ac atebir yn mhlith pethau eraill, mai y dyn hwnw “yr hwn nid yw yn absenu â'i dafod,” nac yn “derbyn enllib yn erbyn ei gymydog,” a'r hwn “a wnelo hyn nid ysgogir yn dragywydd.”

7. Trwy fyned yn ddiachos i ffordd y brofedigaeth yr ydym yn tristâu yr Ysbryd Glan. "A ddichon gwr ddwyn tân yn ei fynwes heb loegi ei ddillad? A ddichon gwr rodio ar hyd marwor heb loegi ei draed?" Diar. 6 : 27, 28. Dyben y gofyniad cyffrous hwn yw, dangos fod yr hwn sydd yn rhedeg yn ddiachos i wyneb profedigaethau yn dra sicr o gael niwed.

8. Yr ydym yn fynych yn tristâu yr Ysbryd Glan trwy esgeuluso gwneyd daioni pan y byddo ar ein llaw ei wneuthur. Llauer un a gollodd bresenoldeb y Dyddanydd nefol am faith amser o herwydd iddo esgeuluso gwneyd cymwynas i gymydog tlawd yn ei mynl, mewn cystudd neu dlodi, neu bob un o'r ddau, pan y gallasai yn rhwydd wneyd hyny; a llauer un sydd yn cael ei adael o ran ei enaid fel mynydd Gilboa, heb na gwllith na gwllaw arno, o herwydd ei fod yn esgeuluso cydweithio gydag ymdrechion dyngarol yr oes, i ddwyn oddiamgylch ddaioni dynolryw a llwyddiant teyrnas ein Harglwydd ar y ddaear. Mae y cymydog tlawd cystuddiol yr esgeulusaist ymweled ag ef a gweinyddu i'w angenrheidiau, yagatfydd, yn un o rai anwyl Duw, yn destyn eiriolaeth neillduol Iesu, ac yn wrthddrych gofal yr Ysbryd; ac y mae y gymdeithas y cefaist gyfle i ymuno a hi ond a esgeulusaist, yn un o'r moddion cyhoeddus, hwyrach, a drefnwyd gan Dduw i dynu i lawr deyrnas y fagddu yn un o'i handdiffynfeydd cryfaf, ac i sicrhau teyrnasiad yr Emmanuel bendigedig dros yr holl ddaear; a pha ryfedd yw fod esgeuluso y cyfryw yn tristâu yr Ysbryd Glan.

IV. Pwysigrwydd y gocheliad, "Ac na thristewch Lan Ysbryd Duw," &c. Paham y dylem ochelyd ei dristâu?

1. Y Bôd mwyaf goruchel a'r sydd mewn bod yw —Ysbryd yr Arglwydd! Dylem wyllo rhag tristâu, yn afreidiol, ein cydradd ddyinion, pa faint mwy Ysbryd y tragywyddol Dduw?

2. Ein Cymwynaswr goreu yw. Efe yw yr Ysbryd sydd yn glanhau yr halogedig; o hono y deillia ein holl rasau a'n holl ddyddanwch. Efe yw y "Dyddanydd arall" yr hwn sydd yn aros gyda ei saint yn dragywydd. Gwylw'n rhag tristâu ein nefol Ddyddanydd.

3. Ein Perchen anfeidrol yw. Efe a'n seliodd fel ei eiddo ei hun, trwy argraffu arnom ei ddelw. Nid ydym at ein rhyddid i dristâu, heb achos, yr estron penaf. Pa faint mwy y dylem wyllo rhag tristâu yr hwn yr ydym yn mhob ystyr yn eiddo iddo, ac wedi derbyn arnom ei ddwyfol sel?

4. Mae dydd yr ymweliad yn ein haros, ac yr ydym yn dysgwyl i'r Ysbryd Glan ein harddel yn y dydd hwnw; oblegid y mae wedi selio ei blant "*hyd ddydd prynedigaeth.*" Dyna y dydd ag y bydd o'r pwys mwyaf i ni oll fod yr Ysbryd Glan yn gyfaill i ni, ac yn drigianydd ynom. O, bechadur! pa fodd y cyfarfyddi a'th Farnwr, heb fod yr Ysbryd Glan wedi gwneyd ei drigfan ynot, a gorphen ei waith ar dy enaid? Os heb hyn, byddi i'th gael yn affendid dy holl bechodau ger bron yr orsedd buraf sydd! A chwithau sydd yn proffesu yr enw mawr, gofynaf, Pa beth ydych yn wneyd yn eich cynulliaidau, a'ch holl ymwneyd a'i achos?—pa un ai ei dristâu, ai coleddu a meithrin yr ydych ei rasol weithrediaidau?

“LLESTRI DIGOFAINT” A “LLESTRI TRUGAREDD.”

Rhuf. 9 : 22—24. “Beth os Duw, yn ewyllysio dangos ei ddigofaint, a pheri adnabod ei allu, a oddefodd trwy hirymaros lestri digofaint wedi eu cymwysu i golledigaeth : Ac i beri gwybod golud ei ogoniant ar lestri trugaredd, y rhai a rag-barotodd efe i ogoniant ? Sef nyni y rhai a alwodd efe, nid o'r Iuddewon yn unig, eithr hefyd o'r Cenedloedd.”

Y prif bwnc yr ymdrinir ag ef yn y benod hon a'r ddwy ganlynol ydyw Cyfiawnder Duw yn rhoi yr Iuddewon i fyny i farn am eu hanghrediniaeth—a'i anfeidrol drugaredd yn ngalwad y Cenedloedd.

Nid anfuddiol, efallai, fyddai gwneyd rhai sylwadau ar adnodau blaenorol i'r testyn hwn. Pan y dywed yr apostol, adn. 3, “Canys mi a ddymunwn fy mod fy hun yn anathema oddiwrth Grist, dros fy mrodyr, sef fy nghenedl yn ol y cnawd,” &c.,—nid y meddwl yw y buasai yn foddlon bod yn ddyn colledig er mwyn ei genedl, oblegid nis gallasai fel Cristion ddymuno y fath beth, ac nis gallasai hyny lesâu dim ar sefyllfa y genedl mewn unrhyw fodd. Ond iaith grefyw y geiriau, yn gosod allan ddymuniad yr apostol, na byddai i'r Iuddewon gymeryd dim tramgwydd oddiwrth ddim rhagfarn allasai fod ynddynt ato ef yn bersonol, i'w hatal rhag dyfod at Grist a'i wasanaeth—ond ar iddynt edrych yn uniongyrchol at Grist ei hun, a'i dderbyn er ei fwyn ei hun. Fel pe dywedasai, Teflwech fi yn hollol o'r neilldu—alltudiwch fi yn hollol oddiwrth bob braint, o ran eich meddyliau a'ch dychymyg, fel pe byddwn i yn “anathema oddiwrth Grist,” ac ymofynwch am sicrhau eich iachawdwriaeth eich hunain trwy gredu ynddo,—ac nid troi ymaith oddiwrtho

o herwydd rhyw dramgwydd all fod ynoch tuag ataf fi sydd yn un o'i annheilwng weision.

Adn. 11—13, "Canys cyn geni y plant eto, na gwneuthur o honynt dda na drwg, &c., y dywedwyd, Yr hynaf a wasanaetha yr ieuangaf, megys yr ysgrif-enwyd, Jacob a gerais, eithr Esau a gaseais." Nid meddwl y gair hwn yw fod yr Arglwydd wedi caru un o'r plant, a chasáu y llall, cyn eu geni na gwneuthur o honynt dda na drwg, ac mai hyny oedd yr *achos* o gymeriadau moesol gwahanol y ddwy genedl, ac o'i wahanol ymddygiadau ef tuag atynt. Meddwl felly fyddai meddwl fod Duw yn awdwr drygan y rhai drygionus fel y mae yn awdwr rhinweddau y rhai rhinweddol. Ond nid dyna yw athrawiaeth ei air sanctaidd, mewn un modd. Ond y meddylddrych yn yr adnodau hyn yw, i'r Arglwydd "ddywedyd" neu *hysbysu*, cyn geni Jacob ac Esau a chyn gwneuthur o honynt dda na drwg, beth a fyddai cymeriad moesol y ddwy genedl a'r modd y byddai iddo yntau ddangos ei ffafrau dwyfol at y naill a'i ddigofaint dwyfol at y llall. Wrth y gair "Jacob a gerais" y meddylir cenedl Jacob, ac wrth y gair, "Esau a gaseais" y meddylir cenedl Esau—nid y plant cyn eu geni. A bwriad yr apostol yn ei gyfeiriad at hyn, oedd egluro i'r Iuddewon, er i'r Arglwydd ddangos ei ffafrau yn rhyfedd at eu tadau yn yr oesoedd blaenorol, eto os troent hwy o lwybrau eu tadau, a cherdded llwybrau hiliogaeth anghrefyddol a drygionus Esau, mai y cyffelyb dynged fyddai yr eiddynt hwy ag eiddo y rhai hyny.

Adn. 18, "Felly gan hyny y neb y myno y mae efe yn trugarhau wrtho, a'r neb y myno y mae efe yn ei galedu." Yr oedd llawer o'r Iuddewon (ac y mae

llawer i'w cael eto) yn dra thebyg i Pharaoh, yn ymgaledu yn fwyfwy dan bob triniaeth o eiddo Duw tuag atynt, a'r genedl galed hon yr oedd Duw yn ei rhoi i fyny o herwydd eu hanghrediniaeth i'r farn-edigaeth drymaf a ddisgynodd ar genedl erioed. Pan ddywedir i Dduw galedu calon Pharaoh, nid y meddwl yw i'r Arglwydd ddylanwadu ar ei feddwl i'w galedu, na dwyn un oruchwyliaeth arno i'r dyben hwnw; ond mai dyna oedd *effaith alarus* goruchwyliaethau Duw tuag ato. Dyben y goruchwyliaethau oedd meddalhau ei galon, a pheri iddo ollwng Israel yn rhydd—caledu yr oedd yntau dan bob goruchwyliaeth. Ond paham y dywedir mai *Dduw* a galedodd ei galon? Gellir ateb y gofyniad yna trwy sylwi mai y goruchwyliaethau, y rhai oeddynt ddwyfol a daionus yn eu tuedd eu hunain, a fuont yn *achlysuron* o'i galedwch. Felly yr oedd y genedl Iuddewig yn nyddiau yr apostol, yn eu caledwch yn erbyn Crist a'i achos; ac felly y mae pob dyn eto sydd yn ymgaledu mewn pechod—yr *achos* o'i galedwch yw ei anghrediniaeth a'i ddrygioni ei hun—ond yr *achlysuron* o'i galedwch yn fynych ydynt oruchwyliaethau barnol neu waredigol Duw tuag ato.

Pan y dywedir, "Y neb y myno y mae yn trugarhau wrtho, a'r neb y myno y mae yn ei galedu," nid y meddwl yw fod yr Arglwydd yn ymddwyn mewn trawsawdurdod (*arbitrarily*) tuag at ei greaduriaid, am ei fod yn uwch na phawb ac yn helaethaoh yn ei allu na phawb; ond y meddwl yw ei fod yn ymddwyn yn ol ei ewyllys sanctaidd ei hun, ac y mae yn gwneyd hyny yn y gweddusrwydd mwyaf, at bob dyn dan bob rhyw amgylchiadau.

Adn. 20, 21, "Yn hytrach, O ddyw, pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? a ddywed y peth ffurfiedig wrth yr hwn a'i ffurfiodd, Paham y'm gwnaethost fel hyn? Onid oes awdurdod i'r crochenydd ar y priddgist, i wneuthur o'r un telpyn pridd un llestr i barch, ac arall i anmharch?" Nid meddwl y gair hwn ydyw, fod yr Arglwydd wedi gwneuthur o'r un ddynoliaeth rai i fod yn bechadurus ac yn ddamniedig, a rhai i fod yn rhinweddol ac yn gadwedig. Annhraethol bell oddiwrth hynyna yw meddwl y gair. Dweyd felly fyddai dweyd fod Duw yn awdwr pechod, a bod yr holl ddrygau moesol sydd yn y byd, ag y cyhoeddir anfoddlonrwydd Duw yn eu herbyn yn mhob oes, wedi deilliaw oddiwrtho ef. O! na, nid felly y mae y gwirionedd dwyfol yn ein dysgu. Dangos mae yr apostol fod gan Dduw yr un hawl i droi y genedl anghrediniol hono i farnedigaeth a dinystr ag sydd gan y crochenydd i droi y telpyn pridd "a difwynwyd" yn ei law, i fod yn llestr i anmharch, pryd y gallasai fod, mewn amgylchiadau gwahanol, yn llestr i barch. Yr oedd y genedl hon wedi ei "difwyno" trwy bechod, yn enwedig y pechod o wrthod ei Gwardwr a ddaethai atynt oddiar y fath haelfrydigrwydd, ac yr oedd yn gweddu i Dduw (er cymaint y ffafrau a ddangosid yn flaenôrol tuag at eu tadau) i ddangos ei gyfiawnder a'i doster arswydol tuag atynt hwy yn y farnedigaeth ag yr oeddynt yn awr wedi ymaddfedu iddi. Os edrychwn ar y geiriau yn Jer. 18: 1—10, o'r lle y dyfynwyd hwy gan yr apostol, cawn weled mai dyna eu gwir ystyr. "Onid allaf fi, fel y crochenydd hwn, wneuthur i chwi, ty Israel?" &c. Edryched y darlennydd ar y geiriau. Yr oedd amgylchiadau

yn genedl yn nyddiau yr apostol yn dra chyffelyb i'r hyn oeddynt yn nyddiau y prophwyd—eu hysbryd anghrediniol ac eilunaddolgar oedd wedi eu “difwyno yn llaw y crochenydd” ar y ddau amgylchiad, ac yr oedd y farn yn ymyl. Sylwn ar y testyn :

I. Y ddau nodweddiad a enwir.

1. “Llestri digofaint.” Pwy oedd y rhai hyn? Anghredinwyr yr oes hono—ac anghredinwyr pob oes. Anghredinwyr y gynulleidfa hon a gynwysir yn y darluniad, “Llestri digofaint!” Gelwir hwy yn “llestri digofaint” am eu bod yn wrthddrychau digofaint yr Arglwydd. “Duw sydd Farnydd cyfiawn, a Duw sydd ddigllawn beunydd wrth yr annuwiol.” Nid digllawn wrtho fel ei greadur—mae yn dirion iawn tuag ato yn yr ystyr hono—ond mae yn ddigllawn wrtho fel “annuwiol”—ac yn ddigllawn wrtho am barhau yn annuwiol. Dywedir yn mhellach, “Oni ddychwel yr annuwiol, efe a hoga ei gleddyf;” hyny yw, efe a ymbarotoa i fwy o ddialedd. Dywelir hefyd ei fod yn “dal dig” at ei elynion; hyny yw, nid yw yn ildio dim iddynt—ni rydd i fyny un o'i egwyddorion tragwyddol i gefnogi yr annuwiol yn ei bechod a'i anufudd-dod—rhaid iddo fe ildio trwy ym-ostwng—ni wna Duw ildio dim—mae holl egwyddorion ei drefn ef yn anhyblyg dragwyddol. Am hyny, priodol iawn yw'r cyngor, “Yn gymaint a bod digofaint, gochel, rhag iddo dy gymeryd di ymaith a'i ddyrnod, yna ni'th wared iawn mawr!”

“*Llestri digofaint.*” Fel y mae y llestr a sudda yn y môr yn cynwys ei llonaid o ddwfr, felly bydd yr annuwiol a sudda yn uffern yn llawn o ddigofaint yr Arglwydd. Pob teimlad ynddo—pob cyneddf—fydd yn

llawn o'r meddwl fod Duw yn ddigllawn wrtho—a'i fod yn gyfiawn yn ddigllawn. Os oedd y meddwl fod Sarah yn ddig yn gwneyd sefyllfa Agar yn annyodd-efol yn nheulu Abraham, beth fydd teimlad yr annuw- iol pan bo yn cofio fod Duw yn ddig wrtho, a hyny am byth!

2. "Llestri trugaredd." Nid oes eisiau llawer o amser i hysbysu pwy yw y rhai hyn. Mae yr apostol yn eu nodi allan yn amlwg—"Sef nyni y rhai a al- wodd efe, nid o'r Iuddewon yn unig, eithr hefyd o'r cenedloedd." Y dychweledigion oeddynt—yr holl ddychweledigion—yr holl gredinwyr—pawb duwiol- ion—pa un bynag ai Iuddewon ai cenedloedd. Dyma y ddau ddsbarth moesol i ba rai y rhenir y byd ar *blatform* mawr cyfryngdod Mab Duw—sef credinwyr ac anghredinwyr—rhai yn parchu y Mab, a rhai yn ei ddirmygu—dyma y dau gyflwr—a dyma ddeiliaid y ddwy sefyllfa dragywyddol. Y Beibl a olyga bob dyn yn ngwlad efengyl yn perthyn i un o'r ddau raniad yma, yn llestr trugaredd neu yn llestr digofaint, yn ol y peth yw ei ymddygiad at y Gwardwr mawr.

Mae y saint yn llestri trugaredd fel y maent yn ddeiliaid ffafrau rhyfedd o law yr Arglwydd. Ffafr ryfedd i ni oedd fod yr efengyl yn y byd o'n blaen ni, a ninau yn cael bodolaeth ganddo ef yn ngwlad efeng- yl. Ffafr ryfedd oedd i ni gael ein harwain gan ryw law dyner dan ei gweinidogaeth hi, a chael ein dysgu i nabod llythyrenau ei enw anwyl Ef. Ffafr ryfedd oedd y dylanwad dwyfol a roddodd i ni y tueddfryd sanctaidd hwn—y dduwiol anian—ac a'n *cychwymodd* ar y ffordd tua'r bywyd. A ffafr fawr oedd y gynal- iaeth a dderbyniasom bob cam o'r yrfa, a'r gobaith

sydd ynom, yr hwn a dry yn fwynhad cyflawn fry yn nhy ein Tad. Diau mai llestri trugaredd yw'r saint.

Ond cofier mai llestri *trugaredd* ydynt. Nid oes yma ddim defnydd hunan-ymffrost. Gwrthddrychau heb haeddu dim yw gwrthddrychau trugaredd. Mae'r saint yn edrych ar bob bendith a fwynhant ar y ddaear yn drugaredd, a byddant yn edrych ar bob bendith a fwynhant yn y nefol wlad fel rhoddion heb eu teil-yngu o'u tu hwy. Er mai "*coron cyflawnder*" fydd y wobr, ac er y bydd gweddusrwydd priodol yn y gweinyddiad o honi i bob un o'r teulu, eto rhoddion fydd yr holl ffafrau tragywyddol iddynt hwy. Dyma a bwr newydd-deb tragywyddol yn molianau y nef, "Iddo ef, yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun."

II. Y gweinyddiadau gwahanol o eiddo Duw a enwir yma at y gwrthddrychau hyn.

Am ei weinyddiadau tuag at anghredinwyr neu wrthodwyr o'r Gwardwr, mae yma amrywiol bethau difrifol yn cael eu nodi.

1. Dangos ei ddigofaint—"Beth os Duw yn ewyll-ysio dangos ei ddigofaint." Fe ddangosodd yr Arglwydd ei ddigofaint mewn modd dychrynlyd iawn yn y farn dymorol ar y genedl Iuddewig (fel y sylwyd) am eu gwrthodiad o'r Messiah. Yr oeddynt wedi cael eu rhybuddio o hyn gan y prophwydi, a chan Grist ei hun mewn dagrau, ac y mae y darluniad a roddir o'r farn hon gan Josephus, yr hanesydd Iuddewig, yn arswydol yn wir, pan gylchynwyd y ddinas gan y lluoedd Rhufeinig—y ddinas ei hun o'i mewn fel crochan berwedig gan bleidiau gwrthwyneb-

ol yn dinystrio eu gilydd—yr Iuddewon wedi hynny yn cael eu croeshoelio ar brenau, tra yr oedd pren i'w gael yn y wlad i groeshoelio dyn arno. Yna eu gwasgaru a'u halltudio, megys gyda phedwar gwynt y nefoedd. Yma yr oedd Duw mewn barn dymorol yn dangos ei ddigofaint yn arswydol, eto yn gyfiawn, at wrthodwyr ac erlidwyr ei Anwyf fab. Ond beth a ddywedwn am y farn dragywyddol ar yr holl anghredinwyr, y rhai na fynant ufuddhau i efengyl Mab Duw, nac ymddiried ynddo? Y bywyd *naturiol* a ddinystir gan farnau tymorol—bywyd yr enaid fydd dan y farn hono. Peth dros amser yw pob barn dymorol—peth i barhau byth fydd y digofaint hwnw. Dydd i “ddangos ei ddigofaint” fydd dydd y farn gyffredinol—a dydd i “ddangos ei ddigofaint” fydd cyfnod y gosp dragywyddol.

2. “Peri adnabod ei allu.” Ei allu barnol yn ddiâu a feddylir wrth y gair yma. Mae llawer yn ymddwyn yn awr mewn gwawd a dirmyg a rhyfyg, gan gymeryd yr enw mawr yn ofer, diffodd argyhoeddiadau eu cydwybodau eu hunain, a mynu eu ffordd yn mlaen tuag uffern trwy bob moddion a roddir i'w hatal, fel pe na byddai gan Dduw allu i'w galw i gyfrif. Ond y mae ganddo allu, ac fe bwr adnabod ei allu pan bydd yn galw yr adyn euog i wely angau, a thrwy angau i'r farn, a phan y bydd yn galw ei holl elynion o'u beddau yn y dydd mawr a ddaw.

3. “A oddefodd trwy hir ymaros.” Dyna fel yr oedd yr Arglwydd wedi ymddwyn at y genedl wrthnysig hono—a dyna fel y mae yn ymddwyn eto at lawer o wrthodwyr ei Fab—goddef yn hir cyn taro—rhoddi amser iddynt i edifarhau, fel y Jezebel hono a

enwir yn llyfr y Datguddiad—eu cymell yn dirion—eu ceryddu weithiau—eu gwaredu bryd arall—“hir-y-marhous yw efe” tuag at y rhai cyndyn ac anuffudd.

4. Rhai wedi eu “cymwyso i golledigaeth” oedd y rhai hyn. “A oddefodd trwy hir ymaros lestri dig-ofaint wedi eu cymwyso i golledigaeth.” Nid oes dim yn cymwyso dyn i golledigaeth mor effeithiol a'i fod yn gwrthod yr unig Waredwr a drefnodd Dŵw i ddyn, ac yn y sefyllfa hono yn byw mewn pechodau rhyfygus. Dyma oedd sefyllfa y rhai a ddarlunir gan yr apostol yma—yr oeddynt yn gymwys i'r farn, ac wedi eu hir oddef cyn i'r farn ddisgyn. Ei gymwyso ei hun i golledigaeth y mae yr annuwiol trwy ei anghrediniaeth a'i galedwch. Meddwl y gair hwn ydyw fod yr Arglwydd o'i anfeidrol amynedd yn goddef llawer o ddynion ar y ddaear, er eu bod eisoes wedi eu cymwyso eu hunain i golledigaeth.

Dau beth a enwir gyda golwg ar y gweinyddiad dwyfol at “lestri trugaredd.”

1. “Peri gwybod golud ei ogoniant” yn eu hiechyd-wriaeth. Iaith aruchel iawn yw hon—peri gwybod ei ogoniant, a *golud* ei ogoniant yn iachawdwriaeth ei bobl. Mae gogoniant yr Arglwydd i'w weled yn ei holl weithredoedd, ond yn iachawdwriaeth ei saint y gwelir *golud* ei ogoniant. Yma y gwelir golud ei allu, ei ddoethineb, ei gyfiawnder a'i drugaredd dros byth.

2. Eu “rhagbarotol i ogoniant.” Dyma ddyben grasol holl oruchwyliaethau Duw tuag atynt, a dyma yr effaith y mae y goruchwyliaethau yn gael arnynt—eu rhagbarotol i ogoniant. Gwaith mawr ydyw hwn—addysgu boneddigeiddrwydd y nef i'r teulu ar y ddaear.

III. Yr herfeiddiad sanctaidd a wneir.

“Beth os Duw yn ewyllysio,” &c. Mae y gair hwn yn cyfeirio at y ddau weinyddiad. Yr oedd gwrthddadleuon yn codi yn meddyliau llawer i'r athrawiaeth fod y fath genedl ag oedd hen genedl yr Iuddewon, eiddo y rhai oedd y tadau, a dodiad y ddeddf, a'r cyfamodau, &c., yn cael ei rhoi i fyny i'r fath farn. Ac yr oedd gwrthddadleuon i'r meddwl fod y cenedl-oedd yn dyfod i mewn i'r fath ffafrau goruchel. Sylwn air yn fyr yma.

1. Ar gyfiawnder Duw yn ngweinyddiad y farn ar yr Iuddewon, ac yn ngweinyddiad y gosp dragywyddol ar bawb anghredinwyr.

(1.) Hwy a wrthodasant Dduw eu tadau, ac nid efe a'u gwrthododd hwy. Yr apostol a ofyna gydag eiddigedd sanctaidd (pen. 11 : 1), “A wrthododd Duw ei bobl? Na atto Duw,” &c. Nid efe oedd yn troi ymaith oddiwrth ei bobl, ond hwy oeddynt yn troi ymaith oddiwrth eu Duw a'i wasanaeth. Dyna a agorodd y genllif o ddygofaint i ddyfod arnynt. Felly y mae eto—“Ni fynwch ddyfod ataf fi, fel y caffoch fywyd.”

(2.) Y pechod mwyaf o bob pechod ydyw anghredu yn y Gwardwr. Mae yn fwy na phechod paganiaid—mae yn fwy na phechod cythreuliaid. Pechod y pechodau ydyw anghredu yn Iesu Grist. Y weithred fwyaf ysgeler a gyflawnwyd erioed gan ddyinion oedd gweithred yr Iuddewon yn erlid yr Iesu. Gwawdiasant, dirmygasant, croeshoeliasant Anwylyfab y Nef. Ac y mae y rhai a anufuddhant i'w efengyl yn awr yn ei ail groeshoelio.

(3.) Gweithred rydd yw credu tystiolaeth Duw am ei Fab, a gweithred rydd yw anghredu y dystiolaeth.

Nid yw yr Arglwydd yn gorfodi neb yn hyn. O fodd y derbynir Iesu Grist, ac o fodd y gwrthodir gwneyd derbyniad o hono. O'u bodd y gwaeddai yr Iuddewon, "Ymaith ag ef, ymaith ag ef," &c. Ac felly eto, o fodd y mae dynion yn anufuddhau i'r efigyl.

(4.) Mae anghrediniaeth yn cau unig ddrws iachawdwriaeth yn erbyn y pechadur. Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall, nac enw arall wedi ei adael, trwy yr hwn y mae modd bod yn gadwedig. Ni fedd Duw un drefn arall. Pan anfonodd Duw ei Fab i'r byd, anfonodd y genad olaf. Dyma, megys, y cynygriad diweddaf—os gwrthodid ef, nid oedd un arall. "Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab." Dyma yr urdd fwyaf—dyma y graslonrwydd rhyfeddaf—dyma y genad olaf!

(5.) Mae hir oediad y farn (fel y nodwyd) yn cyfiawnhau ei gweinyddiad. "A oddefodd trwy hir ymaros." Nid oedd y Duw cyfiawn yn dewis goddef nac ymaros yn hwy. Felly y mae eto gyda golwg ar y rhai sydd bob amser yn gwrando, heb un amser ddyfod i wybodaeth o'r gwirionedd.

Wel, "Beth os Duw, yn ewyllysio dangos ei ddigofaint," &c., onid cyfiawn yw iddo wneyd hyn? Bydd gweinyddiadau y farn olaf—bydd llais y gydwybod ei hun—bydd loesion y gosb yn y boenfa dragywyddol yn adleisio, Mae'r gosb yn gyfiawn. Un gair eto,

2. Ar y gweddusrwydd o'i fod yn dangos golud ei ogoniant ar lestri trugaredd, y rhai a ragbarotodd efe i

ogoniant. Beth os Duw yn ewyllysio gwneyd hyn hefyd? Rhyw drugaredd ryfedd i'r cenedloedd oedd iddo agor y drws, a dywedyd wrth ei weision, Ewch bellach i ffordd y cenedloedd. Pan yr ymesgusodai y "rhai a wahoddid," ac ni fynent ddyfod i'r "swper mawr," trugaredd oedd dweyd wrth y gwas, "Dos allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a chymell hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhy." Trwy ffydd y derbyniwyd y cenedloedd, a thrwy ras heb ci fath—a bydd uchel ganmol byth am y gras hwn. Ceir gwelied "golud ei ogoniant" yn y gwrthdrysau wedi i'r gwaith gael ei orphen. Gwelir y drefn yn ogoneddus—y gwaith yn ogoneddus—a'r diwedd a fydd yn ogoneddus byth.

Edrychwn na wrthodom yr hwn sydd yn llefaru o'r nef. Rhoddwn ufudd-dod parodol iddo—a chawn fynegu ei fawl ddydd a ddaw am ei ddawn annhraethol i wrthdrysau annheilwng.

SWYDDOGAETH EGLWYS CRIST.

Yr ydym wedi meddwl er's tro y buasai yn dda genym allu dweyd gair, pe gallem wneyd hyny yn briodol hefyd, ar swyddogaeth eglwys Crist. Y mae o bwys i bob cymdeithas, er ei chysur a'i llwyddiant, fod ei swyddogion yn ddynion doeth, medrus a ffyddlon, a'u bod hefyd yn derbyn gan y rhai y llafuriont iddynt yr ymddiried sydd weddus iddynt yn eu sefyllfa swyddol. Ac o bob cymdeithas ag y mae hyny yn bwysig iddi, eglwys Dduw sydd yn benaf felly.

Eglwys Crist yw y gymdeithas fwyaf goruchel sydd mewn bod. Y mae yn gymdeithas o osodiad ac o

drefniad dwyfol. Mae pob peth ynddi i gael ei wneyd yn addas ac mewn trefn, yn ol y portread a'r gorchymyn dwyfol. Cymdeithas ydyw i gario allan yn ymarferol ddybenion mawrion ymgnawdoliaeth a gwaith y Gwarddwr—sef dadymchweliad teyrnas Satan, tröedigaeth dynion at Dduw, sefydliad gwirionedd a rhinwedd trwy yr holl ddaear, ac yn y cyfan gogoneddu enw ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.

Mae yn perthyn i eglwys Crist weinidogion i draethu gair y bywyd—a diaconiaid. Am yr olaf yn benaf y mae ein bwriad i ddweyd ychydig yn awr.

Ystyr y gair diacon yw *gweinyddwr*, *gweithiwr*, neu *lafurwr*. Da fyddai i ddiaconiaid bob amser gofio ystyr priodol eu henw—maent wedi eu galw i'r swydd i weithio, nid i wisgo anrhydedd y swydd yn unig, ond i *weithio*, ac i weithio yn egniol ac yn ddiwyd, fel rhai sydd i roddi cyfrif. Perthyna i'r swydd yn arbenig i ofalu dros bethau allanol eglwys Crist.

Maent i ofalu am dy yr Arglwydd—ei gysegr cyhoeddus—i edrych ar ei fod yn lle cyfleus, cysurus a glân, a phob peth o'i ddeutu yn drefnus a dymunol, fel lle addas a deniadol i'r gynulleidfa ddyfod iddo i addoli yr Arglwydd.

Mae yn perthyn i'r diaconiaid i ofalu dros dlodion y gynulleidfa, na byddont mewn eisiau. Dylai hyn gael ei gofio yn ddyfal. Er² fod trefn yn y wladwriaeth, yn ngwledydd cred, dros y peth hyn, eto nis gallwn feddwl fod yr eglwysi i'w adael yn ddisylw, ond y dylent edrych yn ofalus na bo neb yn eu plith yn cael eu gadael mewn eisiau a chaledi. Mae dynoliaeth yn gofyn hyny, pa faint mwy yr efengyl?

Perthyna i'r diaconiaid ofalu am gynaliaeth gwein-

idogaeth yr efengyl yn eu plith yn anrhydeddus ac yn ddi-ofid i'r rhai sydd yn llafurio. Mae diofalwch yn nghylch cynaliaeth briodol y weinidogaeth wedi bod yn ofid mawr i lawer o weinidogion ffyddlon Iesu Grist. Llauer o'r rhai hyn sydd wedi bod yn drallodus, yn gyfyng arnynt, heb wybod beth i'w wneyd ; a hyny yn tarddu, nid oddiar ddiffyg medr yn y gynulleidfa i'w cynal, nac o ddiffyg serch atynt a'r dymuniadau gorau am eu cysur ; ond o ddiffyg sel a bywiogrwydd yn y diaconiaid i osod yr achos yn deilwng ger bron y gynulleidfa, a myned o amgylch yn yr amser mwyaf priodol i dderbyn eu gwirfoddol gyfraniadau. Dylai y diaconiaid edrych yn ddyfal at hyn. "Bydded efe yn ddi-ofn yn eich plith chwi," ond pa fodd y gall gwas yr Arglwydd fod yn "ddi-ofn" tra y byddo yn methu talu ei ddyledion cyfiawn, ac yn methu cynal ei deulu ? "Na chau safn yr ych sydd yn dyrnu yr yd" —nid am ychain y mae Duw yn llefaru, ond am ei weision, gweinidogion yr efengyl.

Mae yn perthyn i swydd y diaconiaid hefyd i anog a chymell i haelfrydedd *cyffredinol*, i ysbryd cyhoeddus, a lledaeniad achos yr efengyl trwy y byd. Mae achosion cyhoeddus yn cael cam o ddiffyg mwy o ffyddlondeb yn hyn ; ac y mae yr eglwysi eu hunain yn cael cam o eisiau galw allan eu teimladau haelfrydol a'u cyfraniadau haelionus dros achos y Gwardwr yn gyffredinol, a dychweliad y byd ato. Nis gall un eglwys gynyddu mewn gras a bod yn brin yn ei chyfraniadau—a lle na bo cynydd mewn gras, ac yn y gras o haelfrydedd Cristionogol yn arbenig, nid oes yno ryngu bodd Duw ; nid oes yno yfed yn helaeth i Ysbryd Crist, "yr hwn ac efe yn gyfoethog a ddaeth er

ein mwyn ni yn dlawd," ac nid oes yno ymaddfedu i ogoniant y nef, lle y mae pawb yn haelfrydol fel Crist ei hun.

Mae yn perthyn i ddiaciaoniaid yr eglwysi hefyd i weinyddu mewn pethau *ysbrydol*. Camgymeriad hollol ydyw meddwl mai "gwasanaethu byrddau" yn unig sydd berthynol iddynt. Maent i fod yn ddynion llawn o'r Ysbryd Glan ac o ffydd, yr hyn sydd yn dangos fod gwaith ysbrydol yn perthyn iddynt. Maent i gynorthwyo y gweinidogion yn nygiad yn mlaen gyfarfodydd cyfrinachol yr eglwys, ac i flaenori yn y cyfarfodydd hyn yn absenoldeb y gweinidogion. Maent i fod yn ddiwyd mewn ymweled a'r cleifion a'r trallodus yn eu hadfyd a'u cyfyngderau. Maent i ymweled a'r rhai a ddianrhydeddant eu profes trwy gamymddygiadau, i geisio eu hadgyweirio a'u hadferu; ac iddynt yn briodol y perthynâ trefnu pob achos o ddygyblaeth i'w osod ger bron yr eglwys. Ac yn y cyfan yn ddiau dylent ymddwyn yn addfwyn a thirion, ac eto yn benderfynol i gynal iawnderau Brenin Seion ac anrhydedd ei achos.

Dylai eglwysi Crist gofio fod dyledswyddau pwysig yn gorphwys arnynt hwythau tuag at y rhai sydd yn gweinyddu yn eu plith yn y pethau pwysig hyn.

Dylent ufuddhau iddynt yn yr Arglwydd yn barodol a siriol. Y mae awdurdod yn perthyn i bob swydd yn eglwys Crist—nid awdurdod ddynol—nid wedi ei derbyn o lys dynol—ond o lys y nef—awdurdod Crist fel Brenin ei saint. Mae pob swyddog yn nhy Dduw yn gweinyddu yn enw yr Arglwydd Iesu Grist; a chan mai yn ei enw y maent yn gweini, y mae hyn yn cynwys eu bod yn gweini yn awdurdod eu Brenin.

Ofnwm nad yw eglwys Dduw yn ystyried awdurdod swyddogaeth yr eglwys fel y dylont. "Ufuddhewch i'ch blaenoriaid, ac ymddarostyngwch; oblegid y maent hwy yn gwylio dros eich eneidiau chwi," &c. Dyma orchymyn Duw, ac y mae awdurdod yr orsedd yn cyd-fyned a'r gorchymyn. Pan bo cyngor neu gyfarwyddyd swyddogion eglwys Crist yn unol â rheswm ac â gair yr Arglwydd, y mae yn cael ei wisgo ag awdurdod y Brenin Iesu, ac nis gellir anufuddhau, heb dafu sarhad ac anmharch ar goron yr Emmanuel ei hun.

Dylai yr eglwysi ddangos ysbryd o *gydymdeimlad tymer* a'r diaconiaid, ac nid bod yn haerllug i feio, lle na byddont yn cydweled yn mhob peth. Nid ydym yn ddysgwyl gallu cydweled yn hollol yn mhob peth; ac nis gallwn ddysgwyl na bydd diffygion a chamgymeriadau yn bod weithiau; ond dysgwn gydymdeimlo a'n gilydd a bod yn addfwyn. "Gwneler eich holl bethau chwi mewn cariad."

Dylai yr eglwysi gynorthwyo a chalonogi eu swyddogion trwy ddangos *parodrwydd meddwl* yn nghyflawniad eu dyledswyddau crefyddol, gan ystyried eu dyledswyddau yn wir freintiau, yn hyfrydwch ac nid yn faich. "Nid trwy gymell," medd yr apostol, "ond o barodrwydd meddwl." Fel hyn bydd gorchwylion yr eglwys yn gyffredinol yn cael eu dwyn yn mlaen yn esmwyth a hyfyddol, yn ol tystiolaeth Duw ei hun am ffyrdd doethineb—"Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau hi ydynt heddwch."

Dylem gofio swyddogion yr eglwysi mewn dyfal weddïau drostynt at Dduw, am iddo eu nerthu a'u cysuro yn eu gwaith. Cofier y gweinidogion mewn

gweddiau; "O frodyr, gweddiwch drosom." Cofier hefyd y diaconiaid mewn gweddiau. Mae eu gwaith yn bwysig—a'u cymorth yn unig a ddaw oddiwrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear. Byddwn yn fynych ger bron yr Arglwydd ar ran ein gilydd mewn gweddiau, "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn"—a bydd ei amddiffyn ef drosom—bydd ein heneidiau yn llwyddo—a'i enw a gaiff y gogoniant.

POB DYN YN DDIESGUS.

DYFNIAIDAU O BREGETH YN NGHYMANFA CARBONDALE YN 1846.

Ioan 15: 22, "Ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod."

Llefarwyd y geiriau hyn gan ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn, mewn symledd ac awdurdod, ydoedd yn llefaru megys na lefarodd dyn erioed. Yr hyn y mae ein Hiachawdwr bendigedig yn sefyll arno yma ydyw, dangos euogrwydd mawr ac echryslonrwydd aethus cyflwr y rhai hyny ag oeddynt yn byw dan yr efengyl a than ei weinidogaeth ef fel anfonedig y Tad, heb ymostwng i'r efengyl a'i defnyddio fel moddion eu hiachawdwriaeth. "Oni b'ai fy nyfod a llefaru wrthynt ni buasai arnynt bechod;" hyny yw, ni buasai arnynt bechod *mewn cydmariaeth i'r peth sydd yn awr*. "Ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod." "Mae fy nyfodiad i i'r byd, fel Ceidwad dyn ac eglurder yr oruchwyliaeth wedi eu gosod mewn sefyllfa nad oes bellach un esgus ganddynt dros bara yn annuwiol a bod yn golledig."

Yr *athrawiaeth* yr wyf yn sefyll arni ar sail y geiriau hyn ydyw, Fod pob dyn dan yr efengyl—ie, pob

un yn nghyraedd swm yr efengyl, ac heb blygu iddi— yn myned yn mlaen tua gwlad y gwaeau tragywyddol yn gwbl ac yn hollawl ddiesgus am ei bechod, ac yr ymddengys ei achos felly yn y farn a ddaw. Ar yr un mater difrifol hwn y mae fy mwriad i sefyll dros ychydig fynyddau.

1. Y peth cyntaf a enwir i brofi yr athrawiaeth ydychydig, uniondeb a daionus natur cyfraith yr Arglwydd.

Gan osod o'r neilldu am fynyd yr ystyriaeth o'r efengyl, edrychwn ar ddyn fel deiliad noeth o ddeddf foesol Duw. Pe na buasai gair o efengyl wedi ei gyrhaedd erioed, yn ei berthynas â'r ddeddf foesol yn holl fanylrwydd a phurdeb ei gofynion, y mae yn ddi-esgus. Nid yw deddf Duw yn gofyn dim sydd yn orthrymus. Mae hi yn gofyn i ti garu Duw â'th holl galon, â'th holl feddwl ac â'th holl nerth, a'th gymydog fel ti dy hun. Dyma ofyn yr hyn nas gellid peidio ei ofyn *a bod yn gyfiawn*. Mae Duw yn deilwng o'i garu â'n holl galon, a'n cymydog yn deilwng o'i garu fel ni ein hunain. Nid gofyn i ti ei garu a'i wasanaethu â galluedd angel y mae; ond â'r galluedd hynny ag y mae efe wedi dy gynysgaeddu a hwynt, a hynny yn ddiffuant, yn ffyddlon, yn mhob lle ac ar bob achlysur, am amser a thragwyddoldeb. Dyna ofyn (dywedwn eto) yr hyn nas gellid peidio ei ofyn a bod yn gyfiawn.

Mae y ddeddf hon hefyd yn ddeddf ddaionus, "y gorhymyn sydd gyfiawn, a sanctaidd a da." Nid yw yn gofyn dim ond sydd yn cyd-fyned â'n dedwyddwch penaf; nefoedd yw ufuddhau iddi, uffern yw peidio. Pe buasai yr Arglwydd, wrth ffurfio ei ddeddf foesol, wedi gwneyd lles a chysur ei greadur rhesymol fel ei *brif ddyben*, a phe buasai fel Tad doeth a thynner

yn rhoi allan yn unig y cyngor goreu iddo, *tuag at fod yn ddedwydd*, nis gallwn dybied am un llwybr gwell i'w gyngori, na'i orchymyn i garu ei Greawdwr a'i Lywodraethwr daionus "â'i holl galon, â'i holl feddwl a'i holl nerth," a'i gymydog "fel ef ei hunan." Nis gall un bôd rhesymol yn un rhan o'r bydysawd fod yn ddedwydd heb gydymffurfio â'r cyfryw ddeddf. Gadewch i'r bôd uchaf ei anrhydedd a helaetbaf ei ddedwyddwch yn nghanol y nef ac yn ymyl yr orsedd, lochesu yn ei fynwes am eiliad falais a lliid at ei Greawdwr, neu ddigofaint at ei gyd-greadur, a throai y nefoedd yn uffern iddo yn y fan; a phe gallai, o'r tu arall, un o deulu glân y gogoniant, yn llawn parch sanctaidd i Dduw a chariad teilwng at ei gyd-greaduriaid, basio trwy ororau tanllyd y fagddu dragywyddol, wrth gyflawni gorchymynion ei Arglwydd, ni ddeifiai y tân ei wisgoedd ac ni anmharai y golygfeydd dychrynlyd ar ei berffaith ddedwyddwch. Cydymffurfiad â'i gofynion a'n gwna yn ddedwydd yn mhob lle. Felly y ddeddf unionaf, a'r ddeddf oreu, er ein dedwyddwch, yw deddf yr Arglwydd, a allasai gael ei ffurfio. Fel deiliad noeth o ddeddf foesol Duw, gan hyny, mae dyn yn gwbl ddiessgus am ei bechod. Ac ar y tir yma, mae holl ellyllon uffern yn ddiessgus, a byddant felly am byth.

2. Mae dyn yn ddiessgus, o herwydd fod darpariaeth ddigonol wedi ei gwneyd ar gyfer ei iechydwriaeth. Nid yn unig *buasai* yn ddiessgus ac yr oedd felly, fel deiliad deddf noeth, ond *y mae* yn ddiessgus fel deiliad moddion adferiad, neu fel un wedi cael ail gynyg am fywyd ar ol ei golli.

Mae y ddarpariaeth sydd yn Nghrist yn anfeidrol

ddigonol ynddi ei hun ar gyfer pob dyn o fewn terfynau gobaith. Yr hyn sydd yn profi fod y ddarpariaeth yn ddigonol ar gyfer *pawb* yw y ffaith ei bod felly ar gyfer *rhai*. Os gellir profi fod Crist yn ddigonol i un pechadur ar y ddaear, y mae yn ddigonol i bob pechadur ar y ddaear, oblegid yr un yw cyflwr pawb. Nid rhanu Crist a wneir. Pe rhanu fuasai yn bod, un yn cael rhan o'i rinwedd, ac arall ran, &c., galledid dychymygu i'r rhinwedd ddarfod, er na allai hyn fod gan ei fod yn anfeidrol ac yn "anchwiliadwy" olud. Ond nid felly y mae; rhaid i bob un gael Crist yn gyflawn iddo ei hun, ac eto yr un yw yn ddilal fel Iachawdwr y byd. Golygwn fod rhyw glefyd angeuol yn cymeryd lle mewn cymydogoeth—a meddyg medrus yn gosod ei swyddfa i fyny ac yn cyhoeddi ei gyfferi meddygol yn anffaeledig. Byddai eisiau holl ddoethineb y meddyg a holl effeithiolaeth ei foddion i gael un claf yn iach, ac eto nid yw ei ddoethineb yn llai, nac effeithiolaeth y moddion yn llai i bwy bynag a ymddiriedo ei achos i'w law.

Mae iawn Mab Duw yn gyfryw mewn gwiwdeb a gwerth ag y mae yn anhawdd, hyd yn nod mewn dychymyg, ychwanegu ato na thynu oddiwrtho. Meddyliwn am fynyd am anfeidrol urddasrwydd Person y Gwardwr—perffeithrwydd ei ufudd-dod—a pherffeithrwydd y dyoddefiadau a ddyoddefodd. Person uwch ei urddasrwydd a'i ogoniant nid oedd i'w gael, neb llai ni buasai yn ateb—ufudd-dod gwell a pherffeithiach nid oedd yn gyraeddadwy, a llai ni buasai yn gwneyd y tro—dyoddefaint perffeithiach nid oedd i'w gael, a llai ni buasai yn ateb; rhoddodd ei einioes gwerthfawr i lawr, ac nid oedd einioes gwerth-

fawrocach yn bod; dyoddefodd hyd angau, i.e. angau'r groes; dyoddefodd angau yn ei gorph, a dyoddefodd angau mewn ystyr yn ei enaid, a chyda y priodoldeb mwyaf gellir dyweyd mai dyoddefiadau ei enaid oedd-ynt enaid y dyoddefiadau. Yn awr, i wneyd iawn digonol dros un camwedd un dyn, ni buasai Person llai ei urddasrwydd a'i fawredd dwyfol yn ateb—nac ufudd-dod llai o'i eiddo na pherffaith ufudd-dod—na llai aberthiad nag aberthiad cyflawn o'i werthfawr fywyd. Ac i'r dyben o gael ffordd anrhydeddus i achub "pwy bynag gredo ynddo" o'r holl hil ddynol, nid oedd eisiau uwch urddasrwydd yn y Person a ddyoddefodd, nac ufudd-dod perffeithiach, na bywyd perffeithiach i'w aberthu. Nid diffyg darpariaeth mewn iawn, gan hyny, a fydd yn achos o golledigaeth neb, ond gwrthodiad gwirfoddol o'r ddarpariaeth a wnaed.

3. Mae y pechadur yn ddiesgus, oblegid fod y ddarpariaeth a wnaed trwy Iesu Grist wedi ei bwriadu mewn cyngor tragywyddol i fod y peth yw mewn hel-aethrwydd a digonolrwydd.

Dyma sydd gan rai yn esgus dros barhau yn anghrefyddol ac yn anmhlygedig i'r efengyl, maent wedi dychymygu nad oedd dim yn y bwriad a'r cyngor tragywyddol ar eu cyfer hwy. "Nid wyf yn ameu," medd y dyn, "nad oes digon yn Nghrist ar gyfer fy *math i*, ac nad yw yr aberth *ynddo ei hun* yn ddigonol; ond yr wyf yn ofni na fwriadwyd dim ar gyfer fy iechydwrriaeth, ac er nad oes cyfyngu wedi bod yn rhinwedd yr aberth, eto fod cyfyngu wedi bod yn y bwriad." Mewn atebiad i'r wrthddadl hon, yr hyn yw y maen tramgwydd ar ffordd llawer, nid wyf yn dyweyd nad oedd gan yr Arglwydd, ac nad oes gan-

ddo yn holl weithredoedd ei ragluniaeth, olwg neillduol, oddiar oruchel benarglwyddiaeth ei ras, ar y rhai sy'n credu yn ei Fab er iechydwrriaeth; ond yr hyn y sylwyf arno yw nad oes yma ddim lle i un dyn ym- esgusodi am barhau yn anmhlygedig i alwad yr efengyl. Sylwn ar ddau beth yn fyr yn y fan hon:

(1.) Nid bwriad dirgeledig Duw (pa beth bynag yw hyny) ydyw ein rheol ni, ond ei ewyllys ddatguddiedig yn ei air ac yn ei ragluniaeth. Felly yr ydym yn gweithredu mewn pethau cyffredin, ac y mae hyny yn addas, ac felly y dylem weithredu yn y pethau a berthynant i iechydwrriaeth ein heneidiau anfarwol.

(2.) Gallwn fod yn gwbl dawel, pa faint bynag a allwn ni amgyffred yn ein sefyllfa bresenol am ei fwrriad a'i gyngor grasol ef, nad oedd yno ddim yn anghydsfyll â'r hyn a geir yn ei *ewyllys ddatguddiedig* yn ei air.

Mae *dynion* i'w cael yn fynych yn wahanol iawn yn eu geiriau a'u gweithrediadau cyhoeddus i'r hyn ydynt yn eu bwriadau a'u cynlluniau dirgelaidd. Pe gellid gweled i mewn trwy ffenestr y fynwes, gellid canfod meddyliau, bwriadau a chynlluniau gwahanol iawn i'r hyn a ymddengys yn y geiriau a'r ymddygiadau allanol. Ond byddai yn annheilwng iawn i feddwl felly am yr Arglwydd. Yr hyn yw efe yn ei air yn gyhoeddus, dyna ydoedd yn mwriad ei galon erioed.

Pa beth bynag, gan hyny, yw cynllun iechydwrriaeth fel y mae yn *ddatguddiedig yn ngair y gwirionedd*, o ran ei helaethrwydd a'i ddigonolrwydd, dyna ydoedd hefyd yn yr arfaeth a'r bwriad tragywyddol. Ewyllys ddatguddiedig Duw yn ei air ydyw y mynegfys

(*index*) goreu i wybod beth oedd yn ei feddyliau tragwyddol, cyn creu dyn nac angel. Os yw cynllun iechydwrïaeth, yn ol gair yr Arglwydd, yn cynwys digon ar gyfer pawb, a galwad a'r bawbi gyfranogi fel y byddont cadwedig, gallwn fod yn sicr fod y cynllun yr un mor helaeth yn y meddwl dirgelaidd a'r bwriad tragwyddol. Y gair yw ein rheol ni, ac os yw y gair yn ein gadael yn ddiesgus, yr ydym yn ddiesgus yn wir.

4. Fod deiliaid yr Efyngyl yn ddiesgus a ymddengys yn amlwg wrth ystyried goleuni yr oruchwyliaeth yr ydym dani a helaethrwydd ei breintiau.

Mae yn wir fod yr Iuddew dan oruchwyliaeth y cysgodau yn gwbl ddiesgus; goruchwyliaeth ddaionus ac efengylaidd oedd hono, a gellir dyweyd ei bod yr oruchwyliaeth oreu a mwyaf priodol i ddyben mawr ei gosodiad. Er mai "goruchwyliaeth damnedigaeth" ydoedd, ac mai "adgoffa pechodau" a wneid ynddi bob blwyddyn, eto yr oedd yn oruchwyliaeth "ogoneddus." Pob oen a offrymid a gyfeiriai yr addolydd at "Oen Duw, yr hwn sy'n tynu ymaith bechodau y byd;" pob dyferyn o waed a dywelltid ar yr allor Iuddewig a ddywedai yn ei iaith fod *un diwined* i gael ei offrymu dros yr euog; a'r holl brophwydi a lefarasant am y Siloh, unig obaith pechadur.

Ac yn awr, os oedd yr oruchwyliaeth hono yn ogoneddus, pa faint mwy y mae yr oruchwyliaeth yr ydym ni dani yn "rhagori mewn gogoniant." Mae "cyflawnder yr amser" wedi dyfod arnom ni. Duw wedi anfon ei Fab ei hun, wedi ei wneuthur o wraig a than y ddeddf; mae gweithrediadau a dyoddefiadau y Gwardwr wedi taflu goleu yn ol ar y cysgodau a'r proph-

wydoliaethau a gerddasant o'r blaen am dano; ac felly y mae yr orchwyliaeth yn fwy goleu, yn fwy tyner, ac yn fwy ysbrydol.

Ac O mor helaeth ein breintiau ni, Gymry, yn y dyddiau presenol! Er na bu neb o honom yn llygaid-dystion o wyrthiau y Gwarddwr, na chlywsom ef yn llefaru ac na welsom ei wedd; eto mae ein breintiau mewn ystyr yn helaethach na'r eiddynt hwy y rhai a'i clywsant ac a'i gwelsant, oblegid y mae yr haul wedi codi yn uwch i'r lan, a'r oruchwyliaeth yn llawer mwy goleu nag ydoedd y pryd hwnw. Maen yn y llwch oedd Iesu Grist y pryd hwnw, ond yn awr y mae wedi ei ddyrchafu yn ben congl faen, &c.; ar y ddaear yr oedd y pryd hwnw mewn sefyllfa o ddarostyngiad, ond y mae yn awr ar yr orsedd, a'r holl nefoedd yn plygu iddo, a phroffion fyrdd wedi eu rhoi mai efe yn wir ydoedd Mab y Duw byw. Mae gair yr Arglwydd genym, ei holl air yn ein iaith gynefin; y weinidogaeth efengylaidd genym yn ei symledd, a'i hawch, a'i melusder; breintiau cyhoeddus a neillduol ty Dduw o fewn ein cyrhaedd; pob rhyddid i fwynhau ein breintiau, heb neb yn gallu ein gorthrymu, ein rhwystro na'n blino, fodd yn y byd! O, pa esgus a allwn ni roi, neb o honom, os yn ol wedi y cyfan y byddwn o gyrhaedd gafael yn y bywyd tragywyddol?

5. Y mynych atalfeydd ag y mae Duw yn gyfodi yn ei ragluniaeth i ddofi y pechadur yn ei rwysg, a'i rhwystro ar ei yrfa ryfygus tua'r tân tragywyddol, a ddengys ei gyflwr yn dra diesgus, os yno y myn fyned wedi y cyfan.

Gellir dyweyd yn wir fod holl weithrediadau rhagluniaeth Duw—pa un bynag ai mewn trugaredd ai

mewn barn—wedi eu golygu i afrwyddo ffordd y pechadur tua dinystr. Beth yw y trugareddau ond goruchwyliaethau daionus i ystwytho y meddwl cyn-dyn; beth yw y barnau ond rhybuddion fod rhai mwy i'w dysgwyl, os dilyn a wneir lwybrau pechod? Beth yw yr addysgiadau teuluaid, y gocheliadau, dagrau mamau a thadau tyner, dros fechgyn a genethod gwylltion a gwamal? Beth yw y gruddfanau a glywir mewn dirgel fanau gan rieni dros eu plant—y gwewyr enaid a deimlir ar eu rhan—ond rhyw wrthgloddiau tyner a gododd Duw i dy rwystro i bechu a bod yn golledig? Beth yw yr ysgol Sabbothol a'i gwerthfawr ddylanwadau? beth yw y Sabboth efengylaidd a'i ordinhadau? y cyrddau cwarterol a'r cymanfaoedd? beth ydynt, meddaf, ond gwrthgloddiau cariad i dy atal yn dy rwyg a'th ryfyg rhag colli dy enaid! Mae yma ddynion yn Carbondale wedi mynu eu ffordd heibio i'r rhagluniaethau mwyaf cyffrous, wedi tori dros gloddiau deddfau Duw, yn mathru ei Anwylfab dan draed, yn beiddio y weinidogaeth fwyaf syml, difrifol ac efengylaidd, ac yn penderfynu (yr wyf yn ofni) i fynu eu ffordd tua'r trueni, heibio i'r moddion goreu a fedd Duw i'w rhwystro! O! gofynaf, a fydd y rhai hyn y ddim yn ddiesgus yn y farn a ddaw!

6. Argyhoeddiadau cydwybod ac ymrysoniadau yr Ysbryd ar gydwybodau dynion a ddangosant sefyllfa yr annuwiol dan yr efengyl yn gwbl ddiesgus.

Mae dynion yn wahanol iawn i'w gilydd yn eu golygiadau a'u barnau am waith yr Ysbryd, a llawer o ddychymygion disail yn ddiau yn cael eu coleddu ar y mater hwn. Ond beth bynag yw tybiau dynion am yr hyn a elwir "gweithrediadau cadwedigol yr Ysbryd

Glan," mae un peth yn gwbl sicr, hyny yw, nad eisiau dylanwadau nas gellir eu cael, ond yn hytrach *cam ddefnyddio y dylanwadau a deimlir*, a fydd y gwir achos o golledigaeth y pechadur. "Chwi rai gwar-galed a dienwaededig o galon ac o glustiau, yr ydych chi bob amser yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glan, megys eich tadau, felly chwithau."

Llawer o ddynion Phariseaidd a hunain-gyfiawn, a gwynant o eisiau dylanwadau mwy grymus o eiddo yr Ysbryd, ac a briodolant yr achos o'u parhad mewn cyflwr anedifeiriol i absenoldeb ei argyhoeddiadau, fel pe byddent hwy i raddau yn ddiessug o herwydd hyny, pan mewn gwirionedd y maent trwy hir gynefindra â phechod, wedi mygu argyhoeddiadau a gafwyd o'r blaen, a'u cydwybodau eu hunain (fel y dywed yr apostol) wedi eu serio â haiarn poeth. Llawer adeg werthfawr a gafwyd pan oedd yr Ysbryd, trwy y gair a throion rhagluniaethol yn ymryson â'u meddyliu, a thynnerwech neillduol yn eu meddianu, ond gwrthodasant yr alwad, caledasant eu gwarau, ac y maent yn awr ar yr ymyl o gael, os nad wedi eu rhoi i fyny i galedwech barnol, a'u damnedigaeth nid yw yn hepian!

Y gwirionedd yw, dylanwad yr Ysbryd yw pob gradd o ddylanwad efengyl, ac nid oes neb sydd dan ei gweinidogaeth nad ydynt wedi teimlo ei dylanwad i ryw raddau. Goruchwyliath i'w meithrin ydyw, ac o'i meithrin ni a'i mwynhawn yn helaethach. Nid oes yma un esgus i'r annuwiol am wrthod yr efengyl a bod yn golledig; ond y mae athrawiaeth y Beibl am waith yr Ysbryd yn rhoi yr anogaeth gryfaf i bechadur i droi at yr Arglwydd. Yn lle cwyno ac ymesgusodi mewn diofalwch, ymbil a ddylit bechadur am fwy o

deimlad a mwy o dynerwch, ac ymostwng mewn edifeirwch eim i ti daflu y sarhad a wnaethost ar ei weinidogaeth trwy esgeuluso ei ddoniau a pharhau cyhyd mewn anufudd-dod.

7. Bydd gweithrediadau cyhoeddus y farn ddiweddfaf yn dangos, i'r boddlonrwydd mwyaf i'r holl fydysawd, fod gwrthodwyr yr efengyl yn ddiesgus.

Ni bydd gan neb esgus yn y diwrnod hwnw. Pe byddai esgus sylfaenol yn bod, diamen y gwrandewid ef, ar adeg mor bwysig, gan y Barnwr cyfiawn; ond ni bydd un i'w gael. Pan ddangosir gwir achos y golledigaeth bydd pawb yn fud. Ni bydd gan neb fodd i ddyweyd, "Nid oedd dim yn yr efengyl ar fy nghyfer," neu "nid oedd dim hawl genyf i edrych at aberth y groes, am fod y 'bwriad' wedi fy nghau allan!" O nage, fy enaid gwerthfawr, nid felly; ond y Barnwr a ddywed, a phob cydwybod a adseina i uniondeb y ddedryd, "Yn gymaint ag i mi wahodd, ac i chwithau wrthod," &c. Anfonais fy ngweision atoch, ond ni fynech wrando ar eu llais, daethum i'ch plith yn enw fy Nhad, ond ni fynech i mi deyrnasu arnoch, anfonais fy Ysbryd i ymryson a'ch cydwybodau, ond diffoddasoch ei argyhoeddiadau, "Ewch ymaith, chwi weithredwyr drygioni," &c. Bydd gweithrediadau y farn, a holl ocheneidiau bythol y colledigion o wlad efengyl yn y boenfa dragywyddol yn adlewyrchu goleuni ar yr athrawiaeth bwysig hon, fod pob dyn yn ddiesgus am wrthod yr efengyl a cholli ei enaid!

Yn awr, anwyl wrandawr, a gawn ni lwyddo wrth geisio dy anog i ffoi at Iesu yn y Gymanfa heddyw, fel yr wyt, dan yr euogrwydd mwyaf a'r trueni gwaethaf? Na ddywed, "Mwy yw fy mhechodau nag y

gellir eu maddeu." Fe welodd Duw yn dda godi i fyny golofnau coffadwriaeth o'i annhraethol ras, ar wahanol amserau, trwy achub rhai o'r rhai gwaethaf a fuont ar y ddaear erioed. Yn mha le y mae Manasseh? Yn mha le y mae Saul o Tarsus? Yn mha le y mae y Corinthiaid a'u cyffelyb? Maent yn wyn heddyw fel yr "eira yn Salmon," yn dangos fod modd yn angau'r groes i achub y penaf o bechaduriaid.

Mae Duw wedi gorchymyn i'w weision fod yn daer. "Cymell hwynt i ddyfod i mewn fel y llanwer fy nhy." Ar air ein Meistr yr ydym ninau yn *ymbil* ac yn *deisyf* ar y dyrfa hon, "Cymoder chwi a Duw." Er mwyn cymaint o werth sydd yn dy enaid, er mwyn gogoniant yr Arglwydd, er mwyn yr annhraethol faint o ysgoi y digofaint sydd ar ddyfod a chael bod byth gyda'r saint a chyda'r Oen ar fryniau gwynfyd, cwmpa, fel yr ydwyt, i law trugaredd, fel y byddech gadwedig. Bydded i ddwyfol fendith ddilyn y gwir i'r dyben hwnw. Amen.

DYFYNIADAU O BREGETH.

Salm 130 : 3, 4. "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif; ond y mae gyda thi faddeuant, fel y'th ofner."

Mae y Salmwydd yn nechreu y Salm hon yn adrodd y trallod y buasai ynddo, a'r modd y bu iddo yn ei drallod alw ar enw yr Arglwydd. "O'r dyfnder y llefais," &c. Nid trallod yn nghylch y freniniaeth ydoedd (os Dafydd yn wir oedd awdwr y Salm), ond trallod yn nghylch ei gyflwr, y cyfryw drallod ag yr oedd golwg ar Dduw yn maddeu anwiredd yn tueddu i'w symud. Hyderwn fod rhai yn y dyddiau hyn yn

gwybod am y trallod hwn. "O'r dyfnder y llefais arnat," &c. Nid oes neb yn galw ar Dduw ond o ryw "ddyfnder." "Ni raid i'r rhai iach wrth feddyg, ond y rhai cleifion." Ac y mae yn dda i ni allu meddwl nad oes un "dyfnder" yn y byd presenol nad oes modd codi golwg oddi yno at Dduw wrth y drugar-eddfa. Yn yr adnod nesaf, y mae yn dangos ei awydd-fryd a'i bryder, ar fod yr Arglwydd yn gwrandio ei weddiau. "Arglwydd, clyw fy llefain," &c. Mae achos genym i ofni fod llawer yn ymarfer yn allanol â'r ddyledswydd o weddio, heb fawr o wasgfa na chaledi arnynt am i'r Arglwydd eu gwrandio. Ond y mae gwir weddio yn cynwys y teimlad hwn. Yna y dywed, "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd pwy a saif?" Sylwn,

I. Ar yr hyn a briodolir yma i'r Arglwydd, sef "craffu ar anwireddau." Wrth hyn y golygir yn ddiau y bydd iddo ddwyn yr anwireddus i gyfrif, fel y gwna y barnwr gwladol ddwyn y drwg-weithredwr i gyfrif. Gallwn nodi yma.

1. Y bydd yr Arglwydd *yn sicr* o gyfrif â dynion am eu pechodau. Nid "os" o amheuaeth yw yr "os" hon, ond o gadarnhad. Megys y geiriau hyny o eiddo ein Hiachawdwr, "Os myfi a âf ac a barotoaf le i chwi mi a ddeuaf drachefn ac a'ch cymeraf chwi ataf fy hun." Fel pe dywedasai, yr wyf yn myned gyda sicrwydd, a dychwelaf gyda'r un sicrwydd i'ch derbyn ataf fy hun, "fel lle yr wyf fi, y byddoch chwithau hefyd." Felly, gyda sicrwydd daw Duw i gyfrif â dyn am ei anwireddau. Nid oes lle i gilio oddiwrth hyn. Mae cyfiawnder tragywyddol Duw yn galw am fod barn—mae y cam y mae llawer yn gael oddiwrth

orthrymwy'r yn y byd presenol yn galw fod barn—mae diogelwch a dedwyddwch y dosbarth rhinweddol o'r bydysawd yn galw fod barn—mae y cam-gyhuddiadau a ddygir yn erbyn Duw a'i orsedd lân, gan elynion iddo, yn peri y bydd rhaid bod barn. Gyda sicrydd gan hyny, daw Duw i gyfrif â dynion am eu hanwireddau.

2. Bydd y cyfrif yn gyfrif manwl—bydd yr Arglwydd yn "*crافu* ar anwireddau." Y gair "*crافu*" a arwydda sylw *manwl*. Bydd sylw barnol yn cael ei wneyd ar *bob* anwiredd—ar bob gweithred anwireddus, ac ar bob esgeulusdod pechadurus. Ar weithredoedd pechadurus yn erbyn Duw—yn erbyn dynion—ac yn erbyn ein lles penaf ein hunain. Pob amharch o'r efengyl a'i hordinhadau—pob cam a wnaed â saint y Goruchaf. "Am bob gair segur a ddywedo dynion y rhoddant gyfrif yn nydd y farn." "Duw a dddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg." Mae Duw yn sylwi ar ffyrdd dyn, ac y mae "yn dal ar ei holl gamrau ef."

3. Duw ei hun fydd yn galw y pechadur i gyfrif—efe fydd yn *crافu*, "Os creffi ar anwireddau, *Arglwydd*," &c. Nid ymddiried y gorchwyl hwn a wna i un o'i brophwydi—nid i un angel nac archangel, ond dyfod ei hun a wna. Bydd y gorchwyl yn ddigon pwysig i alw am bresenoldeb Duw ei hun. Duw, yn mherson y Gwardedwr yn ein natur ni, fydd yn barnu y byd mewn cyfiawnder yn y dydd mawr a ddaw.

II. Na ddichon yr annuwiol sefyll barn â Duw. "Os creffi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd pwy a saif?"

Ymofynwn yn mha fodd y mae dynion yn *ceisio*

sefyll yn awr, gan wrthsefyll argyhoeddiadau a chymelliadau yr efengyl, ac edrychwn a allant ar y tir hwnw, neu a oes gobaith ar ryw dir arall, i sefyll barn a Duw?

1. Mae dynion yn ceisio sefyll yn awr trwy wadu *bodolaeth* pechod. Dyma y tir y saif yr anffyddiwr arno—gwadu gwirionedd y Beibl, a gwadu bod dyn yn gyfrifol i Dduw yn ol y Beibl; felly mewn effaith gwada nad oes anwiredd yn perthyn iddo. Lle nad oes deddf, nid oes gamwedd. Ar y tir hwn y ceir llawer yn ceisio sefyll—ac y maent yn y modd hwn yn gallu sefyll *yn awr* i wrthdaro ac i droi heibio yn llwyddianus bob cymelliad o eiddo yr efengyl sydd yn galw arnynt i ildio y cweryl a throi at Dduw mewn edifeirwch. Maent yn eithaf tawel—troant y Beibl o'r neilldu—dysegwylant farw fel yr anifail—a chwarddant am ben y son am farn a byd i ddyfod! Ond a saif yr annuwiol fel yna, pan graffo Duw ar ei anwireddau? A all efe wadu gwirionedd y Beibl pan y gwelo y Barnwr wedi esgyn i'w orsedd, a'r llyfrau wedi eu hagoryd? A all efe wadu y Beibl pan y gwelo bob egwyddor ynddo wedi ei gyflawni, a'i gydwybod o'i fewn yn adseinio i bob cyhuddiad a ddygir yn ei erbyn o lyfrau'r farn? O na, ni bydd neb yn gallu bod yn anffyddiwr, na sefyll ar dir anffyddiaeth, yn y dydd rhyfeddol ac ofnadwy hwnw.

2. Mae rhai yn ceisio sefyll yn awr trwy wadu y *gosp* am bechod. Er proffesu mewn rhan ddwyfolder yr Ysgrythyrau, mynant nad oes cosp ddyfodol yn bod, neu, nad yw yn dragywyddol. Er i Dduw dystio mor eglur yn ei air am y dragywyddol *gosp* ag y gwna am y dragywyddol wobr—er fod tragywydd-

oldeb trueni y damnedigion a thragywyddoldeb gwynfyd y saint yn cael eu dal allan yn yr un adnodau, y naill ar gyfer y llall, megys yn y geiriau hyny, “y rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragywyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol”—a thrachefn, “y rhai a ddyoddefant yn gospedigaeth ddinystyr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef, pan ddel efe i’w ogoneddu yn ei saint ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu”—a llawer o Ysgrythyrau eraill o gyffelyb ystyr—eto ceir llawer yn gwadu y cyfan am y gosp ddyfodol, ac yn sefyll yn dalgryf mewn anedifeirwch ac anghrediniaeth o’r efengyl. Gwrthsafant saethau llymaf argyhoeddiadau yr efengyl yn nghysgod athrawiaeth wael a disail Unifersaliaeth! Ond O! a safant ar y tir yna pan graffo Duw ar eu hanwireddau?—pan bydd y beddau yn agor a’r meirw yn cyfodi, rhai i fywyd tragywyddol a rhai i warth a dirmyg tragywyddol—pan bydd y ddwy dorf wedi ymgasglu ger bron y Barnwr cyfiawn, y nef ac uffern yn y golwg—a safant hwy y pryd hwnw?

3. Mae dynion yn ceisio sefyll yn awr trwy briodoli yr *achos o’u pechaduruswydd* i ryw beth arall heblaw eu drygioni eu hunain. Safant yn gryfion yn ngwyn-eb galwad yr efengyl arnynt i edifarhau am eu pechodau, trwy briodoli yr achos o’u pechodau i’r Adda cyntaf, a dywedant, Beth a allwn ni wrth ein bod yn bechaduriaid, onid o herwydd camwedd Adda yr ydym y peth ydym, a pha beth sydd genym ni i’w wneyd? Mae y cysgod hwn, dan yr hwn y saif llawer i geisio esmwythau eu cydwybodau yn bresenol, yn gymysgedd o wirionedd ac anwiredd. Gwir yw i’r

Adda cyntaf bechu, ac i'r hiliogaeth ddynol syrthio ynddo fel deilen; ond y mae yn wirionedd gwerth-fawr hefyd fod Duw yn ymwneyd â dyn yn awr ar delerau cyfamod arall, sef cyfamod yr ail Adda, yr Arglwydd o'r nef. Ar ol rhoddiad yr addewid o Had y Wraig, y mae yr holl fyd yn cael ymwneyd â hwy yn ol telerau cyfamod yr ail Adda. Yr ydym ni wedi cael ein geni ar *blatform* yr ail Adda, Gwardedwr y byd. Nid pechod yr Adda cyntaf a gondemnia y dyn yn y farn, ond ei anghrediniaeth ei hun, yn gwrthod cwmpo i mewn â thelerau esmwyth cyfamod yr ail Adda, sef telerau cyhoeddus ac adnabyddus yr efengyl. "A hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, am fod eu gweithredoedd hwy yn ddrwg." Ni saif neb yn y farn dan gysgod cyfamod Eden—mae dwyfol ras wedi datguddio trefn arall, ac y mae y drefn hono wedi ei datguddio yn helaeth i ni. "Oni bai fy nyfod a llefaru wrthynt, ni buasai arnynt bechod, ond yr awr hon nid oes ganddynt esgus am eu pechod." "Pwy a ddichon sefyll?"

4. Mae rhai yn ceisio sefyll yn awr, trwy feddwl y dichon na arfaethwyd eu hachub. Dywed yr annuwiol yn aml, Beth a allaf fi wneyd? os arfaethwyd fy achub fe'm hachubir—os arfaethwyd fy ngholli fe'm collir—beth sydd genyf fi i'w wneuthur ond aros aufer Duw. Ofnwm fod dosparth mawr o wrandawyr efengyl yn aros ar y tir hwn. Priodolant yr achos o'u colledigaeth i arfaeth Duw, heb ystyried fod arfaeth Duw yn äang—mor äang a'r efengyl a'i galwadau. O'r arfaeth y daeth efengyl a'i galwad äang a grasol. Fe arfaethodd Duw ddanfôn ei Fab i wneyd cymod

dros bechod y byd—ac fe arfaethodd ddanfon ei efengyl i alw ar bawb i gredu ynddo fel y byddont gadwedig. Nid oes dim yn arfaeth Duw yn anghyson â' galwad fawr yr efengyl—a'r efengyl a'i galwad rasol yw ein rheol ni, ac wrth hon y cawn ein barnu yn y dydd mawr a ddaw. Mae arfaeth dragywyddol Duw a galwad gyffredinol yr efengyl yn berffaith gyson a'u gilydd, a'r cyfan a berthynant i arfaeth ac i efengyl yn bleidiol i ni ddynion i ddyfod at Iesu, credu ynddo a byw iddo, fel y caffom fyw byth gydag ef mewn gogoniant. Nis gall neb dynu un esgus oddiwrth arfaeth Iân Duw, i'w cysgodi na'u hesgusodi mewn anufudd-dod i'r efengyl.

5. Rhai a geisiant sefyll yn awr yn nghysgod beiau profeswyr. Meddylant fod ganddynt grefydd, yn rhagori ar lawer sydd yn ei phroffesu. Wel, dichon fod hyny yn bod gyda golwg ar y rhai na feddant ond y broffes yn unig—ac y mae llawer o ffaeiddau yn y goraf o ddynion yn y byd hwn. Ond os oes rhai yn ymddwyn yn annheilwng o'u proffes, a ydyw hyny yn cyfnewid dim ar grefydd ei hun? Nac ydyw i'r graddau lleiaf. Yr un yw ei gwirionedd, ei dwyfolder a'i gwerth, a'r un yw rhwymau pob dyn i'w chredu a'i chyffesu a byw wrth ei sanctaidd reolau, beth bynag yw ymddygiad eraill tuag ati. Ni saif neb yn y farn yn nghysgod ffaeiddau pobl eraill. “Pwy a ddichon sefyll?”

6. Mae rhai yn ceisio sefyll yn awr trwy feddwl nad yw yr *argyhoeddiadau* ar êu meddyliau yn ddigon *grymus*. Maent yn meddwl fod pawb a ddaethant at grefydd erioed, yn *wirioneddol*, wedi cael yr argyhoeddiadau mor rymus nes y *gorfu iddynt ddyfod*—ac na chawsant hwy mo hyny. Yn awr y mae gwirion-

edd yn y dybiaeth yna. Mae 'y rhai a ddaethant at grefydd yn wirioneddol wedi gorfod ildio. Ond ildio o fodd a wnaethant—dewis ildio—ni buasai rhinwedd yn yr ymddygiad heb ei fod felly. Ni rydd hyn eto ddim esgus erbyn y farn a ddaw. Ni feiddia neb, yn y dydd arswydol hwnw, ddweyd, Ni chefais ddylanwadau digon grymus i'm gorfodi i ddyfod—pe cawswn buaswn inau ar y llaw dde. O na, nid felly, gwrthod meithrin y dylanwadau fydd y condemniad. Meithrin y dylanwadau, drwy ystyried ein ffyrdd a thrwy ymbiliau a gweddiau, a'u cryfhant ac a'u cynyddant; a chwmpo fel yr ydym i law y Gwardwr a'i drefn a'n dwg i dir ag y byddwn yn llawenhau byth i ni gael y fraint o ddyfod iddo.

III. Y gwirionedd gwerthfawr a phwysig a ddatgenir yn y testyn, "Ond y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner." Tri sylw byr a wnawn yma.

1. Y fendith a gyhoeddir yw "maddeuant." Madd-eu yw "dileu"—"cuddio"—"anghofio"—pellhau yr anwiredd, "gan belled ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin." O fendith werthfawr i droseddwr nad oes ganddo fodd i sefyll ar dir yn y byd mewn hunan-amddiffyniad.

2. Oddiwrth Dduw yn unig y deilliaw y fendith hon, "y mae gyda *thi* faddeuant." Dyma y man i droi am faddeuant—nid at y Pab na'i offeiriaid na neb arall, ond Duw. Duw yn unig a all faddeu. Cyfraith Duw yw y gyfraith a droſeddwyd, ei enw ef a ddianrhydeddwyd ac a anmharchwyd, iddo ef y mae dyn yn gyfrifol am ei egwyddorion, ei ddybenion, ei deimladau a'i ymddygiadau. O'i dosturi anfeidrol ef y daeth allan drefn i faddeu—trwy rinwedd y pridwerth a dal-

wyd gan yr ail Berson ar y groes y cafwyd ffordd gyfreithlawn i faddeu—ac yn llaw ei Ysbryd grasol y gweinyddir y fendith—“y mae gyda *thi* faddeuant.” O diolchwn am le i droi i ymofyn am y fath fendith gyfoethog.

3. Mae maddeuant yn cynyrchu ofn yn mynwes y derbynydd. Nid rhoi hyfdra mewn pechod a wna, ond i'r gwrthwyneb yn hollol—peri ofn—ofn mabaidd—ofn ei ddigio yn ol llaw, a hyny o gariad ato a pharch i'w ddeddfau. Dyma a ddywedai yr Iachawdwr yn fynych, pan oedd yma yn nyddiau ei gnawdoliaeth. “Maddeuwyd i ti dy bechodau, dos ac na phecha mwyach.” Ar dir edifeirwch yn unig y gweinyddir maddeuant, ac y mae edifeirwch yn cynwys gwyliadwriaeth rhag yr hyn yr ydym yn edifeiriol o'i herwydd.

ADDYSGIADAU.

1. Gwelwn nad oes genym le i ddysgwyl gallu sefyll yn y dydd a ddaw, oddieithr i ni dderbyn maddeuant, mewn edifeirwch, wrth orsedd gras, ac yn enw Iesu, yn ein tymor presenol. Marw allan o'r tir yna fydd yn arswydol yn wir.

2. Edrychwn ar fod gras Duw yn ngweinyddiad ei fendithion yn peri ynom fwy o ofn sanctaidd rhag dianrhydeddu ei enw. Ddeiliaid gras, edrychwch ar eich bod yn myned ar gynydd mewn pryder sanctaidd ac ofn pechu.

AT WEINIDOGION YR EFENGYL,

O'R GWAHANOL ENWADAU CREFYDDOL YN MHLITH Y CYMBY YN AMERICA.

Anwyl Frodyr yn y Weinidogaeth: Llawer gwaith y meddyliais ac y bwriedais gyfeirio ychydig o ymad-

roddion atoch fel cyd-lafurwyr yn nheyrnas ac amynedd Iesu Grist, yn achos y gaethwasanaeth a'r gaethfasnach a ddygir yn mlaen yn ein gwlad; ond hyd yn hyn yr oedd ofnau rhag y byddwn trwy hyn yn dangos hydra anweddaidd, ac felly yn clwyfo meddyliau rhai o'm brodyr, yn fy lluddias. Ond nid oedaf yn hwy; anturiaf yn addfwynder yr efengyl ddyweyd gair o'm meddwl yn y modd hwn. Yr ydym wedi bod yn rhy ddystaw, anwyl frodyr yn yr achos hwn. Mae yma bechod o'r rhyw ffieiddiaf yn cael ei goledd yn ein gwlad, a gwae a fydd i ni yn ddiau oni rybuddiwn y bobl o'i herwydd. Mae yr ystyriaethau canlynol wedi cael dwys le ar fy meddwl yn yr achos hwn.

1. Yr ydym wedi ein gosod *er amddiffyn yr efengyl*. Ond yn mha le y mae dim sydd yn taro yn fwy yn erbyn yr efengyl na bod dynion dan broffes o'i sanctaidd egwyddorion yn masnachu mewn cnawd dynol! yn prynu ac yn gwerthu am yr uchaf geiniog y rhai a grewyd ar ddelw Duw, ac a adnewyddwyd, rai o honynt, ar yr unrhyw ddelw trwy ei Lan Ysbryd? "Oni wyddoch chi," medd yr apostol, "fod eich cyrph yn demlau i'r Ysbryd Glan?" ac y mae y gwaelaf o blant yr Arglwydd felly; ac a yw temlau yr Ysbryd Glan yn cael eu gwerthu dan y morthwyl yn ein gwlad, a ninau yn ddystaw heb yngan gair dros ein brodyr a'n chworydd a brynwyd â phriod waed Mab Duw? Mae pob peth a berthyn i'r gaethfasnach yn wrth-efengylaidd—cymeryd yn lladradaidd y bobl dduon o Affrica sydd groes i'r efengyl—ffieidd-derau a chreulonderau y trosglwyddiad yn y caethlongau—("the horrors of the middle passage") sydd yn warth tragwyddol ar ddynoliaeth—y fasnach yn y trueiniaid di-amddiffyn—

edig yr ochr hon—gwahardd y Gair Dwyfol iddynt, i'r dyben i'w cadw mewn anwybodaeth, fel y gwasan-aethant yn fwy tawel y dyn gwyn—eu codi i'r farch-nad trwy odineb—dilen y berthynas deuluaidd o blith yn agos i dair miliwn o eneidiau, mwy o nifer nag sydd o drigolion yn nhalaeth boblog Caerefrog Newydd o rai canoedd o filoedd—pregethu (lle y pregethir hefyd iddynt) *ran* o'r gair ac nid yr "*holl gyngor*"—fflangellu yn noethion feibion a merched yn ngolwg haul y nefoedd—eu dilyn, pan ddiangont, i goedwig-oedd a chorsydd, â drylliau ac â gwaedgwn—gwadu iddynt yr hawlfraint o dystio yn erbyn eu gorthrym-wyr mewn llysoedd barnol, ac o flaen eu brodyr yn nhy yr Arglwydd—amddiffyn y gyfundraeth gaeth-fasnachol trwy y weithred bwysig o bleidleisio dros y gorthrymwr a'i bleidwyr, a'u codi i swyddi o ymddir-ied i lywyddu ein gwlad—yr holl bethau hyn a'u cyff-elyb yn dal perthynas a'r fasnach mewn dynion, yd-ynt yn hollol groes i ysbryd a llythyren yr efengyl. Ac a ydyw yn addas i ni, a osodwyd er amddiffyn yr efengyl i fod yn ddystaw yn y pethau hyn?

2. Mae gweision yr Arglwydd wedi eu gosod *er am-ddiffyn dynoliaeth a moesoldeb*. Ond yn mha le y mae dim sydd yn fwy anghyson â dynoliaeth, hynawsedd cymdeithasol, a gwir foesoldeb na'r gaethfasnach a'i chysylltiadau? Y duwiol John Wesley a'i geilw yn grynôad o'r holl ysgelerderau, "*the sum of all villain-ies.*"

3. Mae gweision yr Arglwydd i ddefnyddio eu holl ddylanwad er amddiffyn y gweiniaid, yr amddifaid, a'r rhai a orthrymir yn y byd pechadurus hwn. "Agor dy enau dros y mud yn achos holl blant dinystr, agor

dy enau, barn yn gyfiawn, a dadleu dros y tlawd a'r anghenus." Dyma a ddywed yr Arglwydd wrth bob dyn, ac yn enwedig wrth ei weision cyhoeddus. "Cofiwch y rhai sydd yn rhwym, fel pe baech yn rhwym gyda hwynt." "Bum newynog a rhoisoch i mi fwyd, noeth a dilladasoch fi; bum glaf, ac ymwelsoch a mi; yn ngharchar, a daethoch ataf." Yn mhersonau pwy y bu Iesu Grist yn yr amgylchiadau yna? Y mae yn ateb ei hun, yn mhersonau ei "frodyr lleiaf;" a phwy yw "brodyr lleiaf" ein Harglwydd yn y dyddiau hyn, onid y rhai sy'n ofni ei enw yn y gaethglud fawr o fewn ein gwlad? a phwy a ddylai eu cofio, dadleu drostynt, ac amddiffyn eu hachos, oni ddylem ni wneyd, anwyl frodyr yn yr efengyl? Diau y dylai pob dyn amddiffyn cam y gweiniaid a'r gorthrymedig; ond y mae rhyw beth neillduol yn natur ein swydd ac yn yr ymddiried a roddwyd ynom gan ein Harglwydd, yn galw ar ein bod ni yn llefaru drostynt pe b'ai pawb er aill yn tewi.

4. Gweinidogaeth y gair yw y brif offerynoliaeth a ddefnyddir gan Dduw yn mhob oes i *ddileu trefniadau gorthrymus*, y rhai a safant ar ffordd llwydd ei achos a lles ysbrydol a thragywyddol eneidiau dynion: Eglwys Dduw yw y Gymdeithas er diwygiad moesol (*moral reform society*) benaf ar y ddaear, ac y mae i fod felly yn mhob ystyr—dirwest, diweirdeb, rhyddid, addysgiadau Sabbothol i'r "oes a ddel"—yr holl bethan hyn a gyfansoddant faesydd i eglwys Dduw i weithredu ynddynt i ddwyn y byd i'w le, i ddadymchwelyd teyrnas y fagddu, ac i gael llafur enaid Iesu tuag adref; ac ynddynt oll y mae gweision cyhoeddus yr Arglwydd Iesu i flaenori. Hwyl mewn gwirionedd a fu-

ont yn blaenori yn mhob oes o'r byd yn y cyfryw ddiwygiadau. Pa offerynoliaeth a ddefnyddiwyd i gael Israel o'r Aipt? onid Moses ac Aaron fel prophwydi yr Arglwydd a safasant yn yr adwy danllyd? Pwy a safodd yn erbyn gorthrwm Ahab? Onid Elias ac Eliseus, a chyda hwy yr oedd "saith mil y rhai ni phlygasant eu gliniau i Baal." Pwy a safasant flaenaf yn erbyn gorthrwm y Pab yn y 16eg canrif? Pwy a fuant ar y maes yn nghychwyniad cyntaf y diwygiad dirwestol, onid gweision yr Arglwydd, ac onid hwy yn wir a ddylasant fod, ac a ddylent fod eto yn selog a diflino gyda yr achos gwerthfawr hwnw, a phob achos o'r cyfryw natur.

5. Mae y *dylanwad* a fedd gweision yr Arglwydd yn rhy werthfawr i'w golli. Nid oes genym ddim i ymfrostio yn ddynol ynddo, anwyl frodyr, ond y mae dylanwad yn perthyn i'n swydd oruchel ac i'ninau ynddi, yr hyn a roddwyd i ni gan Dduw, a dylai gael ei ddefnyddio o blaid pob achos sydd yn dal perthynas a dinystr pechod, llwydd efengyl a chadwedigaeth eneidiau.

A oes arnom ofn difriaeth gwrthwynebwy'r yr achos gwrthgaethiwol? Na, hyderaf na chaiff hyny ein rhwystro yn y gradd lleiaf. Pa beth a all dyn wneyd i ni, yr hwn y bydd ei wyneb ef fel yr eiddom ninau yn fuan yn glasu yn angau! Gwael iawn yw ceisio boddhau neb dynion ar y draul o esgeuluso dyledswyddau pwysig ein hadeg a'n tymor yn nhy a theyrnas ein Harglwydd ar y ddaear.

A oes arnom ofn nas gallwn lwyddo? Hyderaf na chaiff hyny le ar ein meddyliau am eiliad tra y cadwom olwg ar addewidion y digelwyddog Dduw. Er fod

anhawsderau yn bod, eto y mae genym y sicrwydd mŵyaf o lwyddiant, ond bod yn ffyddlawn—mae Duw trosom, mae ei ragluniaeth yn gweithio o du y caethwas, mae y fasnach yn cael ei rhoi i fyny a chaethfeistri diwygiedig yn dyfod i bleidio yr achos; mae miliynau yn cael eu rhyddhau mewn gwledydd eraill, mae cydwybodau pawb o du ein llwyddiant, mae gwawr llwyddiant eisoes yn chwareu ar y terfyngloch, a diau y ceir clywed udgorn y Jubili cyffredinol cyn bo hir iawn. Anwyl frodyr, deffrown a byddwn ffyddlawn.

GORSEDDFAINC ANWIREDD.

Salm 94: 20.—“A fydd cyd-ymdeithas i ti â gorseddfainc anwiredd, yr hon a lunia anwiredd yn lle cyfraith?”

Gweddi yw y Salm hon yn erbyn llwyddiant y rhai drygionus yn eu cynlluniau anghyfiawn a gorthrymus; ac yn y weddi hon y mae y Salmydd yn apelio at Dduw, ac yn gofyn, “A fydd cydymdeithas i ti â gorseddfainc anwiredd,” &c. Fel pe dywedasai, amhosibl yw i hyny fod—ni dderbynia y gorthrymydd un cymeradwyaeth oddiwrthyt ti—nis gelli edrych ar anwiredd, a drwg ni thrig gyda thi.

Amos a ddywed am y drygionus (pen. 6: 3), “Y rhai ydych yn pellhau y dydd drwg, ac yn nesáu eisteddle trais.” Mae llawer eisteddle trais a llawer gorseddfainc anwiredd i'w cael yn y byd pechadurus hwn. Gorseddfainc anwiredd oedd gorseddfainc Pharaoh, pan y gorthrymai genedl Israel yn yr Aipht, y bwriai eu bechgyn diniwed i'r afonydd rhag cynyddu o'r genedl, ac y gomeddai iddynt fyned i addoli eu Duw yn ol ei orchymyn. Gorseddfainc anwiredd

oedd gorseddfainc Jeroboam fab Nebat, ac Ahab, ac Ahaziah, a Herod, a Nero, a llawer o'u bath a welir eto yn estyn eu teyrnwialen dros eu deiliaid gorthrymedig.

“Yr hon a lunia anwiredd yn lle cyfraith.” Nid oes un rheol yn deilwng o'r enw “cyfraith,” pwy bynag fyddo ei hawdwr—pa un bynag ai Ymerawdwr ar ei sedd unbenaethol, ai gwerinwyr mewn cydgyngorfa—nid yw yn deilwng o'r enw anrhydeddus “cyfraith,” heb ei bod yn rheol *uniawn* a *daionus*. Dyna y rheolau a deilyngant yr enw “cyfraith,” sef y rhai a amcanant at degweh a llesiant y deiliaid, ac a gyd-agweddant ag egwyddorion cyfraith yr Arglwydd. Ond y mae llawer i'w cael, fel y nodir yma, yn llunio anwiredd “*yn lle cyfraith*.” Cyfyngwn ein sylwadau at y caethiwed Americanaidd, fel y mae yn dwyn y nodweddiad hwn. Sylwn,

I. Fod y testyn hwn yn ddarluniad priodol o'r trefniant caeth, fel y mae yn bodoli yn ein gwlad.

“Gorseddfainc anwiredd ydyw.” Nid ar egwyddorion gwirionedd a thegwch y mae y gallu caeth yn sylfaenedig. Nid oes hawl gyfiawn gan un dyn i ddal perchenogaeth mewn dyn arall. Mae cymeryd meddiant o ddyn fel pe byddai yn anifail direswm yn “anwiredd,” oblegid nid anifail direswm ydyw—y mae yn meddu ar reswm, yn meddu ar enaid anfarwol, ac nis gellir ei amddifadu o'i hawl i ymddwyn fel bôd rhesymol, heb filwrio yn erbyn egwyddorion tragywyddol gyfiawnder a gwirionedd.

“Llunio anwiredd yn lle cyfraith” a wneir i gynnal i fyny y gallu caethiwol. Ymchwiliad i'w ansawdd a'r modd y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen a ddengys hyny yn eglur.

1. Y mae y gosodiadau a wneir i gynal ac amddiffyn caethiwed yn osodiadau i gynal ac amddiffyn lladrad, a hyny yn yr ystyr waethaf. Y mae y dyn ei hun yn cael ei ladrata, ac y mae ffrwyth ei lafur am ei oes yn cael ei ladrata. Ni fedd y caethwas ddim—eiddo y meistr ydyw yr hyn oll ag ydyw a'r hyn oll a enilla. Pleidio dros gaethiwed ydyw pleidio dros lladrad yn y ffurf waethaf y bodola lladrad yn mhlith trigolion llygredig y ddaear. "Lladron dynion" y mae yr Arglwydd yn ei air yn galw caeth-ddalwyr a chaethfeistri, a cheir eu henwau yn y rhestr dduaf o ddrwgweithredwyr o fewn Llyfr Duw. 1 Tim. 1: 9, 10, "Gan wybod hyn, nad i'r cyfiawn y rhoddwyd y gyfraith, eithr i'r rhai di-gyfraith ac anufudd * * * i buteinwyr, i wryw-gydwyr, i *ladron dynion*, i gelwyddwyr, i anudonwyr," &c.

2. Mae y gosodiadau a wneir i amddiffyn caethiwed yn dinystrio y *drefn deuluaidd*, yn mhlith y milynau a ddelir yn y caethiwed. Y cysylltiad teuluaidd ydyw y cysylltiad mwyaf cysegredig a fedd dynoliaeth. Nid oes dim mewn bod ag y mae deddfau Duw wedi codi cymaint o amddiffyniad iddo ag ydyw y cysylltiad teuluaidd. Mae'r wraig yn eiddo y gwr a'r gwr yn eiddo y wraig, ac nis gall neb gyffwrdd a'r cysylltiad hwn heb daro yn erbyn gorseddfaine y nef. Mae y rhieni i olygu dros eu plant a'u dwyn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Mae ar bob priod a thad rwymau i amddiffyn purdeb ei wraig a phurdeb ei ferch, yn fwy na'i fywyd naturiol ei hun. Ond y mae y gosodiadau caeth yn llwyr ddadymchweliad ar y cysylltiad teuluaidd yn ei holl ranau—nid oes hawl gan y gwr i'w wraig, na chan rieni i'w plant—ac

nid yw bodolaeth y drefn deuluaidd yn cael ei chyd-nabod mwy na bodolaeth y cyfryw drefn yn mhlith anifeiliaid y maes—ac os nad yw hyn yn llunio anwiredd yn lle cyfraith, nis gwyddom pa beth sydd. Yn yr ystyr yma y mae y caethiwed Americanaidd yn rhagori mewn anfadrwydd a ffeidd-dra ar gaethiwed pob oes a gwlad arall ar y ddaear. Caethiwed yr Aipht, yn nyddiau Pharaoh greulon, ni chyffyrddai â'r cysylltiad teuluaidd. Y caethiwed Rhufeinaidd a gydnabyddai y cysylltiad hwn. *Serfdom* Rwssia ni chyffyrddai â'r berthynas deuluaidd. A dywedir fod caeth-ddalwyr Pabyddol Brazil yn dechreu gosod symudiadau ar weithrediad i atal ysgariad teuluoedd eu caethion.

3. Mae y gosodiadau a ffurfir i amddiffyn caethiwed yn gwadu hawl dyn i ddiwyllio ei feddwl fel bôd rhesymol. Y meddwl yw rhan benaf dyn. Yr enaid yw y meddwl, ac yn ol trefn Duw y mae ar bob dyn rwyman i ddiwyllio a dysgyblu ei feddwl, a lleshau ei enaid. O! gymaint o foddion a drefnodd Duw i ddyn i lleshau ei enaid!—moddion cynyddu mewn gwybodaeth—moddion cynyddu mewn rhinwedd a phurdeb—moddion dynol—moddion dwyfol—moddion mewn rhagluniaeth—moddion efengyl y bendigedig Dduw. Y *meddwl* yw y rhan angylaidd o ddyn, dyma y rhan sydd yn ei debygoli i angylion Duw, ac i Dduw ei hun! Ond y mae y trefniant caeth yn ei osod dan yr anfanteision mwyaf gyda golwg ar ddiwyllio ei feddwl, ac enill ei lesiant penaf, gyda golwg ar y byd hwn a'r hwn a ddaw. Yn hyn yr ymddengys un o nodweddion gwaethaf y trefniant caeth. Ymddifadai y dyn o'i ddynoliaeth—a blotiai ymaith (pe

byddai modd) ei ysbryd anfarwol—i'w wneuthur yn anifail cyfleus i wasanaethu y dyn gwyn! Ai nid llunio anwiredd yn lle cyfraith yw hyn?

4. Mae y gosodiadau a ffurfir i amddiffyn caethiwed yn sefyll rhwng dyn a'i dragywyddol iachawdwriaeth. Yr efengyl yw moddion iachawdwriaeth. "Chwil-wych yr Ysgrythyrau, canys ynddynt hwy yr ydych chi yn meddwl cael bywyd tragywyddol, a hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi." "Melusach yw dy air na'r mêl, ac na diferion y diliau mêl"—"gwerthfawrocach na miloedd o aur ac arian"—"ynddynt hwy y rhybuddir dy was, ac o'u cadw y mae gwobr lawer." Ond y mae y caethwas, yn y rhan amlaf o'r Talaethau caeth, yn cael ei wahardd i chwilio yr Ysgrythyrau. Gosodir dirwyon trymion a char-chariad ar y rhai a gynygiant ei addysgu i adnabod llythyrenau enw ei Geidwad! Fel hyn tuedda y trefniant caeth, nid yn unig i'w ysbeilio o ddedwyddwch penaf y bywyd presenol, ond o unig foddion ei ddedwyddwch tragywyddol. "Gorseddfainc anwiredd" yu wir ydyw—a "llunio anwiredd yn lle cyfraith" a wneir i geisio ei ategu a'i gynal.

5. Mae y trefniant caeth yn niweidio ei bleidwyr. Nis gall dyn niweidio ei gyd-ddyn heb wneyd rhyw niwed ar yr un pryd iddo ei hun. Mae y caethfeistri yn gwneyd y niwed mwyaf iddynt eu hunain, trwy dynu euogrwydd ar eu cydwybodau, a thrwy feithrin ynddynt eu hunain dymerau hunanol, arglwyddaidd, a nwydwyllt. Gwna bodolaeth y trefniant hwn y niwed mwyaf i foesau eu plant, trwy y dygiad i fyn y gânt mewn llygredigaethau nas gellir yn hawdd eu darlunio, a thrwy feithrin ynddynt yr un ysbryd ag a

welant yn llywodraethu eu rhieni. Effeithia yn fawr ar ysbryd y wlad lle y bodola, mewn barbareidd-dra a chreulonder—ac ni edy neb o'i bleidwyr heb niwed, a hyny yn llawer mwy nag y maent yn ymwybodol o hono eu hunain.

II. Mai y ffurf waethaf o ddal i fyny ddrygau moesol neu osodiadau pechadurus mewn gwlad ydyw *eu hamddiffyn trwy ddeddfau dymol.*

Pleidwyr caethiwed a ddywedant na ddylem wrthwynebu y trefniant hwn, oblegid mai un o sefydliadau y wlad ydyw, a'i fod yn sefydliad cyfreithlawn yn y wlad, trwy fod y gyfraith wladol yn ei amddiffyn. Yn awr sylwn, (1.) Nid yw y Cyfansoddiad cyffredinol yn ei amddiffyn—nid yw yn ei gynwys nac yn ei bleidio. Gofalwyd wrth ffurfio y Cyfansoddiad i beidio gosod y geiriau caethwas na caethiwed o'i fewn. Yr oedd caethiwed yn bod yn y wlad pan ffurfiwyd y Cyfansoddiad, ac y mae ynddo osodiadau a gydnabyddant ei fodolaeth, ond nid oes gair ynddo yn bleidiol i gaethiwed, nac yn gofyn am ei barhad oesol yn y wlad. Dilewyd caethiwed mewn aml un o'r Talaethau ar ol ffurfiad y Cyfansoddiad, heb gyfnewid dim ar y Cyfansoddiad ei hun, a gellid ei ddileu yn gwbl o'r wlad oll heb gyfnewid gair yn y Cyfansoddiad. Ond eto yn (2.) Y mae cyfreithiau yn bodoli o fewn ein gwlad sydd yn ei bleidio—cyfreithiau a ffurfiwyd gan y Gydgyngorfa, megys cyfraith y caeth ffoedig a ffurfiwyd yn 1850—yn gystal a chyfreithiau y caeth-dalaethau eu hunain. Yn awr ceisiwn brofi y gosodiad uchod, sef mai ceisio cynal trefniadau pechadurus trwy gyfreithiau dynol ydyw y ffurf waethaf o gyflawni pechod.

1. Y mae cynal drygau moesol neu osodiadau pechadurus trwy ddeddfau dynol yn gosod awdurdod ddynol i wrthsefyll yr awdurdod ddwyfol, megys pe byddai dyn yn ogyfuwch a Duw—ie megys pe byddai dyn yn uwch na'i Greawdwr, mewn teilyngdod ac mewn awdurdod. Ac felly y gwneir yn yr achos hwn. Duw a ddywed, "Na orthryma yr amddifad a'r weddw, na'r dyeithr a fyddo o fewn dy byrth;" ond y dyn a ddywed, Gwnaf orthrymu yn ol fy mympwy fy hun—er fod fy Nghrewr yn fy ngwahardd, mynaf ddeddfau o'm heiddo fy hun i wrthsefyll ei ddeddfau Ef. Geilw gynadleddau, cynulla Gydgyngorfâau, ac yn y cynadleddau a'r Cydgyngorfâau hyny, ffurfia ddeddfau er dileu a diddymu, pe gallai ddeddf dragywyddol Duw.

2. Mae cynal drygau moesol trwy ddeddfau dynol yn amcanu at osod doethineb ddynol i ragori ar ei ddoethineb Ef. Mae deddfau Duw yn argraffiadau o'i ddoethineb, sef o'i ddeall anfeidrol i wybod yr hyn sydd oreu, ac o'i ddaioni anfeidrol i ddewis yr hyn sydd oreu. A phan y mae dyn yn ffurfio deddfau croes i'w ddeddfau ef, y mae megys yn dweyd, Na, mi wn i yn well nag Efe beth ddylai fod, ac y mae genyf galon well na'r eiddo Ef i ddewis yr hyn a ddylai fod! Dyna ysbryd y deddfau caeth a'r trefniadau gorthrymus a bleidir o fewn ein gwlad, ac a amcenir y dyddiau hyn, trwy rym y cleddyf, i helaethu eu dylanwad a'u hawdurdod.

3. Mae cynal drygau moesol trwy ddeddfau dynol yn heriad beiddgar ar allu barnol Duw i gosbi am bechod. Mae deddfau Duw yn wastad yn cynwys bygythiad o ddwyfol farn am anufudd-dod. Nid yw y bygythiad bob amser i'w gael mewn cynifer o eiriau,

eto y mae i'w ddeall. "Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg." Gosod deddfau i amddiffyn yr hyn y mae Efe yn ei wahardd, ydyw herio yn gableddus ei allu i gosbi.

4. Trwy hyn, amcenir gwisgo pechod â math o urddas, neu â'r hyn a gydnabyddir megys urddas gan ddynion. Hyn a gefnoga weithredwyr drygioni yn eu drygioni. Dylai urddas berthyn i bob cyfraith, ac y mae cyfreithiau cyfiawn a daionus yn urddasol ac yn teilyngu parch. Yn awr, pan y ffurfir deddfau gan ddynion i amddiffyn gosodiadau llygredig a drygionus, y mae yn dra anhawdd darbwylo y rhai a weithredant yn ol y deddfau hyny eu bod yn gwneuthur drwg ac y dylent ymwrthod â'r cyfryw. Mor anhawdd ydyw darbwylo y rhai a fasnachant yn y dioddydd meddwol (er engraifft) eu bod yn gweithredu mewn gorchwylion drygionus, trwy demtio eu cymydogion i yfed a meddwi, a thrwy gynorthwyo i'r holl dlodi a'r gofidiau cartrefol, a'r drwg-weithredoedd a gyflawnir mewn cyssylltiad â'r fasnach hono! A phaham hyny? Am fod y gorchwyl dan nawdd y gyfraith wladol—mae'r gyfraith wedi gwisgo y gorchwyl â math o urddas, fel y mae dynion yn gweithredu ynddo heb un gradd o gywilydd. Felly yn y gorchwyl o fasnachu mewn dynion, yr hyn sydd fil gwaeth a mwy cywilyddus na'r fasnach feddwol. Y gorchwyl hwn a wisgir ag anrhydedd y gyfraith, ac y mae y *slave-trader*, wrth fyned o amgylch o blanhigfa i blanhigfa i ymofyn am ei nwyddau dynol, i brynu merched ieuainc i ddybenion trythyll (pa wynaf goreu i gyd) mor uchel ei ben ac mor ddigywilydd a'r porthmon

sydd yn prynu ac yn gwerthu anifeiliaid! Amddiffyniad y gyfraith a dyn ymaith bob teimlad o warth a chywilydd oddiar ei feddwl.

5. Mae y cam a wneir trwy ddrygau moesol a amddiffynir mewn gwlad gan deddfau dynol, yn effeithio yn *helaethach*, a'r effeithiau hyny yn cyrhaedd *mwy o bersonau*, na phe byddai y cyfryw ddrygau wedi eu gadael heb deddfau dynol i'w hamddiffyn. Golygwn y drwg o ladrata eiddo un dyn gan ddyn arall, neu unrhyw ddull o orthrymu, megys fod y cyfoethog yn gorthrymu y tlawd trwy ei orfodi i lafurio ei dir heb ei gydnabod mewn cyflog—neu unrhyw ddrygau eraill—gadawer y drygau hyny i ymladd eu ffordd yn mhllith dynolion, heb gyfraith i'w hamddiffyn, ac nis gallant effeithio cymaint o niwed na chyrhaedd cynifer o wrthddrychau, a phan y ffurfir cyfreithiau dynol i'w hamddiffyn. Pa fodd y mae cynifer a phedair miliwn o lafurwyr ein gwlad (yr hyn a gynwys bron y seithfed ran o'r holl drigolion) yn cael eu dal dan y fath orthrwm gan ychydig filoedd o gaethfeistri? Pa fodd y llwyddir i allu gwneyd hyny? Deddfau dynol a ffurfir i amddiffyn y drwg—llunio anwiredd trwy gyfraith a wneir, ac felly y cynyrchir y fath effeithiau.

6. Lle y byddo cyfreithiau dynol yn cael eu ffurfio i amddiffyn drygau moesol—bydded y drygau hyny mor ysgeler ag y byddont—y mae holl allu y wlad yn cael ei alw i amddiffyn y drygau hyny. Mae hyn yn gwbl amlwg, oblegid y mae y cleddyf bob amser yn llaw y Llywodraethwr i roi cyfreithiau y wlad mewn gweithrediad. Nid yw y Llywodraethwr yn dal y cleddyf yn ofer yn y peth hwn—beth bynag fyddo y

deddfau, y cleddyf a'u hamddiffynant. Os y ddeddf a ddywed, bwrier i ffau y llewod y gwr a archo arch gan Dduw na dyn am ddeg-diwrnod-ar-hugain, hyny a wneir. Os y ddeddf a ddywed, bwrier i'r ffwrn dan wedi ei phoethi saith boethach nag erioed "y dynion na phlygant i'r ddelw aur a gyfodais," hyny a wneir. Yn awr, edrychwn ar ein sefyllfa ninau fel gwlad—onid yw yn arswydol meddwl fod gan ddynion tywysogaidd yn ein gwlad gymaint o rym i orthrymu eu cyd-ddynion ag sydd? Mae y caethfeistri Americanaidd wedi bod hyd yn awr mewn sefyllfa i allu hawlio holl alluoedd y wlad, y fyddin a'r llynges, i'w hamddiffyn yn eu hegwyddorion a'u gweithrediadau gorthrymus. Y Llywydd a'i Gyfringyngor, y Senedd a'r Uchaflys, oeddynt hyd yn ddiweddar, ac ydynt i raddau eto, at eu gwasanaeth, i gynal yr hyn a alwant yn "iawnderau y De"—sef y caethiwed mawr Americanaidd, ac i barhau a chadarnhau y drygioni hwn—a hyny yn unig am fod deddfau dynol o'u gwneuthuriad eu hunain mewn bod i'w pleidio!

7. Mae y cyfrifoldeb o ffurfio cyfreithiau annheg ac anghyfiawn yn gorphwys (mewn gwerinlywodraeth fel yr eiddom ni) ar laweroedd. Mae'r wlad yn euog ger bron yr Arglwydd yn y peth hwn—nid y De yn unig, ond y Gogledd hefyd. Mae y gallu caeth wedi ei fudddyoddef a'i amddiffyn yn hir, a ninau yn gwybod na ddylasai hyny fod. Euog, ac euog iawn ydym am orthrymu o honom y gwan a'r amddifaid—ein cydwytodau a'n cyhuddant, a'r byd yn gyffredinol a'n cyhudda am "lunio o honom anwiredd yn lle cyfraith." Sylwn yn

III. Nas gall y cyfryw orthrwm dderbyn un cym-

eradwyaeth oddiwrth yr Arglwydd. “A fydd cydymdeithas i ti a gorseddfaine anwiredd?” &c. Mae y gofyniad yn cynwys dau beth, sef yn gyntaf nas gall yr Arglwydd ei gymeradwyo—ac yn mhellach ei fod yn ei ffeiddio i'r graddau pellaf. Ychydig o sylwadau yn fyr a wnawn ar hyn.

1. Mae *cymeriad glan* y Jehofa, fel Bôd cyfiawn a sanctaidd, y fath fel nas gall roddi un cymeradwyaeth i orthrwm nac anghyfiawnder yn neb. Yr ydym yn gwybod gyda sicrwydd am rai dynion, nas gallant gymeradwyo yr hyn sydd ddrygionus, a hyny oddiar y wybodaeth flaenorol sydd genym am eu cymeriad. Pe dywedai rhyw un wrthym am ddyn ag y byddai genym dyb uchel am ei egwyddorion cyfiawn, ei fod yn cymeradwyo tro gwael, isel ac anghyfiawn cymydog iddo at wr tlawd, neu at weddw neu blentyn amddifad yn yr ardal—dywedwn yn uniawn, Na, nis gall hynyna fod, yr wyf yn adnabod y gwr yn rhy dda i allu goddef y dybiaeth wael yna am dano. Felly yr ydym ninau, hyderaf, yn adnabod yr Arglwydd yn rhy dda, oddiar y wybodaeth sydd genym am ei gymeriad cyffredinol, i allu meddwl y bydd iddo ef gymeradwyo gwaith dynion yn gorthrymu eu cyd-ddynion, a'r *fath* orthrymder a gynwysir yn y gaeth-wasanaeth a'r gaeth-fasnach. “Duw'r gwirionedd ac heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn yw efe.” Gelwir ef y “Sanct a'r Cyfiawn.” “Ydwyt lanach dy lygaid nag y gelli edrych ar ddrwg, ac ni elli edrych ar anwiredd.” “A fydd cydymdeithas i ti,” &c. Anmhosibl yw i hyny fod iddo Ef.

2. Mae uniondeb a thegwch ei ddeddfau *Ef* yn eu holl ranau yn dangos nas gall Efe gymeradwyo gwaith

neb yn llunio deddfau anwir a gosodiadau gorthrymus. Deddf Duw a gynwysir mewn un gair, sef *cariad*. “Cyflawnder y gyfraith yw *cariad*.” “Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl.” Hwn yw y cyntaf a'r gorchymyn mawr yn y gyfraith. A'r ail sydd gyffelyb iddo, medd ein Hiachawdwr, “Câr dy gymydog fel ti dy hun.” “Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll.” Ni ddaeth un gair erioed o'i orseddfaine ef ond a gyd-orwedda gyda y cysonedd mwyaf â'r gyfraith yna. Ac nid yw yn ddichonadwy i Fôd ag y mae ei orchymynion oll yn codi oddiar y fath egwyddor, gymeradwyo dim sydd yn orthrymus ac anghyfiawn yn neb o'i greaduriaid.

3. Mae y barnedigaethau arswydol â pha rai y mae yr Arglwydd wedi ymweled â thrigolion ein byd ni, o oes i oes, am y pechod o orthrymu, yn dangos nad yw Efe yn ei gymeradwyo. Gorthrymu y rhai rhinweddol a'r gweiniaid oedd un o'r pechodau a ddygodd y dylif mawr ar y byd. “Byd y rhai anwir” y geilw yr apostol y byd y pryd hwnw. “Ac onid arbedodd efe yr hen fyd, eithr Noë, pregethwr cyflawnder, a gadwodd efe ar ei wythfed, pan ddug efe y diluw ar fyd y *rhai anwir*.” 2 Pedr 2: 5. Diau i'r addfwyn Enoch ddyoddef llawer am ddwyn ei dystiolaeth yn erbyn yr anwir ddynion, cyn i Dduw ei symud ef—a Noë yr un modd. Gorthrwm ac anllad a ddygodd y gawod o dân a brwmstan ar Sodom a Gomorrah yn nyddiau Lot. Gorthrymu meibion Israel a'u dal mewn caethiwed a ddygodd y deg plâ ofnadwy hyny ar Pharaoh a'i luoedd, y darllenwn am danynt yn hanes y waredigaeth o'r Aipt. Deddfau gorthrymus oedd

deddfau Belshazzar, pan ollyngodd Duw luoedd y Mediaid a'r Persiaid yn rhydd arno i'w ddarostwng a dinystrio ei lywodraeth. Felly y mae hanes y byd yn profi mai un o'r prif achosion yn mhob oes—ie, y prif achos—o farnau amlwg odddiwrth Dduw ar deyrnas-oedd a gwledydd y ddaear, ydoedd y pechod o orthrymu y gweiniaid a'r angenus. Nis gall Duw, gan hyny, awdwr y barnedigaethau hyn, gymeradwyo dim sydd yn orthrymus. Dywedwn un gair eto,

4. Bydd gweinyddiadau tragwyddoldeb yn profi hyn. Y rhai rhinweddol, addfwyn, tirion wrth eraill, fydd teulu y nef—y rhai cyfiawn tuag at Dduw, a chyfiawn at dynion a gyrhaeddant y fro ddedwydd hono. “Nid â i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffeidd-dra, na chelwydd,” &c. A phwy fydd y rhai colledig? Dyma yw iaith y Beibl, “Eithr i'r rhai sydd gynhenus ac anufudd i'r gwirionedd, eithr yn *ufudd i anghyfiawnder*, y bydd llid a digofaint.” Rhuf. 2: 8. A thrachefn, “Canys digofaint Duw a ddatguddiwyd o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac *anghyfiawnder dynion*, y rhai sydd yn atal gwirionedd mewn anghyfiawnder.” Rhuf. 1: 18. A thrachefn, “Ond i'r rhai ofnog, a'r digred, a'r ffaidd, a'r llofruddion, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r eilun-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr, y bydd eu rhau yn y llyn sydd yn llosgi â than a brwmstan; yr hwn yw yr ail farwolaeth.” Bydd y ddwy sefyllfa byth yn dangos na bu iddo ef erioed gymdeithas â'r hyn sydd orthrymus &c anghyfiawn.

SYLWADAU TERFYNOL.

1. Dysgw'n oddiwrth hyn i ymostwng ger brou yr Arglwydd o herwydd pechod dirfawr ein gwlad, Nid

oes gwlad ar y ddaear ag a ddylai wybod yn well am werth rhyddid na'r Talaethau hyn, ac eto yma y colleddir ac y coleddwyd dros hirfaith amser y gorthrwm mwyaf.

2. Dysgwn ryfeddu y dwyfol amynedd ei fod wedi ein goddef cyhyd, heb ymweled â ni â barnedigaethau. Nid y rhyfeddod yw fod y wlad yn sathrfa i'n gelynyion; ond y rhyfeddod mwyaf o lawer ydyw na buasai barnedigaethau o ryw natur oddiwrtho Ef wedi disgyn arnom er's blynyddau lawer. Ei drugaredd a'i amynedd tuag atom sydd wedi bod yn fawr yn wir..

3. Diolchwn fod y wlad yn teimlo yn yr achos hwn, ac yn dechreu gweled yn lled gyffredinol mai dyma a barodd ein trallod presenol. Bu digywilydd-dra y bradwyr yn eu symudiadau yn foddion i oleuo y wlad, er mai da fuasai ganddynt ei gelu pe gallasant. Bron na ddywedent wrth alluoedd tramor eu bod gymaint am ryddhau y caethion a neb, tra y mae pob symudiad o'r eiddynt gartref yn dangos mai cadarnhau y fasnach a helaethu ei therfynau oedd eu hunig wrth-ddrych. Ond y mae gobaith am danom, tra y mae y wlad mor agos ag ydyw at fod yn unllais, mai dyma yr *achos* o'n terfysg a'n trallod.

4. Diolchwn fod rhwymau anwiredd yn dechreu llacio, a deddfau anwiredd yn dechreu cael eu dileu. Mae ein prif ddinas yn dir rhydd, ac y mae yr holl diriogaethau, trwy Ogledd a De yn dir rhydd. Diolchwn am hyny.

5. Ceisiwn gydnabod llaw yr Arglwydd yr hwn yn unig a all ein diogelu a pheri i ni ymwardd yn nydd ein cyfyngder. "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu; gorfoledded y ddaear, llawenyched ynysocedd lawer."

Ymddengys rhai pethau, yn y cyfwng mawr hwn, fel pe byddai yr Arglwydd yn ein herbyn. Ond nid yw efe felly—ond ceisio ein dwyn i weled ein sefyllfa y mae a'n dwyn i wneyd cyfiawnder a'r gorthrymedig, fel y gallo yn ol egwyddorion ei lywodraeth ddaionus, roddi i ni waredigaeth—ie, y fath waredigaeth ag a fyddai yn fendith i Dde a Gogledd yn nghyd.

DYFYNIADAU O BREGETH.

Eph. 1 : 10.—“Fel yn ngoruchwyliaeth cyfiawnder yr amseroedd, y gallai grynhoi yn nghyd yn Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd, ac ar y ddaear ynddo ef.”

Mae yr apostol yn traethu yn yr adnodau blaenorol ar fwriadau Duw neu ei “arfaeth.” Mae arfaethu neu fwriadu yn cael ei briodoli yn fynych i Dduw ; ac y mae ei arfaeth ef yn bod y peth ydyw, “yn ol boddlonrwydd ei ewyllys” ei hun, ac “yn ol cyfoeth ei ras,” ac y mae hefyd yn “arfaeth dragywyddol.” Ond dylid gwyllo rhag cysylltu dychymygion disail ag arfaeth Duw. Cam olwg ar ei arfaeth ef ydyw ei hys-tyried yn cynwys y drwg fel y da—nid yw yn cynwys dim drwg moesol—nid o Dduw y daeth fod drygioni yn cael ei gyflawni. Sonir weithiau am yr Arglwydd fel pe buasai wedi bwriadu i bechod gymeryd lle, ac wedi bwriadu hefyd i ddatguddio trefn o waredigaeth oddiwrth bechod, fel pe byddai y melus a'r chwerw yn tarddu o'r un ffynon. Ond nid yw Duw yn awdwr pechod—ac nid yw bodolaeth pechod yn un rhan o'i drefn ef—mae ei holl drefn ef, ei holl fwriadau a'i holl weithrediadau yr gwrth-weithio yn erbyn pechod yn mhob ystyr ac yn mhawb. Yn ol ei *hollrybodaeth*

fe ganfyddodd y byddai i bechod gymeryd lle, ac yn ol ei haelfrydedd anfeidrol—ei gariad diderfyn—fe drefnodd ffordd o waredigaeth oddiwrth bechod, a'r ffordd hono ydyw yr un a ddatguddir i ni ac a gymhellir arnom i'w defnyddio trwy flydd ddiffuant yn efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Yn y testyn dangosir yr amcan neu y dyben oedd gan Dduw i gyrchu ato yn ei fwriadau grasol a thragywyddol, sef, "Fel yn ngoruchwylliaeth cyflawnder yr amseroedd y gallai grynhoi yn nghyd, yn Nghrist, yr holl bethau," &c. Sylwn,

I. Ar y gwaith a briodolir yma i Dduw, "crynhoi yn nghyd yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear."

Ymadrodd cyfoethog iawn! Nid yw yn hawdd, efallai, i'w ddeall, ar y darlleniad cyntaf. Ond nid yw yr ymadrodd yn dywyll ond i ni ystyried ychydig—beth oedd eisiau eu crynhoi at eu gilydd? Yr oedd pechod wedi gwneyd rhyw ysgar mawr rhwng nefoedd a daear. Yr oedd dyn yn y dechreu, sef yn ei greadigaeth cyntaf, yn meddu yr un cymeriad a theulu y nef—yn gydymaith i Dduw ac i angelion Duw; ond fe wnaeth pechod ryw annhrefn mawr ar bethau—ryw chwalfa—ryw ysgar rhyfedd—ysgarodd ddyn oddiwrth Dduw, dynion oddiwrth angelion, yn gystal a dynion oddiwrth ddynion. Ond wele y Duw graslawn a thrugarog, o'i ddaioni hunan-gynhyrffiol a'i ddoethineb anfeidrol, yn myned i adferu trefn eilwaith—trwy godi y dyn i gymeriad a thebygoliaeth i deulu y nef. Dyma ddyben yr efengyl, a dyben holl waith y prynedigaeth.

I. Uno y nef a'r ddaear yn *yr un gorchwylion*. Os gofynir beth yw gorchwylion teulu y nef, gellir at-

eb mai dyna yw --gogonocddu Duw a dedwyddoli eu gilydd. Dyna orchwylion y nef, a dyna amcan y teulu glân yn eu holl symudiadau a'u gweithrediadau. Maent yno yn addoli Duw, yn ymgrymu iddo, yn bwrw eu coronau wrth ei draed, yn ymwrando beth yw ei ewyllys ef, ac yn gyflym a llon i'w chyflawni. Ceuir allan bob hunanoldeb annheilwng o'r gymdeithas ddedwydd sydd yno. Gwasanaetha pob angel ei Dduw trwy geisio hefyd at eangu dedwyddwch ei gyd-angel a'i gyd-sant, fel ei ddedwyddwch ei hun. Gwahanol iawn ydyw i hyn ar y ddaear, hyd nes y daw yr efengyl i wneyd trefn ar ddyd. Edrychwn ar y pethau sy'n cynhyrfu ein hardaloedd yn y dyddiau presenol. Ai gogoniant Duw a lles y wlad sydd gan bleidwyr y ddiod feddwol mewn golwg yn eu symudiadau prysur ac egniol? A'i dyma amcanion y gaethfasnach yn ymestyn at eangu ei therfynau dros ein tiriogaethau breision? Sarhad ar synwyr cyffredin dyn fyddai dyfalu y fath beth—hunan-elw arianol a phorthi chwantau a nwydau llygredig sy'n cynhyrfu i'r pethau hyn oll—a dyma agwedd y byd yn gyffredinol, oddieithr i'r graddau ag y mae yr efengyl yn dylanwadu yn ddaionus arno. Ond yr efengyl a gyfyd ddyd at yr un gorchwylion a theulu y nef. "I'm gogoniant y creais ef, y lluniais ac y gwnaethum ef." "Y bobl hyn a luniais i'm fy hun, fy moliant a fynegant." "Pa un bynag ai bwyta ai yfed, ai pa beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw." A phob un a wasanaetha ei frawd hefyd, er lleshad; a'n brodyr, mewn ystyr, yw pawb dynion ar wyneb y ddaear.

2. Uno y nef a'r ddaear yn *yr un egwyddorion*, neu

ddwyn trigolion y ddaear i weithredu oddiar yr un egwyddorion a theulu y nef. Yr egwyddor sy'n cymell teulu y nef yn ei holl weithrediadau yw *cariad*. Pe gofynid paham y maeut yno yn gwneyd gogoniant yr Arglwydd yn brif ddyben yn mhob peth, yr ateb yw, am eu bod yn ei garu ef uwchlaw pawb a phob peth. Paham yr amcanant at ddedwyddoli eu gilydd mor hyfryd ac mor hardd? Yr ateb yw, am eu bod yn cael eu llywodraethu gan ddeddf cariad. Cariad yw cwlwm y gymdeithas yno. Dyma ddaliodd y nef gyda ei gilydd mor anwyl erioed, a dyma a'i deil byth hefyd. Felly, at hyn yr amcenir yn holl weithrediadau yr efengyl ar y ddaear. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, a'th holl enaid, a'th holl feddwl, ac a'th holl nerth; a'th gymydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll." A dyma elfen fawr yr efengyl—tardda hon o fôr cariad tragwyddol, gweithreda trwy gariad, a dwg y rhai a'i cofleidiant i ymddedwyddu mewn cariad at Dduw a dynion byth.

3. Uno y nef a'r ddaear yn *yr un dymor a'r un ysbryd*. Dyna yw ysbryd a thymor y nef—yn y lle cyntaf, ysbryd gostyngedig, llariaidd ac addfwyn yw. Mae yno bawb yn wirioneddol ostyngedig ac addfwyn. Ysbryd cynes yn ngwasanaeth eu Harglwydd yw—neb yn oeraidd, neb yn glauar ei gân yno. Ysbryd unol ydyw—cyd-weithio yn esmwyth y maent yno yn ngwasanaeth Iesu—heb neb yn "tynu yn groes"—mae yr undeb cywiraf yn bodoli yn eu gweithrediadau, a'r cydgordiad melusaf yn eu caniadau gogoneddus. Yn mhob peth, ysbryd anwylaidd iawn ydyw. At hyn

hefyd, y mae yn amlwg, yr amcana yr efengyl yn ei dylanwad grasol a gwerthfawr ar ddyn ar y ddaear.

4. Dwyn trigolion y ddaear i wisgo *yr un cymeriad cyffredinol* mewn purdeb a sancteiddrwydd a theulu y nef. Maent yno yn sanctaidd—ac nid oes yno ddim ond purdeb digymysg. Angelion “*sanctaidd*,” ac ysbrydoedd y rhai “*a berffeithiwyd*” sydd yno yn preswyllo. Yn awr, dyma y gwaith sydd gan Dduw i’w wneyd ar y ddaear trwy yr efengyl, cael y dyn yn sanctaidd. Dyma oedd dyben y bwriadau tragwyddol, “fel y byddem sanctaidd a difeius ger ei fron ef mewn cariad.” Dyna ddyben dyoddefaint a marwol-aeth y Gwardwr. “Crist, fel y sancteiddiai efe y bobl, a ddyoddefodd y tu allan i’r porth.” A dyma ddyben holl foddion yr efengyl a dylanwadau yr Ysbryd ar ddyn—ei gael yn ol i’r un cymeriad a’r rhai sy’n cylchynu yr orseddfaine lân fry.

5. Eu dwyn yn un teulu, yn un gymdeithas, ac i’r *un lle*. Pan y byddo y gwaith grasol wedi ei orphen, ceir gweled rhyw dyrfa hardd o’r hil ddynol yn cyfansoddi yr un tylwyth, yn yr un byd dysglaer, ac yn mwynhau yr un cyffelyb ddedwyddwch a’r angelion hyny y rhai a gadwasant eu dechreuad—ac felly y byddant byth yn ddi-fai ger bron gorseddfaine Duw. Cafodd Ioan olwg arnynt fel “pedair mil a saith ugeinmil” o bob llwyth o Israel, ac o’r cenedloedd, yn “dyrfa na ddichon neb eu rhifo,” wedi “dyfod allan o wlad y cystudd mawr,” ac “wedi golchi eu gynau a’u canu yn ngwaed yr Oen.” O, ddedwyddwch y rhai a unir yn y teulu mawr hwn!

II. Cyfrwng yr uniad hwn, neu y Person yn yr hwn y dygir hyn oddiamgylch. Y mae pwys mawr

yn cael ei roi ar hyn—y mae yn cael ei enwi ddwy waith yn y testyn, “Fel yn ngoruchwyliaeth, &c., y gallai grynhoi yn nghyd yn *Nghrist*,” &c., a thrachefn, “*ynddo ef*.” Mae holl ymresymiad yr apostol trwy y benod hon fel rhyw gadwyn auraid, modrwy yn cydio mewn modrwy, *ac oll yn Nghrist Iesu*—fel y gall y darllenydd ganfod wrth ddarllen y benod o adnod i adnod. Enwir ef yn fynych ddwywaith yn yr un adnod. Ond sylwn,

1. Yr oedd nef a daear megys wedi cyd-gyfarfod yn *mherson Crist*—dwyfoliaeth a dynoliaeth wedi ymbriodi ynddo yn yr un Person gogoneddus. Yr oedd yn dal yr un agos berthynas â'r ddaear ac â'r nef. O ran ei Dduwdod, yr oedd yn ogyfuwch â'r Tad tragywyddol yn mhob priodoledd a theilyngdod; ac ar yr un pryd yr oedd yn ddyn, yn meddu teimladau dynol; “Yn gymaint a bod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau.” Felly yr oedd yn Berson addas i nef a daear gydgyfarfod ynddo.

2. Trwy rinwedd yr iawn a wnaeth efe dros ein camweddau y cafwyd modd i godi dyn i sefyllfa ddedwydd teulu y nef. Yr oedd dyn trwy bechod wedi haeddu cael ei gau i fyny yn y carchar tragywyddol gyda'r diafol a'i angelion. Ond fe gafwyd modd i faddeu ei feiau ar dir edifeirwch, a chafwyd modd i'r Ysbryd tragywyddol weithredu trwy yr efengyl arno nes ei gael yn bur.

3. Trwy ddylanwad geiriau Crist mewn cysylltiad â gweinidogaeth ei Ysbryd y dygir hyn oddiamgylch. Cyhoeddi Crist yn Waredwr i'r byd yw y moddion i'w achub. Efe sydd i fod yn destyn ein gweinidogaeth

—Crist yn ei berson a'i athrawiaeth, ei waith a'i ddy-
oddefiadau drosom—Crist yn ei deilyngdod a'i rin-
wedddau, &c.; a chymell pawb i wneyd derbynriad o
hono ac ufuddhau iddo; ac mewn cysylltiad â phreg-
ethu Crist yn ffyddlon a mynegu ei rinwedddau trwy
fucheddau teilwng y rhai a'i carent, y mae genym
addewid o ddylanwadau a gweinidogaeth ei Ysbryd.
“Buddiol yw i chwi fy myned i ymaith,” &c.

4. Dygir hyn oddiamgylch trwy ddylanwadau
esiampl Crist. Fe ddaeth Crist i'r byd, nid yn unig i
wneyd iawn dros bechod—dyna yn ddiau oedd y dy-
ben penaf—ond fe ddaeth hefyd i roddi “esiampl i ni
fel y canlynem ei ol ef.” Fe ddaeth i ddangos i ni pa
fath rai yw teulu y drydedd nef. Os mynech wybod
pa ryw fath fodau sanctaidd sydd yno, edrychwch ar
Fab Duw o Bethlehem i Galfaria—edrychwch ar ei
sel dros dy ei Dad, ei burdeb di-frycheulyd, ei larieidd-
dra, ei gariad, &c. Edrych arno trwy ffydd a byw yn
ei gymdeithas ydyw un o'r moddion effeithiolaf i gael
dyn yn ol i ddelw teulu y nef.

5. Trwy effeithioldeb eiriolaeth Crist drosom yn y
nef. Mae pwys mawr yn cael ei osod yn yr Ysgrith-
yrau ar eiriolaeth Crist drosom fry. Mae'n eiriol dros
arbediad y ddynoliaeth. “Gad ef y flwyddyn hon
hefyd,” &c. Y mae yn byw bob amser i “erfyn dros
y saint”—dros eu gwardigaethau, dros eu cynaliaeth,
eu hadferiad o wrthgiliadau, a'u perffeithiad yn y
diwedd mewn gogoniant, fel y caffont fod lle y mae
efe, i'w weled yn ei ogoniant, a bod yn debyg iddo.

6. Bydd y cyfan yn terfynu yn nyrchafiad Crist fel
canolbwynt serchiadau a chlodforedd saint ac angelion.
Mae aberth Crist drosom ni wedi effeithio yn fawr yn

ddiau ar ddedwyddwch angelion Duw—pa mor fawr nis gallwn esbonio yn awr, ond cawn wybod yn well ar ol hyn. Bydd y teulu yn un yn rhoi y clodydd tragywyddol i Dad, Mab ac Ysbryd, a'r cyfan trwy ac yn nghyfyngdod Crist Iesu. A phan ddelo y teulu yn nghyd, o'r nef a'r ddaear, ceir gweled y pryd hwnw yn fwy eglur nag y gallwn ganfod heddyw pa fodd y crynhowyd yr holl bethau yn y nefoedd ac ar y ddaear “*ynddo ef.*”

III. Y cyfnod neu yr amser y byddai i hyn gael ei ddwyn oddiamgylch, “Fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd y gallai,” &c.

Wrth yr amseroedd hyn yn ddiâu y golygir goruchwyliaeth a thymor yr efengyl—yr holl dymor, mewn ystyr, o roddiad yr addewid gyntaf hyd floedd yr archangel—ond yn *arbenigol*, y tymor presenol, yr oruchwyliaeth ddiweddaf o weinyddiad cyfamod grasol Duw tuag at ddyn, *sef o ddyddiau ymddangosiad Crist yn y cnawd hyd ei ail ymddangosiad ar gymylau y nef*. Dyma “oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd.” Sylwn yma,

1. Fod yr holl amseroedd blaenorol i ddyddiau Crist yn rhag-barotoawl i'r cyfnod hwn. Dyna oedd y Duw mawr yn wneyd trwy yr holl oesoedd, paratoi y byd i dderbyn ei Fab—dyna a wnaed trwy yr aberthau cysgodol, trwy weinidogaeth y prophwydi, a thrwy farnedigaethau a pha rai y darostyngwyd teyrnasoedd uchelfrydig ac annuwiol—hyny oedd mewn golwg o hyd, paratoi y byd i orchwylion pwysig y cyfnod presenol.

2. Fe ymddangosodd Crist yn y cnawd yn yr amser mwyaf priodol—“*yn nghyflawnder yr amser*”—“Crist

mewn pryd, a fu farw dros yr annuwiol"—pan oedd pob moddion arall er gwellhau y byd wedi ei brofi yn annigonol, a'r byd wedi addfedu i ddinystyr, a'r diafol yn dywysog arno, yn meddianu cyrph dynion yn gystal a gweithio ar eu meddyliau, nes oedd y byd mor addfed i farn ag ydoedd yn nyddiau'r dylif mawr—yn yr adeg hono danfonodd Duw ei Anwylyf fab iddo, a gosododd foddion mewn gweithrediad i achub, ac nid i ddamnio y byd.

ADDYSGIADAU.

1. Gwelwn fod yn rhaid i ryw waith mawr gael ei wneyd ar gyflwr dyn cyn y bydd yn gymwys i gael ei le yn mhlith teulu y nef, "Na ryfedda ddywedyd o honof fi wrthyt, y mae'n rhaid eich geni chwi drachefn." "Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Ysbryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw." Mae llawer yn byw yn y byd hwn, fel pe byddent yn dysgwyl i ryw oruchwyliaeth ddyeithr o eiddo angeu eu cymwyso i'r nef. Gwylia, enaid, rhag dy dwyllo dy hun yn hyn. "Yr hwn sydd yn hau i'r cnawd, o'r cnawd a fêd lygredigaeth, a'r hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fêd fywyd tragywyddol."

2. Gwelwn anogaeth gref i ddychwelyd at Dduw trwy ffydd yn Nghrist, ac i ymofyn am le gyda ei deulu ef ar y ddaear. Pwy a unir â theulu y nef, meddych chwi, ond y rhai a unir, a hyny yn wirioneddol, â theulu Iesu ar y ddaear. Meithrinwn gariad cynes at deulu Duw yr ochr hon, ac ymbiliwn am gael ein cymhwyso i gael lle yn eu plith pan y byddant wedi eu perffeithio yn Nghrist Iesu.

RHWMEDIGAETH DYN I DDUW.

I. Y mae dyn yn rhwymedig i Dduw mewn cariad. Duw, cariad yw, a'r ddeddf a roddodd i ni a gynwysir yn y gair hwn, "Cyflawnder y gyfraith yw cariad." Cariad goruchafaidd at Dduw, a chariad at ein cymydog fel ni ein hunain—dyma gynwysiad y ddwy lech, a dyma yr oll o rwymedigaeth dyn i Dduw. Nid oes dim yn ofynedig arnom, na dim yn ofynedig ar un bôd rhesymol yn un man, dan unrhyw amgylchiadau, ond a dardd yn naturiol oddiar yr egwyddor anwylaidd hon, sef cariad. Mewn ystyr foesol, dyma ddeddf y bydysawd. Ac oddiar gariad at Dduw y tardd y rhwymedigaeth o ufuddhau iddo yn yr hyn oll y mae yn orchymyn, derbyn yn barodol yr hyn y mae yn gynyg o'i drugaredd a'i ras, ymddiried ynddo dan bob goruchwyliaeth, bydded mor dywyll a thrallodus ag y byddo, ac ymdrechu cymell ar eraill yr un rhinweddau.

II. Mae rhwymedigaeth dyn i Dduw yn tarddu oddiar ei berthynas greadigol a Duw. "Efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain, ei bobl ef ydym a defaid ei borfa." Perthynas yw sail pob rhwymedigaeth. Nid oes rhwymau lle nad oes perthynas, a lle mae perthynas, y mae rhwymau yn ol ansawdd y berthynas. Y berthynas fwyaf gwreiddiol a'r fwyaf cyflawn o bob perthynas ydyw yr un greadigol. Mae gan Dduw hawl ynom o flaen pawb eraill, a goruwch pawb, am mai ein Creawdwr ydyw. Mae ar ddyn rwymau i'w rieni, i "dal y pwyth" iddynt, a "phwyth" go hir ydyw hefyd—y berthynas sydd agos, a'r daioni a dderbynwyd oddiar eu llaw, mewn sefyllfa o angen ac ym-

ddibyniaeth, sydd fawr. Ond y mae ein rhwymau i Dduw yn fwy—ein hymddibyniaeth arno sydd fwy cyflawn, a'r daioni a dderbynir oddiar ei law sydd anfeidrol fwy. Mae ar ddeiliaid rwymau i'w llywodraethwyr, gweision i'w meistriaid, a'r angenus i'w cymwynaswyr, ond nid i neb y mae ein rhwymedigaeth fel i Dduw yr hwn a'n gwnaeth.

III. Mae rhwymedigaeth dyn i Dduw yn rhwymedigaeth o gyfrifoldeb, yn tarddu oddiar ei fod yn meddu ar fodolaeth resymol. Hyn sydd yn gwneyd dyn yn rhwymedig i Dduw mewn ystyr wahanol i bob bôd islaw iddo yn nghlorian bodolaeth. Dyma sydd yn ei wneyd yn ddeiliad cyfrifoldeb a barn. Nid yw y greadigaeth fwystflaidd yn ddeiliaid cyfrifoldeb—y creaduriaid afresymol nid ydynt yn meddu cyneddfau priodol i wybod am Dduw, ei garu a'i wasanaethu. Nid yw y greadigaeth anianol yn meddu ar y cyneddfau hyn. Mae bodau anianol yn ddeiliaid deddfau anianol, ac yn ufuddhau i'r deddfau hynny i'r perffeithrwydd manylaf. Ond nid rhwymedigaeth o gyfrifoldeb sydd yn peri hyn; ond gweithrediad gallu anianol ac anfeidrol y Jehofa.

Mae dyn wedi ei gynysgaeddu â deall ac amgyffrediad, â serchiadau, âg ewylllys, â chof a chydwybod—cyneddfau, o ran eu hansawdd, cyffelyb i eiddo angel yn y nef—ac y mae ei rwymedigaeth yn tarddu oddiar ei fod yn meddu ar y cyneddfau hyn. Bôd rhesymol ydyw, mae dan rwymedigaeth o gyfrifoldeb am y defnydd a wna o'r cyneddfau hyn. Y mae yn gwybod y da a'r drwg, ac y mae dan rwymedigaeth o gyfrifoldeb i ddewis y naill ac ymwrthod a'r llall. Ei fodolaeth resymol yw un o seiliau cedyrn a thragywyddol ei rwymedigaeth a'i gyfrifoldeb.

IV. Mae rhwymedigaeth dyn i Dduw yn codi oddi-ar y gwiwdeb a'r teilyngdod a berthynant i'w briodol-eddau anfeidrol a thragywyddol ef. Y mae efe yn fôd mor ogoneddus, fel y mae yn deilwng o'r serch gwresocaf, yr ufudd-dod puraf, a'r ymddiried llawnaf, oddiwrth bawb, ac am hyny y mae ein rhwymedigaeth iddo yn myned heibio idd ein rhwymedigaeth i bawb eraill, ac y mae ei ddeddfau ef yn oruchaf ar ddeddfau pawb. Pan y mae deddfau dynion yn gwrthdaro yn erbyn deddf Duw, ein dyledswydd yw ufuddhau iddo ef, ac nid i ddynion. Os bydd gorchymyn rhieni yn groes i orchymyn Duw, eiddo Duw a ddylai gael ufudd-dod; ac os bydd gorchymyn y Llywiau dwr neu y wladwriaeth yn groes i'r eiddo ef, mae ein rhwymedigaeth iddo yn galw am ein bod yn ufuddhau iddo ar y draul (os rhaid yw) o anufuddhau i bawb eraill, ac ar y draul o unrhyw benyd neu gosb a ddichon awdurdodau dynol osod arnom. Felly y gwnaeth Daniel, er gorfod myned i ffau y llewod; felly y gwnaeth y tri llanc, er fod y ffwrn dân wedi ei phoethi seithwaith yn fwy nag arferol o'u blaen, ac felly y gwnaeth yr apostolion, er dyoddef carcharau ac angau.

V. Mae rhwymedigaeth dyn i Dduw yn gyfartal a'r moddion gwybodaeth y mae yn feddu am Dduw. Mae moddion gwybodaeth yn un o brif elfenau rhwymedigaeth. Pe gellid profi fod rhyw ddyn mewn sefyllfa, lle nad oedd moddion o fewn ei gyrhaedd i wybod am Dduw, lle nad oedd modd iddo wybod dim am ei weithredoedd na chlywed dim am dano, yna byddai y dyn hwnw, i'r un graddau yn rhydd oddiwrth rwymedigaeth a chyfrifoldeb. Ond ai dyna ein sefyllfa ni? Na, hollol i'r gwrthwyneb. Beth sydd yn gwneyd

rhwymedigaeth y pagan yn fawr, er na welodd Feibl erioed, ac na chlywodd erioed am Waredwr? Mae ei rwymedigaeth ef yn tarddu oddiar yr amlygiadau a roddodd Duw o hono ei hun yn ei weithredoedd mawrion a gogoneddus—mae ei weithredoedd er creadigaeth y byd yn tystio am dano nes y mae cydwybodau y rhai a welant ei weithredoedd hyn yn eu cyhuddo neu yn eu hesgusodi. Beth sydd yn gwneyd ein rhwymedigaeth ni yn fwy? Onid yr ystyriaeth ein bod wedi meddu datguddiedigaethau mil miloedd helaethach am dano, trwy yr Ysgrythyrau a breintiau goruchel yr efengyl.

VI. Nis gall un cyfnewidiad yn agwedd foesol meddwl dyn tuag at Dduw leihau dim ar ei rwymedigaeth i Dduw. Ystyrir gan rai fod dyn yn ei sefyllfa o ddiniweidrwydd dan rwyman i ufuddhau, a hyny yn berffaith i orchymynion yr Arglwydd, ond wedi iddo syrthio i bechod, nas gall fod ei rwymedigaeth yr un ag o'r blaen, ac nas gall fod Duw yn gofyn mor fanwl yn awr, trwy fod y dyn yn llygredig. Ond cam feddwl hollol am bethau yw y meddwl yna. Mae seiliau y rhwymedigaeth yn parhau yr un, ac y mae y rhwymedigaeth hefyd o augenrheidrwydd yr un. Mae Beelzebub dan yr un rhwymedigaeth i Dduw yn awr ag ydoedd pan yn angel pur yn Ngwynfa. Ni wnaeth ei gwmp i lygredd a phechod leihau dim ar ei rwymedigaeth i'w Greawdwr anfeidrol. Felly y mae deddf sanctaidd Duw yn gofyn ufudd-dod dyn yn awr i'r un manylrwydd a'r un perffeithrwydd ag ydoedd yn ei ofyn yn Eden ardd. Ni wnaeth ei ddrwg a'i wrthryfel leihau dim ar ei rwymedigaeth a'i gyfrifoldeb. O! meddyliwn fod ei orchymyn ef yn awr, fel gyt,

yn dra eang, yn gofyn pob meddwl, pob teimlad, pob gair, pob gweithred, heb leihau dim yn llymder a manylrwydd ei gofynion, na rhoi un bleidgarwch i'n llygredd a'n drygedd ni.

VII. Mae rhwymedigaeth dyn i Dduw yn rhwymedigaeth o hyfrydwch a dedwyddwch. Nid yw dyn yn rhwymedig i ddim ond a duedda at ei ddedwyddwch. Ei ddedwyddwch yw ymddwyn yn ol ei rhwymedigaeth, a phob amcan o eiddo y dyn at ddryllio ei rwymau Ef, a thafu ei reffynau oddiwrtho, a ddwg arno drueni. "Pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd?" "Gwae a ymrysona â'i Wneuthurwr." Y dynion mwyaf dedwydd ar y ddaear ydyw y dynion mwyaf teimladwy o'u rhwymedigaeth i Dduw, a mwyaf cydwybodol i ateb y cyfryw rwymedigaeth. Teimlad o rwymedigaeth i Awdwr pob daioni, a meddu calon i ddyfod i fyny a'r cyfryw rwymedigaeth mewn ufudd-dod cynes a pharhaol a wna i fyny un o brif elfenau dedwyddwch y nef. Mae dyn trwy bechod wedi encilio oddiwrth ei rwymedigaeth ac wedi syrthio drwy hyn i sefyllfa druenus. Yno bydd wedi ei adferu yn ol i'w sefyllfa gyntefig, a bydd byth yn ddedwydd.

VIII. Mae rhwymedigaeth dyn i Dduw yn cynyddu yn barhaus, a bydd yn cynyddu byth. Os yw y rhwymedigaeth i'w raddoli yn ol helaethrwydd y datguddiedigaethau, fel y mae yn rhesymol meddwl ei fod, bydd yr helaethach ddatguddiedigaethau a wna efe o hono ei hun trwy ei weithredoedd mawrion a rhyfedd yn y byd tragywyddol, yn mwyhau byth y rhwymedigaeth. O mor arswydol meddwl am hyn mewn cysylltiad â'r meddwl am sefyllfa y damnedigion yn uff-

cru! Bydd mwy o Dduw yn cael ei ddangos iddynt yn barhaus—mwy o'i burdeb a'i gyfiawnder, mwy o'i allu a'i anghyfnewidioldeb, iē, mwy o'i gariad at fodolaeth yn gyffredinol, yn y cospedigaethau tragywyddol a weinyddir arnynt; a bydd y datguddiedigaethau hyn yn helaethu eu rhwymedigaeth, ac o ganlyniad bydd eu troseddau yn fwyfwy ysgeler yn barhaus, a'r ddamnedigaeth yn drymach. O'r tu arall, mor ddedwydd yw meddwl am deulu y nef—bydd y datguddiedigaethau o Dduw yno byth yn amlhau a chynyddu, bydd eu rhwymedigaethau hwythau yn cynyddu; a'u sancteiddrwydd i'r un graddau yn cynyddu hefyd. O sefyllfa ddedwydd! Deddf cariad yn gofyn, egwyddor cariad o'u mewn hwythau yn ateb, a'u dedwyddwch yn llawn.

ADFYFYRDODAU.

1. Dysgwn ddeall seiliau cedyrn, eto anwylaid, ein cyfrifolaeth, ac ymdrechwn fyw dan y teimlad ddedwydd o'n bod yn ddeiliaid o ddeddf cariad ac yn rhwymedig byth iddi.
2. Gwelwn ein hangen am Waredwr—torasom ein rhwymau, aethom yn euog, heb un esgus am y trosedd i'w roi. Diolchwn fod modd cael maddeuant trwy angau'r groes.
3. Ymlawenhaed teulu Seion yn eu gobaith am y nef, lle y bydd ystyriaeth o'u rhwymedigaeth yn helaethu melusder eu dedwyddwch yn ddiddiwedd.

Y GORUCHWYLLIAETHAU YN DYWYLL, ETO YN UNIAWN.

Salm 97: 2.—“Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef; cyflawnder a barn yw trigfa ei orseddfaine ef.”

Cysuron i blant trallod a gyfansoddant brif addysg y Salm hon. Mae yn debygol iddi gael ei chyfansoddi ar ryw gyfnod trallodus ar bobl Dduw. “Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear,” &c., adn. 1. Mae yr ystyriaeth fod awenau y llywodraeth yn ei law ef yn destyn teilwng o lawenydd a gorfoledd. Mae yn teyrnasu trwy orchymyn i bawb wneyd yr hyn sydd dda, ac ymatal oddiwrth yr hyn sydd ddrwg. Mae yn teyrnasu trwy drefniadau ei ragluniaeth. Mae yn teyrnasu trwy farnedigaethau ar un llaw, a thrwy drugareddau ar y llaw arall. Mae yn atal drygau, yn cymell i ddaioni, yn cwblhau amcanion daionus o'i eiddo ei hun trwy weithredoedd y rhai drygionus, ac y mae pob peth dan ei oruchel awdurdodaeth ef—“Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu.” Sylwn,

I. Fod gweinyddiadau rhagluniaeth Duw tuag at ddynion yn y bywyd presenol, yn fynych yn dywyll ac anamgyffredadwy. “Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef.”

1. Y mae felly pan y mae dynion drygionus yn llwyddo mewn drygioni, a'r Arglwydd yn oedi ei farnedigaethau. Fe'i gwelir felly yn fynych—dynion drwg yn gwneyd drwg ac yn ffynu, a'r Barnwr mawr yn ddystaw, yn ymarhous yn ei lid. “O herwydd na wneir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan, am hyny calon plant dynion sydd yn llawn ynddynt i wneuthur drwg.” “Hyn a wnaethost, a mi a dewais,

tybiaist tithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun; ond mi a'th argyhoeddaf ac a'i trefnaf o flaen dy lygad." Mae hanes ein byd ni yn profi hyn—yr hanes hynafiaethol Ysgrythyrol a roddir, a phob hanes diweddar a brawf yr un peth. Nid rhyfeddu a ddylem fod barnau Duw mor arswydol ar ein gwlad y dyddiau hyn, ond rhyfeddu a ddylem am na ddisgynasant yn gynt, yn drymach a mwy cyffredinol. Bu Talaethau eang yn gweithredu mewn ysgelerderau rhy anwedus i'w darlunio, i.e. y naill haner o'r wlad yn y drwg, ac yn ymchwyllo mewn cyfoeth a ffyniant, a'r gweddill yn mud ddyoddef, a'r Arglwydd yn oedi ei lid gan roddi amser i edifeirwch—diau fod "cymylau a thywyllwch o'i amgylch ef."

2. Pan y mae y rhai sydd anwyl gan Dduw yn cael eu gadael dan drallodion, a'r Arglwydd yn oedi dydd eu gwaredigaeth. Mae ei ragluniaeth felly yn aml—rhai anwyl ganddo, mor anwyl a chanwyll ei lygad, rhai sydd yn ei garu ef ac yn cael eu caru ganddo, eto yn dyoddef dan drallodion mawrion—rhai mewn tlodi, rhai dan gystuddiau a thlodi ar yr un pryd, a rhai yn dyoddef yr anghyfiawnder a'r cam mwyaf gan ddynton drygionus a gorthrymus, a'r Arglwydd dros amser yn eu gadael yn y peiriau heb agor iddynt ddrws o ymward. Fe allai mai dysgyblaeth reidiol sydd ganddo arnynt, i gyrhaedd amcan daionus o'i eiddo ei hun pan nad yw yn amlwg eto iddynt hwy pa beth ydyw, neu fe allai mai ei amcan ydyw dangos (fel y gwnaeth â Job) beth a all ei ras wneyd mewn rhoddi amynedd a chynaliaeth dan drallodion trymion, ac y deuant allan rywdro fel aur wedi ei buro yn tân. Ond pa beth bynag yw y dybenion a'r achosion, "cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef."

3. Pan y mae barnedigaethau Duw yn *gyffredinol*, yn cyrhaedd y drwg a'r da, y beius a'r diniwed. Y mae ei farnedigaethau ef felly yn fynych. Buasai ychydig o rai cyfiawn yn ddigonol i arbed dinasoedd drygionus Sodom a Gomorrah; eto fe ddinystriwyd llawer o blant bychain diniwed y pryd hwnw, ysgubell y farnedigaeth yn eu cymeryd oll ymaith. Dichon nad oedd dim arall i'w wneyd yn yr amgylchiad. Gall fod llawer yn methu canfod yn y dyddiau presenol pahan y mae eu rhai anwyl hwy, i.e., rhai fuont mor wrthwynebol a neb i'r camwri a oddefid yn ein gwlad, ac a barodd i'r Barnwr mawr orchymyn i daran-folltau ei ddigofaint eu taro. Wel, dichon na allwn ni ganfod y manylion yn ei drefn ef. Gall efe ddwyn yn brysur ato ei hun yr eneidiau a ymddiriedant ynddo ac a gymerir ymaith o'r manau arswydol lle y cwmpant, a dichon yr esbonir eto ganddo ef yr hyn nas gallwn ni ei ganfod yn awr. "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef."

4. Goruchwyliaethau angau ydynt yn fynych yn an-amgyffredadwy i ni yn bresenol. Pan y mae tadau a mamau yn cael eu tori i lawr ar fyr rybudd, a thylyth ymddibynol arnynt ac analluog i'w hamddiffyn eu hunain yn cael eu gadael ar ol, y mae cymylau a thywyllwch o'i amgylch ef. Yr un modd, pan y mae rhai a ymddangosant i ni wedi eu cymwyso i fod yn ddefnyddiol; ac angen am eu gwasanaeth yn y cylch rhagluniaethol y troant ynddo, a rhai o ganol y defnyddioldeb mwyaf, (fel Spencer o Liverpool gynt) yn cael eu galw ymaith, a hen brenau crinion diffwrth yn cael eu gadael—rhaid dweyd yn yr amgylchiadau hyn

a'r cyffelyb fel y dywed y testyn, "Cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef." Ond sylwn,

II. Ar iaith gysurol y testyn—os cymylau a thywyllwch sydd o'i amgylch ef, "cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef." Y gair "cyfiawnder" a arwydda fod ei lywodraeth yn deg ac uniawn, a'r gair "harn" a arwydda ei fod yn gweithredu mewn pwyll, mewn doethineb a chydag amcanion daionus yf mhob peth. Pan nad ydym ni yn gallu canfod troad olwynion ei ragluniaeth ef, gwyddom gyda sicrwydd mai "Cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc."

Gan mai amcan a dyben yr addysg a roddir yn y Salm hon, fel y sylwyd uchod, oedd cysuro y trallodus, a hyny mewn adegau tywyll ac ar achlysuron anhawdd eu hesbonio, a chan fod yr adeg bresenol yn gyfnod o drallod mawr ar lawer, ceisiwn yma nodi rhai ystyriaethau cysurol i blant trallod.

1. Y mae yr Arglwydd yn gweithredu yn mhob peth a thuag at bawb mewn uniondeb a chyfiawnder. "Cyfiawnder" yw un o seiliau tragywyddol ei orseddfainc. Pa fodd bynag y gweithreda tuag atom, a pha mor dywyll bynag yw yr oruchwyliaeth, gallwn fod yn sicr mai cyfiawnder yw trigfa ei orseddfainc. Ni wna gam â gwr yn ei fater. "Ei holl ffyrdd ydynt farn, Duw gwirionedd a heb anwiredd, cyfiawn ac uniawn yw efe." "Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn?" Ystyriaeth o hyn a lonyddodd feddwl yr hen offeiriad Eli, pan ddanfonwyd cenadwri ato trwy y bachgen Samuel, a phan draethodd y cyfan heb atal dim, yn ol dymuniad Eli, dywedodd, "Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg." Yr ystyriaeth mai yr Arglwydd oedd yn llefaru oedd yn ddig-

on gan Eli—a dyma a roddodd fodd i Job fendithio yr Arglwydd, a dywedyd, “Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd.” A hyn a barodd i'r Salmydd ddweyd, “Aethum yn fud ac nid agorais fy ngenau, canys ti a wnaethost hyn.”

2. Mae yr Arglwydd yn gweithredu yn mhob peth mewn doethineb a daioni. “Cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc ef.” Peth anhawdd, efallai, i ni dan drallodion mawrion, yw canfod yr oruchwyliaeth yn ddaionus, er ein bod yn rhwym o ddweyd ei bod yn gyfiawn. Ond felly y mae yn bod—y mae ei holl ysgogiadau ef yn ddaionus yn gystal a chyfiawn. “Duw cariad yw.” Dyna oedd efe erioed, a dyna yw, ac a fydd. Nid oddiar nwyd neu deimlad y mae efe yn gweithredu, fel y gwna dynion yn fynych, ond mewn “barn,” mewn doethineb a phwyll. Pan yn cymeryd ein hanwyliaid o'n mynwes, y rhai oedd anwyl ganddo ef, efallai mai eu lles *hwy* oedd ganddo yn benaf mewn golwg, ac nid ein cyfleusdra ni. Cymerodd hwy i wlad sydd well, at gymdeithion gwell, i gylch helaethach o gyfleusderau a defnyddioldeb hefyd, ac i fwynhad o fwynderau helaethach. Maent hwy yn ei glodfori yn awr am iddo wneyd fel y gwnaeth—maent yn foddolawn hollawl i'w drefn, ac yn ei glodfori am yr hyn a wnaeth. Dichon fod ganddo fendith i ninau yn yr amgylchiad, ond i ni wrando ar ei lais ac ymostwng dan ei alluog law. “Da y gwnaeth efe bob peth.”

3. Yn yr adegau tywyllaf y mae yn gysur i'r Cristion i feddwl fod holl weinyddiadau llywodraeth Duw yn llaw Cyfryngwr. Os oes cymylau a thywyllwch

o'i amgylch weithian, yn llaw ein Ceidwad y mae awenau ei lywodraeth. "Nid yw y Tad yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab." Mae barnedig-aethau cyhoeddus Duw ar y gelynion yn cael eu gweinyddu gan y Cyfryngwr. "Gofyn i mi a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddaear i'th feddiant. Drylli hwynt a gwialen haiarn, maluri hwynt fel llestr pridd"—hyny yw, y rhai na phlygant i'r wialen aur, a ddryllir felly. Ac os yw gweinyddial y barnau ar y gelynion yn ei law, diau yw fod y ceryddon tadol ar ei blant yn cael eu gweini ganddo. A phwy yw y Cyfryngwr hwn? Cyfaill pechadur ydyw—Cyfaill a Gwardwr Seion ydyw—un o'n cyfathrach ni. "Gelwir ei enw ef Emmanuel, yr hyn o'i gyfieithu yw, Duw gyda ni"—Duw yn ein natur ni, Duw o'n plaid ni, ac yn trefnu ei holl achosion er ein daioni penaf.

4. Mae goruchwyliaethau fuont unwaith yn dywyll wedi eu hesbonio i deulu Duw ar rai prydiau yn nhymor eu bywyd. Hanes Joseph, hanes Job, bywyd ein Gwardwr ei lun, bywyd llawer dan erledigaethau, a brawf hyn. Dichon y cawn ninau weled, yn nhymor ein bywyd, rai goruchwyliaethau tywyll wedi dyfod yn eithaf goleu. Pwy a wyr hefyd na cheir gweled rhyw ganlyniadau daionus yn dilyn y farn bresenol sydd ar ein gwlad? Fe oddefodd yr Arglwydd i bleidwyr y gaethfasnach ddewis eu cynllun eu hunan. Bygythiasant er's degau o flynyddau bellach, os na chaent eu ffordd y "torent i lawr yr Udebb." Gwnaethant felly pan ganfyddasant fod egwyddorion rhyddid yn cynyddu yn y wlad—codasant arfau bradwrol, a daethant i'r maes! Ond fel Samson gyda'r ddwy golofn gynt, tynasant deml caethiwed am eu penau eu hunain—a

buont eu hunain yn achlysuron dinystr i'w cyfundraeth. Gwnaeth Duw yn y tro i gynddaredd dyn ei folianu ef, a gweddill cynddaredd a wahardda.

5. Mae dydd i ddyfod pryd y dwg yr Arglwydd bob goruchwyliaeth dywyll yn berffaith oleu. Dydd felly fydd dydd symudiad y Cristion trwy angau i'r byd tragywyddol—yno ceir gweled yn oleu yr hyn sydd dywyll yn awr. Dydd felly fydd dydd y farn ddiweddaf. Tefir goleu yn ol y pryd hwnw ar lawer dyffryn tywyll yr aeth aml un trwyddo yn nhaith yr anialwch, a dangosir llawer amgylchiad a barodd i'r Cristion wlychu ei orweddfa a'i lwybrau a dagrau, yn oruchwyliaeth deg a daionus, a rheidiol o eiddo ei Arglwydd a'i Waredwr i'w gael yn lân oddiwrth bob pechod, ac yn gymwys i deyrnas nef.

6. Mae addewid benodol ein Tad nefol genym y bydd i bob peth gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw—addewid eangach nid oes eisiau ei chael, na modd ei chael.

Dysgwn beidio barnu yn fyrbwyll ei oruchwyliaethau Ef. Pwy ydym ni i farnu goruchwyliaethau a gweithredoedd yr unig ddoeth Dduw!

Gweddiwn am fendith ar y troion nad ydym yn gallu eu hesbonio yn awr.

SYLWADAU AR NATUR EGLWYS.

A DRADDODWYD AR YR ACHLYSUR O ORDEINIAD Y PARCH. G. GRIFFITHS, N. Y.

Act. 2 : 42, 47.—“Ac yr oeddynt yn parhau yn athrawiaeth ac yn nghymdeithas yr apostolion, ac yn tori bara, ac mewn gwedd-iau.—A'r Arglwydd a chwane-godd beunydd at yr eglwys y rhai fyddent gadwedig.”

Mae y benod hon yn cynwys hanes gweithrediadau yr eglwys Gristionogol gyntaf a ffurfiwyd dan oruch-

wyliaeth y Testament Newydd. Iddi y perthyna y rhai a ddychwelwyd dan weinidogaeth bersonol yr Arglwydd Iesu Grist; yma yr oedd Mair, mam yr Iesu, a Mair Magdalen, a'r chwirydd ffyddlon eraill a enwir yn hanes bywyd yr Iesu; yma yr oedd apostolion Crist yn aelodau; yma tybygid yr oedd y "deg-a-thri-ugain eraill," a'r "pum' can' brodyr," ac at yr eglwys hon yr ychwanegwyd y dorf o ddychweledigion dydd y Pentecost, llawer o ba rai gwedi hyny a wasgarwyd, ac a sefydlasant eglwysi yn ngwahanol barthau y gwledydd lle y preswylent. Y mae o bwys ein bod yn sylwi beth oedd cymeriad yr eglwys hon, gan mai y Pen-athraw ei hun oedd wedi ffurfio a threfnu ei hachosion. Dywedir,

"Ac yr oeddynt yn parhau yn athrawiaeth . . . yr apostolion," hyny yw, yr oeddynt dan eu gweinidogaeth yn uniongyrchol, ac yn ymgadw i rodio yn ol eu hathrawiaeth. Hefyd, "yn nghymdeithas yr apostolion," yn mwynhau *addysg* y gymdeithas, a *chysuron* y gymdeithas. Hefyd, "mewn tori bara." Cymerent eu lluniaeth mewn llawenydd a symledd calon, a thorent fara i gofio am ddyoddefaint a marwolaeth eu Hiachawdwr, yn ol ei orchymyn. "Ac mewn gweddiau," dyma ran arbenig o'u gweithrediadau eglwysig, sef glynu wrth weddio—"pob duwiol a weddia arnat ti yn yr amser y'th geffir"—rhai enwog mewn gweddian oedd y rhai hyn—tywysogion Duw oeddynt yn yr oruwch-ystafell hono—a llwyddasant gyda Duw nes cael y tywalltiad i lawr yn ol y brophwydoliaeth ac addewid y Tad. Hefyd yr oeddynt yn "*parhau*" yn y pethau hyn, yr hyn a arwydda eu hysbryd diflin a phenderfynol yn ngwaith yr Arglwydd.

Sylwn ar rai pethau perthynol i *natur eglwys Dduw* dan yr oruchwyliaeth efengylaidd.

1. Ystyr y gair. Y gair gwreiddiol a arwydda cynulleidfa, neu rai wedi eu "galw allan" o'r dorf gyffredin. Defnyddir ef am gynulleidfa, heb un cyfeiriad at ansawdd y gynulleidfa, yn Act. 19 : 32, 39, 41. Yn ei gysylltiad ag achos Crist mae yn cael ei ddefnyddio am rai yn mynych ymgyfarfod yn yr un lle, ac yn rhodio yn nghyd dan gyfamod ac mewn cymdeithas a'u gilydd, mewn tori bara ac mewn gweddiau, megys yr eglwys hon yn Jerusalem, eglwys Corinth, eglwys Thessalonica, saith eglwys Asia, &c. Defnyddir ef hefyd i osod allan yr holl deulu gwaredigol o ddechreu i ddiwedd amser, Math. 16 : 18 ; Eph. 1 : 22 ; 3 : 10 ; 5 : 25, a manau eraill.

2. Mae eglwys Crist i fod yn gynulleidfa o ddychweledigion at yr Arglwydd. Nid rhai yn cymeryd eu cymundeb i'w cymwyso i swyddi gwladol, neu oddiar fod hyny yn enill iddynt enw yn eu hardal ac yn mhlith eu cymydogion, yw ei haelodau teilwng, ond dynion syml, o deimlad drylliog am bechod, yn arddel Iesu oddiar gariad ato a dymuniad i'w ogoneddu yn eu bywyd, gan ei hystyried yn fraint oruchel i gael lle yn ei dy, ac o fewn ei fagwrydd. I'r cyfryw y perthyna y fraint o ddyfod at fwrdd Crist, a hwy yw y rhai tebygol o fod yn ddefnyddiol gyda ei achos. Gelwir hwy yn "saint a ffyddloniaid yn Nghrist Iesu," yn "oleuni y byd," &c.

3. Cynulleidfa yw a'i ffurf a'i threfn yn ddwyfol a nefol. Mae llawer o gymdeithasau daionus i'w cael yn mhlith dynion y rhai y mae eu ffurfiad wedi ei adael yn hollol i ddoethineb ddynol. Tybia rhai fod

eglwys Dduw yn gymdeithas o'r cyfryw ansawdd—nad oes un ffurf neillduol wedi ei nodi allan, ond fod hyny i'w ddewis mewn gwahanol wledydd ac oesoedd yn ol amgylchiadau pethau, yn ol y drefn wladol fwyaf cymeradwy, ac yn ol doethineb pobl Dduw eu hunain. Ond nid felly y dysgasom Grist. Y mae trefn eglwys Crist, dull ei ffurfiad, ei chwbl annibyniaeth ar bawb ond ar ei phen a'i Hathraw mawr, enwau ei swyddogion, y modd i'w dewis, a pha waith a berthyn iddynt, &c., oll yn gynwysedig yn y portread a adawyd gan Grist a'i apostolion; a'r gorchymyn am hyny, fel am y Tabernacl gynt yw, "Gwel ar wneuthur o honot bob peth yn ol y portread a ddangoswyd i ti yn y mynydd." Heb. 8: 5.

4. Mae eglwys Crist yn gymdeithas ag y mae gweinyddiad ordinhadau yn perthyn iddi, sef Bedydd a Swper yr Arglwydd. Perthyna iddi hefyd ddau ddoesbarth o swyddogion, y naill i weinyddu mewn pethau tymorol ac amgylchiadol, a'r llall mewn pethau ysbrydol. Ond gadawn hyn yn awr gan fod brodyr eraill i sylwi arnynt.

5. Cymdeithas ydyw ag y mae o'r pwys mwyaf eu bod yn rhodio mewn tangnefedd a chariad. Mae pob peth perthynol i eglwys Dduw yn galw am ei bod yn rhodio mewn cariad. Cymdeithas yw a ffurfiwyd ac a alwyd i fodolaeth gan ddwyfol gariad; oddiyma y daeth fod eglwys gan Grist ar y ddaear. Prif elfen ei phethau oll yw cariad. Mae ei chysur, ei hanrhydedd a'i llwyddiant yn ymddibynu ar ei bod yn rhodio mewn cariad, a thuedd ei holl osodiadau yw arwain i fôr o dragywyddol gariad. Nid oes un gymdeithas yn bod ag y mae anghariad ac anghydfod yn fwy anghyd-

weddol â'i hansawdd, ei hegwyddorion a'i breintiau nag eglwys y Duw byw. Am hyny dywedir, "Gwnel-er eich holl bethau chwi mewn cariad." 1 Cor. 16 : 14 ; ac yma drachefn y dywedir, "Yr oeddynt oll yn gytun yn yr un lle." Act. 2 : 1.

6. Mae eglwys Crist yn gymdeithas ag y mae ei holl achosion i gael eu trafod a'u penderfynu yn gwbl a therfynol ynddi ei hun. Nid oes un awdurdod oddi-allan i'r eglwys—na chymanfa na chynadledd nac esgob na neb arall—i arglwyddiaethu arni. Mae yn wir y gall eglwys, gystal a phersonau unigol, gam-y addedd, ond ei dyledswydd ydyw (pan fo hyny yn bod) *adolygu* ei gweithrediadau *ynddi ei hun*, ac unioni yr hyn a wnaeth ar gam. Gall eglwysi eraill neu frodyr unigol roi cyngor, a gallant wrthdystio yn erbyn camwedd, a phan y bo eglwys yn parhau yn yr hyn sydd feius, gallant ymwrthod â'i chymdeithas; ond ni allant ddadwneyd ei gweithrediadau heb groesi awdurdod Crist. Y peth diweddaf pan y bo brawd wedi troseddu, ydyw, "Dywed i'r eglwys." Nid dywed wrth yr henuriaeth, nid cyfod yr achos i'r Synod neu'r Gymdeithasfa, ond "Dywed i'r eglwys." Nid oes un llys barnol, o osodiad Crist, yn sefyll rhwng yr eglwys ei hun a'r Faine ddiweddaf.

Nid oes dim yn Act. 15fed, yn gwrthfilwrio yn erbyn yr egwyddor hon. Rhai wedi dyfod "i waered o Judea" (adn. 1) oedd y terfysgwyr y sonir am danynt yno. Mynent ddwyn y Cristionogion yn mhlith y cenedloedd dan iau yr enwaediad; ac ymddangosent fel rhai wedi derbyn "gorchymyn" oddiwrth yr apostolion i daenu y golygiadau hyny, fel y canfyddir yn amlwg oddiwrth adnod 24ain, "I'r rhai ni roisom ni

gyfryw orchymyn.” Yn mha le gan hyny yr oedd yn fwyaſ priodol i ymdrin â’u hachos, ac i gael gwybod y gwir am y peth hwn, onid yn mhlith Cristionogion Judea? Yno yr oedd y terfysgwyr hyn yn gyfrifol, oddiyno yr oeddynt wedi dyfod allan, ac yno yr oedd yr apostolion yn aros, oddiwrth y rhai yr honent eu bod wedi derbyn y cyfryw orchymyn. Nid oes yma ddim, ac nis gallwyf ganfod yn un rhan arall o’r Testament Newydd ddim yn erbyn y golygiad fod pob eglwys i derfynu ei hachosion ynddi ei hun yn annibynol ar bob llys arall. Credwyf yn ddifrifol mai dyma “gyfraith y Ty.”

7. Mae eglwys Crist yn gymdeithas i lwyddo. “A’r Arglwydd a chwaneodd beunydd at yr eglwys y rhai fyddent gadwedig.” Gall ddysgwyl llwyddo, oblegid y mae Duw wedi addaw y bydd y “bychan yn fil a’r gwael yn genedl gref,” ac y bydd dylifiad pobl-oedd lawer at y Shiloh. Mae y *dwyfol ddylanwadau* wedi eu haddaw—dyma addewid y Tad. Mae gan Seion foddion priodol i gyrhaedd llwyddiant. “Arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i’r llawr.” Dyma ddyben dyfodiad Crist yn y cnawd. “I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y datodai weithredoedd y diafol.” Y mae holl bethau Seion yn bethau y dylai pob dyn yn mhob man deimlo y dyddordeb mwyaf ynddynt; pethau ydynt yn dal perthynas â’r byd oll, a hyny am eu bywyd byth. Mae gweddiau Seion ar y ddaear, ac eiriolaeth y Gwardwr ar ei rhan fry, yn dangos na bydd iddi gael ei gadael o hyd yn aflwyddianus. Bydded i’r Arglwydd “chwaneu beunydd” at yr eglwys hon a’i holl eglwysi trwy’r byd, “y rhai fyddant gadwedig.”

8. Mae eglwys Crist yn gymdeithas ragbarotoawl i sefyllfa uwch eto. Mae yr olwg arni yn hardd yn awr i lygad ffydd, ond ceir ei gweled yn llawer harddach eto. Ysbyty ydyw yn awr lle y gwellheir y cleifion. Athrofa ydyw i ddysgu egwyddorion teyrnas nef. *Nursery*, i ddysgu moesau i'r teulu, nes eu paratoi i ddyfod adref i'r parlwr tragywyddol fry!

CASGLIADAU.

1. Dysgwn fawrhau ein braint o feddu aelodaeth yn eglwys Crist, a lle yn mhlith y teulu.

2. Dysgwn wybod pa fodd y dylem ymddwyn yn nhy Dduw, a'r pwys mawr o ymddwyn yn deilwng o'r fath freintiau.

3. Ymdrechwn enill eraill i ymostwng i awdurdod Brenin Seion, ac i ymwasgu â'i ddysgyblion, tra y mae y gweision allan yn gwahodd, a'r drws heb ei gau.

GEMAU EVERETT.

Dechreu Diwygiad.—Mae dechreu i fod ar ddiwygiad mewn crefydd, fel pethau eraill, a rhaid iddo ddechreu mewn rhyw fynwes; a phaham, ddarllenydd, na ddylai ddechreu gyda thi?

Yr Iesu fel Rhosyn.—Fel y mae'r olwg naturiol ar y rhosyn yn hardd a deniadol, felly mae yr olwg foesol ac ysbrydol ar Fab Duw, yn ei berson a'i waith, yn hawddgar, ac yn tynu bryd miliynau o'r nefolion a'r daearolion hefyd. Y rhosyn sydd amryliw, a chyfartalwch y lliwiau sydd brydferth; felly mae amrywiaeth a chyfartalwch gogoneddus yn rhinweddau a

doniau y Cyfryngwr. A chan mai y prydfferthaf o'r blodau yw y rhosyn, a'r prydfferthaf o'r rhosynau ydoedd rhosyn Saron, felly mae yr Arglwydd Iesu yn rhagori ar bawb a phobpeth.

Tarw Gwyllt meion Magl (Esa. li. 20).—Golwg arswydlaun sydd ar y “tarw gwyllt” pan y cwympto i faglau grymus yr heliwr; ond gwedi y dalier ef, ac wedi iddo ymguro nes canfod nas gall ddianc, mae yn gorwedd mewn digalondid yn gwbl lonydd. Felly gelynion yr Arglwydd, er mor wyllt yn awr, pan ddelir hwy yn maglau eu pechodau a'u traha, ni bydd ganddynt ond ymollwng megys mewn “llewygfeydd” a digalondid tragwyddol!

Llen Amser.—Llaw drugarog a wauodd y llen sydd rhyngoni a phethau i ddyfod.

Y Fendith Felusaf.—Duwioldeb ydyw y fendith sydd yn melysu pob bendith arall.

Purdeb yn Dedwyddu Teulu'r Nef.—Bydd dedwyddwch y nef yn gynwysedig yn mhurdeb perffaith y saint eu hunain. Eu prif ofid ar y ddaear oedd eu bod heb gyrhaedd y nod yma. Ond yno y maent wedi ei gyrhaedd. Nid â i mewn iddi ddim aflan.

Deddfau Dirwestol.—Dywedir mai moddion moesol a ddylent gael eu defnyddio gyda yr achos dirwestol. Yr ydym ninau yn meddwl y dylai moddion moesol gael eu defnyddio yn barhaus; ond pan y mae deddfau drwg yn bod, a'r deddfau hyny wedi eu ffurfio gan y bobl, trwy eu cynrychiolwyr, mae eisiau defnyddio moddion moesol i berswadio y bobl i *gyfnewid* y cyfryw deddfau, a ffurfio rhai *gwell*. Ac y mae eisiau

rhywbeth yn fwy na moddion moesol, neu berswadiad, at y rhai a droseddant yn erbyn lles cyffredin dynoliaeth. Pan y mae dynion, trwy eu hanfoesoldeb, yn niweidio eu cyd-ddynion, yn eu personau neu eu meddianau, rhaid eu gorfodi i beidio, trwy ddeddfau priodol. Felly y gwneir â'r lleidr, y difenwr, a'r llofrudd.

Gwir Harddwch.—Gwir harddwch sydd gynwysedig, nid mewn glendid gwynebpryd a dillad gwychion; nid mewn gwallt plethedig, blodau celfyddydol, a rhubanau amryliw; ond mewn ymddygiad synwyrllawn, gwylaidd, a duwiol yn mhob peth.

Addoliad Teuluaid.—Nid oes neb yn arfer duwioldeb gartref (yr wyf yn meddwl yn sicr), ac yn esgeuluso yr addoliad teuluaid.

Saniteiddiad y Sabboth.—Wrth y swm, y prysurdeb a'r terfysg, a ganfyddir ar ein camlasau, ein rheilffyrdd, ein hafonydd, a manau cyhoeddus eraill, ar y Sabboth, gellid meddwl nad yw y wladwriaeth Americanaidd yn wladwriaeth Gristionogol, nac yn cydnabod awdurdod y ddeddf foesol. Trwy yr ysbryd anghristionogol a ffyna yn ein gwlad, troir y bendithion gwerthfawrocaf yn felldithion o'r trymaf arnom. Y rhwyddineb a'r cyflymdra a roddir i ymdeithiau ein dinasyddion o le i le, trwy gamlasau, agerdd-fadau, ac agerdd-gerbydau, sydd un o fendithion gwerthfawrocaf cymdeithas wareiddiedig; ac eto, pwy na wyr fod y gwelliantau diweddar yn y pethau hyn wedi bod yn un o'r achosion mwyaf neillduol o gyflym iselhad ein gwlad mewn anfoesoldeb, yn enwedig trwy halogedigaeth Sabboth Duw. Ond da genym weled fod ym-

drechiadau yn cael eu gwneyd i ymosod yn erbyn y genllif yma, eto, o annuwioldeb yr oes.

Rhyfel Moesol.—Mae rhyfel yn perthyn i deyrnas y Messiah; ond nid rhyfel trwy drwst a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed ydyw—difa y rhai hyny a wneir—ond hwn sydd ryfel egwyddorion; ac a derfyna mewn cadarnhau “barn a chyfiawnder ar y ddaear,” ac yna “ar helaethrwydd ei lywodraeth a’i dangneffedd ni bydd diwedd.”

Dirwest.—Mae dirwest yn cynwys cymedroldeb mewn mwynderau cyfreithlawn, a llwyr ymwrthodiad â mwynderau anghyfreithlawn.

Nac Oeda.—Nac oeda, o herwydd mae dy ddedwyddwch penaf yn gynwysedig mewn ufuddhau i Dduw. Y foment y dechreuwn ufuddhau, yr ydym megys yn dechreu derbyn gwobr. Nefoedd i’r enaid ydyw rhodio llwybrau y nef; y mae grawn-sypiau y wlad i’w cael bob cam o’r ffordd: nac oeda.

Enllib.—Cyhuddir llawer un, y dyddiau hyn, o enllibio y caethfeistri. Ond gwyr pawb nad enllibio yw dyweyd y gwir. Os dywedir anwiredd ar gaethfeistri, mae hyny yn enllib; ond os y gwir a ddywedir, nid enllib yw.

Gogoneddu Duw.—Beth a olygir wrth ogoneddu Duw? Nid ychwanegu at ei ogoniant hanfodol a feddylir, ond ei ogoniant mynegol. Nis gall neb ychwanegu dim at ei ogoniant hanfodol, na thynu dim oddiwrtho. Mae ei ogoniant hanfodol yn ymddibynu ar yr hyn ydyw ynddo ei hunan. Nis gall y saint ar y ddaear nac yn y nef, na’r côr angylaid, trwy eu nefol

ganiadau, ychwanegu dim at ei ogoniant hanfodol; ond fe ellir effeithio ar ei ogoniant mynegol (*his declarative glory*). Pe codai cwmwl du ar y ffurfafen, ni effeithiai hyny ddim ar oleuni ysblenydd yr haul ynddo ei hunan; ond ataliai ei dywyniad dros amser. Felly gall ein hymddygiadau ninau fod yn gwmwl ar yr enw mawr.

Mamau Drwg.—Llawer a geir, trwy eu tymerau drwg, eu llywodraeth anwastad, eu didduwiaeth a'u caledwch, yn gosod traed eu plant ar lithrigfa sydd yn arwain i ddynstr a cholledigaeth! O famau! ystyr-iwch mewn pryd pa ddylanwad a effeithiwch ar eich plant.

Y Pen Teulu Anghrefyddol.—Y mae anghrefyddoldeb pen teulu yn un o'r moddion effeithiolaf a fedd y diafol i gadw ieuencyd y teulu hwnw yn ei wasan-aeth.

Y Beibl a Moesau.—Er fod llawer o reolau buddiol wedi eu cyhoeddi i wellhau moesau y byd, eto fe bery nwydau llygredig dynion yn fyw ac yn ffynadwy yn mhob awyr, ond yn awyr y Beibl ac awyr y groes.

Oristion Rhydlyd.—Beth ydyw yr achos fod y dyn mor dlawd ei brofiad, mor rhydlyd yn ei weddiau? Nid yw yn ymarfer duwioldeb gartref.

Y Brif Gymdeithas.—Y gymdeithas deuluaidd ydyw y brif gymdeithas. O'r aelwyd gartref y cyfyd bendithion a melldithion penaf y gymdeithas gyhoeddus a'r wladwriaeth.

Pwyth Hir.—Y mae gan rai bwyth go hir i'w dalu yn ol i'w rhieni.

Digonolrwydd yr Iawn.—Y mae y taliad a roddwyd yn aberth iawnol Mab Duw yn ddigonol ar gyfer cadwedigaeth y byd; a phe buasai miliynau mwy o fodau i'w cadw, mae yr aberth yn ddigonol.

Gwerth y Beibl.—Ni chynwys palasau breninoedd y ddaear drysor mor werthfawr a'r Beibl, yr hwn, o drugaredd Duw, a geir yn aneddau y tlodion. Pe byddai y moroedd yn olew, a'r ddaear yn belen auraid, ni fyddent ond gwegi mewn cydmariaeth i werth Gair Duw i ddyn.

Anghysondeb.—O, 'r fath anghysondeb! baner fawr rhyddid yn chwareu yn y teneu awelon ar ben pinael y senedd-dy, a'r gair *Liberty* ar ei lleni mewn llythyr-enau mor freision ag y gall y rhai a redant eu darllen; ac eto o flaen grisiau marmoraidd y senedd-dy, yn ngwydd haul y nefoedd, y gwerthir gwyr a gwragedd, meibion a merched o bob oedran, o'r baban egwan i'r henafgwr penllwyd, i gaethfeistri, i gael eu harwain ganddynt wrth eu hewyllys.

Orefydd Foreu.—Y mae crefydd yn moreu yr oes yn werthfawr, oblegid dyma'r pryd y mae cyneddfau corph a meddwl yn yr agwedd a'r sefyllfa oreu. Mae y deall yn gyneddf fywiog, mae'r cof yn llestr cryf, mae'r gydwybod heb ei sori. Yr amser goreu ydyw; ac fe ddylai yr amser goreu gael ei dreulio gyda'r achos goreu, ac i'r Bôd goreu. Anmhriddol iawn ydyw rhoddi yr amser goreu i'r gelyn, a'r gweddill i'r Arglwydd.

Dysgu Plant.—Y maê plant ieuencyd fel y "saethau yn llaw y cadarn," ac y mae o bwys mawr i ni pa

gyfeiriad a roddir i'r saeth pan ollyngir hi gyntaf oddiar y bwa, gan y bydd y cyfeiriad hwnw yn debyg o effeithio ar ei holl lwybr.

Sefyllfa Prawf.—Yr un peth yn gwbl ydym yn feddwl wrth fod dyn mewn “sefyllfa o brawf,” a'i fod mewn “sefyllfa o obaith;” ac os nad yw mewn sefyllfa o obaith, yna mae ei gyflwr yn gyffelyb i eiddo y damnedigion yn y tân tragywyddol. Ond y mae yn cael ei wahodd yn dirion a grasol iawn yn awr i dderbyn bywyd trwy dderbyn Mab Duw, ac y mae y bywyd sydd yn Nghrist yn gwbl ddigonol ar ei gyfer. Dyma y tir prawf, a dyma y sefyllfa obeithiol y mae trefn fawr y cyfamod gras wedi gosod dyn ynddi.

Awgrym i Ohebwy.—Bydded yr ysgrifau yn gyffredin yn fyrion, yr ysbryd yn efengylaidd, a'r iaith yn bur, yn oleu a grymus.

Gwahodd Pawb.—Dywedir weithiau fod y pregethwr i wahodd a gorchymyn pawb i ddyfod at Iesu, am na wyr pwy a drefnwyd i ddyfod. Ond y mae genym fwy i'w ddyweyd na hyn; nid y pregethwr sydd yn gwahodd, ond DUW EI HUN; ac y mae efe yn gwybod pob peth. “Yn gymaint ag i MI eich gwahodd, ac i chwithau wrthod, i MI estyn fy llaw, a neb heb ystyried.”

Bywyd Cyson.—Bywyd cyson a'r efengyl ydyw y prawf goreu o wirionedd ein cyffes a sicrwydd ein gobraith.

Orist yn y Mil Blynnyddoedd.—Bydd Iesu Grist yn wyddfodol gyda ei bobl (nid yn ei ddynoliaeth, ond yr hyn sydd yn llawer gwell a mwy “buddiol” i ni),

trwy ei Ysbryd Sancteiddiol ; a bydd mor hawdd canfod ei bresenoldeb yn y dylanwadau dwyfol a effeithir, a phe ei gwelid ef yn ei ddynol natur, fel y gwelwyd ef yn ngwlad Judea.

Ymddangosiadau yr Ail Berson.—Carai yr Ail Berson ymddangos yn fynych yn y ddynoliaeth cyn ymbriodi â hi yn nghyflawnder yr amser. Yr oedd yn llawenychu yn nghyfaneddle ei ddaear ef, a'i hyfrydwech oedd gyda meibion dynion.

Cymeradwyaeth gyda Duw.—Y mae yn ofnus genym fod rhai yn ceisio gweithio eu meddwl i grediniaeth o'u bod yn gymeradwy gyda Duw, heb seiliau digonol i hyny ; yn ceisio gweithio eu meddyliau i deimlad o'u gwnenthuriad eu hunain (*artificial feeling*), pryd nad yw eu gweithredoedd yn gyflawn ger bron Duw.

Symudiad Enoch.—Cymerodd (Duw) ei was Enoch mewn ffordd anghyffredin. Ni ddygwyd ef i wely cystudd ; ni chafodd brofi ingoedd y datodiad ; ni welodd ddyffryn tywyll ac arswydol cysgod angau. Aeth dros yr afon, ac nid drwyddi.

Ty Dduw yw Porth y Nef.—Mae y porth yn rhan o'r adeilad ; y rhan nesaf allan mewn ystyr. Felly y mae ty Dduw yn rhan o'r nef ei hunan ; y rhan nesaf allan. Yr un gwrthddrych a addolir yma ag yn y nef ; yr un gwasanaeth a ddygir yn mlaen ; yr un bendithion a fwynheir, er nad i'r un graddau.

Dysg i Ferched.—Y mae cyneddfau y ferch mor dreiddgar, yn gyffredin ag eiddo y mab. Mae y gwybodaethau yn tueddu i'w dedwyddu hi fel yntau. Mae

gan y ferch yn gyffredin fwy a wnelo â'r "oes a ddel" na'r mab, yn enwedig yn y blynyddau boreuaf o oes dyn; ac yn fynych y mae sefyllfaoedd pwysig o'i blaen, nas gall eu llanw yn anrhydeddus a phriodol, heb ei rhagbarotoi trwy raddau helaeth o ddysgeidiaeth.

Trysor i Blant.—Llawer a ddangosant awydd mawr i gasglu trysor i'w plant. Ond yn nesaf at ras cadwedigol yn y galon, y trysor goreu allwn roi iddynt yw *ysgol dda* yn moreu eu bywyd.

Meddyglyn rhag Anffyddiaeth.—Yr amddiffyniad goreu rhag anffyddiaeth ydyw gwneyd y Beibl yn llyfr ymarferol i ni ein hunain, a bod yn hyddysg yn y ffeithiau a gynwysir ynddo. Anwyl gydgenedl, defnyddiwn ei bethau, a rhodiwn yn ei oleu.

Ymresymu a Gwrthryfelwyr 1861.—Ni waeth ceisio siarad â'r rhuthrwynt a fyddo yn didoi eich tai uwch eich penau, neu siarad â'r arthes, i geisio ganddi ollwng ei hysglyfaeth o'i gafael, na cheisio siarad neu ddefnyddio yr ysgrifell gyda blaenoriaid y rhyfel presenol, i'w hatal yn eu cynlluniau drygionus. Rhaid cael rhywbeth grymusach na'r ysgrifell i enill sylw.

Rhyfel Ymosodol.—Nid ydym dros ryfel ymosodol, fodd yn y byd; ac nid rhyfel ymosodol yw y rhyfel presenol (yn 1861), can belled ag y mae a wnelo y llywodraeth hon ag ef—rhyfel yw y gorfodwyd hi iddo, ac nid oedd ganddi ddim i'w wneyd ond ei wrthsefyll, neu oddef difodiad.

Hawl i Hunan-Amddiffyniad.—Pe ymosodid ar ein bywyd, neu ar fywyd ein teulu, gan lofrudd yn sych-

edu am ein gwaed, os na allem trwy resymau, trwy dynerwch, na thrwy gilio o'i gyrhaedd, gael diogelwch, ymdrechem amddiffyn ein hunain a'n heiddo, trwy ddinystrio bywyd y llofrudd. A dyna yn hollol yw egwyddor ac ymddygiad ein llywodraeth yn y rhyfel presenol (yn 1861).

Gwrthryfel 1861.—Dyma ryfel wedi ei gynyrchu mewn gwlad rydd, gan gaeth-ddalwyr, dros eangu a bytholi caethiwed dynol; ïe, y caethiwed ffeiddiaf yn ei lygredigaethau moesol, ac yn ei anghyfiawnder cwylyddus, o ddim caethiwed a fodolodd erioed ar ddaear Duw.

Esgeuluso.—Llawer clwyf wrth ei esgeuluso a aeth yn anfeddyginiaethol; a llawer un wrth oedi dychwelyd, a adawyd i galedwch mwy, ac a fu farw yn ei bechod.

Arweiniad Rhagluniaeth.—Mae yr Arglwydd yn arwain yn ei ragluniaeth, yn trefnu lleoedd ein preswylfeydd, yn trefnu ein cysylltiadau a'n perthynasau, yn ein hatal rhag rhyw ffyrdd y mynasem ni eu cerdded, gan gau y ffordd o'n blaen megys â drain, a'n harwain ffordd arall, yn groes i'n dymuniad (efallai) ar y pryd.

Cariad.—Cariad sydd flodeuyn tra phrydferth mewn ystyr foesol a chrefyddol; ei berarogl sydd ddymunol yn y wladwriaeth, yn y gymydogoeth, yn y teulu, ac yn eglwys Dduw. Yr hwn a rodia mewn cariad a anadla awyr beraroglaidd y nef ei hun. "Gwneler eich holl bethau chwi mewn cariad!"

AT GOFIANT Y PARCH. R. EVERETT, D. D.

Da genyf, fel y mae gan y cyhoedd yn gyffredin, ddeall fod parotoadau ar droed i ddwyn allan gofiant i'r Parch. R. Everett, D. D., a gyfrifir gyda'r mwyaf teilwng o'r teitl hwnw, ac o gofiant anrhydeddus. Cyfyngir yr ychydig hanes allaf roddi am dano i for-euol a chanol dymor ei oes lafurus. Y cof cyntaf sydd genyf yw am ei darawiad allan mor gyhoeddus o'r athrofa, a'i gyfaill cu y diweddar J. Breeze, gynt o Liverpool, ar y daith gyntaf, a thebyg y ddiweddar, trwy Ddeheudir Cymru, a thrwy ein hardal ni, Abertawe, Morganwg, a'i chylchoedd. Cyfrifid ef y pryd hwnw gyda'r mwyaf doniol a phoblogaidd o bregethwyr y Dywysogaeth. Mynent yn Abertawe roddi galwad unfrydol yn uniongyrchol iddo. Yr oedd yr eglwys enwog hono yn debyg i'r eglwys yn Corinth gynt, yn gyfoethog o ddoniau, agos yn barod megys i addoli doniau; ac nid oedd neb mwy parod na mwy chwaethus na medrus i adnabod a gwerthfawrogi doniau. Hi gafodd ei geni a'i magu dan weinidogaeth swynol yr enwog D. Davies—"Tafod Arian Cymru."

Ar eu dychweliad adref cafodd y tri enwogion, agos yr un pryd, eu hordeinio—y Parch. R. Everett yn Dinbych, J. Breeze yn Liverpool, a T. Davies, genedigol o ardal Dinbych, yn Abertawe. Nid annhebyg mai trwy ohebiaeth a dylanwad Mr. Everett y cafodd Mr. Davies alwad yr eglwys hono.

Wed'yn, pan aeth dau o honom allan o'r Neuaddlwyd, lle yr oeddem dan ofal y Dr. T. Phillips, ar daith bregethwrol trwy'r Gogledd, a disgyn ar Sab-

both yn Newmarket, cawsom ymweliad parchus a charedig iawn a rhieni—tad a mam Mr. Everett, a'i frawd Lewis, yr hwn a ddaeth at ddrws y pwlpud i siglo llaw yn wresog a ni. Yr oedd hyny oddeutu yr amser y dechreuodd y brawd Lewis bregethu yr efengyl, yr hwn waith a ddilynodd yn llafurus trwy ei oes i'w diwedd. Yr oedd iddynt, fel teulu, air da gan bawb a welsom, fel teulu cyfrifol a chrefyddol iawn, ac yn enwedig yn ol tystiolaeth enwogion eu dydd, y ddau Jones o Newmarket a Threffynon.

Ond yr adnabyddiaeth bersonol gyntaf a'r Dr. Everett oedd yn Utica, N. Y., yn 1833, yr ail flwyddyn ar ol fy nyfodiad i'r wlad hon, pan oeddwn yn meddwl dychwelyd gyda brys i Gymru yn ol; ond bu fy ymweliad hoffus ag ef, a'i diriondeb fel tad i mi mewn gwlad estronol, yn foddion i loni fy meddwl, gyda'm bod yn gwellhau yn fy iechyd, pan oedd agos pawb ar fy ymadawiad a Chymru hoff, wedi fy rhoddi i fyny i farw; canys ar gyngor y meddyg goreu genyf y cymerais y fordaith i'r America, fel yr unig foddion o'm hadferiad. Profodd felly trwy diriondeb y Nefoedd. Ac wrth fy mod yn hoffi trefniadau a llywodraeth y wlad, yn unol a'i ddwys gyngorion hael frydig ef, arosais ynddi agos i saith mlynedd. Ond o herwydd peldder y lle yr oeddwn yn aros ynddo ni chefais y fantais o'i gyfrinach ef, ond ar ben pob blwyddyn, pryd y gwahoddid fi i Gymanfaoedd Utica a Steuben; pan yr anadlwn mor hyfryd allan o blith y Saeson, er cystal oeddent hwy, awyr *fresh* gyda'r Cymry serchog a charedig iawn yn y Gymanfa.

Gwyr pawb o ddarllenwyr y cofiant fod enwog-rwydd ei wrthddrych mor adnabyddus i Gymry a

Saeson hefyd, trwy ei lafur a'i lwyddiant yn y weinidogaeth mewn amryw leoedd, yn nghyda'i gysylltiad â'r *Cenhadwr* mewn llenyddiaeth grefyddol, fel nad oes achos i mi wneyd rhagor na galw i gof ei hanes, a chadw cof o hono. Dylai ei gofiant ddod allan yn Gymraeg ac yn Saesonaeg, er lles y wlad hon ac ynys Prydain.

Dyn i'r byd, a thros les goreu y byd, oedd ef. Ni a'i carwn fel cenedl fyth eto tra fyddom byw, fel gwladgarwr o'r fath oreu; ond mwy eto y dylem ei edmygu fel gwir garwr dynoliaeth, o bob gwlad a chenedl. Fel ei Feistr, carai ddynoliaeth druan yn ei hisel radd, a gwnai ei oreu i'w dyrchafu i'r anrhydedd mwyaf.

"Diwygiwr" America yn deg yw'r *Cenhadwr*, o'i ddechreuad. Cafodd well mantais na *Diwygiwr* Cymru, er cystal y carem hwnw, dan ofal y diweddar Barch. D. Rees, o Lanelli, D. C., i ddadleu dros y diwygiadau goreu yn yr oes. Yr oedd brwydrau celyd America yn rhagorach na brwydrau yr Hen Wlad. Trwy lawnder ac amrywiaeth ei faterion, a thlynsni a choethder ei argraffwaith, yr oedd y *Cenhadwr* wedi ei wisgo yn hardd; ond eto bu raid i'w olygydd ddod i fyny o'r rhyfel, fel ei Geidwad, "A'i wisg wedi ei lliwio gan waed." Dirwest a rhyddhad y caethion sydd ddiwygiadau a gofir byth, er cymaint a gostiasant i'n dadleuwyr!

Pan oedd y Dr. gwrol, er lleied ei faint corphorol, yn nghanol poethder yr ymdrechfa, cofus gan lawer o honom sydd eto yn fyw, am y cyfarfod yn nghapel helaeth Dr. Aiken, yn Utica, yn y flwyddyn 1833, pan oedd Wm. L. Garrison a G. Smith yn dadleu


mor rymus dros ryddhad, fel y byddem agos oll yn crynu gan ofn i fyned at y drws i'r heol, oedd wedi ei hamgylchu gan y fath dorf gymysglyd, rhag cael ein *mobio*, os nid ein lladd.


Nid oedd hono ond un o fil o engreifftiau trwy yr Unol Dalaethau ar y pryd. Dewrion arwraidd yn eu dydd oedd Dr. Everett, a Dr. Leavitt, y *N. Y. Evangelist*, &c. "Gad" oedd y Dr., yn wir, a llu yn ei ganlyn. Nis rhaid i mi ddywedyd dim am ei enwogrwydd fel pregethwr a duwinydd, gan ei fod mor adnabyddus. Nid annhebyg i glefyd a gafodd effeithio i raddau ar ei leferydd, hyny yw ar ei *nervous system*, i beri ychydig o ataliad ar droion ar ei leferydd; ond da gwyddom oll, pan gaffai hwyl, ac nid anaml y byddai hyny, ehedai mewn awel nefolaidd ar y tarawiad i fyny fel eryr uwchlaw pob atal, a chodai ei wrandawyr gydag ef mewn difrifol bleser tua'r nef-oedd. Bendith ar ei lwch ef; a diolch i Dduw byth am ei fath ef dros y gwirionedd.

LLEWELYN R. POWELL.

Alliance, O., Awst 28, 1879.

[Ymddengys fod ychydig o gamsyniad yn yr erthygl uchod; yr oedd Dr. Everett wedi ei urddo yn Ninbych dros flwyddyn a haner cyn marwolaeth Davies, Abertawe. Rhaid gan hyny mai nid fel myfyriwr o'r Athrofa, ond fel gweinidog Dinbych, yr ymwelodd ef ag Abertawe.]











3 2044 021 091 129

THE BORROWER WILL BE CHARGED AN OVERDUE FEE IF THIS BOOK IS NOT RETURNED TO THE LIBRARY ON OR BEFORE THE LAST DATE STAMPED BELOW. NON-RECEIPT OF OVERDUE NOTICES DOES NOT EXEMPT THE BORROWER FROM OVERDUE FEES.

Harvard College Widener Library
Cambridge, MA 02138 (617) 495-2413

WIDENER

OCT 19 1995

FEB 10 1996

CANCELLED

WIDENER

FEB 10 2000

BOOK DUE

CANCELLED

WIDENER



